

# Cofnod y Trafodion

## The Record of Proceedings

### 01/12/2015

Cynnwys Contents

[Datganiad gan y Llywydd](#)  
[Statement by the Presiding Officer](#)

[1. Cwestiynau i'r Prif Weinidog](#)  
[1. Questions to the First Minister](#)

[Cwestiwn Brys: West London Vocational Training College](#)  
[Urgent Question: West London Vocational Training College](#)

[2. Datganiad a Chyhoeddiad Busnes](#)  
[2. Business Statement and Announcement](#)

[3. Datganiad: Y Metro](#)  
[3. Statement: The Metro](#)

[4. Datganiad: Polisi Caffael—Ysgogi Gwelliant ac Ymgysylltu â Busnesau](#)  
[4. Statement: Procurement Policy—Driving Improvement and Engaging Business](#)

[5. Datganiad: Fframwaith Cenedlaethol Tân ac Achub o 2016 Ymlaen](#)  
[5. Statement: The Fire and Rescue National Framework 2016 Onwards](#)

[6. Datganiad: Y Rhaglen i Ddileu TB](#)  
[6. Statement: The TB Eradication Programme](#)

[7. Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol ar y Darpariaethau sy'n ymwneud â'r Swyddfa Brisio sy'n deillio o'r Bil Menter](#)  
[7. Supplementary Legislative Consent Motion on the Valuation Office Provisions arising from the Enterprise Bill](#)

[8. Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol ar y Darpariaethau sy'n ymwneud â'r Comisiynydd Busnesau Bach sy'n deillio o'r Bil Menter](#)  
[8. Supplementary Legislative Consent Motion on the Small Business Commissioner Provisions arising from the Enterprise Bill](#)

[9. Rheoliadau Plant \(Llety Diogel\) \(Cymru\) 2015](#)  
[9. The Children \(Secure Accommodation\) \(Wales\) Regulations 2015](#)

[10. Rheoliadau Trefniadau Partneriaeth \(Cymru\) 2015](#)  
[10. The Partnership Arrangements \(Wales\) Regulations 2015](#)

*Cyfarfu'r Cynulliad am 13:30 gyda'r Llywydd (y Fonesig Rosemary Butler) yn y Gadair.*

*The Assembly met at 13:30 with the Presiding Officer (Dame Rosemary Butler) in the Chair.*

13:30 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad Biography](#)

Good afternoon. The National Assembly for Wales is now in session.

Prynhawn Da. Dyma ddechrau trafodion Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

13:30 **Datganiad gan y Llywydd**

**Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad Biography](#)

Before we move to the First Minister's questions, it gives me great pleasure to announce, in accordance with Standing Order 26.75, that the Local Government (Wales) Bill was given Royal Assent on 25 November.

**Statement by the Presiding Officer**

Cyn i ni symud at gwestiynau i'r Prif Weinidog, mae'n rhoi pler mawr i mi gyhoeddi, yn unol â Rheol Sefydlog 26.75, y rhoddwyd Cydsyniad Brenhinol i Fil Llywodraeth Leol (Cymru) ar 25 Tachwedd.

**1. Cwestiynau i'r Prif Weinidog**

*Mae [R] yn dynodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant. Mae [W] yn dynodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.*

**1. Questions to the First Minister**

*[R] signifies the Member has declared an interest. [W] signifies that the question was tabled in Welsh.*

13:30 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad Biography](#)

We now move to item 1, which is questions to the First Minister, and first this afternoon, Llyr Gruffydd.

Symudwn at eitem 1 nawr, sef cwestiynau i'r Prif Weinidog, a Llyr Gruffydd sydd gyntaf y prynhawn yma.

## Y Sector Ynni Adnewyddadwy

## The Renewable Energy Sector

- 13:31 **Llyr Gruffydd** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)  
*1. A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am effaith yr adolygiad o wariant Llywodraeth y DU ar y sector ynni adnewyddadwy yng Nghymru? OAQ(4)2613(FM)[W]*
- 13:31 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)  
*Y Prif Weinidog / The First Minister*  
Mae peth i'w groesawu, sef beth maen nhw wedi ei wneud ynglŷn â gwresogi ardal a hefyd arbed ynni. Nid oes eglurhad ar hyn o bryd ynglŷn ag ym mha ffordd y bydd hyn yn effeithio ar Gymru, ond, wrth gwrs, mae pryder gyda ni ynglŷn â beth mae'r Deyrnas Unedig yn ei wneud i daniellio hyder buddsoddwyr mewn projectau ynni adnewyddadwy ar gyfer y dyfodol yng Nghymru.
- 13:31 **Llyr Gruffydd** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)  
Rwy'n rhannu'ch gofid chi, oherwydd mae uchelgais Llywodraeth y Deyrnas Unedig o safbwynt ynni adnewyddadwy, yn amlwg iawn, yn wahanol i'r un y byddai nifer ohonom ni fan hyn yng Nghymru yn ei goleddu. Rŷm ni'n gwybod, wrth gwrs, fod caniatâd, neu hawl i roi caniatâd, i brojectau ynni mawr, yn dod i Gymru, neu mi ddaw yn y pen draw, gobeithio. Ond, wrth gwrs, rŷm ni hefyd yn gwybod bod y grid cenedlaethol yn broblem, a bod diffyg grym a chyfrifoldeb dros rai o'r 'incentives' ariannol hefyd yn broblem i ni fan hyn yng Nghymru. Felly, a fydech chi'n cytuno â fi fod yr amser wedi dod i ni ddim jest setlo am gael hawl i roi caniatâd am brojectau mawr, ond i ofyn am rywfaint o ddylanwad hefyd dros y grid cenedlaethol a'r 'incentives' ariannol?
- 13:32 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)  
*Y Prif Weinidog / The First Minister*  
Ydw, achos rwy'n credu ei bod hi'n bwysig i ni sylweddoli, fel mae'r Aelod wedi, ei bod yn un peth i gael grym dros roi caniatâd i ffyrdd o greu ynni adnewyddadwy, ond, heb unrhyw fath o reolaeth dros y grid ei hunan, mae yna fetog gan Lywodraeth y Deyrnas Unedig ynglŷn â'r ffordd y mae'r ynni'n cael ei dynnu mas o Gymru ac, felly, ar y project ei hunan. Felly, fy marn i yw y dylem ni fod yn yr un sefyllfa â'r Alban, sef rheolaeth dros y grid, ac rŷm ni'n gwybod bod yr 'incentives' ariannol y maen nhw wedi gallu'u doddi ar y ford wedi gwneud gwahaniaeth iddyn nhw ynglŷn â thynnu projectau a swyddi i mewn i'r Alban.
- 13:32 **David Rees** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)  
First Minister, I share your concerns about last week's comprehensive spending review, which made no mention of the tidal lagoon project in Swansea. We've since seen that company announce redundancies as a consequence of the dithering and inept attitude of the UK Government. It's an exciting project that offers both clean renewable energy and economic opportunities in south-west Wales for jobs and skills. Will you continue to press the UK Government for a rapid response on the strike price, so that we can see that project progress for the Welsh economy to benefit from?
- 1. Will the First Minister make a statement on the impact of the UK Government's spending review on the renewable energy sector in Wales? OAQ(4)2613(FM)[W]*
- Some of it is to be welcomed, namely what they've done regarding district heating and energy efficiency. There is no clarity at present on how this will impact upon Wales, but, of course, we have concerns about what the United Kingdom Government's policy is doing to undermine investor confidence in future renewable energy projects in Wales.
- I share your concern, because the ambition of the UK Government in terms of renewable energy is clearly very different to the ambition that many of us hear in Wales would like to see achieved. We know that consents, or the right to consent, to major energy projects, are to come to Wales, or will ultimately come to Wales, we hope. But, of course, we also know that the national grid is a problem and that the lack of powers over some of the financial incentives is also a problem for us in Wales. So, would you agree with me that the time has come for us not just to settle for having the right to consent to major projects, but to ask for some influence in relation to the national grid and the financial incentives?
- Yes, because I think it's important that we realise, as the Member has said, that it's one thing to have power over consenting to renewable energy generation projects, but, without any control over the grid itself, there is a UK Government veto as to how that energy is taken from Wales and, therefore, a veto on the project itself. Therefore, my view is that we should be in the same situation as Scotland, in that we should have control over the grid, and we know that the financial incentives that they've been able to put on the table there have been beneficial in terms of attracting projects and jobs to Scotland.
- Brif Weinidog, rwy'n rhannu eich pryderon am yr adolygiad cynhwysfawr o wariant yr wythnos diwethaf, na wnaeth unrhyw sôn am y prosiect morlyn llanw yn Abertawe. Rydym ni wedi gweld y cwmni hwnnw'n cyhoeddi diswyddiadau ers hynny, o ganlyniad i oedi ac agwedd ddi-glem Llywodraeth y DU. Mae'n brosiect cyffrous sy'n cynnig ynni adnewyddadwy glân yn ogystal â chyfleoedd economaidd yn y de-orllewin ar gyfer swyddi a sgiliau. A wnewch chi barhau i bwysu ar Lywodraeth y DU am ymateb cyflym ar y pris streic, fel y gallwn weld y prosiect hwnnw'n symud yn ei flaen i economi Cymru elwa arno?

13:33 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

There's an enormous amount of foot dragging taking place in Whitehall. This is a fantastic project not just in terms of renewable energy, but in terms of the jobs that could be created for the maintenance and manufacturing of the kit that generates that energy. We've heard, of course, of the support that's been given in the past by the UK Government, but there is no money on the table, no further decision, and it's about time the people of Wales had a decision from the UK Government and were shown that respect.

Mae llawer iawn o lusgo traed yn digwydd yn Whitehall. Mae hwn yn brosiect gwych, nid yn unig o ran ynni adnewyddadwy, ond o ran y swyddi y gellid eu creu ar gyfer cynnal a chadw a gweithgynhyrchu'r offer sy'n cynhyrchu'r ynni hwnnw. Rydym wedi clywed, wrth gwrs, y gefnogaeth a roddwyd yn y gorffennol gan Lywodraeth y DU, ond nid oes unrhyw arian yn cael ei gynnig, dim penderfyniad pellach, ac mae'n hen bryd i bobl Cymru gael penderfyniad gan Lywodraeth y DU ac i'r parch hwnnw gael ei ddangos atynt.

13:33 **Janet Haworth** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

First Minister, the renewable energy sector in Wales contributes significant funding to the Welsh Government through wind turbines being sited on the Welsh woodland estate. Can you confirm the amount of money made by this scheme, and can you provide assurances that this money is retained and spent within the renewable energy sector and environmental projects in Wales?

Brif Weinidog, mae'r sector ynni adnewyddadwy yng Nghymru yn cyfrannu cyllid sylweddol i Lywodraeth Cymru trwy leoli tyrbinau gwynt ar ystâd coetiroedd Cymru. A allwch chi gadarnhau faint o arian a wneir gan y cynllun hwn, ac a allwch chi roi sicrwydd bod yr arian hwn yn cael ei gadw a'i wario yn y sector ynni adnewyddadwy a phrosiectau amgylcheddol yng Nghymru?

13:34 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Where there are opportunities for revenue being made available to the Welsh Government, we'll take that, of course, bearing in mind the relevant planning considerations that need to be taken into consideration. What we don't have, however, is any kind of certainty from the UK Government as to what the energy policy that they want actually is. We don't know what their view is on renewables. We know they attacked photovoltaic cells and the subsidies there; they've attacked wind turbines, which caused the closure of Mabey Bridge in Monmouthshire; we know that they've provided substantial funding for the nuclear sector at Hinkley; what we don't know is what else they want to do. I know, from my conversations with investors, that this uncertainty is something that is wholly unwelcome to those who wish to invest in energy generation in the UK.

Pan geir cyfleoedd i reffeniw gael ei roi ar gael i Lywodraeth Cymru, byddwn yn cymryd hwnnw, wrth gwrs, gan gofio'r ystyriaethau cynllunio perthnasol y mae angen eu cymryd i ystyriaeth. Yr hyn nad oes gennym, fodd bynnag, yw unrhyw fath o sicrwydd gan Lywodraeth y DU o ran beth yw'r union bolisi ynni y maen nhw ei eisiau mewn gwirionedd. Nid ydym yn gwybod beth yw eu barn nhw ar ynni adnewyddadwy. Rydym ni'n gwybod eu bod wedi ymosod ar gelloedd ffotofoltaidd a'r cymorthdaliadau yn hynny o beth; maen nhw wedi ymosod ar dyrbinau gwynt, a achosodd i Mabey Bridge yn Sir Fynwy gau; rydym ni'n gwybod eu bod wedi darparu cyllid sylweddol i'r sector niwclear yn Hinkley; yr hyn nad ydym yn ei wybod yw beth arall y maen nhw eisiau ei wneud. Gwn, o fy sgysiau gyda buddsoddwyr, bod yr ansicrwydd hwn yn rhywbeth sy'n gwbl annerbyniol i'r rhai sy'n dymuno buddsoddi mewn cynhyrchu ynni yn y DU.

13:35 **Peter Black** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

First Minister, as you know, there is a huge amount of concern in the Swansea bay area about the tidal lagoon and about whether that project is going to go ahead. I understand fully the Welsh Government's commitment to that scheme and I'm very grateful for your support of it. Can I ask you what representations you envisage being able to make to the UK Government over the next few months to try to tie down their particular view of this lagoon, and whether or not they're able to come to a conclusion on this, and how can we assist them in those deliberations?

Brif Weinidog, fel y gwyrddoch, mae llawer iawn o bryder yn ardal bae Abertawe am y morlyn llanw ac ynghylch pa un a yw'r prosiect hwnnw'n mynd i ddigwydd. Rwy'n deall yn llwyr ymrwymiad Llywodraeth Cymru i'r cynllun hwnnw ac rwy'n ddiolchgar iawn am eich cefnogaeth iddo. A gaf i ofyn i chi pa sylwadau ydych chi'n rhagweld y byddwch yn gallu eu gwneud i Lywodraeth y DU yn ystod y misoedd nesaf i geisio canfod ei safbwynt pendant ar y morlyn hwn, a pha un a ydynt yn gallu dod i gasgliad ar hyn ai peidio, a sut y gallwn ni eu cynorthwyo yn yr ystyriaethau hynny?

13:35

**Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Well, the message is, 'Get on with it.' We'll be making that message clear to them both orally and in writing. It simply isn't acceptable that one of the major projects in Wales is not being supported as it should be by the UK Government. But this is nothing different: we've also seen delays when it comes to electrification—no date given for that. And it shows that there is a tendency towards incredible foot dragging when it comes to job creation in Wales by the UK Government—something the Welsh Government will never display.

Wel, y neges yw, 'Dewch yn eich blaenau.' Byddwn yn gwneud y neges honno'n eglur iddyn nhw ar lafar ac yn ysgrifenedig. Mae'n gwbl annerbyniol nad oes yr un o'r prosiectau mawr yng Nghymru yn cael ei gefnogi fel y dylai gan Lywodraeth y DU. Ond nid yw hyn yn ddim gwahanol: rydym ni hefyd wedi gweld oediadau pan ddaw i drydaneiddio—ni roddwyd dyddiad ar gyfer hynny. Ac mae'n dangos bod tuedd o lusgo traed anhygoel pan ddaw i greu swyddi yng Nghymru gan Lywodraeth y DU—rhywbeth na fydd Llywodraeth Cymru byth yn ei wneud.

**Blaenoriaethau'r GIG (Gogledd Cymru)**

**NHS Priorities (North Wales)**

13:36

**Darren Millar** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

*2. A wnaiff y Prif Weinidog amlinellu ei flaenoriaethau ar gyfer y GIG yng ngogledd Cymru? OAQ(4)2597(FM)*

*2. Will the First Minister outline his priorities for the NHS in north Wales? OAQ(4)2597(FM)*

13:36

**Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Yes. My priorities for the NHS in the north are as for the rest of Wales: to improve health outcomes, access to services and patient experience, to prevent poor health, and to reduce health inequalities.

Gwnaf. Mae fy mlaenoriaethau ar gyfer y GIG yn y gogledd yr un fath ag ar gyfer gweddill Cymru: gwella canlyniadau iechyd, mynediad at wasanaethau a phrofiad y claf, i atal iechyd gwael, ac i leihau anghydraddoldebau iechyd.

13:36

**Darren Millar** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Thank you for that answer, First Minister. Today is, obviously, the first day of winter. We know that the health board in north Wales is cash strapped. It's forecasting to be £30 million over budget by the end of the current financial year at present, and that's in addition to a carry-over of over £20 million from the previous year. What are you doing to make sure that the financial crisis doesn't impact over the winter, and that patients can still get access to the services they need? We know, for example, that referrals to Gobowen Hospital at the moment have been halted for people to be able to access some of the orthopaedic services there, all on the basis of finances.

Diolch i chi am yr ateb yna, Brif Weinidog. Heddiw, yn amlwg, yw diwrnod cyntaf y gaeaf. Rydym ni'n gwybod bod y bwrdd iechyd yn y gogledd yn brin o arian. Mae'n rhagweld y bydd £30 miliwn dros y gyllideb erbyn diwedd y flwyddyn ariannol gyfredol ar hyn o bryd, ac mae hynny yn ogystal â swm a gariwyd drosodd o dros £20 miliwn o'r flwyddyn flaenorol. Beth ydych chi'n ei wneud i sicrhau nad yw'r argyfwng ariannol yn effeithio dros y gaeaf, ac y gall cleifion ddal i gael mynediad at y gwasanaethau sydd eu hangen arnynt? Rydym ni'n gwybod, er enghraifft, bod atgyfeiriadau i Ysbyty Gobowen wedi eu hatal ar hyn o bryd i bobl allu cael mynediad at rai o'r gwasanaethau orthopedig yno, a hynny i gyd ar sail arian.

13:37

**Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

No, the local health boards have their winter plans in place. We've been liaising with them for many months, and we expect those plans to be robust. We know that, despite the great pressure that was put on the NHS in Wales last winter, those plans were robust, and we did not see, for example, the situation that took place in England, where tents were being used to house patients who needed treatment in accident and emergency.

Na, mae gan y byrddau iechyd lleol eu cynlluniau gaeaf ar waith. Rydym ni wedi bod yn trafod â nhw ers misoedd lawer, ac rydym ni'n disgwyl i'r cynlluniau hynny fod yn gadarn. Gwyddom, er gwaethaf y pwysau mawr a roddwyd ar y GIG yng Nghymru y gaeaf diwethaf, bod y cynlluniau hynny'n gadarn, ac ni welsom, er enghraifft, y sefyllfa a gafwyd yn Lloegr, lle'r oedd pebyll yn cael eu defnyddio i roi cleifion a oedd angen triniaeth mewn adrannau damweiniau ac achosion brys ynddynt.

13:37 **Alun Ffred Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Mae adolygiad o wasanaethau mamolaeth yn digwydd yn y gogledd, fel y gwyddoch chi—un tymor byr, ac un tymor hir—ac un dewis amlwg ydy lleihau nifer yr unedau mamolaeth sydd o dan arweiniad meddygon o dri i ddau. Gan eich bod chi wedi penderfynu bod y SuRNICC yn cael ei gosod yng Ysbyty Glan Clwyd, mae'n dilyn, felly, mai dewis rhwng Ysbyty Maelor Wrecsam ac Ysbyty Gwynedd fydd yr adolygiad hwn. Ydy hon yn broses synhwyrol a theg, i benderfynu ar strwythur gofal mamolaeth yn y gogledd i'r dyfodol, pan fod un penderfyniad allweddol wedi ei gymryd y tu allan i'r cyd-destun yna?

A review of maternity services is ongoing in north Wales, as you know—one in the short term and one in the long term—and one clear option is to reduce the number of maternity units led by medics from three to two. As you have decided that the SuRNICC is to be placed in Glan Clwyd Hospital, it therefore follows that the review will choose between Wrexham Maelor Hospital and Ysbyty Gwynedd. Is this a sensible and fair process for deciding upon the structure of maternity care in north Wales for the future, when one key decision has been taken outwith that context?

13:38 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Wel, mae'n rhaid i mi ddweud ei fod yn fy synnu i—roeddwn i'n meddwl bod Plaid Cymru o blaid y SuRNICC. Rwy'n gwybod bod aelodau o'ch plaid chi wedi bod yn gryf yn dweud bod yn rhaid cael uned o'r fath yng Nghymru, ac nid yn Arrowe Park. So, os ydych chi'n dweud yn awr nad ydych chi o blaid cael y SuRNICC, wel mae hynny'n newid, wrth gwrs, o'r sefyllfa a oedd yn wir yn y misoedd yn y gorffennol. Na, rŷm ni'n mynd i barhau â'r SuRNICC. Dyna beth oedd aelodau eich plaid chi ei eisiau ac wedi ei gefnogi. Hefyd, wrth gwrs, bydd yna adroddiad, rwy'n deall, yn cael ei gyhoeddi gan y bwrdd iechyd lleol heno ynglŷn â chynlluniau, ac, yn y pen draw, ynglŷn â'r unedau mamolaeth yn eu hardal nhw.

Well, I am surprised, as I was under the impression that Plaid Cymru were in favour of the SuRNICC. Members of your party have been robustly saying that we need such a unit in Wales and not in Arrowe Park. So, if you are now saying that you are not in favour of the SuRNICC, then that is a total departure from the situation some months ago. No, we are going to continue with the SuRNICC. That is what your party members wanted and supported. Also, of course, I understand that a report will be published by the local health board this evening on the plans, and, ultimately, on the maternity units in their area.

13:39 **Aled Roberts** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Roeddech chi'n sôn mai un o'ch blaenoriaethau chi ydy gwneud yn siŵr bod gwasanaethau ar gael. Rydw i wedi bod yn gohebu efo'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ers rhyw ddwy flynedd rŵan ynglŷn â gwasanaethau prostheteg yn Wrecsam, ac, i fod yn deg, mi oedd y Gweinidog yn ymweld â'r ysbyty efo fi rai misoedd yn ôl. Mae'r gwasanaethau yma yn cael eu rheoli gan WHSSC yn ganolog, ond bod y ddarpariaeth ar lefel y byrddau iechyd. Er hynny, mae'r graddau y mae doctoriaid yn Wrecsam yn cael eu cynnig yn llawer iawer is na graddau yn y gogledd-orllewin, ac mae hynny wedi creu sefyllfa lle mae'r doctor olaf—neu'r 'prosthetist' olaf—wedi dweud ei fod o'n gadael ei swydd. Felly, a gaf fi ofyn i chi edrych i mewn i'r sefyllfa i wneud yn siŵr bod y graddau yma i ddoctoriaid yn gystadleuol, er mwyn inni sicrhau bod gwasanaethau yn dal i fod ar gael yn y gogledd?

You mentioned that one of your priorities is to ensure that services are available. I have been in correspondence with the Minister for Health and Social Services for some two years now on prosthetics services in Wrexham, and, to be fair, the Minister visited the hospital with me some months ago. These services are managed by WHSSC centrally, but the provision is at a health board level. However, the grades offered to doctors in Wrexham are far lower than those for doctors in the north-west, and that means that the remaining doctor—the remaining prosthetist—has said that he intends to leave his post. So, can I ask you to look into that situation to ensure that the doctor grades are competitive, so that we can ensure that services remain available in north Wales?

13:39 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Wel, rŷm ni'n gwybod ein bod wedi siarad â WHSSC i ni ddeall beth yw maint y broblem ei hun. Mae yna broblemau wedi bod gyda recriwtio ond, ynglŷn â'r ohebiaeth yr ydym ni wedi'i chael fel Llywodraeth ar WHSSC ei hunan, maen nhw yn delio â'r materion hynny. Mae staff yn cael eu recriwtio, a bydd y rhai newydd yn dechrau yn y flwyddyn newydd. Wrth gwrs, bydd recriwtio yn dal i gymryd lle er mwyn sicrhau bod unrhyw leoedd gwag sydd ar gael ar hyn o bryd yn cael eu llenwi tra bod y recriwtio hwnnw yn cymryd lle.

Well, we know that we've spoken to WHSSC in order to understand the size of the problem. There have been some problems with the recruitment but, in terms of the correspondence that we, as Government, have received on WHSSC itself, they are addressing those issues. Staff are being recruited, and new members of staff will commence in the new year. Recruitment will continue to take place, or course, in order to ensure that any currently vacant positions will be filled while that recruitment is ongoing.

**Cwestiynau Heb Rybudd gan Arweinwyr y Pleidiau**

**Questions Without Notice from the Party Leaders**

13:40 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad Biography](#)

We now move to questions from the party leaders. First this afternoon we have the leader of the Welsh Liberal Democrats, Kirsty Williams.

Symudwn at gwestiynau gan arweinwyr y pleidiau nawr. Arweinydd Democratiaid Rhyddfrydol Cymru, Kirsty Williams, sydd gyntaf y prynhawn yma.

13:40 **Kirsty Williams** [Bywgraffiad Biography](#)

*Arweinydd Democratiaid Rhyddfrydol Cymru / The Leader of the Welsh Liberal Democrats*

Thank you, Presiding Officer. First Minister, as world leaders meet in Paris for the climate change conference, we can all agree that governments need to do all that they can to tackle the threat of climate change. Now, the Conservative Government in Westminster is systematically unravelling any progress that was made on renewables under Liberal Democrat leadership. What representations have you made opposing the UK Government's decision to end tax breaks for clean cars, abandon zero carbon housing targets and scrap support for renewable energy production?

Diolch i chi, Lywydd. Brif Weinidog, wrth i arweinwyr y byd gyfarfod ym Mharis ar gyfer y gynhadledd newid hinsawdd, gallwn i gyd gytuno bod angen i lywodraethau wneud popeth yn eu gallu i fynd i'r afael â bygythiad newid yn yr hinsawdd. Nawr, mae'r Llywodraeth Geidwadol yn San Steffan yn dadwneud unrhyw gynnydd a wnaed ar ynni adnewyddadwy dan arweiniad y Democratiaid Rhyddfrydol yn systematig. Pa sylwadau ydych chi wedi eu gwneud yn gwrthwynebu penderfyniad Llywodraeth y DU i roi terfyn ar ostyngiadau treth ar gyfer ceir glân, cael gwared ar dargedau tai di-garbon a diddymu cefnogaeth ar gyfer cynhyrchu ynni adnewyddadwy?

13:41 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad Biography](#)

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Well, the zero carbon in terms of buildings, of course, is a devolved matter. In terms of scrapping subsidies, it's something that we've been very vocal on. We believe that this is not the way forward. We are wholly opposed to the direction—well, if there is a direction—in which energy generation is going at GB level. It seems clear that energy generation is now being dictated by the Treasury in terms of what is the cheapest form of generating energy in the short term. Energy security is an irrelevant consideration in their minds. We made it very clear that there needs to be a mix of energy generation within the UK, there needs to be greater thought given to energy security, and the trend towards scrapping subsidies for renewables has to be reversed.

Wel, mae'r di-garbon o ran adeiladau, wrth gwrs, yn fater datganoledig. O ran diddymu cymorthdaliadau, mae'n rhywbeth yr ydym ni wedi bod yn llafar iawn yn ei gylch. Rydym ni o'r farn mai nad dyna'r ffordd ymlaen. Rydym ni'n gwrthwynebu'n llwyr y cyfeiriad—wel, os oes cyfeiriad—y mae cynhyrchu ynni yn mynd iddo ar lefel Prydain Fawr. Mae'n ymddangos yn eglur bod cynhyrchu ynni yn cael ei bennu gan y Trysorlys erbyn hyn o ran beth yw'r ffordd rataf o gynhyrchu ynni yn y tymor byr. Mae diogelwch ynni yn ystyriaeth amherthnasol yn eu tyb nhw. Fe'i gwnaed yn eglur iawn gennym bod angen cymysgedd o gynhyrchiant ynni yn y DU, mae angen rhoi mwy o ystyriaeth i ddiogelwch ynni, ac mae'n rhaid gwrthdroi'r duedd o ddiddymu cymorthdaliadau ar gyfer ynni.

13:41 **Kirsty Williams** [Bywgraffiad Biography](#)

Thank you for that answer, First Minister, but let's examine your Government's record in this area. Wales lags behind the rest of the UK in reducing greenhouse gas emissions. Why have Scotland and England managed to reduce emissions by about a third whilst, in Wales, we've managed just a decrease of 12 per cent?

Diolch i chi am yr ateb yna, Brif Weinidog, ond gadewch i ni edrych ar hanes eich Llywodraeth yn y maes hwn. Mae Cymru ar ôl gweddill y DU o ran lleihau allyriadau nwyon tŷ gwydr. Pam mae'r Alban a Lloegr wedi llwyddo i leihau allyriadau o tua thraean tra ein bod ni yng Nghymru wedi llwyddo i gael gostyngiad o ddim ond 12 y cant?

13:42 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad Biography](#)

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Well, part of the reason is that we have a higher proportion of energy-intensive industries, and, as they have strengthened, so their emissions have gone up. That much is true, even though we have invested in reducing emissions. Secondly, of course, we don't have the powers that Scotland and England have. Scotland has the powers that it needs over energy generation, it has the powers over grid connections, and it has the powers to incentivise renewable energy in a way that we have not. I come back to the point that was made by the Member, Llyr Huws Gruffydd: we need to see a level playing field between Wales on the one hand and Scotland and England on the other.

Wel, rhan o'r rheswm yw bod gennym ni gyfran fwy o ddiwydiannau ynni-ddwys, ac, fel y maen nhw wedi cryfhau, mae eu hallyriadau wedi cynyddu. Mae cymaint â hynny'n wir, er ein bod wedi buddsoddi mewn lleihau allyriadau. Yn ail, wrth gwrs, nid oes gennym y pwerau sydd gan yr Alban a Lloegr. Mae gan yr Alban y pwerau sydd eu hangen arni dros gynhyrchu ynni, mae ganddi'r pwerau dros gysylltiadau grid, ac mae ganddi'r pwerau i gymell ynni adnewyddadwy mewn ffordd nad oes gennym ni. Rwy'n dod yn ôl at y pwynt a wnaed gan yr Aelod, Llyr Huws Gruffydd: mae angen i ni weld chwarae teg i Gymru ar y naill law a'r Alban a Lloegr ar y llall.

13:42

**Kirsty Williams** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

First Minister, it's that old chestnut again. Last time I asked you these questions you gave the same answer. [Interruption.] Germany has a huge amount of energy-intensive industry, much, much larger than ours, and yet their record on cutting greenhouse gas emissions is commendable. Now, Labour leaders are full of warm words about these issues. Recently, 50 Labour councils in England pledged to reduce by 100 per cent by 2050 their emissions, and your shadow energy secretary stated:

'Where Labour is in power we will push for a clean energy boom'.

Why, then, has your Government refused to lead with ambition by supporting a target of a 100 per cent reduction in greenhouse gas emissions by 2050 in legislation before this House?

Brif Weinidog, dyma'r un hen gân eto. Rhoesoch yr un ateb y tro diwethaf i mi ofyn y cwestiynau hyn i chi. [Torri ar draws.] Mae gan yr Almaen ddiwydiant ynni-ddwys enfawr, llawer, llawer mwy na ni, ac eto mae ei hanes o ran lleihau allyriadau nwyon tŷ gwydr yn ganmoladwy. Nawr, mae arweinwyr Llafur yn llawn geiriau gwresog am y materion hyn. Yn ddiweddar, addawodd 50 o gynghorau Llafur yn Lloegr i leihau eu hallyriadau 100 y cant erbyn 2050, a dywedodd eich ysgrifennydd ynni'r wrthblaid:

Lle mae Llafur mewn grym, byddwn yn pwyso am ffyniant ynni glân.

Pam, felly, y mae eich Llywodraeth wedi gwrthod arwain gydag uchelgais trwy gefnogi targed o ostyngiad o 100 y cant i allyriadau nwyon tŷ gwydr erbyn 2050 mewn deddfwriaeth gerbron y Tŷ hwn?

13:43

**Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Energy-intensive industries are going through a difficult time, especially with the cost of energy in the UK, and we must balance, of course, any decision without prejudice in terms of the target against the effect that it might have on those energy-intensive industries. That's the thinking. That's the debate that's taking place at the moment. But in terms of looking to reduce greenhouse gas emissions, it's something that we strongly support. I'm glad to hear that I gave the same answer to her in answer to the same question some months ago. It shows, at least, that we are showing consistency in terms of the answers that we give, and we need to see a level playing field in terms of powers as between Wales, Scotland and England.

Mae diwydiannau ynni-ddwys yn mynd trwy gyfnod anodd, yn enwedig gyda chost ynni yn y DU, ac mae'n rhaid i ni gydbwysu, wrth gwrs, unrhyw benderfyniad heb ragfarn o ran y targed yn erbyn yr effaith y gallai ei chael ar y diwydiannau ynni-ddwys hynny. Dyna'r meddylfryd. Dyna'r ddadl sy'n digwydd ar hyn o bryd. Ond o ran ceisio lleihau allyriadau nwyon tŷ gwydr, mae'n rhywbeth yr ydym yn ei gefnogi'n gryf. Rwy'n falch o glywed fy mod i wedi rhoi'r un ateb iddi wrth ateb yr un cwestiwn rai misoedd yn ôl. Mae'n dangos, o leiaf, ein bod yn dangos cysondeb o ran yr atebion yr ydym ni'n eu rhoi, ac mae angen i ni weld chwarae teg o ran y pwerau i Gymru, yr Alban a Lloegr.

13:44

**Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

We now move to the leader of the opposition, Andrew R.T. Davies.

Symudwn nawr at arweinydd yr wrthblaid, Andrew R.T. Davies.

13:44

**Andrew R.T. Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

*Arweinydd yr Wrthblaid / The Leader of the Opposition*

Thank you, Presiding Officer. First Minister, obviously, in all the news programmes and bulletins at the moment are the terrible scenes of destruction out in the middle east and, in particular, the vote that will take place later this week on whether military action should be undertaken in Syria by British armed services. You have given numerous interviews, as recently as 10 days ago, saying that you supported military action in Syria, and that there shouldn't be a border or a recognised border between Iraq and Syria. Is that you personally speaking, or are you speaking on behalf of the Welsh Government?

Diolch, Lywydd. Brif Weinidog, yn amlwg, yn yr holl raglenni a bwletinâu newyddion ar hyn o bryd ceir golygfeydd ofnadwy o ddinistr yn y dwyrain canol, ac, yn benodol, y bleidlais a fydd yn cael ei chynnal yn ddiweddarach yr wythnos hon o ran a ddylai lluoedd arfog Prydain gymryd camau milwrol yn Syria. Rydych chi wedi rhoi nifer o gyfweiliadau, mor ddiweddar â 10 diwrnod yn ôl, yn dweud eich bod yn cefnogi camau milwrol yn Syria, ac na ddylai fod ffin neu ffin gydnabyddedig rhwng Irac a Syria. Ai chi'n siarad yn bersonol yw hynny, neu a ydych chi'n siarad ar ran Llywodraeth Cymru?

13:44

**Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

No, it's my view, speaking personally, and it's a view that will be different to some in my party. Nevertheless, it's my view.

Na, fy marn i yw honno, yn siarad yn bersonol, ac mae'n farn a fydd yn wahanol i rai yn fy mhlaidd. Serch hynny, dyna fy marn.

13:45

**Andrew R.T. Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Interestingly, all the articles obviously quote you as First Minister, and so people do take that as being the Government view, they do. It is important that people do obviously examine their constituency postbags and also the position that Britain finds itself in with a plea from the French Government to support their actions in addressing the atrocities in Paris two weeks ago. What action will you be taking? Because you do have a substantial role within the Labour Party. You are the most senior elected figure within the Labour Party. What will you be doing as First Minister of Wales to convey your own view, but also, I would suggest, the majority view that we stand shoulder to shoulder with our allies in France, and address the terrible scenes that we're seeing in Syria.

Yn ddi-ddorol, mae'r holl erthyglau yn amlwg yn eich dyfynnu chi fel y Prif Weinidog, ac felly mae pobl yn cymryd hynny fel barn y Llywodraeth, maen nhw wir. Mae'n bwysig bod pobl yn amlwg yn edrych yn eu sachau post etholaethol a hefyd y sefyllfa y mae Prydain yn canfod ei hun ynnddi gyda chais gan Lywodraeth Ffrainc i gefnogi eu camau nhw i fynd i'r afael â'r erchyllterau ym Mharis bythefnos yn ôl. Pa gamau fyddwch chi'n eu cymryd? Oherwydd mae gennych chi swyddogaeth bwysig o fewn y Blaid Lafur. Chi yw'r ffigwr etholedig uchaf yn y Blaid Lafur. Beth fyddwch chi'n ei wneud fel Prif Weinidog Cymru i fynegi eich barn eich hun, ond hefyd, byddwn yn awgrymu, barn y mwyafrif ein bod yn sefyll ysgwydd wrth ysgwydd â'n cyngheiriaid yn Ffrainc, ac yn mynd i'r afael â'r golygfeydd ofnadwy yr ydym ni'n eu gweld yn Syria.

13:45

**Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

It's the job of the Prime Minister to provide the evidence in order for MPs to examine that evidence and decide which way they want to vote. It's not my job to do that. I've expressed my view on this. I take the view that there needs to be a final plan. I don't see that at the moment. I take the view there needs to be thought given to which ground forces are going to be supported. I don't see progress on that at the moment. I do take the view that there's no difference in reality between Iraq and Syria. The border's effectively disappeared. But what troubles me, or what concerns me is that we should not do what happened in Iraq more than a decade ago, and that is to take military action without thinking about what the endgame is and how to bring peace to Syria. I do not see sufficient evidence of that yet on the part of the Prime Minister.

Cyfrifoldeb Prif Weinidog y DU yw darparu'r dystiolaeth er mwyn i ASau archwilio'r dystiolaeth honno a phenderfynu pa ffordd maen nhw eisiau pleidleisio. Nid fy nghyfrifoldeb i yw gwneud hynny. Rwyf wedi mynegi fy marn ar hyn. Rwyf o'r farn bod angen cael cynllun terfynol. Nid wyf yn gweld hynny ar hyn o bryd. Rwyf o'r farn bod angen rhoi ystyriaeth i ba luoedd sy'n mynd i gael eu cefnogi ar lawr gwlad. Nid wyf yn gweld cynnydd ar hynny ar hyn o bryd. Rwyf o'r farn nad oes unrhyw wahaniaeth mewn gwirionedd rhwng Irac a Syria. Mae'r ffin wedi diflannu i bob pwrpas. Ond yr hyn sy'n fy nhrwblu i, neu'r hyn sy'n fy mhoni i, yw na ddylem ni wneud yr hyn a ddigwyddodd yn Irac fwy na degawd yn ôl, sef cymryd camau milwrol heb feddwl am ben draw'r daith a sut i ddod â heddwch i Syria. Nid wyf yn gweld dystiolaeth ddigonol o hynny eto ar ran y Prif Weinidog.

13:46

**Andrew R.T. Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I disagree with you on the evidence from the Prime Minister, but I agree entirely with you that we do need the endgame in stabilising Syria because of the situation that is developing out in that country, and the immigration crisis, and people being forced from their homes, but, ultimately, the horrendous acts by ISIL in that country against every man, woman and child that they seem to come into contact with. It is a fact that, in Wales, 27,500 servicemen and servicewomen have families here and obviously reside here. There is a big defence estate here in Wales that relies on orders from the armed services. I do believe that it is important that the First Minister of Wales—and you have done that via interviews that you've given, offering your support—. But it does need to be clarified that that is personal support, not Government support. But you do have a role, do you not, First Minister, you do have a role in making sure that we speak with one voice and ultimately support our armed services when they are committed to ground offensives or air offensives in Syria. Do you not as First Minister have a key role to play in doing that?

Rwy'n anghytuno â chi o ran y dystiolaeth gan y Prif Weinidog, ond rwy'n cytuno'n llwyr â chi ein bod ni angen gwybod beth yw pen draw'r daith wrth sefydlogi Syria, oherwydd y sefyllfa sy'n datblygu allan yn y wlad honno, a'r argyfwng mewnfudo, a phobl yn cael eu gorfodi o'u cartrefi, ond, yn y pen draw, ceir gweithredoedd erchyll ISIL yn y wlad honno yn erbyn pob dyn, menyw a phlentyn y maen nhw'n dod i gysylltiad â nhw mae'n ymddangos. Mae'n ffaith bod gan 27,500 o filwyr yng Nghymru deuluoedd yma ac yn amlwg yn byw yma. Ceir ystâd amddiffyn fawr yma yng Nghymru sy'n dibynnu ar archebion gan y lluoedd arfog. Rwy'n credu ei bod yn bwysig bod Prif Weinidog Cymru—ac yr ydych chi wedi gwneud hynny trwy gyfweiliadau, yn cynnig eich cefnogaeth—. Ond mae angen egluro mai cefnogaeth bersonol yw honno, nid cefnogaeth y Llywodraeth. Ond mae gennych chi swyddogaeth, onid oes, Brif Weinidog, o ran gwneud yn siŵr ein bod yn siarad ag un llais ac yn cefnogi ein lluoedd arfog pan fyddant wedi eu hymrwymo i ymosodiadau ar y tir neu ymosodiadau awyr yn Syria. Onid oes gennych chi fel Prif Weinidog Cymru ran allweddol i'w chwarae o ran gwneud hynny?

13:47

**Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Well, the leader of the opposition is now saying that he is in favour of British ground forces being used in Syria.

Wel, mae arweinydd yr wrthblaid yn dweud nawr ei fod o blaid defnyddio lluoedd tir Prydain yn Syria.

13:47 **Andrew R.T. Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

No, anywhere in the world. Anywhere in the world.

Na, mewn unrhyw le yn y byd. Unrhyw le yn y byd.

13:47 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

That's what he's just said, and I do find that worrying, because that's certainly not my view, and certainly it's not the view of the Prime Minister, either, but that is exactly what he has just said. The view that I take is that I would not want to see British forces being in a position where politicians had not given sufficient thought to what those forces were there to do, and it means ensuring, first of all, that we understand which sides are being supported in Syria, and which ground forces. The Prime Minister has not made that clear. Are we looking at the Peshmerga and the Free Syrian Army? Are we looking at any others? Because there are forces more moderate than ISIL in Syria, but they're not people who we would regard as moderate in terms of the people who support them. He's right to point out that Daesh—call them what we want, Islamic State—need to be eradicated, but air strikes will not do that on their own. They will target, it's true, some in that organisation, but civilians will also get hurt. Now, it's important to understand that air strikes are a part of what needs to be a far bigger and broader plan. They are not sufficient on their own. The only way in which you remove ground forces is to support ground forces, perhaps through air strikes, but, ultimately, thinking about what happens at the end. The reason why Syria has been destabilised is because there's not been a coherent and consistent international view as to which side or sides should be supported in the ground war. Until that's clear, it's very difficult to see what air strikes would achieve beyond creating a situation where Daesh remains on the ground, but we see more and more civilian casualties. If there's evidence to suggest that it would support ground forces in their objective of ridding that part of the world of Daesh, if there's evidence to suggest that it would shorten the conflict, if there's evidence to suggest that it would lead to a plan for peace in Syria, then, if that evidence is strong enough, as I have said, I would personally support air strikes. But that evidence is not yet there, and my concern is that too much emphasis is being given to air strikes and not enough to what needs to be done in order to bring peace to Syria.

Dyna'r hyn y mae newydd ei ddweud, ac mae hynny'n peri pryder i mi, oherwydd nid dyna fy marn i yn sicr, ac nid dyna farn Prif Weinidog y DU, chwaith, ond dyna'n union y mae newydd ei ddweud. Rwyf i o'r farn na fyddwn i eisiau gweld lluoedd Prydain mewn sefyllfa lle nad yw gwleidyddion wedi rhoi digon o ystyriaeth i'r hyn y byddai'r lluoedd hynny yno i'w wneud, ac mae'n golygu sicrhau, yn gyntaf oll, ein bod yn deall pa ochrau sy'n cael eu cefnogi yn Syria, a pha luoedd ar y tir. Nid yw Prif Weinidog y DU wedi gwneud hynny'n eglur. A ydym ni'n edrych ar y Peshmerga a Byddin Rydd Syria? A ydym ni'n edrych ar unrhyw rai eraill? Oherwydd mae grymoedd mwy cymedrol nag ISIL yn Syria, ond nid ydynt yn bobl y byddem yn eu hystyried yn gymedrol o ran y bobl sy'n eu cefnogi. Mae'n iawn i nodi bod angen dileu Daesh—beth bynnag yr ydym ni am eu galw nhw, y Wladwriaeth Islamaidd—ond ni fydd cyrchoedd awyr yn gwneud hynny ar eu pen eu hunain. Byddant yn targedu, mae'n wir, rhai yn y sefydliad hwnnw, ond bydd sifiliaid yn cael eu hanafu hefyd. Nawr, mae'n bwysig deall bod cyrchoedd awyr yn rhan o'r hyn y mae angen iddo fod yn gynllun llawer mwy ac ehangach. Nid ydynt yn ddigonol ar eu pen eu hunain. Yr unig ffordd y byddwch chi'n cael gwared ar luoedd ar y tir yw cefnogi lluoedd tir, efallai trwy gyrchoedd awyr, ond, yn y pen draw, gan feddwl am yr hyn sy'n digwydd ar y diwedd. Y rheswm pam mae Syria wedi cael ei ansefydlogi yw oherwydd na fu barn ryngwladol gydlynol a chyson o ran pa ochr neu ochrau y dylid eu cefnogi yn y rhyfel ar y tir. Tan y bydd hynny'n eglur, mae'n anodd iawn gweld beth fyddai cyrchoedd awyr yn ei gyflawni y tu hwnt i greu sefyllfa lle mae Daesh yn parhau i fod ar y tir, ond ein bod ni'n gweld mwy a mwy o sifiliaid yn cael eu hanafu. Os oes tystiolaeth i awgrymu y byddai'n cefnogi lluoedd tir yn eu nod o gael gwared ar Daesh o'r rhan honno o'r byd, os oes tystiolaeth i awgrymu y byddai'n lleihau'r gwrthdaro, os oes tystiolaeth i awgrymu y byddai'n arwain at gynllun ar gyfer heddwch yn Syria, yna, os yw'r dystiolaeth honno'n ddigon cryf, fel y dywedais, byddwn i'n bersonol yn cefnogi cyrchoedd awyr. Ond nid yw'r dystiolaeth honno yno eto, a fy mhryder i yw bod gormod o bwyslais yn cael ei roi ar gyrchoedd awyr a dim digon ar yr hyn y mae angen ei wneud i ddod â heddwch i Syria.

13:49 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Finally, the leader of Plaid Cymru, Leanne Wood.

Yn olaf, arweinydd Plaid Cymru, Leanne Wood.

- 13:50 **Leanne Wood** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)  
*Arweinydd Plaid Cymru / The Leader of Plaid Cymru*  
First Minister, you've gone on record with your views on the situation in Syria, and I think it's entirely appropriate that you've done that, especially as Wales will be affected in terms of troops, in terms of the involvement of Welsh services in terms of dealing with the refugee crisis, and also the security risk to Welsh communities. You've gone on record as saying that you would only consider supporting UK airstrikes in Syria if there was a plan in place for peace and stability. Do you agree with me now, then, that the Prime Minister's statement last week on proposals for UK airstrikes falls short of those tests?
- Brif Weinidog, r ydych wedi mynd ar goedd gyda'ch barn ar y sefyllfa yn Syria, ac rwy'n credu ei bod yn gwbl briodol eich bod wedi gwneud hynny, yn enwedig gan y bydd Cymru'n cael ei heffeithio o ran milwyr, o ran y cyfranogiad gwasanaethau Cymru i ymdrin â'r argyfwng ffoaduriaid, a hefyd y risg diogelwch i gymunedau Cymru. Rydych chi wedi mynd ar goedd i ddweud na fydddech ond yn ystyried cefnogi cyrchoedd awyr gan y DU yn Syria pe byddai cynllun ar waith ar gyfer heddwch a sefydlogrwydd. A ydych chi'n cytuno â mi nawr, felly, bod datganiad y Prif Weinidog yr wythnos diwethaf ar gynigion ar gyfer cyrchoedd awyr y DU yn methu'r profion hynny?
- 13:50 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)  
*Y Prif Weinidog / The First Minister*  
As I've said over the last few days, I don't believe that there is sufficient evidence there yet to support airstrikes.
- Fel yr wyf wedi ei ddweud dros y diwrnodau diwethaf, nid wyf yn credu bod digon o dystiolaeth yno eto i gefnogi cyrchoedd awyr.
- 13:50 **Leanne Wood** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)  
Thank you for your answer, First Minister. As of 27 November, you said that you'd not been privy to any discussion at UK level within your party on the proposals for UK airstrikes on Syria. Have you been involved in any discussions since, and have you had any discussions with the Labour Party in Wales on this matter?
- Diolch i chi am eich ateb, Brif Weinidog. Ar 27 Tachwedd, dywedasoch nad oeddech wedi bod yn rhan o unrhyw drafodaeth ar lefel y DU o fewn eich plaid ar y cynigion ar gyfer cyrchoedd awyr y DU yn Syria. A ydych chi wedi bod yn rhan o unrhyw drafodaethau ers hynny, ac a ydych chi wedi cael unrhyw drafodaethau gyda'r Blaid Lafur yng Nghymru ar y mater hwn?
- 13:51 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)  
*Y Prif Weinidog / The First Minister*  
No. There's a free vote on this issue at Westminster, so each Member of Parliament will make up his or her own mind as to how they wish to vote.
- Naddo. Mae pleidlais rydd ar y mater hwn yn San Steffan, felly bydd pob Aelod Seneddol yn gwneud ei benderfyniad ei hun o ran sut y mae'n dymuno pleidleisio.
- 13:51 **Leanne Wood** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)  
Okay. Well, thank you for your answer, First Minister. In your public remarks, you've said that we must learn the lessons from the Iraq war, and I would agree with you on that point. At the time, back in 2003, your predecessor said that he did not have a view on that war, and I welcome the fact that you, at least, have gone on record as the UK considers yet again intervening in the middle east. On this occasion, then, will the Welsh Government join other parties and other devolved administrations, if possible, in opposing the proposed bombing of Syria, and will you appeal directly to the Prime Minister to reconsider his Government's plans to bomb that country?
- Iawn. Wel, diolch am eich ateb, Brif Weinidog. Yn eich sylwadau cyhoeddus, rydych chi wedi dweud bod yn rhaid i ni ddysgu gwersi o'r rhyfel yn Irac, a byddwn yn cytuno â chi ar y pwynt hwnnw. Ar y pryd, yn ôl yn 2003, dywedodd eich rhagflaenydd nad oedd ganddo farn ar y rhyfel hwnnw, ac rwy'n croesawu'r ffaith eich bod chi, o leiaf, wedi mynd ar goedd wrth i'r DU ystyried ymyrryd yn y dwyrain canol unwaith eto. Y tro hwn, felly, a wnaiff Llywodraeth Cymru ymuno â phleidiau eraill a gweinyddiaethau datganoledig eraill, os yw'n bosibl, i wrthwynebu bomio arfaethedig Syria, ac a wnewch chi apelio'n uniongyrchol i Brif Weinidog y DU i ailystyried cynlluniau ei Lywodraeth i fomio'r wlad honno?

13:52

**Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

First of all, it wasn't my understanding that her party, nor indeed the SNP, who made the announcement some days beforehand, were actually against airstrikes in principle—namely that the evidence would be considered. It is clear from her views, and I understand that, that she doesn't feel that the evidence is strong enough to justify those airstrikes, and that's a position that I also share.

Nevertheless, I do take the view that, as the UK Parliament considers this issue, it should consider the issue of how to bring peace to Syria in the broadest possible sense. Airstrikes, it could be argued, can suppress the capacity for terrorist attacks, but they cannot remove the capacity for terrorist attacks; that can only be done by removing the threat on the ground.

I have to say, at this moment in time, I don't believe that there is sufficient evidence before Parliament, or, indeed, the people of Wales and the people of the UK, to suggest that airstrikes on their own would act in a way to shorten the war and remove the threat of Daesh, nor do I believe that there is sufficient information that would allow us to conclude that support is being given to a substantial ground force. The Prime Minister's talked about 70,000; it's not clear where those 70,000 ground forces are or which organisations they represent. So, at this moment in time, I have to say that I don't think the evidence is there to justify airstrikes. That evidence may strengthen in the days and weeks to come, but at this moment in time it's not there.

Yn gyntaf oll, nid fy nealltwriaeth i oedd bod ei phlaid hi, nac yn wir yr SNP, a wnaeth y cyhoeddiad rai diwrnodau ynghynt, yn erbyn cyrchoedd awyr mewn egwyddor—sef y byddai'r dystiolaeth yn cael ei hystyried. Mae'n amlwg o'i barn, ac rwy'n deall hynny, nad yw'n teimlo bod y dystiolaeth yn ddigon cryf i gyfiawnhau'r cyrchoedd awyr hynny, ac mae hwnnw'n safbwynt yr wyf innau hefyd yn ei rannu. Er hynny, rwyf o'r farn, wrth i Senedd y DU ystyried y mater hwn, y dylai ystyried y mater o sut i ddod â heddych i Syria yn yr ystyr ehangaf posibl. Gellid dadlau y gall cyrchoedd awyr leihau gallu terfysgwyr i wneud ymosodiadau, ond ni allant gael gwared ar allu terfysgwyr i wneud ymosodiadau; gellir gwneud hynny dim ond trwy gael gwared ar y bygythiad ar lawr gwlad.

Mae'n rhaid i mi ddweud, ar hyn o bryd, nad wyf yn credu bod digon o dystiolaeth gerbron y Senedd, nac, yn wir, pobl Cymru a phobl y DU, i awgrymu y byddai cyrchoedd awyr ar eu pen eu hunain yn gweithredu mewn ffordd a fyddai'n cwtogi'r rhyfel a chael gwared ar fygythiad Daesh, ac nid wyf yn credu ychwaith bod digon o wybodaeth a fyddai'n ein galluogi i ddod i'r casgliad bod cefnogaeth yn cael ei rhoi i luoedd sylweddol ar y tir. Soniodd y Prif Weinidog y DU am 70,000; nid yw'n eglur ble mae'r lluoedd tir hynny o 70,000, na pha sefydliadau y maen nhw'n eu cynrychioli. Felly, ar hyn o bryd, mae'n rhaid i mi ddweud nad wyf yn credu bod y dystiolaeth yno i gyfiawnhau cyrchoedd awyr. Efallai y bydd y dystiolaeth honno'n cryfhau yn y diwrnodau a'r wythnosau i ddod, ond nid yw yno ar hyn o bryd.

13:53

**Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

We now move back to questions on the paper, and question 3 is Lynne Neagle.

Symudwn yn ôl at gwestiynau ar y papur nawr, a daw cwestiwn 3 gan Lynne Neagle.

**Adolygiad o Wariant Llywodraeth y DU**

**The UK Government Spending Review**

13:53

**Lynne Neagle** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

*3. A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am effaith bosibl adolygiad o wariant Llywodraeth y DU ar lywodraeth leol yng Nghymru? OAQ(4)2611(FM)*

*3. Will the First Minister make a statement on the potential impact of the UK Government's spending review on local government in Wales? OAQ(4)2611(FM)*

13:53

**Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Yes. We are currently considering the implications of the announcement. Further details will be provided on 9 December, with the publication of the provisional local government settlement.

Gwnaf. Rydym ni wrthi'n ystyried goblygiadau'r cyhoeddiad. Bydd rhagor o fanylion yn cael eu darparu ar 9 Rhagfyr, trwy gyhoeddi setliad llywodraeth leol dros dro.

13:53

**Lynne Neagle** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

First Minister, last week's spending review delivered little more than smoke and mirrors for working families, another revenue funding cut for Wales, and signalled the decimation of local government in England. This Welsh Labour Government has always worked hard to protect local government, and in particular social services, recognising as we do that the health service and social services are inextricably linked and that you can't protect one without looking after the other. What assurances can you give today that, despite the savage cuts over the border, protecting local government, and in particular social services, will continue to be a priority for this Welsh Labour Government?

Brif Weinidog, darparodd adolygiad o wariant yr wythnos ddiwethaf fawr mwy na mwg a drychau i deuluoedd sy'n gweithio, toriad cyllid refeniw arall i Gymru, gan ddifa llywodraeth leol yn Lloegr. Mae'r Llywodraeth Lafur Cymru hon wedi gweithio'n galed erioed i amddiffyn llywodraeth leol, a gwasanaethau cymdeithasol yn arbennig, gan gydnabod fel yr ydym bod y gwasanaeth iechyd a gwasanaethau cymdeithasol wedi'u cysylltu'n annatod ac na allwch chi amddiffyn un heb ofalu am y llall. Pa sicrwydd allwch chi ei roi heddiw, er gwaetha'r toriadau llym dros y ffin, y bydd diogelu llywodraeth leol, a gwasanaethau cymdeithasol yn arbennig, yn parhau i fod yn flaenoriaeth i'r Llywodraeth Lafur Cymru hon?

13:54

**Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

We will look to protect local government and the services that local government provides to the best of our financial ability. But I don't know whether talking about local government in England is actually a proper description anymore—I'm not sure local government will exist in England in the next few years. With the substantial cuts that are occurring in local government there, it's difficult to see what councils will actually do. We know that council tax will increase substantially in England over the next few years to pay for social care. What's pernicious about what the Chancellor has suggested is this: he is abdicating the responsibility of UK Government to pay for social services in England, and, secondly, he is saying that councils have to raise their own money if they want to provide social services in their own areas. That means that the poorer areas that don't have a substantial council tax base will not be able to provide the services to a population that probably will need those services more. You begin to ask yourself, if there is no mechanism, or if the mechanism for redistributing money around the UK from the richest to the poorest areas is being eroded, where does that leave the concept of the UK?

Ein nod fydd amddiffyn llywodraeth leol a'r gwasanaethau y mae llywodraeth leol yn eu darparu hyd eithaf ein gallu ariannol. Ond nid wyf yn gwybod a yw siarad am llywodraeth leol yn Lloegr yn ddisgrifiad cywir mwyach—nid wyf yn siŵr y bydd llywodraeth leol yn bodoli yn Lloegr yn y blynyddoedd nesaf. Gyda'r toriadau sylweddol sy'n digwydd mewn llywodraeth leol yno, mae'n anodd gweld beth fydd cynghorau'n ei wneud mewn gwirionedd. Rydym ni'n gwybod y bydd y dreth gyngor yn cynyddu'n sylweddol yn Lloegr dros y blynyddoedd nesaf i dalu am ofal cymdeithasol. Yr hyn sy'n niweidiol am yr hyn y mae'r Canghellor wedi ei awgrymu yw hyn: mae'n iildio cyfrifoldeb Lywodraeth y DU i dalu am wasanaethau cymdeithasol yn Lloegr, ac, yn ail, mae'n dweud bod yn rhaid i gynghorau godi eu harian eu hunain os ydyn nhw eisiau darparu gwasanaethau cymdeithasol yn eu hardaloedd eu hunain. Mae hynny'n golygu na fydd yr ardaloedd tlotach nad oes ganddynt sail treth gyngor sylweddol yn gallu darparu'r gwasanaethau i boblogaeth y mae'n debyg fydd â mwy o angen am y gwasanaethau hynny mwy. Rydych chi'n dechrau gofyn i'ch hunan, os nad oes mecanwaith, neu os yw'r mecanwaith ar gyfer aiddosbarthu arian o gwmpas y DU o'r ardaloedd cyfoethocaf i'r tlotaf yn cael ei erydu, lle mae hynny'n gadael cysyniad y DU?

13:55

**Janet Finch-Saunders** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Meanwhile, back to Wales. First Minister, given the increase in cash terms in funding coming to Wales over the next four years and the calls yesterday from the leader of Denbighshire County Council for you to apply the same principles to local government, what guarantees are you now able to make in terms of a fair settlement for local government budgets here in Wales?

Yn y cyfamser, yn ôl i Gymru. Brif Weinidog, o ystyried y cynnydd o ran arian parod sy'n dod i Gymru dros y pedair blynedd nesaf a'r galwadau ddoe gan arweinydd Cyngor Sir Ddinbych i chi ddefnyddio'r un egwyddorion ar gyfer llywodraeth leol, pa sicrwydd allwch chi ei roi nawr o ran setliad teg ar gyfer cyllidebau llywodraeth leol yma yng Nghymru?

13:56

**Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Well, I can assure the leader of Denbighshire we won't be applying the principles of the UK Government when it comes to English local government; I give him that assurance without any shadow of a doubt. Secondly, the Member is not correct in her assumption. This is a 4.5 per cent cut in our budget in Wales, not some sort of great increase in the budget. Only a Tory could interpret a 4.5 per cent cut as a good thing, or an increase, but there it is. Now, we will look at the financial settlement and the statement will be made on 9 December, but we will not be looking to slash local government funding as in England, and we will not be looking to transfer the burden of paying for social care onto local government in Wales, as is being done in England.

Wel, gallaf sicrhau arweinydd Sir Ddinbych na fyddwn yn defnyddio egwyddorion Llywodraeth y DU pan ddaw i lywodraeth leol yn Lloegr; rhoddaf y sicrwydd hwnnw iddo heb unrhyw amheuaeth. Yn ail, nid yw'r Aelod yn gywir yn ei thybiaeth. Mae hwn yn doriad o 4.5 y cant i'n cyllideb yng Nghymru, nid rhyw fath o gynydd mawr yn y gyllideb. Dim ond Ceidwadwr allai ddehongli toriad o 4.5 y cant fel rhywbeth da, neu gynydd, ond dyna ni. Nawr, byddwn yn edrych ar y setliad ariannol a bydd y datganiad yn cael ei wneud ar 9 Rhagfyr, ond nid ydym yn bwriadu torri cyllid llywodraeth leol fel yn Lloegr, ac nid ydym yn bwriadu trosglwyddo'r baich o dalu am ofal cymdeithasol i lywodraeth leol yng Nghymru, fel sy'n cael ei wneud yn Lloegr.

13:56

**Rhodri Glyn Thomas** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Brif Weinidog, ni fyddwn yn anghytuno â'r hyn rydych chi'n ei ddweud ynglŷn ag effaith y toriadau o San Steffan ar gyllideb Llywodraeth Cymru, ond fe fyddwn am glywed beth yn union yw'ch gweledigaeth chi ynglŷn â llywodraeth leol yng Nghymru. A ydych chi'n gweld llywodraeth leol fel rhywbeth sy'n crebachu dros y degawd nesaf, a'i gwasanaethau i'r bobl yn lleihau, neu a oes gennych chi weledigaeth ehangach am lywodraeth leol yng Nghymru?

First Minister, I wouldn't disagree with what you say about the impact of the Westminster cuts on the Welsh Government budget, but I would wish to hear what exactly your vision will be for local government in Wales. Do you view local government as something that will contract over the next decade, with services to people being reduced, or do you have a broader vision for local government in Wales?

13:57

**Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Gyda'r strwythur iawn, a mwy o ddatganoli pwerau i lywodraeth leol—nid dim ond i'r siroedd, ond i gynghorau trefol a chynghorau cymunedol hefyd—. Felly, na, rwy'n gweld datganoli'n cymryd lle gyda'r strwythur iawn dros y blynyddoedd nesaf.

With the right structure, and more devolution of powers to local authorities—not only to the counties, but also to town councils and community councils too—. So, no, I see devolution happening with the right structure in place over the next few years.

13:57

**Eluned Parrott** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I was glad to hear your answer, First Minister, that you want to see devolution of more powers to local authorities. One of the powers we've discussed previously is to give them more control over business rates and enable them to incentivise economic development and grow additional revenues, given the very difficult circumstances. When will the Welsh Government, then, take steps towards this devolution of business rates and enable local authorities to do this?

Roeddwn i'n falch o glywed eich ateb, Brif Weinidog, eich bod eisiau gweld datganoli mwy o bwerau i awdurdodau lleol. Un o'r pwerau yr ydym ni wedi eu trafod yn y goffennol yw rhoi mwy o reolaeth iddyn nhw dros ardrethi busnes a'u galluogi i gymell datblygiad economaidd a thyfu referniw ychwanegol, o gofio'r amgylchiadau anodd iawn. Pryd y bydd llywodraeth Cymru, felly, yn cymryd camau tuag at y datganoli hwn o ardrethi busnes a galluogi awdurdodau lleol i wneud hyn?

13:57

**Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Well, two points: as I've said before, the structure needs to be right first, and I don't believe that it is. Secondly, I would be very wary of devolving business rates wholly to local government—I can see the Member nodding—the reason being, of course, that we estimate that 17 local authorities out of 22 would end up with less money. So, Monmouthshire, for example, would be £4.3 million down, if business rates were raised and wholly retained within Monmouthshire. So, there has to be a mechanism in place to redistribute money, rather than saying to local authorities, 'You raise and you keep'.

Wel, dau bwynt: fel yr wyf wedi ei ddweud o'r blaen, mae angen i'r strwythur fod yn iawn yn gyntaf, ac nid wyf yn credu ei fod. Yn ail, byddwn yn wylidwrus iawn o ddatganoli ardrethi busnes yn gyfan gwbl i lywodraeth leol—gallaf weld yr Aelod yn amneidio—y rheswm, wrth gwrs, yw ein bod yn amcangyfrif y byddai gan 17 o awdurdodau lleol allan o 22 lai o arian yn y pen draw. Felly, byddai gan Sir Fynwy, er enghraifft, £4.3 miliwn yn llai, pe byddai ardrethi busnes yn cael eu codi a'u cadw yn gyfan gwbl o fewn Sir Fynwy. Felly, mae'n rhaid cael mecanwaith ar waith i aiddosbarthu arian, yn hytrach na dweud wrth awdurdodau lleol, 'Rydych chi'n codi ac yn cadw'.

13:58 **Mick Antoniw** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

First Minister, the most disgraceful part of the Tory spending review is the failure to make any financial provision whatsoever to support adult social care. In Wales, the Conservatives are arguing for a ring-fencing of health spending, but at the expense of social care. Do you believe that the Tories in Wales—? Is it your view that they have now abandoned adult social care in Wales and thrown our vulnerable adults to the wolves?

Brif Weinidog, y rhan fwyaf gwarthus o adolygiad o wariant y Torïaid yw'r methiant i wneud unrhyw ddarpariaeth ariannol o gwbl i gefnogi gofal cymdeithasol i oedolion. Yng Nghymru, mae'r Ceidwadwyr yn dadlau o blaid neilltuo gwariant ar iechyd, ond ar draul gofal cymdeithasol. A ydych chi'n credu bod y Torïaid yng Nghymru—? Ai'ch safbwynt chi yw eu bod wedi troi eu cefnau ar ofal cymdeithasol i oedolion yng Nghymru erbyn hyn ac yn taflu ein hoedolion agored i niwed i'r bleiddiaid?

13:59 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

We've long learned that, when it comes to policy, pretty much, when you see the Conservatives in Wales, it's 'for Wales, see England'. They basically copy what happens in England. Then we see in England adult social care being absolutely destroyed. Despite that, of course, we spend more on health per head in Wales than England does. We spend far more on health and social care in Wales than the Government in the UK does in England. So, we know that we spend more on education, on health, and on health and social care combined. That's what happens when you get a Labour Government, rather than the cutting instincts of the Tories.

Rydym ni wedi dysgu ers tro, pan ddaw'n fater o bolisi, fwy neu lai, pan welwch chi'r Ceidwadwyr yng Nghymru, ei bod yn 'ar gyfer Cymru, gweler Lloegr'. Maen nhw fwy neu lai'n ailadrodd yr hyn sy'n digwydd yn Lloegr. Yna, rydym ni'n gweld gofal cymdeithasol i oedolion yn cael ei ddinistrio'n llwyr yn Lloegr. Er gwaethaf hynny, wrth gwrs, yr ydym ni'n gwario mwy ar iechyd fesul pen yng Nghymru nag y mae Lloegr. Rydym ni'n gwario llawer mwy ar iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru nag y mae'r Llywodraeth yn y DU yn ei wneud yn Lloegr. Felly, rydym ni'n gwybod ein bod yn gwario mwy ar addysg, ar iechyd, ac ar iechyd a gofal cymdeithasol gyda'i gilydd. Dyna beth sy'n digwydd pan fyddwch chi'n cael Llywodraeth Lafur, yn hytrach na greddfau torri'r Torïaid.

## Gwasanaethau Bws

## Bus Services

13:59 **Kirsty Williams** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

*4. A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am argaeledd gwasanaethau bws ym Mrycheiniog a Sir Faesyfed? OAQ(4)2598(FM)*

*4. Will the First Minister make a statement on the availability of bus services in Brecon and Radnorshire? OAQ(4)2598(FM)*

13:59 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

We recognise the importance of effective and affordable bus services, and our commitment to improving the quality and accessibility of local bus services and community transport is set out in the national transport finance plan, which was published in July.

Rydym ni'n cydnabod pwysigrwydd gwasanaethau bws effeithiol a fforddiadwy, ac mae ein hymrwymiad i wella ansawdd a hygyrchedd gwasanaethau bws lleol a chluddiant cymunedol wedi ei nodi yn y cynllun cyllid trafniadaeth cenedlaethol, a gyhoeddwyd ym mis Gorffennaf.

13:59 **Kirsty Williams** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

First Minister, your plan seems to be greatly at odds with the decision by Powys County Council at the beginning of November to cut substantially bus services. It means there is no longer a town service in Builth Wells leaving many elderly people isolated in their own home, unable to get into town for their shopping. If you live in Trecastle, now there is no public transport whatsoever through that village: you can't get into Brecon and you can't travel to Llandoverly for services or for work purposes. What can your Government do to ensure communities like Builth Wells and Trecastle are not abandoned in terms of public transport, and what flexibility can you give to new ways of delivering publicly funded transport services in the community if large buses are no longer viable?

Brif Weinidog, mae'n ymddangos bod eich cynllun yn mynd yn gwbl groes i'r penderfyniad a wnaed gan Gyngor Sir Powys ddechrau mis Tachwedd i dorri gwasanaethau bws yn sylweddol. Mae'n golygu nad oes gwasanaeth tref yn Llanfair-ym-Muallt mwyach gan adael llawer o bobl oedranus wedi'u hynysu yn eu cartrefi eu hunain, yn methu â mynd i mewn i'r dref i siopa. Os ydych chi'n byw yn Nhref Castell, nid oes unrhyw gludiant cyhoeddus o gwbl drwy'r pentref erbyn hyn: ni allwch fynd i mewn i Aberhonddu ac ni allwch chi deithio i Lanymddyfri ar gyfer gwasanaethau neu at ddibenion gwaith. Beth all eich Llywodraeth ei wneud i sicrhau nad yw cymunedau fel Llanfair-ym-Muallt a Thre Castell yn cael eu hamddifadu o ran cludiant cyhoeddus, a pha hyblygrwydd allwch chi ei roi i ffyrdd newydd o ddarparu gwasanaethau cludiant a ariennir yn gyhoeddus yn y gymuned os nad yw bysiau mawr yn ymarferol mwyach?

14:00

**Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Yes, there are three things. First of all, that decision is for Powys to explain, because it is not a Welsh Government decision. Secondly, there are alternative modes of provision: the Bwcabus service has been widely used in Carmarthenshire and elsewhere now for some time in communities with a similar population density. I don't know the extent or whether such a service exists in Powys but that is something the council needs to look at, it would seem to me, because others have done it successfully and that's worked in very rural communities. Of course, in the medium term, powers over bus regulation will rest here, and that will make it easier in terms of being able to direct where bus services should run in the future.

Ie, mae tri pheth. Yn gyntaf oll, cyfrifoldeb Powys yw esbonio'r penderfyniad hwnnw, gan nad yw'n benderfyniad Llywodraeth Cymru. Yn ail, ceir dulliau darparu eraill: mae'r gwasanaeth Bwcabus wedi cael ei ddefnyddio'n eang yn Sir Gaerfyrddin ac mewn mannau eraill ers cryn amser erbyn hyn, mewn cymunedau â dwysedd poblogaeth tebyg. Nid wyf yn gwybod a oes gwasanaeth o'r fath yn bodoli ym Mhowys nac i ba raddau, ond mae hynny'n rhywbeth y mae angen i'r cyngor ei ystyried, mae'n ymddangos i mi, gan fod eraill wedi ei wneud yn llwyddiannus, ac mae hynny wedi gweithio mewn cymunedau gwledig iawn. Wrth gwrs, yn y tymor canolig, bydd pwerau dros reoleiddio bysiau yn gorwedd yma, a bydd hynny'n ei gwneud yn haws o ran gallu cyfarwyddo lle y dylai gwasanaethau bws redeg yn y dyfodol.

14:01

**William Graham** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

First Minister, the Community Transport Association have highlighted the need for stable, long-term funding for the community transport sector and, in particular, the impact of the reduction in the minimum ring-fenced funding by your Government's reduction of the bus service support grant by 50 per cent. Would you commit to looking again at this grant and, perhaps, devising an adequate strategy, which would give a much closer examination for bus services to all parts of rural Wales?

Brif Weinidog, mae'r Gymdeithas Cludiant Cymunedol wedi tynnu sylw at yr angen am gyllid sefydlog, hirdymor ar gyfer y sector cludiant cymunedol ac, yn arbennig, effaith y gostyngiad i'r isafswm cyllid wedi'i neilltuo yn sgil gostyngiad eich Llywodraeth i'r grant cymorth gwasanaethau bws gan 50 y cant. A wnech chi ymrwymo i edrych eto ar y grant hwn ac, efallai, llunio strategaeth briodol, a fyddai'n rhoi archwiliad llawer manylach i wasanaethau bws i bob rhan o Gymru wledig?

14:01

**Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Well, it does surprise me when I stand here week after week and hear every Tory ask for more money in every area, ignoring the fact—. He is not a culprit normally, I would say that to him. But we hear it every week, don't we: 'More money here, more money there' as if the cuts haven't actually happened. I believe it is exceptionally important for local authorities to look at the most cost-effective way of providing transport in their areas. Indeed, Carmarthenshire have done that with Bwcabus and I know, for example, that the Grass Routes project in Monmouthshire has been very successful in terms of delivering transport opportunities for rural communities.

Wel, mae'n fy synnu i pan fyddaf yn sefyll yma wythnos ar ôl wythnos ac yn clywed pob Ceidwadwr yn gofyn am fwy o arian ym mhob maes, gan anwybyddu'r ffaith—. Nid fe sy'n euog fel rheol, byddwn yn dweud hynny wrtho. Ond rydym ni'n ei glywed bob wythnos, onid ydym: 'Mwy o arian fan hyn, mwy o arian fan draw' fel petai'r toriadau heb ddigwydd. Rwy'n credu ei bod yn eithriadol o bwysig i awdurdodau lleol edrych ar y ffordd fwyaf cost-effeithiol o ddarparu cludiant yn eu hardaloedd. Yn wir, mae Sir Gaerfyrddin wedi gwneud hynny gyda Bwcabus a gwn, er enghraifft, bod y prosiect Grass Routes yn Sir Fynwy wedi bod yn llwyddiannus iawn o ran cyflwyno cyfleoedd cludiant i gymunedau gwledig.

## Meddygon Teulu yng Nghanolbarth Cymru

## General Practitioners in Mid Wales

14:02

**Russell George** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

*5. A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am sut y mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu annog meddygon teulu i weithio yng nghanolbarth Cymru? OAQ(4)2602(FM)*

*5. Will the First Minister make a statement on how the Welsh Government intends to incentivise GPs to practise in mid Wales? OAQ(4)2602(FM)*

14:02

**Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

The actions that need to be taken to support GPs are set out in our plan for the primary care workforce. Those actions include work to incentivise general practice, both in terms of entry into training and taking up practice in areas where there are shortages of doctors.

Mae'r camau y mae angen eu cymryd i gefnogi meddygon teulu wedi'u nodi yn ein cynllun ar gyfer y gweithlu gofal sylfaenol. Mae'r camau hynny'n cynnwys gwaith i gymell ymarfer cyffredinol, o ran mynediad at hyfforddiant ac agor meddygfeydd mewn ardaloedd lle mae prinder meddygon.

14:02

**Russell George** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Thank you for your answer, First Minister. There are currently five surgeries in Montgomeryshire which are attempting to recruit GPs. Over the past three years the medical practice in Newtown, for example, has spent thousands of pounds in recruitment trying to recruit, and not one suitable candidate has come forward. It is a very similar position in Llanidloes. There is a concern that surgeries are having to change their practices in a way that doesn't allow patients direct contact with GPs. In addition to the efforts of Powys teaching health board, will you commit the Welsh Government to promoting local GP vacancies on its website? I'd be grateful for your wider views on what other measures can be taken to incentivise GPs, specifically to mid Wales.

Diolch i chi am eich ateb, Brif Weinidog. Ceir pum meddygfa yn Sir Drefaldwyn ar hyn o bryd sy'n ceisio recriwtio meddygon teulu. Dros y tair blynedd diwethaf, mae'r feddygfa deulu yn y Drenewydd, er enghraifft, wedi gwario miloedd o bunnoedd yn ceisio recriwtio, ac ni chafwyd yr un ymgeisydd addas. Mae'r sefyllfa yn debyg iawn yn Llanidloes. Ceir pryder bod meddygfeydd yn gorfod newid eu harferion mewn ffordd nad yw'n caniatáu cysylltiad uniongyrchol â meddygon teulu i gleifion. Yn ogystal ag ymdrechion bwrdd iechyd addysgu Powys, a wnewch chi ymrwymo Llywodraeth Cymru i hyrwyddo swyddi meddygon teulu gwag lleol ar ei gwefan? Byddwn yn ddiolchgar am eich barn ehangach ar ba fesurau eraill y gellid eu cymryd i gymell meddygon teulu, yn benodol i'r canolbarth.

14:04

**Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

First of all, of course, the mid Wales health collaborative is working well. It had its first meeting on 23 November, I understand, and that's being supported in terms of the work that that is taking forward. I know that the health board is working with practices in Machynlleth and Newtown. A number of solutions are being implemented to support those practices, including workload support, through the deployment of pharmacists, advance nurse practitioners and physiotherapists, with clinical triage being undertaken by advanced nurse practitioners. I know that the health board has been working with the community health council and the local medical committee to ensure that applications through the GP sustainability assessment framework are assessed and addressed rapidly. So, good work is being done to ensure the sustainability of practices in Powys and, indeed, elsewhere. They are also looking at different models for delivering primary care services, for example, allowing GP practices to deliver different services, social enterprises—there are a number of ways in which they're looking to vary the service as far as attracting GPs is concerned, but also, of course, to improve the service for patients.

Yn gyntaf oll, wrth gwrs, mae menter iechyd gydweithredol y canolbarth yn gweithio'n dda. Cafodd ei chyfarfod cyntaf ar 23 Tachwedd, rwy'n deall, ac mae hynny'n cael ei gefnogi o ran y gwaith y mae hynny'n ei gyflawni. Gwn fod y bwrdd iechyd yn gweithio gyda meddygfeydd ym Machynlleth a'r Drenewydd. Mae nifer o atebion yn cael eu rhoi ar waith i gefnogi'r meddygfeydd hynny, gan gynnwys cymorth llwyth gwaith, trwy ddefnyddio fferyllwyr, ymarferwyr nyrsio uwch a ffisiotherapyddion, wrth i frysbenno clinigol gael ei gyflawni gan ymarferwyr nyrsio uwch. Gwn fod y bwrdd iechyd wedi bod yn gweithio gyda'r cyngor iechyd cymuned a'r pwyllgor meddygol lleol i sicrhau bod ceisiadau drwy'r fframwaith asesu cynaliadwyedd meddygon teulu yn cael eu hasesu ac yn cael sylw'n gyflym. Felly, mae gwaith da'n cael ei wneud i sicrhau cynaliadwyedd meddygfeydd ym Mhowys ac, yn wir, mewn mannau eraill. Maen nhw hefyd yn ystyried gwahanol fodolau ar gyfer darparu gwasanaethau gofal sylfaenol, er enghraifft, gan ganiatáu i feddygfeydd teulu ddarparu gwahanol wasanaethau, mentrau cymdeithasol—ceir nifer o ffyrdd y maen nhw'n ceisio amrywio'r gwasanaeth cyn belled ag y mae denu meddygon teulu yn y cwestiwn, ond hefyd, wrth gwrs, i wella'r gwasanaeth i gleifion.

## Dyfodol S4C

## The Future of S4C

14:04

**Elin Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

*6. Pa drafodaethau y mae'r Prif Weinidog wedi'u cael gyda Llywodraeth y DU am ddyfodol S4C? OAQ(4)2606(FM)[W]*

*6. What discussions has the First Minister had with the UK Government on the future of S4C? OAQ(4)2606(FM)[W]*

14:05

**Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Ysgrifennais ato yn ddiweddar ynglŷn ag S4C yn galw am adolygiad brys o S4C a oedd wedi cael ei addo gan Lywodraeth y Deyrnas Unedig. Rwyf hefyd wedi ysgrifennu ato yn gofyn am gyfarfod brys i drafod S4C a materion darlledu eraill.

I recently wrote him regarding S4C, calling for an urgent review of S4C, which had been promised by the UK Government. I have also written to him asking for an urgent meeting to discuss S4C and other broadcasting matters.

- 14:05 **Elin Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)  
 Diolch, Brif Weinidog. Wythnos diwethaf, byddwch yn gwybod bod George Osborne wedi torri 26 y cant o gyllideb DCMS tuag at S4C, tra bod yr Ysgrifennydd Gwladol, John Whittingdale, a oedd yn gyfrifol am hynny, yn brolio ei fod wedi llwyddo i gadw cyllideb ar gyfer y celfyddydau yn Lloegr yn ddi-dor, ond yn trin S4C mewn ffordd cwbl wahanol. Chi yw'r Gweinidog gyda chyfrifoldeb dros y Gymraeg, ac rwy'n credu ei bod yn wir i ddweud bod dyfodol darlledu yn y Gymraeg yn y fantol ar hyn o bryd, ac felly rwy'n croesawu'r ffaith eich bod wedi ysgrifennu yn gofyn am gyfarfod gyda John Whittingdale. Rwy'n credu ei bod yn hollbwysig nawr bod yr Ysgrifennydd Gwladol yn derbyn y cais yna a bod y cyfarfod yn digwydd, er mwyn newid y penderfyniad yma a rhoi sail ddiogel ar gyfer cyllido S4C i'r dyfodol. Dyna beth addawodd y Torïaid yn eu manifesto cyn yr etholiad. Mae'n bwysig iddyn nhw gadw at eu haddewid ac i chi gynnal y cyfarfod pwysig yna.
- Thank you, First Minister. Last week, you will know that George Osborne cut 26 per cent of the DCMS budget for S4C, while the Secretary of State, John Whittingdale, who is responsible for that, was boasting that he had managed to retain the budget for the arts in England without any cut, but treated S4C in an entirely different way. You are the Minister with responsibility for the Welsh language, and I think it's true to say that the future of Welsh-language broadcasting is in the balance at present, and therefore I welcome the fact that you have written, asking for a meeting with John Whittingdale. I think it is crucially important now that the Secretary of State accepts that request for a meeting and that that takes place, in order to overturn this decision and to provide a safe funding basis for S4C in the future. That's what the Tories pledged in their manifesto prior to the election. It's important that they keep to their promise and for you to hold that important meeting.
- 14:06 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)  
*Y Prif Weinidog / The First Minister*  
 Ynglŷn â'r sŵn rwy'n ei glywed o feinciau'r Torïaid—
- As regards the noise that I hear from the Tory benches—
- 14:06 **Elin Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)  
 Maen nhw'n dawel iawn.
- They're very quiet.
- 14:06 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)  
*Y Prif Weinidog / The First Minister*  
 Maen nhw'n dawel, neu yn dweud nad oedd addewid wedi cael ei wneud. Ond fe glywon nhw'r addewid yna yn cael ei roi. Beth sy'n bwysig yw bod yna setliad cynaliadwy ynglŷn ag ariannu S4C—nid yw hynny'n wir ar hyn o bryd—a'n bod ni'n gweld yr addewid ynglŷn ag S4C yn cael ei gadw. Felly, rydym yn aros nawr i glywed ateb yr Ysgrifennydd Gwladol ynglŷn â chael cyfarfod i sicrhau dyfodol S4C.
- They are quiet, or they are denying that such a pledge was made. But they did hear that pledge being made. What's clear is that we should have a sustainable settlement for the funding of S4C—which isn't the case at the moment—and that we see the pledge on S4C being kept. So, we now await the response of the Secretary of State on whether we can have a meeting to secure the future of S4C.
- 14:06 **Suzy Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)  
 Diolch i'r Prif Weinidog am ei eiriau. Er gwaethaf cyhoeddiad rhagorol arall yn yr adolygiad gwariant, rydym yn rhannu siom Aelodau ynghylch y cynigion ar gyfer toriad uniongyrchol, anghymesur i gyllid S4C. Gallwn eich sicrhau y bydd y Ceidwadwyr Cymreig yn gwneud sylwadau i Lywodraeth y Deyrnas Unedig hefyd i gyflwyno'r achos dros beidio â gweithredu'r cynigion hynny. A ydych chi'n cytuno bod llais unedig ar hyn yn debygol o gael y pwys mwyaf, a bod yr amcan yn bwysicach na gwneud pwyntiau lleol gwleidyddol?
- Thank you to the First Minister for his words. Despite the excellent statement made in the spending review, we share Members' disappointment on the proposals for a direct and disproportionate cut to the budget of S4C. We can assure you that the Welsh Conservatives will be making representations to the UK Government too, to make the case for not implementing those proposals. Do you agree that a united voice on this issue is likely to have the greatest effect, and that the objective is more important than making localised political points?
- 14:07 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)  
*Y Prif Weinidog / The First Minister*  
 Rwy'n gweld bod dylanwad Guto Bebb yn gryf yn y Torïaid ynglŷn â beth roedd wedi ei drydaru ynglŷn â'r pwnc hwn. Rwy'n croesawu'r ffaith bod yna feiriadaeth gref gan y Ceidwadwyr Cymreig ynglŷn â beth sydd wedi digwydd gyda S4C, ac rwy'n siŵr eu bod nhw'n gefnogol iawn i sicrhau bod yna gyfarfod yn cymryd lle gyda'r Ysgrifennydd Gwladol er mwyn sicrhau dyfodol darlledu yn Gymraeg.
- I see that Guto Bebb's influence is very strong amongst the Conservatives in terms of what he's been tweeting on this issue. I welcome the fact that there is strong criticism from the Welsh Conservatives about what is happening to S4C, and I'm sure that they would be very supportive to ensure that a meeting takes place with the Secretary of State in order to secure the future of Welsh-language broadcasting.

14:08

**Jenny Rathbone** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

*7. Pa neges y mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu ei chyfleu i uwchgyhadledd newid hinsawdd y Cenhedloedd Unedig ym Mharis? OAQ(4)2612(FM)*

*7. What message does the Welsh Government intend to take to the UN Climate Change Summit in Paris? OAQ(4)2612(FM)*

14:08

**Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

We want to see an ambitious, legally binding global climate agreement, underpinned by transparency and accountability, which will deliver against the scientific imperative.

Rydym ni eisiau gweld, cytundeb hinsawdd byd-eang uchelgeisiol, sy'n rhwymo mewn cyfraith, wedi'i seilio ar dryloywder ac atebolrwydd, a fydd yn cyflawni yn erbyn y rheidrwydd gwyddonol.

14:08

**Jenny Rathbone** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

First Minister, you're probably aware that the UN global compact survey of world leaders indicates that a majority are very positive about the growth and innovation that can come from addressing the climate challenge, and that increases to 70 per cent amongst the top leaders in the world's biggest companies. Here in Wales, with the groundbreaking work we've been doing at the Low Carbon Research Institute, the development of the house as a power station and last week's launch of the compound semiconductor centre for Europe, which is all about developing sustainable technologies and more efficient energy generation, can we not be bold and promise some really clear targets for the Welsh Government that we could take to Paris—some interim targets up to 2020 for the fifth Assembly Government, as well as that 100 per cent by 2050?

Brif Weinidog, mae'n debyg eich bod yn ymwybodol bod arolwg compact byd-eang y Cenhedloedd Unedig o arweinwyr y byd yn dangos bod y mwyafrif yn gadarnhaol iawn am dwf ac arloesedd a all ddod o fynd i'r afael â her ym hinsawdd, ac mae hynny'n codi i 70 y cant ymhlith yr arweinwyr uchaf yng nghwmnïau mwyaf y byd. Yma yng Nghymru, gyda'r gwaith arloesol yr ydym ni wedi bod yn ei wneud yn y Sefydliad Ymchwil Carbon Isel, datblygiad y tŷ fel gorsaf bŵer a lansio canolfan lled-ddargludyddion Ewrop y llynedd, sydd â'r nod o ddatblygu technolegau cynaliadwy a chynhyrchu ynni'n fwy effeithlon, oni allwn ni fod yn feiddgar ac addo targedau gwirioneddol eglur i Lywodraeth Cymru y gallem ni fynd â nhw i Baris—targedau dros dro hyd at 2020 ar gyfer pumed Lywodraeth y Cynulliad, yn ogystal â'r 100 y cant yna erbyn 2050?

14:09

**Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

I think the important thing is that there is an international agreement. Whilst we can make our contribution in Wales, we are very small compared to the world's major emitters. What is encouraging is that, in the run-up to COP 21, we've seen a groundswell of momentum from businesses declaring their commitment to decarbonisation, and that's been the major difference between Paris and Copenhagen, where that wasn't really happening in the same way. It's one of the reasons why the UN now describe the transition to low carbon as inevitable and irreversible. As a Government, of course, we are committed to green growth and to maximising the benefits of the transition to low carbon for Wales. That was the approach that I outlined in 'Energy Wales: A Low Carbon Transition', and of course, we continue to look to deliver that.

Rwy'n meddwl mai'r peth pwysig yw bod cytundeb rhyngwladol. Er y gallwn ni wneud ein cyfraniad yng Nghymru, yr ydym ni'n fach iawn o gymharu â phrif allyrwyr y byd. Yr hyn sy'n galonogol, yn y cyfnod yn arwain at COP 21, yw ein bod wedi gweld ymchwydd o fomentwm gan fusnesau yn datgan eu hymrwymiad i ddatgarboneiddio, a dyna fu'r gwahaniaeth mawr rhwng Paris a Copenhagen, lle nad oedd hynny'n digwydd yn yr un ffordd mewn gwirionedd. Dyna un o'r rhesymau pam mae'r Cenhedloedd Unedig yn dweud erbyn hyn bod y newid i garbon isel yn anochel ac yn anghildroadwy. Fel Llywodraeth, wrth gwrs, rydym ni wedi ymrwymo i dwf gwyrdd, a sicrhau'r manteision mwyaf posibl i Gymru o newid i garbon isel. Dyna oedd y dull a amlinellais yn 'Ynni Cymru: Newid Carbon Isel', ac wrth gwrs, yr ydym ni'n parhau i geisio cyflawni hynny.

14:10 **Russell George** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

First Minister, you have previously said it will be a challenge to achieve your own Government's targets to reduce greenhouse gas emissions. The Welsh Government has cut its climate change budget by 6 per cent, and yet the UK Government has made a commitment to increase funding. Would you not agree that if the Welsh Government is to meet its target, then sufficient budgetary commitments do have to be attached to that target?

Brif Weinidog, rydych chi wedi dweud o'r blaen y bydd yn her i gyrraedd targedau eich Llywodraeth eich hun i leihau allyriadau nwyon tŷ gwydr. Mae Llywodraeth Cymru wedi torri ei chyllideb newid yn yr hinsawdd gan 6 y cant, ac eto mae Llywodraeth y DU wedi gwneud ymrwymiad i gynyddu cyllid. Oni fydddech chi'n cytuno, os yw Llywodraeth Cymru'n mynd i gyrraedd ei tharged, bod yn rhaid i ymrwymadau cyllidebol digonol fod ynghlwm wrth y targed hwnnw?

14:10 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

More money again—so how much money is going to be bid for in the course of the afternoon? DEFRA's budget has been hammered—if the Member hasn't noticed—in England, to the point that we are concerned about the services that DEFRA deliver in Wales. I do not see any commitment by the UK Government to promote renewable energy. I do not see any commitment by the UK Government to move to a low-carbon economy, otherwise why would they have cut subsidies to photovoltaic? Why would they have cut subsidies to wind? Why are they looking primarily to have more gas-fired power stations, importing the gas as they go? No, we need to make sure that we create more renewable energy, that we reduce our greenhouse gas emissions and, of course, that we have more energy security than the Tories are prepared to allow us.

Mwy o arian eto—felly faint o arian y bydd ceisiadau'n cael ei wneud amdano yn ystod y prynhawn? Mae cyllideb DEFRA wedi cael ei tharo—os nad yw'r Aelod wedi sylwi—yn Lloegr, i'r pwynt lle'r ydym yn pryderu am y gwasanaethau y mae DEFRA yn eu darparu yng Nghymru. Nid wyf yn gweld unrhyw ymrwymiad gan Lywodraeth y DU i hyrwyddo ynni adnewyddadwy. Nid wyf yn gweld unrhyw ymrwymiad gan Lywodraeth y DU i symud i economi carbon isel, pam fydden nhw wedi torri cymorthdaliadau i ynni ffotofoltäig fel arall? Pam maen nhw wedi torri cymorthdaliadau i ynni'r gwynt? Pam maen nhw'n edrych yn bennaf i gael mwy o orsafoedd ynni nwy, gan fewnforio'r nwy wrth wneud hynny? Na, mae angen i ni wneud yn siŵr ein bod yn creu mwy o ynni adnewyddadwy, ein bod yn lleihau ein hallyriadau nwyon tŷ gwydr ac, wrth gwrs, bod gennym ni fwy o ddiogelwch ynni nag y mae'r Torïaid yn barod i'w roi i ni.

14:11 **Llyr Gruffydd** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Nid oes un o'r gwledydd sydd wedi methu â chyrraedd eu targedau o dan brotocol Kyoto wedi wynebu unrhyw fath o sancsiynau, sydd, yn fy marn i, wedi golygu bod yna lawer o wledydd wedi gallu cael bant gyda pheidio â chwrrd â'u hymrwymadau. Nawr, mae gennych chi fel Llywodraeth gynrychiolydd allan ym Mharis. A fydd y cynrychiolydd yna yn dadlau dros greu sancsiynau yn erbyn y gwledydd sydd yn methu cwrdd â'r targedau y maen nhw eu hunain yn eu gosod o dan y trafodaethau ym Mharis?

Not one of the nations that's failed to reach its targets under the Kyoto protocol has faced any sort of sanctions, which, in my view, has meant that many nations have got away with not meeting their commitments. Now, you as a Government have a representative out there in Paris. Will that representative be making a case for the introduction of sanctions over those countries that can't meet their targets under the current Paris negotiations?

14:11 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Wel, mewn egwyddor, iawn, ond yn ymarferol, mae'n anodd dros ben, achos mae'n rhaid cael cytundeb y gwledydd hynny er mwyn cael cytundeb sydd yn fyd-eang. Ar hyn o bryd, beth sy'n bwysig yw bod yna gytundeb yn yr un traddodiad â phrotocol Kyoto. Unwaith y bydd hynny wedi cael ei wneud, rhaid ystyried ym mha ffordd y bydd y cytundeb hwnnw'n cael ei blismona. Ond mae'n wir i ddweud, wrth gwrs, bod rhaid cael cytundeb y bydd pobl yn cadw ato. Felly, cael y cytundeb yw'r cam cyntaf, ac wedyn yr ail gam yw sicrhau bod yna ffordd, o leiaf, i enwi'r gwledydd sydd wedi torri'r cytundeb hwnnw a, gobeithio, mynd ymhellach na hynny.

Well, that's fine in principle, but in practice, it's very difficult, because you have to have the agreement of those countries in order to secure a global agreement. At present, what's important is that an agreement exists, in the same tradition as the Kyoto protocol. Once that is reached, we must consider how that agreement should be policed. It's true to say, of course, that you have to have an agreement that people can adhere to. So, securing the agreement is the first step, and then the second step is to ensure that there is a means of at least naming those countries that have broken the agreement and, hopefully, go further than that.

## Blaenoriaethau Cyllidebol (Iechyd a Gofal Cymdeithasol)

## Budgetary Priorities (Health and Social Care)

14:12 **Janet Finch-Saunders** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

8. A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am flaenoriaethau cyllidebol Llywodraeth Cymru ar gyfer iechyd a gofal cymdeithasol? OAQ(4)2608(FM)

8. Will First Minister make a statement on the Welsh Government's budgetary priorities for health and social care? OAQ(4)2608(FM)

14:12 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Yes. We've invested more in the Welsh health service than ever before. In the last two years, we've invested an extra £1 billion in the Welsh NHS, despite the £1.3 billion that has been cut from the overall Welsh budget by the UK Government since 2011. We are not looking to local government to fund social care.

Gwnaf. Rydym ni wedi buddsoddi mwy yn y gwasanaeth iechyd yng Nghymru nag erioed o'r blaen. Yn y ddwy flynedd ddiwethaf, rydym ni wedi buddsoddi £1 biliwn ychwanegol yn y GIG yng Nghymru, er gwaethaf yr £1.3 biliwn sydd wedi cael ei dorri o gyllideb gyffredinol Cymru gan Lywodraeth y DU ers 2011. Nid ydym yn gofyn i lywodraeth leol ariannu gofal cymdeithasol.

14:13 **Janet Finch-Saunders** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Thank you, First Minister. I'm sure you'll join me in welcoming the historic funding floor introduced by the UK Conservative Government, set at 115 per cent, in line with the Holtham commission's recommendation—a level that you yourself have previously called for—and the increase of £945 million to Wales's consequential share of increased health spending in England. Will you now commit to protecting the health budget in Wales in real terms?

Diolch yn fawr, Brif Weinidog. Rwy'n siŵr y gwnewch chi ymuno â mi i groesawu'r ariannu gwaelodol hanesyddol a gyflwynwyd gan Lywodraeth Geidwadol y DU, a bennwyd ar 115 y cant, yn unol ag argymhelliad comisiwn Holtham—lefel yr ydych chi eich hun wedi galw amdano o'r blaen—a'r cynnydd o £945 miliwn i gyfran ganlyniadol Cymru o wariant iechyd cynyddol yn Lloegr. A wnewch chi ymrwymo nawr i ddiogelu'r gyllideb iechyd yng Nghymru mewn termau real?

14:13 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Well, first of all, the floor is fine in principle, but because there's no commitment beyond 2020, it doesn't work. So, we need to see a commitment to a floor beyond 2020, otherwise the floor is not going to be effective. If that floor is to stay in place, it needs to stay in place for a substantial amount of time, not for five years; that simply isn't going to be enough. In terms of the consequentials—we're not getting consequentials of over £900 million, I don't know where she gets that figure from. I can say the consequential from the CSR is £110 million for this year. So, the suggestion that somehow we are getting consequentials for health alone is quite simply untrue, because as the party opposite full well knows, when we get consequentials, we get negative consequentials in other areas. So, what the Chancellor gives with one hand he takes away with the other. So, the consequential for the coming financial year is £110 million. It's not more than that.

Wel, yn gyntaf oll, mae'r cyllid gwaelodol yn iawn mewn egwyddor, ond gan nad oes ymrwymiad y tu hwnt i 2020, nid yw'n gweithio. Felly, mae angen i ni weld ymrwymiad i gyllid gwaelodol y tu hwnt i 2020, neu did yw'n mynd i fod yn effeithiol fel arall. Os yw'r cyllid gwaelodol hwnnw'n mynd i aros ar waith, mae angen iddo aros ar waith am gyfnod sylweddol o amser, nid am bum mlynedd; nid yw hynny'n mynd i fod yn ddigon. O ran y symiau canlyniadol—nid ydym yn cael symiau canlyniadol o dros £900 miliwn, nid wyf yn gwybod o ble mae hi'n cael y ffigur hwnnw. Gallaf ddweud mai £110 miliwn yw'r swm canlyniadol o'r Adolygiad Cynhwysfawr o Wariant ar gyfer eleni. Felly, mae'r awgrym ein bod ni rywsut yn cael symiau canlyniadol ar gyfer iechyd yn unig yn gwbl anghywir, oherwydd fel y mae'r blaid gyferbyn yn ei wybod yn iawn, pan fyddwn ni'n cael symiau canlyniadol, rydym ni'n cael symiau canlyniadol negyddol mewn meysydd eraill. Felly, yr hyn y mae'r Canghellor yn ei roi gydag un llaw, mae'n mynd i'w ddwyn gyda'r llall. Felly, £110 miliwn yw'r swm canlyniadol ar gyfer y flwyddyn ariannol sydd i ddod. Nid yw'n fwy na hynny.

14:14 **Mick Antoniw** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

First Minister, as the Tories preside over the destruction of adult social care, do you agree with me that we must do all we can to maintain a comprehensive adult social care system in Wales? Do you share my genuine concern that Offa's Dyke could become the dividing line between the failure and destruction of adult social care services in England, and the maintenance of a comprehensive package of adult social care in Wales?

Brif Weinidog, wrth i'r Toriaid lywyddu dros ddinistrio gofal cymdeithasol i oedolion, a ydych chi'n cytuno â mi bod yn rhaid i ni wneud popeth yn ein gallu i gynnal system gofal cymdeithasol gynhwysfawr i oedolion yng Nghymru? A ydych chi'n rhannu fy mhryder gwirioneddol y gallai Clawdd Offa droi'n ffin rhwng methiant a dinistrio gwasanaethau gofal cymdeithasol i oedolion yn Lloegr, a chynnal pecyn cynhwysfawr o ofal cymdeithasol i oedolion yng Nghymru?

- 14:14 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)  
*Y Prif Weinidog / The First Minister*  
I believe that if we look at the way things are going in England, in time, our border will become the difference between care on one side and neglect on the other.
- 14:15 **Lindsay Whittle** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)  
First Minister, can you explain why the public health Bill makes no reference to child obesity at all?
- 14:15 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)  
*Y Prif Weinidog / The First Minister*  
Well, these are matters, of course, that can be examined as the Bill progresses through the Assembly, and I'm sure, if Members have ideas as to how the Bill might be improved, the Minister, I'm sure, would look to consider how that can be done.
- 14:15 **David Rees** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)  
First Minister, you recently commented on the recent figures that indicate that the spend in Wales per person on health and social care is actually greater than in England. Now, as the Member for Pontypridd and the Member for Torfaen have actually identified, the Welsh Labour Government believe that health and social care are inextricably linked together and, as such, we fund it properly. Do you believe that, with the increased delayed transfers of care in English hospitals and the blocking they create, it's time the Welsh model was used in England?
- 14:15 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)  
*Y Prif Weinidog / The First Minister*  
Do you know what you find with the Tories? The more uncomfortable they get, the more they shout. And the less they understand, the more they laugh. That's one of the things you find. Yes, Darren Millar's right: record-breaking cuts in social care in England—record-breaking cuts in social care in England. People who are being neglected, people who will not get the care that they need, and the responsibility is being dumped on local authorities and his Chancellor and his party are abdicating their responsibility for older people. Insufficient funding for the NHS in England; we saw that from their own figures. Insufficient funding for education in England; we saw that from their own figures. And now we see older people who will be denied social care in the future because of an appalling—an appalling—attitude by the UK Government that will lead to the most record-breaking cuts for older people any part of the UK has ever seen.
- 14:16 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)  
Thank you, First Minister.
- Rwy'n credu, os edrychwn ni ar y ffordd y mae pethau'n mynd yn Lloegr, mewn amser, ein ffin fydd y gwahaniaeth rhwng gofal ar un ochr ac esgeulustod ar y llall.
- Brif Weinidog, a allwch chi egluro pam nad yw'r Bil iechyd y cyhoedd yn gwneud unrhyw gyfeiriad o gwbl at ordewdra plant?
- Wel, mae'r rhain yn faterion, wrth gwrs, y gellir eu harchwilio wrth i'r Bil symud drwy'r Cynulliad, ac rwy'n siŵr, os oes gan Aelodau syniadau ynghylch sut y gellid gwella'r Bil, y byddai'r Gweinidog, rwy'n siŵr, yn ystyried sut y gellir gwneud hynny.
- Brif Weinidog, gwnaethoch sylwadau yn ddiweddar ar y ffigurau diweddar sy'n dangos bod y gwariant fesul pen yng Nghymru ar iechyd a gofal cymdeithasol yn uwch nag yn Lloegr. Nawr, fel y mae'r Aelod dros Bontypridd a'r Aelod dros Dorfaen wedi ei nodi a dweud y gwir, mae Llywodraeth Lafur Cymru yn credu bod iechyd a gofal cymdeithasol wedi'u cysylltu'n annatod â'i gilydd ac, fel y cyfryw, rydym ni'n eu hariannu'n briodol. A ydych chi'n credu, gydag oedi cynyddol wrth drosglwyddo gofal mewn ysbytai yn Lloegr a'r blocio y mae'n ei greu, ei bod yn amser i fodel Cymru gael ei ddefnyddio yn Lloegr?
- Wyddoch chi beth yr ydych chi'n ei ganfod gyda'r Torïaid? Po fwyaf anghyfforddus y byddan nhw, y mwyaf y maen nhw'n gweiddi. A po leiaf y maen nhw'n ei ddeall, y mwyaf y maen nhw'n chwertthin. Dyna un o'r pethau yr ydych chi'n ei ganfod. Ydy, mae Darren Millar yn iawn: y torïadau mwyaf erioed ym maes gofal cymdeithasol yn Lloegr—y torïadau mwyaf erioed ym maes gofal cymdeithasol yn Lloegr. Mae pobl yn cael eu hesgeuluso, pobl na fyddant yn cael y gofal sydd ei angen arnynt, ac mae'r cyfrifoldeb yn cael ei roi ar awdurdodau lleol ac mae ei Ganghellor a'i blaid yn troi eu cefnau ar eu cyfrifoldeb am bobl hŷn. Cyllid annigonol ar gyfer y GIG yn Lloegr; gwelsom hynny o'u ffigurau eu hunain. Dim digon o arian ar gyfer addysg yn Lloegr; gwelsom hynny o'u ffigurau eu hunain. A nawr rydym ni'n gweld pobl hŷn y bydd gofal cymdeithasol yn cael ei wadu iddynt yn y dyfodol oherwydd agwedd ofnadwy—ofnadwy—gan Lywodraeth y DU a fydd yn arwain at y torïadau mwyaf i bobl hŷn y mae unrhyw ran o'r DU wedi eu gweld erioed.

## Cwestiwn Brys: West London Vocational Training College

*Mae [R] yn dynodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant. Mae [W] yn dynodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.*

## Urgent Question: West London Vocational Training College

*[R] signifies the Member has declared an interest. [W] signifies that the question was tabled in Welsh.*

### 14:16 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I have agreed to an urgent question under Standing Order 12.66, and I call on Andrew R.T. Davies to ask the question. Andrew R.T. Davies.

Rwyf wedi cytuno i gwestiwn brys o dan Reol Sefydlog 12.66, a galwaf ar Andrew R.T. Davies i ofyn y cwestiwn. Andrew R.T. Davies.

### 14:16 **Andrew R.T. Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

*A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am benderfyniad Llywodraeth Cymru i dynnu cyllid yn ôl o'r West London Vocational Training College yn sgil yr ymchwiliad parhaus i honiadau ehangach o dwyll? EAQ(4)0663(ESK)*

*Will the Minister make a statement on the Welsh Government's decision to withdraw funding from the West London Vocational Training College, in light of the on-going investigation into wider allegations of fraud? EAQ(4)0663(ESK)*

### 14:17 **Huw Lewis** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

*Y Gweinidog Addysg a Sgiliau / The Minister for Education and Skills*

Yes, I will, Presiding Officer. I issued a written statement on Friday last week. I've asked officials to pass to the police the information we have available today. Officials will also refer this issue to the Quality Assurance Agency for Higher Education and continue to investigate with the Student Loans Company.

Gwnaf, mi wnaif, Lywydd. Cyhoeddais ddatganiad ysgrifenedig ddydd Gwener yr wythnos diwethaf. Rwyf wedi gofyn i swyddogion rannu'r wybodaeth sydd gennym ar gael heddiw gyda'r heddlu. Bydd swyddogion hefyd yn cyfeirio'r mater hwn at yr Asiantaeth Sicrhau Ansawdd ar gyfer Addysg Uwch ac yn parhau i ymchwilio gyda'r Cwmni Benthyciadau i Fyfyrrwyr.

### 14:17 **Andrew R.T. Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Thank you for that answer, Minister. Obviously, the Welsh Government makes significant loans and grants available—£6,000 to students, and the student finance company pays out loans of £21,000 to students as well. As I understand it, there are few or no checks or balances undertaken by the Welsh Government over the legitimacy of students registered at colleges, like the college in question, the West London Vocational Training College. What assurances can the Minister give that this isn't a wider issue around support that you offer to similar students in other colleges?

Diolch i chi am yr ateb yna, Weinidog. Yn amlwg, mae Llywodraeth Cymru yn rhoi benthyciadau a grantiau sylweddol ar gael—£6,000 i fyfyrwyr, ac mae'r cwmni cyllid myfyrwyr yn talu benthyciadau o £21,000 i fyfyrwyr hefyd. Yn ôl yr hyn a ddeallaf, prin neu ddim yw'r mesurau cadw cydbwysedd a gaiff eu cyflawni gan Lywodraeth Cymru o ran cyfreithlondeb myfyrwyr sydd wedi'u cofrestru mewn colegau, fel y coleg dan sylw, Coleg Hyfforddiant Galwedigaethol Gorllewin Llundain. Pa sicrwydd all y Gweinidog ei roi nad yw hwn yn fater ehangach o amgylch cefnogaeth yr ydych chi'n ei gynnig i fyfyrwyr tebyg mewn colegau eraill?

### 14:18 **Huw Lewis** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Presiding Officer, I can assure the Member that this is simply not true. Of course there are checks and balances, and the usual checks around residency and so on would apply and were applied in this case. It would be difficult to see that this particular problem, if it turns out to be an allegation with some substance, could have spread much wider as this is the only English-based private provider currently operating in Wales. My understanding is that the numbers of students involved is in the low hundreds—although it doesn't matter: one would be too many, if there were any substance to the allegations of fraud, and we will, of course, work with partner authorities to get to the bottom of the matter and take whatever action is necessary.

Lywydd, gallaf sicrhau'r Aelod nad yw hyn yn wir. Wrth gwrs bod mesurau cadw cydbwysedd, a byddai'r gwiriadau arferol yn ymwneud â phreswyllo ac yn y blaen yn cael eu cynnal, ac fe'u cynhaliwyd yn yr achos hwn. Byddai'n anodd gweld y gallai'r broblem benodol hon, os bydd yn honiad â rhywfaint o sylwedd iddo yn y pen draw, fod wedi lledaenu llawer ymhellach gan mai hwn yw'r unig ddarparwr preifat wedi'i leoli yn Lloegr sy'n gweithredu yng Nghymru ar hyn o bryd. Fy nealltwriaeth i yw bod nifer y myfyrwyr dan sylw yn y cannoedd isel—er nad oes ots am hynny: byddai un yn ormod, pe byddai unrhyw sylwedd i'r honiadau o dwyll, a byddwn, wrth gwrs, yn gweithio gydag awdurdodau partner i fynd at wraidd y mater a chymryd pa bynnag gamau sy'n angenrheidiol.

14:18 **Bethan Jenkins** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Minister, during the Stage 1 debate of the higher education Bill, we expressed concerns by Cardiff Metropolitan University and others that there may not be sufficient safeguards in respect of provision delivered within Wales by private or alternative providers, and we said that a review was needed to see if there were any gaps in regulation of publicly funded bodies. Have any lessons been learned from previous instances, such as at Glyndŵr University, and have you put forward any spot checks or snap inspections that may prevent these issues from happening again?

Weinidog, yn ystod dadl Cyfnod 1 y Bil addysg uwch, mynegwyd pryderon gennym gan Brifysgol Metropolitan Caerdydd ac eraill efallai nad oes digon o fesurau diogelu o ran darpariaeth a wneir yng Nghymru gan ddarparwyr preifat neu amgen, a nodwyd gennym fod angen cynnal adolygiad i weld a oedd unrhyw fylchau o ran rheoleiddio cyrff a ariennir yn gyhoeddus. A ddysgwyd unrhyw wersi o'r achosion blaenorol, fel ym Mhrifysgol Glyndŵr, ac a ydych chi wedi cyflwyno unrhyw haparchwiliadau neu arolygiadau heb rybudd a allai atal y materion hyn rhag digwydd eto?

14:19 **Huw Lewis** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Well, I refer the Member to my statement on Friday in terms of the checks that were undertaken earlier in the autumn. The Member will also be aware that I consulted earlier this year on proposals to strengthen criteria around specific designation and the applications for designation, and new and more stringent criteria are due to be implemented in the new year.

Wel, cyfeiriai yr Aelod at fy natganiad ddydd Gwener o ran yr archwiliadau a gynhaliwyd yn gynharach yn yr hydref. Bydd yr Aelod hefyd yn ymwybodol fy mod i wedi ymgynghori'n gynharach eleni ar gynigion i gryfhau meini prawf yn ymwneud â dynodiad penodol a'r ceisiadau ar gyfer eu dynodi, a disgwylir i feini prawf newydd a llymach gael eu rhoi ar waith yn y flwyddyn newydd.

14:19 **Aled Roberts** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Minister, I think it's fair to say that you accepted, during the discussions in committee, when the new arrangements were being debated, that the regulatory oversight—in your words—applied in the specifically designated courses was minimal. I understand there are 309 designated courses in Wales currently provided for, and yet the West London Vocational Training College doesn't appear in the list of institutions, provided by the Government in January of this year to the committee, that we're providing designated courses.

Weinidog, rwy'n meddwl ei bod yn deg dweud eich bod wedi derbyn, yn ystod y trafodaethau yn y pwyllgor, pan roedd y trefniadau newydd yn cael eu trafod, mai prin iawn oedd yr oruchwyliaeth reoleiddio—yn eich geiriau chi—a wnaed yn y cyrsiau dynodedig penodol. Rwy'n deall bod 309 o gyrsiau dynodedig yng Nghymru y darperir ar eu cyfer ar hyn o bryd, ac eto nid yw Coleg Hyfforddiant Galwedigaethol Gorllewin Llundain yn ymddangos ar y rhestr o sefydliadau, a ddarparwyd gan y Llywodraeth ym mis Ionawr eleni i'r pwyllgor, a oedd yn darparu cyrsiau dynodedig.

On that basis, can I ask whether or not that list is now a comprehensive list? Can I also ask, in the circumstances, whether you have now agreed with the UK Government to bring forward an Order under section 150 of the Government of Wales Act 2006, which you said was necessary in circumstances such as this, when there are English bodies providing courses in Wales? Can I also ask you to explain whether or not you have confidence in the quality and assurance systems operated by these private validation companies, given that, after matters were drawn to your attention, I think your written statement refers to a review undertaken by Pearson UK on 21 October, which indicated that there were no issues of concern, and it was only following further evidence from the investigative journalist that, in fact, you've taken the action last week?

Ar sail hynny, a gaf i ofyn pa un a yw'r rhestr honno yn rhestr gynhwysfawr erbyn hyn? A gaf i ofyn hefyd, dan yr amgylchiadau, pa un a ydych chi wedi cytuno gyda Llywodraeth y DU nawr i gyflwyno Gorchymyn o dan adran 150 Deddf Llywodraeth Cymru 2006, y dywedsoch oedd yn angenrheidiol dan amgylchiadau fel hyn, pan fydd cyrff o Loegr yn darparu cyrsiau yng Nghymru? A gaf i hefyd ofyn i chi esbonio pa un a oes gennych chi hyder yn y systemau ansawdd a sicrwydd a weithredir gan y cwmnïau dilysu preifat hyn, o gofio, ar ôl tynnu eich sylw at faterion, rwy'n meddwl bod eich datganiad ysgrifenedig yn cyfeirio at adolygiad a gynhaliwyd gan Pearson UK ar 21 Hydref, a ddynododd nad oedd unrhyw faterion yn peri pryder, a dim ond yn dilyn tystiolaeth bellach gan y newyddiadurwr ymchwilio yr ydych chi wedi cymryd y camau yr wythnos diwethaf mewn gwirionedd?

14:21 **Huw Lewis** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Firstly, Presiding Officer, it might clear up a number of the Members' questions if I were to relay to Members that the application for designation for this institution was received as recently as June this year. Although, this course and this college were both designated in England and had been validated through the Department of Business, Innovation and Skills.

Yn gyntaf, Lywydd, efallai y byddai'n ateb nifer o gwestiynau'r Aelodau pe bawn i'n hysbysu'r Aelodau y derbyniwyd y cais am ddynodiad ar gyfer y sefydliad hwn mor ddiweddar â mis Mehefin eleni. Serch hynny, dynodwyd y cwrs hwn a'r coleg hwn yng Nghymru ac fe'u dilyswyd drwy'r Adran Busnes, Arloesedd a Sgiliau.

He's quite right to say—and I'll reiterate—we are moving towards a system in Wales that I think will give the maximum possible security around issues like this, because we will be demanding that all such providers are charities. That regulation has not worked its way through the legislative process as yet, and will be coming into force in the new year. Although, I would say this—and I cannot comment in terms of his questions around private validation companies, after all, we do not know, as yet, if there is any substance to these allegations—it is for the BBC to make those allegations, as we believe they will, and then to pass them to the police, as they should. But I would say that there would be no system of regulation, or it would be very difficult to contrive a system of regulation that could be 100 per cent proof against any planned or deliberate fraud.

Mae'n hollol iawn i ddweud—a byddaf yn ailadrodd—yr ydym ni'n symud tuag at system yng Nghymru y credaf y bydd yn rhoi'r diogelwch mwyaf posibl ynghylch materion fel hyn, gan y byddwn yn mynnu bod pob darparwr o'r fath yn elusen. Nid yw rheoliad hwnnw wedi gweithio ei ffordd drwy'r broses ddeddfwriaethol eto, a bydd yn dod i rym yn y flwyddyn newydd. Serch hynny, byddwn yn dweud hyn—ac ni allaf wneud sylw o ran ei gwestiynau am gwmnïau dilysu preifat, wedi'r cyfan, nid ydym yn gwybod, hyd yma, os oes unrhyw sylwedd i'r honiadau hyn—mater i'r BBC yw gwneud yr honiadau hynny, fel yr ydym yn credu y bydd, ac yna eu trosglwyddo i'r heddlu, fel y dylai. Ond byddwn i'n dweud na fyddai unrhyw system o reoleiddio, neu y byddai'n anodd iawn i lunio system o reoleiddio a allai weithio 100 y cant i atal unrhyw dwyll wedi'i gynllunio neu fwriadol.

14:22 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Thank you, Minister.

Diolch yn fawr, Weinidog.

14:22 **2. Datganiad a Chyhoeddiad Busnes**

**Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

We now move on to the business statement and I call on the Minister for Finance and Government Business, Jane Hutt.

**2. Business Statement and Announcement**

**Y**

Rydym bellach yn symud ymlaen at y datganiad busnes a galwaf ar y Gweinidog Cyllid a Busnes y Llywodraeth, Jane Hutt.

14:23 **Jane Hutt** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

*Y Gweinidog Cyllid a Busnes y Llywodraeth / The Minister for Finance and Government Business*

Llywydd, there's been one change to the business statement for this week's business. The First Minister will make a statement on the metro, and business for the next three weeks is as shown on the business statement and announcement, which can be found among the agenda papers available to Members electronically.

Llywydd, mae un newid i'r datganiad busnes ar gyfer busnes yr wythnos hon. Bydd y Prif Weinidog yn gwneud datganiad am y metro, ac mae'r busnes ar gyfer y tair wythnos nesaf fel y'i dangosir ar y datganiad a chyhoeddiad busnes, y gellir ei weld ymhlith papurau'r agenda sydd ar gael i'r Aelodau yn electronig.

14:23 **Darren Millar** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Minister, can I ask for a statement from the Welsh Government on the use of mobility scooters in Wales? I have become increasingly concerned about the number of accidents that are happening across the country and, indeed, many people are becoming seriously injured in accidents with cars, and, more concerning, with pedestrians, including people in my own constituency who've broken limbs as a result of accidents with mobility scooters. I wonder what action you might take. The British Healthcare Trades Association have suggested that there may be as many as 4,000 accidents with mobility scooters in Wales on an annual basis, and yet there are no proficiency tests required for people using such vehicles on our streets and on our roads. It would be helpful if the Welsh Government could outline its position on this and make a statement as soon as possible.

Weinidog, a gaf i ofyn am ddatganiad gan Lywodraeth Cymru ynglŷn â defnyddio sgwteri symudedd yng Nghymru? Rwyf wedi dod yn fwyfwy pryderus am nifer y damweiniau sy'n digwydd ledled y wlad ac, yn wir, mae llawer o bobl yn cael eu hanafu'n ddifrifol mewn damweiniau gyda cheir, ac, yn fwy pryderus, gyda cherddwyr, gan gynnwys pobl yn fy etholaeth i sydd wedi torri aelodau o'u cyrff o ganlyniad i ddamweiniau gyda sgwteri symudedd. Tybed pa gamau y gallech chi eu cymryd. Awgrymodd y British Healthcare Trades Association y gallai fod cymaint â 4,000 o ddamweiniau gyda sgwteri symudedd yng Nghymru bob blwyddyn, ac eto nid oes unrhyw brofion hyfedredd gofynnol ar gyfer pobl sy'n defnyddio cerbydau o'r fath ar ein strydoedd ac ar ein ffyrdd. Byddai o gymorth pe gallai Llywodraeth Cymru amlinellu ei safbwynt ar hyn a gwneud datganiad cyn gynted â phosibl.

14:24 **Jane Hutt** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Clearly, there will be road safety issues and that is what we would possibly be able to reflect on in terms of the importance of ensuring safety for people who use mobility scooters, but within our powers, we would have to see what would be possible in terms of advice and guidance.

Yn amlwg, bydd materion yn ymwneud â diogelwch ar y ffyrdd a dyna'r hyn y byddem o bosibl yn gallu myfrio arno o ran pwysigrwydd sicrhau diogelwch i bobl sy'n defnyddio sgwteri symudedd, ond o fewn ein pwerau, byddai'n rhaid i ni weld beth fyddai'n bosibl o ran cyngor ac arweiniad.

14:24 **Julie Morgan** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

When can we have a statement or a debate on the extent of child sexual exploitation in Wales? On Friday, I was pleased to speak at an event organised by South Wales Police, the police commissioner's office and Barnardo's, which launched an important service of child advocates and trained professionals who can help children who've been victims of sexual exploitation in Wales. I'm thinking that we are coming up to Christmas—a time that is very stressful for families. Many children at that time do go missing and are more open to exploitation, so it seems very important that we look at this very important issue.

Pryd y gallwn ni gael datganiad neu ddadl ar faint i gamfanteisio rhywiol ar blant sy'n digwydd yng Nghymru? Ddydd Gwener, roeddwn yn falch o gael siarad mewn digwyddiad a drefnwyd gan Heddlu De Cymru, swyddfa comisiynydd yr heddlu a Barnardos, a oedd yn lansio gwasanaeth pwysig o eiriolwyr plant a gweithwyr proffesiynol hyfforddedig sy'n gallu helpu plant sydd wedi dioddef camfanteisio rhywiol yng Nghymru. Mae yn fy meddwl ein bod yn agosáu at y Nadolig—adeg sy'n achosi llawer o strae'n i deuluoedd. Mae llawer o blant yn mynd ar goll yn ystod y cyfnod hwnnw ac maent yn fwy agored i gamfanteisio, felly mae'n ymddangos yn bwysig iawn ein bod yn edrych ar y mater pwysig iawn hwn.

14:25 **Jane Hutt** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I thank Julie Morgan for that question. We are, of course, committed as a Welsh Government to do all we can to protect children from the heinous crime of child sexual exploitation. We have published statutory guidance to help practitioners identify children at risk. We've taken steps to not only protect them, but allow action to be taken against perpetrators. Also, with the assistance of Barnardo's Cymru, we've published—and also with young people themselves—a designated booklet to provide children with the knowledge and skills they need to make effective decisions, empowering them to protect themselves from harm and risky behaviours, including, of course, online.

Diolchaf i Julie Morgan am y cwestiwn yna. Rydym ni, wrth gwrs, wedi ymrwymo fel Llywodraeth Cymru i wneud popeth o fewn ein gallu i amddiffyn plant rhag y drosedd erchyll o gamfanteisio rhywiol ar blant. Cyhoeddwyd canllawiau statudol gennym i helpu ymarferwyr nodi plant sydd mewn perygl. Cymerwyd camau gennym nid yn unig i'w hamddiffyn, ond sy'n caniatáu gweithredu camau yn erbyn troseddwr. Hefyd, gyda chymorth Barnardos Cymru, rydym ni wedi cyhoeddi—a hefyd gyda phobl ifanc eu hunain—llyfryn dynodedig i roi'r wybodaeth a'r sgiliau sydd eu hangen ar blant er mwyn iddynt allu gwneud penderfyniadau effeithiol, gan eu grymuso i amddiffyn eu hunain rhag niwed ac ymddygiad peryglus, gan gynnwys, wrth gwrs, peryglon ar-lein.

14:25 **Alun Ffred Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I ask for a statement by the First Minister on the use or political misuse of Ministers' time and resources when conducting their duties. I make this request in the light of two visits to Ysbyty Gwynedd, one by the Minister of health on 30 October, and one by his deputy on 2 November. The First Minister has written to me claiming that both visits were political visits. Betsi Cadwaladr health board, however, on their website, were under the impression that they were being visited by the Minister of health and by the deputy, and an official car met at least one of them at Valley airport. I think the public need to be sure that Ministers are not abusing their positions to further party political interest while using public money to do so.

Galwaf am ddatganiad gan y Prif Weinidog ynglŷn â'r defnydd neu gamddefnydd o amser ac adnoddau Gweinidogion wrth gynnal eu dyletswyddau. Rwyf yn gwneud y cais yma yn sgil dau ymweliad ag Ysbyty Gwynedd, un gan y Gweinidog iechyd ar 30 Hydref, ac un gan ei ddirprwy ar 2 Tachwedd. Mae'r Prif Weinidog wedi ysgrifennu ataf yn honni bod y ddau ymweliad yn ymweliadau gwleidyddol. Roedd bwrdd iechyd Betsi Cadwaladr, fodd bynnag, ar ei wefan, dan yr argraff ei fod yn cael ymweliad gan y Gweinidog iechyd a'r dirprwy, a daeth car swyddogol i gwrdd ag o leiaf un ohonynt ym maes awyr y Fali. Rwyf yn credu bod angen i'r cyhoedd fod yn sicr nad yw Gweinidogion yn camddefnyddio eu swyddi ar gyfer hyrwyddo budd gwleidyddol eu pleidiau gan ddefnyddio arian cyhoeddus i wneud hynny.

14:26 **Jane Hutt** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Well, as you know full well, Alun Ffred Jones, we would not undertake those visits in those kinds of contexts. I mean, we all make visits, which are, of course, non-ministerial, as Assembly Members and in our political roles. We have to ensure—clearly, as the First Minister did respond in his letter—that they abide by our code of guidance for Ministers.

Wel, fel y gwyddoch yn iawn, Alun Ffred Jones, ni fyddem yn cynnal yr ymweliadau hynny mewn cyd-destun o'r fath. Wyddoch chi, mae pob un ohonom yn gwneud ymweliadau, sydd, wrth gwrs, yn anweinidogol, fel Aelodau'r Cynulliad ac yn ein swyddogaethau gwleidyddol. Mae'n rhaid i ni sicrhau—yn amlwg, fel yr ymatebodd y Prif Weinidog yn ei lythyr—eu bod yn cadw at ein cod canllawiau ar gyfer Gweinidogion.

14:26 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Kirsty Williams—[Interruption.] Excuse me. Kirsty Williams.

Kirsty Williams— [Torri ar draws.] Esgusodwch fi. Kirsty Williams.

14:27 **Kirsty Williams** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Thank you very much, Presiding Officer. Minister, could I ask for two statements by the health Minister? Obviously, in the autumn statement last week the Tory Government in London announced the scrapping of student nurse bursaries. That decision will have an impact on Wales. I appreciate that the Government had no sight of that decision before they heard about it in the Chancellor's statement, but it would be useful to have clarity from the Welsh Government about how it intends to take this issue forward for nurses' training in Wales and the impact any changes across the border may have on nurse recruitment in the future.

Diolch yn fawr iawn, Lywydd. Weinidog, a gaf i ofyn am ddau ddatganiad gan y Gweinidog iechyd? Yn amlwg, yn natganiad yr hydref yr wythnos diwethaf cyhoeddodd y Llywodraeth Doriaidd yn Llundain y penderfyniad i gael gwared â bwrsariaethau i fyfyrwyr nyrsio. Bydd y penderfyniad hwnnw yn cael effaith ar Gymru. Rwyf yn gwerthfawrogi nad oedd y Llywodraeth yn gwybod unrhyw beth ynglŷn â'r penderfyniad hwnnw cyn iddynt glywed amdano yn natganiad y Canghellor, ond byddai'n ddefnyddiol cael eglurder gan Lywodraeth Cymru ynghylch sut y mae'n bwriadu symud y mater hwn ymlaen o ran hyfforddi nyrsys yng Nghymru a'r effaith y gallai unrhyw newidiadau ar draws y ffin ei chael ar recriwtio nyrsys yn y dyfodol.

Secondly, could I have a statement on corneal services? I've been approached by the parents of a 14-year-old boy in my constituency who has been diagnosed with keratoconus. He eventually will need a corneal transplant, because, in Wales, we have no access to cross-linking surgery, even though cross-linking has been approved by the National Institute for Health and Care Excellence, it's a relatively simple treatment, it can avoid deterioration and sight loss and it can avoid very expensive, complex surgery later on in life, as well as repeated visits to secondary care in ophthalmology. Will the Minister look at what can be done to ensure cross-linking is available for Welsh patients? It may be coming too late for the 14-year-old in my constituency—his parents will have to find the £6,000 to pay for private surgery, but if we could establish a service in Wales in the near future, other constituents would not be placed in such a terrible position.

Yn ail, a gaf i ddatganiad am wasanaethau cornbilen? Daeth rhieni bachgen 14 mlwydd oed sydd wedi cael diagnosis o geratoconws ataf yn fy etholaeth. Bydd arno angen trawsblaniad cornbilen yn y pen draw, oherwydd, yng Nghymru, nid oes gennym fynediad at lawdriniaeth traws-gysylltiol, er bod traws-gysylltu wedi ei gymeradwyo gan y Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth mewn lechyd a Gofal, mae'n driniaeth sy'n gymharol syml, a gall osgoi dirywiad a cholli golwg, a gall osgoi llawdriniaeth ddud iawn, a chymhleth, yn ddiweddarach mewn bywyd, yn ogystal ag ymweliadau dro ar ôl tro at ofal eilaidd mewn offthalmoleg. A wnaiff y Gweinidog edrych ar beth y gellir ei wneud i sicrhau bod traws-gysylltu ar gael i gleifion yng Nghymru? Efallai ei bod hi'n rhy hwyr i'r bachgen 14 mlwydd oed yn fy etholaeth i—bydd ei rieni yn gorfod dod o hyd i'r £6,000 i dalu am lawdriniaeth breifat, ond pe gallem sefydlu gwasanaeth yng Nghymru yn y dyfodol agos, ni fyddai etholwyr eraill yn cael eu rhoi mewn sefyllfa mor ofnadwy.

14:28 **Jane Hutt** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Thank you, Kirsty Williams. I think, on your first point, you're quite right, we knew nothing about the announcement that came through the Chancellor's statement, which, actually, of course, as you recognise, only applies to England in terms of nursing student bursaries. But, of course, there are implications for us—inevitable implications. We've got very few details so far to go on from the information from the spending review, so it's difficult to assess the potential impact of the Chancellor's statement. We are now in discussion with the Department of Health and the Treasury to seek clarification.

Diolch i chi, Kirsty Williams. Rwyf yn credu, ar eich pwynt cyntaf, eich bod yn llygad eich lle, wyddem ni ddim am y cyhoeddiad a ddaeth yn natganiad y Canghellor, sydd, mewn gwirionedd, wrth gwrs, fel yr ydych yn cydnabod, yn berthnasol i Loegr yn unig o ran bwrsariaethau i fyfyrwyr nyrsio. Ond, wrth gwrs, mae goblygiadau i ni—goblygiadau anochel. Prin iawn yw'r manylion sydd gennym hyd yn hyn o ran y wybodaeth a gafwyd o'r adolygiad o wariant, felly mae'n anodd asesu effaith bosibl datganiad y Canghellor. Rydym bellach yn cynnal trafodaethau gyda'r Adran Iechyd a'r Trysorlys i geisio cael eglurhad.

Your second point does raise a very important area in terms of corneal services, and, of course, this is something I'm sure that the Minister for Health and Social Services will want to reflect on.

Mae eich ail bwynt yn codi mater sy'n bwysig iawn o ran gwasanaethau cornbilen, ac, wrth gwrs, mae hyn yn rhywbeth yr wyf yn siŵr y bydd y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn awyddus i'w ystyried.

14:29 **William Graham** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I wonder if the business Minister would ask the planning Minister for a statement on the planning management of the Brecon Beacons National Park. It is only a small area of my region, but I understand that, yet again, the appeals against decisions are mounting by—I almost said by large numbers, but, certainly, by considerable numbers with respect to the applications that are made. Yet again, these planning enforcements are being dismissed with costs against the authority, and I would ask that a closer examination be made of the way in which these enforcement notices are made—they seem to take sometimes up to four years to come to the inspector, and the inspector then dismisses them. There's a long period there, which clearly shows that there is some problem. This was raised by myself and other Members some five years ago, and though the improvement has been considerable, there are, again, a rising number of decisions against the authority.

Tybed a wnaiff y Gweinidog busnes ofyn i'r Gweinidog cynllunio am ddatganiad ar reolaeth gynllunio Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog. Dim ond ardal fechan o fy rhanbarth yw hon, ac rwyf yn deall hynny, ond eto, mae'r apeliadau yn erbyn penderfyniadau yn cynyddu gan—bu bron i mi ddweud gan niferoedd mawr, ond, yn sicr, gan niferoedd sylweddol o ran y ceisiadau a wneir. Unwaith eto, mae'r gorfodaethau cynllunio hyn yn cael eu gwrthod gan achosi costau yn erbyn yr awdurdod, a byddwn yn gofyn am archwiliad mwy gofalus o'r ffordd y gwneir yr hysbysiadau gorfodi hyn—mae'n ymddangos fel eu bod yn cymryd weithiau hyd at bedair blynedd i gyrraedd yr arolygydd, ac mae'r arolygydd yn eu gwrthod wedyn. Mae hwnnw'n gyfnod hir, sy'n dangos yn glir bod rhyw broblem yn bodoli. Codwyd hyn gennyf i ac Aelodau eraill oddeutu pum mlynedd yn ôl, ac er bod y gwelliant wedi bod yn sylweddol, bu, unwaith eto, nifer cynyddol o benderfyniadau yn erbyn yr awdurdod.

14:30 **Jane Hutt** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Of course, these are important issues for the national parks, and, indeed, it's the responsibility of the Planning Inspectorate to ensure that it undertakes it in terms of process and decision making. But, of course, these are important decisions that have to be made, which reflect the importance of our natural environment.

Wrth gwrs, mae'r rhain yn faterion pwysig i'r parciau cenedlaethol, ac, yn wir, cyfrifoldeb yr Arolygiaeth Gynllunio yw sicrhau ei bod yn eu cyflawni o ran y broses ac o ran gwneud penderfyniadau. Ond, wrth gwrs, mae'r rhain yn benderfyniadau pwysig y mae'n rhaid eu gwneud, sy'n adlewyrchu pwysigrwydd ein hamgylchedd naturiol.

14:30 **Eluned Parrott** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Minister, in my region we've had a number of issues with cars parking dangerously, partially on the pavement and partially on the road. In one area, near a university campus in Pentwyn, there are persistently cars parked on the pavement, and residents and pedestrians are being forced to walk in the road in the face of oncoming traffic, which is obviously a danger. Under Schedule 7 to the Traffic Management Act 2004, there is a list of civil parking offences, but part parking on pavements is not one of them, so local police community support officers are not able to take enforcement action. I wonder if I could have a statement from the Minister for transport, addressing whether or not she would wish to add part parking on pavements to those civil offences, so that it can be prevented where it is obviously causing a danger.

Weinidog, yn fy rhanbarth i rydym wedi cael nifer o broblemau yn ymwneud â cheir yn parcio'n beryglus, yn rhannol ar y palmant ac yn rhannol ar y ffordd. Mewn un ardal, yn agos at gampws prifysgol ym Mhentwyn, mae ceir yn parcio yn rheolaidd ar y palmant, ac mae trigolion a cherddwyr yn cael eu gorfodi i gerdded ar y ffordd yn wyneb traffig sy'n dod tuag atynt, sydd yn amlwg yn beryglus. O dan Atodlen 7 y Ddeddf Rheoli Traffig 2004, ceir rhestr o droseddau parcio sifil, ond nid yw parcio yn rhannol ar balmentydd yn un ohonynt, sy'n golygu nad yw swyddogion cymorth cymunedol yr heddlu yn gallu cymryd camau gorfodi. Tybed a gaf i ddatganiad gan y Gweinidog trafndiaeth, yn nodi pa un a fyddai hi'n dymuno ychwanegu parcio yn rhannol ar balmentydd at y troseddau sifil hynny, fel y gellir ei atal pan ei fod yn amlwg yn achosi perygl.

14:31 **Jane Hutt** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

This is a matter for enforcement in terms of the powers available, and indeed for the local highway authority in this respect in terms of your region. This would be a matter for that authority, and the Minister for transport would obviously reflect on any issues arising.

Mae hwn yn fater ar gyfer gorfodaeth o ran y pwerau sydd ar gael, ac yn wir ar gyfer yr awdurdod cefnffyrdd lleol o ran eich rhanbarth chi. Byddai hyn yn fater i'r awdurdod hwnnw, a byddai'r Gweinidog trafndiaeth yn amlwg yn ystyried unrhyw faterion sy'n codi.

## Mark Isherwood [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I'd like to raise two matters. Firstly, could I call for a statement on the need for an inquiry into the implementation and management of the north-south Wales journey improvement project, being delivered by Network Rail on behalf of the Welsh Government? Sir Peter Hendy's report on the re-planning of Network Rail's investment programme last week said that the overall enhancement programme had increased in cost because of the cost and timescales on a small number of significant enhancement projects increasing beyond expectation. We also saw a letter from Network Rail last week regarding the north-south Wales journey improvement project, which was supposed to reduce journey times, facilitate the ability to run more trains, and deliver significant safety improvements between Wrexham and Chester, being postponed, because preparatory testing, ahead of the commissioning, discovered that over 13 km of cabling needed to be replaced. I'm advised that, in fact, these matters should have been foreseen within Network Rail, and by their commissioner, at the start of the project, and this runs alongside many other matters, including months spent designing a bridge that they discovered they didn't actually need, and issuing road closure notices that, in fact, applied to roads that were never closed.

Secondly, could I ask for a statement on how the Welsh Government responds to a local authority apparently acting in breach of its school organisation code, not just in respect of one school's proposed closure, but the proposed school closures across a whole county? The code says that local authorities should place the interests of learners above all others, but campaigners in Flintshire are saying that the consultation documents on Ysgol Llanfynydd C.P. School and Ysgol Maes Edwin in Flint Mountain are based on old and inaccurate data; that the proposed closure of Ysgol Gymraeg Mornant Welsh-medium school would have a significant impact on the numbers of Welsh speakers in the area; and that the document on the proposed closure of John Summers High School avoids the impact that the proposals will have on the educational attainment of children from a ward that's among the most deprived in Wales, yet achieves highly—98.3 per cent at level 2 at GCSE. It's avoiding issues of equality, particularly relating to the Traveller community, and misrepresenting the numbers of children with special educational needs, where, in fact, over one third of the pupils fall into those categories. This isn't just one school; it seems the local authority might need some wise guidance on how it should be complying with this code.

## Jane Hutt [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Well, thank you, Mark Isherwood. I can't comment on that second point, in terms of the school organisation code and the guidance, because, of course, this may come before Welsh Ministers. But, you know, you've made your point this afternoon.

Hoffwn godi dau fater. Yn gyntaf, a gaf i alw am ddatganiad ynghylch yr angen am ymchwiliad i weithredu a rheoli prosiect gwella'r daith o'r gogledd i'r de, sy'n cael ei gyflwyno gan Network Rail ar ran Llywodraeth Cymru? Roedd adroddiad Syr Peter Hendy ar ail-gynllunio rhaglen fuddsoddi Network Rail yr wythnos diwethaf yn dweud bod cost y rhaglen wella gyffredinol wedi cynyddu oherwydd cynnydd y tu hwnt i'r disgwyl o ran cost ac amserlenni nifer fechan o brosiectau sylweddol. Gwelsom hefyd lythyr gan Network Rail yr wythnos diwethaf ynghylch y prosiect gwella'r daith o'r gogledd i'r de, a oedd i fod i leihau amseroedd teithio, hwyluso'r gallu i redeg mwy o drenau, a chyflawni gwelliannau diogelwch sylweddol rhwng Wrecsam a Chaer, sydd bellach yn cael ei ohirio, oherwydd bod profion paratoadol, cyn y comisiynu, wedi darganfod bod angen ceblau newydd am bellter o 13 cilometr. Fe'm cynghorwyd, mewn gwirionedd, y dylai'r materion hyn fod wedi eu rhagweld o fewn Network Rail, a chan eu comisiynydd, ar ddechrau'r prosiect, ac mae hyn yn rhedeg ochr yn ochr â llawer o faterion eraill, gan gynnwys misoedd a dreuliyd yn cynllunio pont y darganfuwyd nad oedd ei hangen arnynt mewn gwirionedd, a chyhoeddi rhybuddion cau'r ffordd a oedd, mewn gwirionedd, yn berthnasol i ffyrdd na chafodd eu cau erioed.

Yn ail, a gaf i ofyn am ddatganiad am sut y mae Llywodraeth Cymru yn ymateb i awdurdod lleol sydd yn ôl pob tebyg yn gweithredu yn groes i'w god trefniadaeth ysgolion, nid yn unig o ran cau arfaethedig un ysgol, ond y cau arfaethedig o ysgolion ledled sir gyfan? Mae'r cod yn dweud y dylai awdurdodau lleol roi buddiannau dysgwyr uwchlaw popeth arall, ond mae ymgyrchwyr yn Sir y Fflint yn dweud bod y dogfennau ymgynghori ar Ysgol Gynradd Llanfynydd ac Ysgol Maes Edwin ym Mynydd y Fflint yn seiliedig ar ddata sy'n hen ac yn anghywir; y byddai'r cynnig arfaethedig i gau Ysgol Gymraeg Mornant yn cael effaith sylweddol ar nifer y siaradwyr Cymraeg yn yr ardal; a bod y ddogfen ar y cynnig arfaethedig i gau Ysgol Uwchradd John Summers yn osgoi yr effaith y bydd y cynigion yn ei chael ar gyrhaeddiad addysgol plant o ward sydd ymhlith y rhai mwyaf difreintiedig yng Nghymru, ond sydd eto yn cyflawni'n dda—98.3 y cant ar lefel 2 TGAU. Mae'n osgoi materion cydraddoldeb, yn enwedig o ran y gymuned Teithwyr, ac yn camgyfleu nifer y plant sydd ag anghenion addysgol arbennig, pan, mewn gwirionedd, fod dros draean o'r disgyblion yn un o'r categorïau hynny. Nid un ysgol yn unig yw hyn; mae'n ymddangos efallai fod angen rhywfaint o arweiniad doeth ar yr awdurdod lleol ynghylch sut y dylai fod yn cydymffurfio â'r cod hwn.

Wel, diolch i chi, Mark Isherwood. Ni allaf wneud sylw ar yr ail bwynt yna, o ran y cod trefniadaeth ysgolion a'r canllawiau, oherwydd, wrth gwrs, gallai hyn ddod gerbron Gweinidogion Cymru. Ond, wyddoch chi, rydych chi wedi gwneud eich pwynt y prynhawn yma.

I think, on your first point, are you politely trying to say that you're disappointed with your Government in Westminster, in terms of their failures? Because, quite clearly, there are failures in terms of the opportunities to progress with Network Rail, of course. Disappointed, I'm sure you are, that there was no mention of the electrification for north Wales, let alone electrification from Cardiff to Swansea. So, I think this must be polite disappointment in your Government, and its failure to influence the progression of the importance of the north-south Wales project.

Rwyf yn credu, ar eich pwynt cyntaf, a ydych chi'n ceisio dweud yn gwrtais eich bod yn siomedig â'ch Llywodraeth yn San Steffan, o ran ei methiannau? Oherwydd, mae'n eithaf amlwg, mae methiannau o ran y cyfleoedd i symud ymlaen â Network Rail, wrth gwrs. Rwyf yn siŵr eich bod yn siomedig, nad oedd unrhyw sôn am drydaneiddio ar gyfer y gogledd, heb sôn am drydaneiddio o Gaerdydd i Abertawe. Felly, rwyf yn credu mai siom gwrtais yn eich Llywodraeth chi yw hyn, ac yn ei methiant i ddylanwadu ar ddatblygiad y prosiect pwysig gogledd i'r de hwn.

14:35 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Thank you, Minister.

Diolch yn fawr, Weinidog.

14:36 **3. Datganiad: Y Metro**

**3. Statement: The Metro**

**Y**

**Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

We now move to a statement by the First Minister on the metro, and I call on the First Minister, Carwyn Jones.

Rydym nawr yn symud at ddatganiad gan y Prif Weinidog ar y metro, a galwaf ar y Prif Weinidog, Carwyn Jones.

14:36 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Thank you, Llywydd. Before the summer recess, Members were provided with an update on the significant progress that had been made on the metro. Since then, the work has continued at a rapid pace, and, yesterday, I visited Pontypridd to formally launch a campaign to raise public awareness of the metro project.

Diolch i chi, Lywydd. Cyn toriad yr haf, rhoddydd diweddariad i Aelodau ar y cynnydd sylweddol a wnaed ar y metro. Ers hynny, mae'r gwaith wedi parhau yn gyflym, a, ddoe, ymwelais â Phontypridd i lansio ymgyrch yn ffurfiol i godi ymwybyddiaeth y cyhoedd o'r prosiect metro.

At its core, the metro is about faster and more frequent services on an extendable network, to link communities that are currently poorly served by regional public transport. It will have a positive social, economic and environmental effect. Some of the programmes that we think will deliver this vision are illustrated in the metro brochure, and on the metro pages of our website.

Yn ei hanfod, mae'r metro yn ymwneud â gwasanaethau cyflymach ac amlach ar rwydwaith estynadwy, i gysylltu cymunedau sydd ar hyn o bryd yn cael eu gwasanaethu'n wael gan gludiant cyhoeddus rhanbarthol. Bydd yn cael effaith gadarnhaol yn gymdeithasol, yn economaidd ac yn amgylcheddol. Mae rhai o'r rhaglenni yr ydym yn credu y byddant yn gwireddu'r weledigaeth hon i'w gweld yn y llyfryn metro, ac ar dudalennau metro ein gwefan.

Llywydd, I want to see a turn-up-and-go experience across the region, with tickets that allow people to travel easily between bus and train. The network will also be completely integrated to link with active travel—walking and cycling—to provide a transport system that is befitting of a capital city region.

Llywydd, rwyf eisiau gweld profiad cyrraedd a mynd ar draws y rhanbarth, gyda thocynnau sy'n caniatáu i bobl deithio yn hawdd rhwng bws a thrên. Bydd y rhwydwaith hefyd yn cael ei integreiddio yn gyfan gwbl i gysylltu â theithio llesol—cerdded a beicio—i ddarparu system drafnidiaeth sy'n gweddu i brifddinas-ranbarth.

Better connectivity will enhance this potential to transform the prospects of everyone across the capital region—the whole of south-east Wales. The project will connect more people to more places, and will enable development and regeneration across the region. It will transform the country's economic and social prospects, and provide a blueprint for integrated transport across the whole of Wales.

Bydd gwell cysylltedd yn gwella'r potensial hwn i weddnewid rhagolygon pawb ar draws y prifddinas-ranbarth—de-ddwyrain Cymru gyfan. Bydd y prosiect yn cysylltu mwy o bobl â mwy o leoedd, a bydd yn galluogi datblygu ac adfywio ar draws y rhanbarth. Bydd yn gweddnewid rhagolygon economaidd a chymdeithasol y wlad, ac yn darparu glasbrint ar gyfer trafnidiaeth integredig ar draws Cymru gyfan.

Llywydd, in order to deliver the scheme, we are taking an outcome-and-output-based approach, whereby we set out to the industry what we want to see, in terms of better access to jobs and services, in terms of long-term transformational economic effects, more frequent and faster services, better quality, and environmental improvements. The industry will help us develop the best way to achieve those results, and we believe that this approach will give us innovative solutions that may be better value, and deliver improved outcomes, than the original contractual model for the Valleys lines electrification proposals.

We have established the Welsh Government Transport Company, which is a not-for-dividend, wholly owned subsidiary company of the Welsh Government, to develop this work. That company was formally incorporated in April, and will provide the expert advice that we will need to take this work forward. Our immediate focus is on preparing for the procurement of the Wales and borders franchise and metro, possibly as a combined procurement. The Welsh Government Transport Company, and the transport strategic advisory board, will be providing expert advice regarding this process. Of course, public consultation will be fundamental to shaping our decision, in terms of the decision that needs to be made in this area, and we will get this under way in the new year.

Alongside this preparation for the future, delivery of metro phase 1 continues. On 11 June, I officially opened the new Ebbw Vale town station. We are also funding enhancements to the Ebbw Vale line that will allow for additional services to be introduced in the future, as well as improvements to bus corridors and train station facilities. It is absolutely critical that our public transport infrastructure is accessible to everybody, and we have a long way to go, of course, before this is realised.

Llywydd, the estimated total cost of phase 2 is £500 million to £600 million of capital investment. We are bidding for £150 million from the European regional development fund, and good progress is being made on identifying sources of funding for the balance of capital funds to deliver phase 2. And the UK Government, of course, must also now deliver on the city deal. The metro will not arrive overnight—there is a great deal of work ahead of us all. But, with a shared vision of what can be achieved, I firmly believe we can realise our aspirations.

Lywydd, er mwyn cyflwyno'r cynllun, rydym yn cymryd ymagwedd sy'n seiliedig ar ganlyniadau a chynnyrch, lle'r ydym yn nodi i'r diwydiant yr hyn yr ydym yn dymuno ei weld, o ran gwell mynediad at swyddi a gwasanaethau, o ran effeithiau economaidd gweddnewidiol tymor hir, gwasanaethau amlach a chyflymach, o ansawdd gwell, a gwelliannau amgylcheddol. Bydd y diwydiant yn ein helpu i ddatblygu'r ffordd orau i gyflawni'r canlyniadau hynny, a chredwn y bydd y dull hwn yn rhoi atebion arloesol a all fod o well gwerth i ni, ac a fydd yn darparu canlyniadau gwell, na'r model cytundebol gwreiddiol ar gyfer cynigion trydaneiddio rheilffyrdd y Cymoedd.

Rydym wedi sefydlu Cwmni Trafnidiaeth Llywodraeth Cymru, sy'n is-gwmni di-ddifidend, ac sy'n eiddo llwyr i Lywodraeth Cymru, i ddatblygu'r gwaith hwn. Cafodd y cwmni ei ymgorffori yn ffurfiol ym mis Ebrill, a bydd yn rhoi'r cyngor arbenigol y bydd ei angen arnom i ddatblygu'r gwaith hwn. Mae ein pwyslais uniongyrchol ar baratoi ar gyfer caffael masnachfrait Cymru a'r gororau a'r metro, o bosibl fel caffael cyfunol. Bydd Cwmni Trafnidiaeth Llywodraeth Cymru, a'r bwrdd cyngori strategol ar drafnidiaeth, yn darparu cyngor arbenigol ynglŷn â'r broses hon. Wrth gwrs, bydd ymgynghoriad cyhoeddus yn hanfodol i lunio ein penderfyniad, o ran y penderfyniad y mae angen ei wneud yn y maes hwn, a byddwn yn rhoi cychwyn ar hyn yn y flwyddyn newydd.

Ochr yn ochr â'r paratoi hwn ar gyfer y dyfodol, mae cyflwyno cam 1 y metro yn parhau. Ar 11 Mehefin, agorais orsaf newydd tref Glynebwy yn swyddogol. Rydym hefyd yn ariannu gwelliannau i reilffordd Glyn Ebwy a fydd yn caniatáu i wasanaethau ychwanegol gael eu cyflwyno yn y dyfodol, yn ogystal â gwelliannau i goridorau bus a chyfleusterau gorsaf drenau. Mae'n gwbl hanfodol bod ein seilwaith cludiant cyhoeddus yn hygyrch i bawb, ac mae gennym ffordd bell i fynd, wrth gwrs, cyn i hyn gael ei wireddu.

Llywydd, amcangyfrifir y bydd cyfanswm cost cam 2 yn £500 miliwn i £600 miliwn o fuddsoddiad cyfalaf. Rydym yn gwneud cais am £150 miliwn o gronfa datblygu rhanbarthol Ewrop, ac mae cynnydd da yn cael ei wneud ar nodi ffynonellau o gyllid ar gyfer gweddill y cyllid cyfalaf i gyflawni cam 2. Ac mae'n rhaid i Lywodraeth y DU, wrth gwrs, hefyd yn awr gyflawni ar y fargen ddinas. Ni fydd y metro yn cyrraedd dros nos—mae llawer iawn o waith o'n blaenau ni i gyd. Ond, gyda gweledigaeth ar y cyd o'r hyn y gellir ei gyflawni, rwyf o'r farn bendant y gallwn wireddu ein dyheadau.

## William Graham [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

May I thank the First Minister for his statement this afternoon, which was greatly welcome? The Welsh Conservatives have always supported this project from its inception, and we believe that there will be a substantial increase in speed and frequency of public transport right across south Wales, using a combination, hopefully, of heavy rail, light rail and bus rapid transit, although the First Minister's statement gives no particular indication of his preference for each of those this afternoon. The infrastructure improvements are equally necessary, together, hopefully, with integrated ticketing. Could I also stress that one of the great improvements of this will be to add, yet again, to social cohesion throughout the area? Although, I would ask the First Minister to bear in mind that many rural parts, both east and west of the capital city, also require an adequate connection within the metro system. In that respect, the bus operation is absolutely vital in rural areas and on cross-valley links.

We request, in time, proper distinction on what will happen in terms of the modal form, whether it will be heavy rail or light rail—no doubt that will come in time. We'd also request from the First Minister some idea of the timescale. He will know that some of the suggestions in the press, I hope, are widely inaccurate. They're talking in terms of 30 and 40 years. I'm sure that, in that time, not only will the system have been up and running, but it will also have been substantially revised.

He remarks upon Ebbw Vale and, again, that's a great improvement, but I think that I would have to echo what I and other Members from Newport have said over the last 16 years—nearly 16 years—that the connection for Newport is still sadly missed and needs to be implemented.

In terms of the city deal, I'm sure that the First Minister will acknowledge that there was an agreement in principle by the Chancellor in the statement last week, and hopefully that can now be brought together by inter-governmental talks.

We greatly welcome further statements on this matter and acknowledge the necessity for further public consultation on what is a vitally important project for all the people of south Wales.

A gaf i ddiolch i'r Prif Weinidog am ei ddatganiad y prynhawn yma, a oedd i'w groesawu yn fawr? Mae'r Ceidwadwyr Cymreig wastad wedi cefnogi'r prosiect hwn o'r cychwyn cyntaf, ac rydym yn credu y bydd cynnydd sylweddol mewn cyflymder ac amllder cludiant cyhoeddus ar draws de Cymru, gan ddefnyddio cyfuniad, gobeithio, o reilffyrdd trwm, rheilffyrdd ysgafn a bysiau teithio cyflym, er nad yw datganiad y Prif Weinidog yn rhoi unrhyw arwydd penodol am ei ffafriaeth ar gyfer pob un o'r rheini y prynhawn yma. Mae'r gwelliannau i'r seilwaith yr un mor angenrheidiol, ynghyd, gobeithio, â thocynnau integredig. A gaf i hefyd bwysleisio mai un o welliannau mawr hyn fydd ychwanegu, unwaith eto, at gydlyniant cymdeithasol ledled yr ardal? Er, byddwn yn gofyn i'r Prif Weinidog gofio bod llawer o rannau gwledig, i'r dwyrain ac i'r gorllewin o'r brifddinas, hefyd angen cysylltiad digonol o fewn y system metro. Yn hynny o beth, mae'r gweithrediad bysiau yn gwbl hanfodol mewn ardaloedd gwledig ac o ran cysylltiadau rhwng cymoedd.

Rydym yn gofyn, rhyw dro, am wahaniaethu priodol ar yr hyn a fydd yn digwydd o ran y ffurf foddol, pa un a fydd yn rheilffordd drom neu'n rheilffordd ysgafn—yn ddiamau fe ddaw hynny yn ei bryd. Byddem hefyd yn gofyn i'r Prif Weinidog am ryw syniad o amserlen. Bydd yn gwybod bod rhai o'r awgrymiadau yn y wasg, rwy'n gobeithio, ymhell o fod yn gywir. Maent yn siarad yn nhermau 30 a 40 mlynedd. Rwy'n siŵr, yn y cyfnod hwnnw, nid yn unig y bydd y system wedi bod ar waith, ond bydd hefyd wedi'i diwygio yn sylweddol.

Mae'n sôn am Lynebwy ac, unwaith eto, mae hynny'n welliant mawr, ond rwy'n meddwl y byddai'n rhaid i mi adleisio'r hyn yr wyf i ac Aelodau eraill o Gasnewydd wedi'i ddweud dros yr 16 mlynedd diwethaf—bron i 16 mlynedd—bod colled o hyd am y cysylltiad â Chasnewydd ac mae angen ei roi ar waith.

O ran y fargen ddinas, rwy'n siŵr y bydd y Prif Weinidog yn cydnabod bod cytundeb mewn egwyddor gan y Canghellor yn y datganiad yr wythnos diwethaf, a gobeithio y gellir bellach ddwyn hynny at ei gilydd drwy sgysiaau rhwng y llywodraethau.

Rydym yn croesawu datganiadau pellach ar y mater hwn yn fawr ac yn cydnabod yr angen am ymgynghoriad cyhoeddus pellach ar yr hyn sy'n brosiect hanfodol bwysig i holl bobl de Cymru.

## Carwyn Jones [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Can I thank the Member for his comments? Integrated ticketing will be vital, of course. We have started development of an initial smartcard project that will provide the foundation for a more ambitious programme in phase 2. In terms of the mix of transit systems, that is something that we continue to look at. It's fair to say that I cannot envisage a situation where there will be an extension of the heavy rail network. Any extensions in the future will be either light rail or, indeed, bus rapid transit, according to circumstances. But, we continue to examine the mix in terms of what is the most effective and efficient means of delivery.

A gaf i ddiolch i'r Aelod am ei sylwadau? Bydd tocynnau integredig yn hanfodol, wrth gwrs. Rydym wedi dechrau datblygu prosiect cerdyn clyfar cychwynnol a fydd yn darparu'r sylfaen ar gyfer rhaglen fwy uchelgeisiol yng nghan 2. O ran y gymysgedd o systemau tramwy, mae hynny'n rhywbeth yr ydym yn parhau i edrych arno. Mae'n deg dweud na allaf ragweld sefyllfa lle bydd estyniad i'r rhwydwaith rheilffyrdd trwm. Bydd unrhyw estyniadau yn y dyfodol naill ai'n rheilffyrdd ysgafn neu, yn wir, yn fysiau teithio cyflym, yn unol â'r amgylchiadau. Ond, rydym yn parhau i edrych ar y gymysgedd o ran y modd mwyaf effeithiol ac effeithlon o ddarparu.

I hear what he says, of course, about the link into Newport. That is something that will need to be examined over the course of the next few years as the metro moves forward. I can say to him that, in terms of 30 or 40 years, 'no' is the answer; not that long. It would be quite some commitment by any politician to commit to that time period. What we are looking at, if things go as we want them to do, and if the procurement is complete, is for the contract award to take place in terms of construction and rolling stock in April 2017. So, metro phase 1 is ongoing. Phase 2, of course, then will begin beyond that. That is the timescale that we are looking at.

Rwy'n dlywed yr hyn a ddywed, wrth gwrs, am y cyswllt i mewn i Gasnewydd. Mae hynny'n rhywbeth y bydd angen ei archwilio yn ystod y blynyddoedd nesaf wrth i'r metro symud yn ei flaen. Gallaf ddweud wrtho, o ran 30 neu 40 mlynedd, mai 'na' yw'r ateb; dim mor hir â hynny. Byddai'n eithaf ymrwymiad gan unrhyw wleidydd i ymrwymo i'r cyfnod hwnnw o amser. Yr hyn yr ydym yn edrych arno, os bydd pethau'n mynd fel yr ydym yn dymuno, ac os bydd y caffaeliad yn gyflawn, yw y bydd dyfarnu'r contract yn digwydd o ran adeiladu a cherbydau yn Ebrill 2017. Felly, mae cam metro 1 yn parhau. Bydd cam 2, wrth gwrs, wedyn yn dechrau ar ôl hynny. Dyna'r amserlen yr ydym yn edrych arni.

14:43

### **John Griffiths** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

First Minister, first of all, in terms of the Ebbw Vale-Newport passenger rail link, as William Graham stated, it is long-awaited locally, as I know you're very much aware of. I just wonder if there's anything you can say about process and timescale that would give comfort to those who are very frustrated at the time it's taking to get a clear commitment from Welsh Government to the necessary work, particularly, I think, in light of the recent opening of the Friars Walk development in Newport, which I think has given new impetus to the attractions of Newport as a place to work, and indeed to visit for leisure and social opportunities. Similarly, of course, there are many developments in Ebbw Vale set to take place, which make the linking of the two, I think, ever more important.

Brif Weinidog, yn gyntaf oll, o ran y cyswllt rheilffordd i deithwyr Glyn Ebwy -Casnewydd, fel y nododd William Graham, mae'n hir-ddisgwyliedig yn lleol, a gwn eich bod yn ymwybodol iawn o hynny. Rwy'n meddwl tybed a oes unrhyw beth y gallwch ei ddweud am y broses a'r amserlen a fyddai'n rhoi cysur i'r rhai sydd yn rhwystredig iawn â'r amser y mae'n ei gymryd i gael ymrwymiad clir gan Lywodraeth Cymru i'r gwaith angenrheidiol, yn arbennig, rwy'n meddwl, yng ngoleuni agoriad datblygiad Rhodfa'r Brodyr yn ddiweddar yng Nghasnewydd, yr wy'n meddwl sydd wedi rhoi hwb newydd i atyniadau Casnewydd fel lle i weithio ynndo, ac yn wir i ymweld ag ef ar gyfer cyfleoedd hamdden a chymdeithasol. Yn yr un modd, wrth gwrs, mae llawer o ddatblygiadau yng Nglynebwy ar fin digwydd, sy'n gwneud cysylltu'r ddau, rwy'n meddwl, yn bwysicach fyth.

Also, First Minister, in terms of a fully integrated system, I wonder if there's anything you could say about bus deregulation because I think a lot of people are very concerned that the ability of the Welsh Government to effectively plan and implement a fully integrated system does run into considerable difficulties around bus deregulation, and I wonder how Welsh Government will ensure those difficulties are overcome. Is there anything, First Minister, you could say about taxis, because a number of people have raised with me the way that, in some European cities, taxi services are very much part of the fully integrated transport system? They believe we perhaps should be giving a little bit more attention to taxis as part of this work. Finally, in terms of cycling, I know that a lot of people feel we need better provision for cycle storage on trains if we are to make sure that cycling is as much a part of the new system as it should be. We will also need to ensure effective implementation of the Active Travel (Wales) Act 2013 for those purposeful routes to ensure that transport does link with people's access and opportunities.

Hefyd, Brif Weinidog, o ran system gwbl integredig, tybed a oes unrhyw beth y gallech ei ddweud am ddadroleiddio bysiau oherwydd fy mod yn credu bod llawer o bobl yn bryderus iawn bod gallu Llywodraeth Cymru i gynllunio a gweithredu system gwbl integredig yn effeithiol yn mynd i anawsterau sylweddol o amgylch dadroleiddio bysiau, ac rwy'n meddwl tybed sut y bydd Llywodraeth Cymru yn sicrhau bod yr anawsterau hynny yn cael eu goresgyn. A oes unrhyw beth, Brif Weinidog, y gallech ei ddweud am dacsis, oherwydd mae nifer o bobl wedi codi gyda mi y ffordd y mae, mewn rhai dinasoedd Ewropeaidd, gwasanaethau taci yn rhan annatod o'r system drafnidiaeth gwbl integredig? Maent yn credu efallai y dylem fod yn rhoi ychydig bach mwy o sylw i dacsis yn rhan o'r gwaith hwn. Yn olaf, o ran beicio, gwn fod llawer o bobl yn teimlo bod arnom angen gwell darpariaeth ar gyfer storio beiciau ar drenau os ydym am wneud yn siŵr bod beicio yn gymaint o ran o'r drefn newydd ag y dylai fod. Bydd angen i ni hefyd sicrhau gweithredu Deddf Teithio Llesol (Cymru) 2013 yn effeithiol ar gyfer y llwybrau pwrpasol hynny i sicrhau bod trafnidiaeth yn cysylltu â ymnediad a chyfleoedd pobl.

14:45

### **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

I thank the Member. As ever, he raises issues of importance in terms of our consideration as to how to take forward the procurement, particularly of rolling stock. He mentioned storage for cycling. It's important, of course, that the Active Travel Act is at the forefront of our thinking, and, as I mentioned in the statement initially, walking and cycling are very much part of the transport solution for the whole of the south-east of Wales.

Diolch i'r Aelod. Fel bob amser, mae'n codi materion o bwys o ran ein hystyriaeth o sut i fwrw ymlaen â'r caffael, yn enwedig cerbydau. Soniodd am storio ar gyfer beicio. Mae'n bwysig, wrth gwrs, fod y Ddeddf Teithio Llesol ar flaen ein meddyliau, ac, fel y soniais yn y datganiad yn y lle cyntaf, mae cerdded a beicio yn rhan bwysig o'r ateb cludiant ar gyfer pob rhan o dde-ddwyrain Cymru.

In terms of buses, there need to be further powers in terms of regulation of buses in order to create a truly integrated system. Those powers have been promised. There's no reason to suspect they won't be delivered by the UK Government on this occasion. It's the same with taxis, of course. Taxi regulation is included in terms of the Wales Bill itself.

On the issue of a direct service to Newport, there are technical issues, I understand, in terms of signalling on the triangular junction just to the west of Newport, but of course there will also be a need to designate a service to run on that stretch of track as well. That's a matter, of course, that can be considered as part of the 2017 franchise discussions, and very much a part of the metro delivery in the future. I understand—I was there with him at Friar's Walk, of course, when the shopping centre was opened—that for many people in not just the eastern and western Valleys, but the Ebbw Valley as well, the natural connection is to Newport. Looking to promote that in years to come will be important. I understand that.

O ran bysiau, mae angen cael pwerau ychwanegol o ran rheoleiddio bysiau er mwyn creu system wirioneddol integredig. Mae'r pwerau hynny wedi eu haddo. Nid oes unrhyw reswm i amau na fyddant yn cael eu cyflwyno gan Lywodraeth y DU y tro hwn. Mae'r un peth yn wir am dacsis, wrth gwrs. Mae rheoleiddio tacsis wedi ei gynnwys yn y Bil Cymru ei hun.

Ar fater gwasanaeth uniongyrchol i Gasnewydd, ceir materion technegol, rwy'n deall, o ran signalau ar y gyffordd driongllog ychydig i'r gorllewin o Gasnewydd, ond wrth gwrs bydd hefyd angen dynodi gwasanaeth i redeg ar y darn hwnnw o drac yn ogystal. Mae hynny'n fater, wrth gwrs, y gellir ei ystyried yn rhan o drafodaethau masnachfrait 2017, ac i raddau helaeth yn rhan o gyflwyno'r metro yn y dyfodol. Rwy'n deall—roeddwn i yno gydag ef yn Rhodfa'r Brodyr, wrth gwrs, pan gafodd y ganolfan siopa ei hagar—i lawer o bobl nid yn unig yn y Cymoedd dwyreiniol a gorllewinol, ond yng Nghwm Ebwy hefyd, mae'r cysylltiad naturiol i Gasnewydd. Bydd ceisio hyrwyddo hynny yn y blynyddoedd i ddod yn bwysig. Rwy'n deall hynny.

14:47

## Rhun ap Iorwerth [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Diolch am y datganiad yma heddiw. Mi ddechreuodd y Prif Weinidog drwy ddweud ein bod ni ychydig fisoedd yn ôl wedi cael newyddion am gamau sylweddol ymlaen o ran y metro. Nid wyf yn siŵr iawn os ydw i'n cytuno efo hynny. Rwy'n meddwl mai beth glywsom ni gan y Gweinidog trafniadaeth ychydig fisoedd yn ôl oedd bod y trydaneiddio yn rhan fawr o'r metro. Nid wyf yn anghytuno efo hynny, ond nid wyf yn siŵr os oedd hynny yn gam mawr ymlaen.

Mae'r ffordd y mae'r Prif Weinidog yn disgrifio'r weledigaeth heddiw yn hollol, hollol gywir, wrth gwrs—gwasanaethau amlach mwy cyflym, rhwydwaith ehangach, system wedi'i hintegreiddio. Nid wyf yn anghytuno efo hynny, yn sicr. Rwy'n falch hefyd fod math o fap gennym ni erbyn hyn, er ei bod hi'n rhyfeddol ein bod ni'n tynnu at ddiwedd 'phase 1' y metro cyn bod gennym ni fap o'r math yna. Un peth, rwy'n meddwl, ydy gweledigaeth ac un peth ydy map, ond peth arall yn llwyr ydy gwybod sut fath o fetro sydd gennym ni yn fan hyn. Mae yna benderfyniadau sylfaenol yn dal i'w gwneud. Sut ffurfiau ar drafniadaeth fydd yn cael eu defnyddio? Yn lle a sut y bydd yr integreiddio efo'i gilydd yn digwydd? Rwy'n gobeithio bod y Llywodraeth, wrth gychwyn yr ymgynghoriad yma a gwahodd syniadau, yn cyfaddef mewn difri ein bod ni ymhell iawn oddi wrth gael y darlun llawn o hyd.

Mae rhyw bedwar cwestiwn gen i. I gyfeirio nôl at beth ddywedais i funud yn ôl, mi oedd hi'n glir o ddatganiad diweddar y Gweinidog dros drafniadaeth fod mwyafrif llethol yr arian a oedd ar gael ar gyfer ail gymal y metro yn arian, mewn difri, ar gyfer trydaneiddio Cymoedd y de. A ydy'r datganiad heddiw yn newid hynny o gwbl? Hefyd, a ydy'r arian a fydd yn cael ei neilltuo ar gyfer trydaneiddio yn dibynnu ar faint o reilffordd drom a faint o reilffordd ysgafn fydd yn cael eu defnyddio yn y metro terfynol?

Thank you for the statement today. The First Minister started by saying that, some months ago, we had received some news about significant steps forward on the metro. I'm not sure whether I agree with that. I think what we heard from the Minister for transport a few months ago was that electrification was a large part of the metro. I wouldn't disagree with that, but I don't know if that was a significant step forward.

The way in which the First Minister describes the vision today is entirely right of course—more frequent, quicker services, a wider network, a system that is fully integrated. I most certainly wouldn't disagree with that. I'm also pleased that we do have a map available now, although it is surprising that we are coming to the end of phase 1 of the metro and it's only now that such a map has been made available. It is, I think, one thing to have a vision and a map, but it is entirely another thing to know what kind of metro we are dealing with here. There are fundamental decisions yet to be taken. What forms of transport will be used, and where and how will that integration work? I do hope that the Government, in commencing this consultation and inviting ideas, will admit that we are a very long way from having the full picture.

I have some four questions. To refer back to what I said just a few moments ago, it was clear from the recent statement by the Minister for transport that the vast majority of the money available for the second phase of the metro programme was, in reality, funding for the electrification of the south Wales Valleys. Does today's statement change that in any way? Also, will the funding that will be allocated for electrification be dependent on how much heavy rail and how much light rail will be used in the final metro programme?

O ran y rhannau o'r metro a fydd yn fysis yn hytrach na threnau, sut ydych chi'n gweld y rheini yn cael eu hintegreiddio o ystyried nad ydyn nhw'n rhan o'r 'franchise' rheilffordd, a pha reolau, neu ba bwerau rheoleiddio penodol y byddech chi'n dymuno eu defnyddio er mwyn gweld yr integreiddio yna yn gweithio yn well? Er enghraifft, a fydddech chi eisiau gweld 'franchise' bysus yn rhan o'r metro?

Yn olaf, mae'n hanfodol bod y metro yn annog datblygu economaidd yn y Cymoedd ac mewn ardaloedd y tu hwnt i Gaerdydd, yn hytrach na dim ond ei gwneud hi'n haws i bobl deithio i mewn i Gaerdydd i weithio. Pa astudiaethau sydd gennych chi fel Llywodraeth, neu ba rai yr ydych chi wedi'u comisiynu, i ddangos y byddai'r cynlluniau, yn embryonig fel ag y maen nhw, yn arwain at greu swyddi y tu allan i Gaerdydd a bwrlwm economaidd go iawn y tu allan i'r brifddinas?

In terms of sections of the metro that will be bus transit rather than rail, how do you see those being integrated given that they are not part of the rail franchise, and what specific rules or regulatory powers would you wish to use in order to secure that integration and to see it working properly? For example, would you want to see a bus franchise as part of the metro?

Finally, it is crucial that the metro encourages economic development in the Valleys and in areas outwith Cardiff, rather than just making it easier for people to travel into Cardiff to work. So, what studies have you as a Government carried out or which studies have you commissioned to demonstrate that the proposals, embryonic though they may be, will lead to job creation outside Cardiff and real economic activity outside the capital city?

14:50

## Carwyn Jones [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Yn gyntaf, ynglŷn â'r camau nesaf, y cam nesaf fydd edrych ar y broses gaffael, wedyn, wrth gwrs, symud ymlaen gydag achos busnes—byddwn yn erfyn i hynny ddigwydd dros y misoedd nesaf—ac, wrth gwrs, symud ymlaen gyda'r project ei hun. Ynglŷn â pha ffyrdd y byddwn ni'n eu defnyddio a pha reilffordd, ynglŷn â symud pobl—os mai rheilffordd drom, rheilffordd ysgafn neu fysiau—mae hyn yn rhywbeth i ymgynghori arno, yn enwedig gyda'r undebau sydd yn cynrychioli'r rheini sy'n gweithio ar y rheilffyrdd ar hyn o bryd. Rŷm ni eisiau siarad â nhw ynglŷn â'u barn ynglŷn ag ym mha ffordd y dylai'r project hwn symud ymlaen.

Ynglŷn â thrydaneiddio, mae arian wedi cael ei bennu ynglŷn â hynny gan Lywodraeth y Deyrnas Unedig. Bydd eisiau mwy o arian gan Lywodraeth Cymru; mae hynny'n rhan o'r ddêl, sef y ddêl ddinasol—y 'city deal'—hefyd. Byddai'n rhaid ffeindio arian newydd, a dyna beth sydd gennym ni fel rhan o'r 'city deal'.

Ynglŷn â bysiau, yr unig ffordd i sicrhau bod bysiau yn rhan o'r system yw sicrhau bod ffordd gyda ni i reoli'r bysiau a'r pwerau i wneud hynny. Mae hynny'n mynd i ddod ynglŷn â'r Bil newydd, sef Bil Cymru. Wrth gwrs, wedyn bydd y modd gennym ni i reoleiddio'r gwasanaethau sy'n cysylltu â'r trenau eu hunain.

First of all, as regards the next steps, the next step will be to look at the procurement process and then to move forward with a business case—I would expect that to happen over the next few months—before, of course, moving forward with the project itself. As regards which methods and which type of rail will be used to transport people, be that light rail, heavy rail or buses, that is something that we will consult upon, particularly with the unions representing rail workers at present. We will wish to speak to them and glean their views about how this project should move forward.

As regards electrification, funding has been allocated by the United Kingdom Government for that. More money will be required from Welsh Government, and that's part of the deal—the city deal—too. So, we'd have to find new funding, and that's what we've already got as part of the city deal.

As regards buses, the only way to ensure that buses are part of the system is that we have a way of managing and controlling the buses, and that we have the powers to do that. That should come under the Wales Bill, the new Bill, and then it will be possible for us to regulate the services that connect with the trains themselves.

Ynglŷn â'r camau nesaf ac a fydd hyn yn rhywbeth sydd dim ond yn sugno pobl i mewn i Gaerdydd, yr ateb i hynny yw 'na'. Rŷm ni'n gwybod bod 11 miliwn o bobl yn defnyddio gorsaf Caerdydd Canolog bob blwyddyn—tua 40,000 y dydd, os cofiaf i, sy'n defnyddio'r rhwydwaith i mewn i Gaerdydd o'r Cymoedd. Mae'n wir i ddweud y bydd hi'n glouach i bobl ddod i mewn i Gaerdydd, ond, hefyd, bydd hi'n rhwyddach i bobl fynd mas o Gaerdydd. Mae hynny'n meddwl bod ardaloedd wedyn yn gallu tynnu mwy o fuddsoddiad. Rŷm ni'n gweld hynny yng Nglyn Ebwy, er enghraifft, gyda'r buddsoddiad sy'n digwydd yn fanna gyda'r orsaf drên newydd a'r buddsoddiad sydd wedi mynd i mewn i'r ardal ynglŷn â'r archifdy, ynglŷn â'r coleg, ynglŷn â'r ysgol, ac ynglŷn â'r rheilffordd ffwnicwlar—yr unig un, rwy'n credu, yng Nghymru; yr ail un yng Nghymru: mae un yn Aberystwyth, wrth gwrs—sydd yna yng Nglyn Ebwy. Felly, rŷm ni'n gweld bod cysylltu cymunedau yn gallu tynnu buddsoddiad allan o'r de lan i'r Cymoedd hefyd.

Wrth gwrs, mae hyn yn enghraifft o beth allasai ddigwydd mewn rhannau eraill o Gymru. Rŷm ni'n gwybod bod yna gymunedau trefol ym mae Abertawe a hefyd gogledd-ddwyrain Cymru a fydd yn cael budd o'r math o system sy'n integreiddio trafniadaeth yn eu hardaloedd nhw. Mae beth sy'n digwydd yn y de-ddwyrain yn mynd i fod yn enghraifft ynglŷn â beth allasai ddigwydd, wrth gwrs, mewn rhannau eraill o Gymru.

As regards the next steps and whether this would be something that just absorbed people into Cardiff, the answer to that is 'no'. We know that 11 million people use Cardiff Central station every year, and, if I recall correctly, about 40,000 people come into Cardiff from the Valleys every day. It's true to say that it'll be faster for people to come into Cardiff, but it will also be easier for people to depart. This will mean that it will be easier to attract investment to certain areas. We've seen this in Ebbw Vale, for example, with the investment that's happened there with the new railway station and the investment in the area in relation to the archives, the college, the school, the funicular railway—the only one in Wales, I think; no, the second such railway: there is one in Aberystwyth—in Ebbw Vale. So, we see that connecting communities can draw investment out of the south up into the Valleys too.

Of course, this is an example of what could happen in other parts of Wales. We know that there are urban areas in Swansea bay and in the north-west of Wales that will benefit from the kind of system that integrates transport in their areas. What's happening in the south-east will be a pattern for what could then happen in other parts of Wales.

14:53

## **Eluned Parrott** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

First Minister, I welcome the vision and the consultation that you're launching. There are communities in my own region, like Gabalfa, for example, that are very keen on having a station, and I'm sure they'll be very pleased to have the chance to contribute. I also welcome the very prominent mention of active travel, because it was notably quiet on this front in the transport finance plan that was published in July. There are issues around the implementation of the Active Travel (Wales) Act 2013, such as the lack of bike facilities at Welsh Government facilities like Cardiff Airport.

Looking at things like the outcomes model that you've talked through, I think it's a very interesting approach. I note it's the reason that you've given, really, for moving backwards on the original Valleys lines electrification proposals and what might be considered as a strange choice not to electrify those lines that are not being considered for light rail—the ones that will remain heavy rail will, apparently, remain diesel as well. I do welcome the fact that the Welsh Government appears, at last, to be looking at the challenges of moving people in that strategic way, rather than looking at pet projects and what they'll achieve, but this is at odds with the fact that the impact of the metro hasn't been included in the Welsh Government's case, for example, for the M4. Surely, a notable outcome of the metro is going to be modal shift, and I'd be interested in knowing from the First Minister what assessment the Welsh Government has made about the modal shift that can be achieved by the metro proposal as it moves forwards in its phases.

Brif Weinidog, rwy'n croesawu'r weledigaeth a'r ymgynghoriad yr ydych yn ei lansio. Mae cymunedau yn fy rhanbarth fy hun, fel Gabalfa, er enghraifft, sy'n awyddus iawn i gael gorsaf, ac rwy'n siŵr y byddant yn falch iawn o gael y cyfle i gyfrannu. Croesawaf hefyd y sôn amlwg iawn am deithio llesol, oherwydd yr oedd yn nodedig o dawel ynglŷn â hynny yn y cynllun cyllid trafniadaeth a gyhoeddwyd ym mis Gorffennaf. Mae problemau yn ymwneud â gweithredu Deddf Teithio Llesol (Cymru) 2013, fel y diffyg cyfleusterau beiciau mewn cyfleusterau Llywodraeth Cymru fel Maes Awyr Caerdydd.

Gan edrych ar bethau fel y model canlyniadau yr ydych wedi siarad amdano, rwy'n credu ei fod yn ddull diddorol iawn. Nodaf mai dyma'r rheswm yr ydych wedi'i roi, mewn gwirionedd, ar gyfer symud tuag at yn ôl ar y cynigion gwreiddiol i drydaneiddio rheilffordd y Cymoedd a'r hyn y gellid ei ystyried yn ddewis rhyfedd i beidio â thrydaneiddio'r rheilffyrdd hynny nad ydynt yn cael eu hystyried ar gyfer y rheilffyrdd ysgafn—bydd y rhai a fydd yn parhau i fod yn rheilffyrdd trwm, mae'n debyg, yn parhau i fod yn diesel hefyd. Rwy'n croesawu'r ffaith bod Llywodraeth Cymru yn ymddangos, o'r diwedd, i fod yn edrych ar yr heriau o symud pobl yn y ffordd strategol honno, yn hytrach nag edrych ar hoff brosiectau a'r hyn y byddant yn ei gyflawni, ond mae hyn yn groes i'r ffaith nad yw effaith y metro wedi ei gynnwys yn achos Llywodraeth Cymru, er enghraifft, ar gyfer yr M4. Siawns mai canlyniad nodedig y metro fydd newid moddol, a byddai gennyf ddiddordeb mewn cael gwybod gan y Prif Weinidog pa asesiad y mae Llywodraeth Cymru wedi'i wneud ynghylch y newid moddol y gellir ei gyflawni gan y cynnig metro wrth iddo symud ymlaen drwy ei gamau.

Another issue that hasn't been mentioned in the statement is freight. Of course, the metro isn't responsible for freight movements, but, clearly, the freight transport shares infrastructure with passengers on both road and rail and does need to be taken into account. This is, particularly, a critical issue in terms of rail safety and the decision as to whether to run light rail or tram trains on the heavy-rail network. If you run light and heavy rail on the same network, you lose many of the speed improvements because you'll have to use heavy-rail signalling, and you'll lose a lot of the efficiency savings because you have to reinforce the rolling stock for much higher levels of crashworthiness, so it's heavier and uses more fuel. I wonder what expertise the Welsh Government is bringing in to advise on those safety issues, which are clearly a critical element, given that, I believe, in no other part of the United Kingdom are light and heavy rail using the same infrastructure consistently. I'm wondering what discussions the metro group are having with the freight operators to discuss the segregation of freight pathways through pinch points like Cardiff Central, for example, and whether that will mean that those lines that are proposed for light rail or tram trains will have to be brought onto the street in the city of Cardiff.

Another issues is, of course, ticketing. Now, we have been promised integrated smart cards in the past and, in fact, one of your officials, in my first year as an Assembly Member, handed one to the Enterprise and Business Committee members and said, 'This is what it will be looking like'. Four years down the line, it has now taken so long to deliver that smart card in reality that it's becoming, perhaps, a passé technology, and perhaps we ought to be thinking about people using their contactless credit cards and their mobile phones in the way they do on the London Underground. I'd welcome your thoughts on that and also on what infrastructure is going to be required in stations to enable those cards to work. The Oyster card requires staffing at all of the stations it's used on, to my knowledge.

Finally, on funding, I have previously asked on a number of occasions whether the £580 million that you have offered to the UK Government as your contribution to the city deal, which is to deliver the metro, includes the £125 million that the UK Treasury gave you to electrify the Valleys lines. It is an interesting idea to ask the UK Treasury to match fund their own money. I'd be quite interested to know whether or not that is what is happening here.

14:57

**Carwyn Jones** [Bywgraffiad Biography](#)  
*Y Prif Weinidog / The First Minister*

No, it's new money, and it's money that we would expect to be match funded. It's not quite as easy as saying the UK Government has given us money to electrify the railway; with railways, it's never quite as straightforward as that. It's to do with the way in which charges are imposed, rather than a cheque being presented.

Mater arall nad yw wedi'i grybwyll yn y datganiad yw cludo nwyddau. Wrth gwrs, nid yw'r metro yn gyfrifol am symud nwyddau, ond, yn amlwg, mae cludo nwyddau yn rhannu seilwaith gyda theithwyr ar y ffordd a'r rheilffordd ac mae angen ei ystyried. Mae hyn, yn enwedig, yn fater hollbwysig o ran diogelwch y rheilffyrdd a'r penderfyniad ynghylch pa un a ddylid rhedeg trenau rheilffordd neu dram ysgafn ar y rhwydwaith rheilffyrdd trwm. Os ydych yn rhedeg rheilffordd ysgafn a thrwm ar yr un rhwydwaith, byddwch yn colli llawer o'r gwelliannau cyflymder oherwydd bydd yn rhaid i chi ddefnyddio signalau rheilffordd trwm, a byddwch yn colli llawer o'r arbedion effeithlonrwydd oherwydd bod yn rhaid i chi atgyfnerthu'r cerbydau ar gyfer lefelau llawer uwch o ddiogelwch mewn damweiniau, felly mae'n drymach ac yn defnyddio mwy o danwydd. Tybed pa arbenigedd y mae Llywodraeth Cymru yn ei ddefnyddio i roi cyngor ar y materion diogelwch hynny, sydd yn amlwg yn elfen hanfodol, o ystyried, rwy'n credu, nad yw rheilffyrdd ysgafn a thrwm yn defnyddio'r un isadeiledd yn gyson mewn unrhyw ran arall o'r Deyrnas Unedig. Rwy'n meddwl tybed pa drafodaethau mae'r grŵp metro yn eu cael gyda gweithredwyr cludo nwyddau i drafod gwahanu llwybrau cludo nwyddau drwy fannau cyfyng fel Canol Caerdydd, er enghraifft, ac a fydd yn golygu y bydd yn rhaid dod â'r rheilffyrdd hynny sy'n cael eu cynnig ar gyfer rheilffyrdd ysgafn neu drenau tram i'r stryd yn ninas Caerdydd.

Mater arall, wrth gwrs, yw tocynnau, Nawr, rydym wedi cael addewid o gardiau clyfar integredig yn y gorffennol ac, mewn gwirionedd, rhoddodd un o'ch swyddogion, yn fy mlwyddyn gyntaf fel Aelod Cynulliad, un ohonynt i aelodau'r Pwyllgor Menter a Busnes gan ddweud, 'Dyma sut y bydd yn edrych'. Bedair blynedd yn ddiweddarach, mae bellach wedi cymryd cymaint o amser i gyflawni'r cerdyn clyfar mewn gwirionedd fel ei fod yn dod, efallai, yn dechnoleg hen ffasiwn, ac efallai y dylem fod yn meddwl am bobl sy'n defnyddio eu cardiau credyd digyswllt a'u ffonau symudol yn y ffordd y maent yn ei wneud ar reilffordd Danddaearol Llundain. Byddwn yn croesawu eich sylwadau ar hynny, a hefyd ynglŷn â pha seilwaith sy'n mynd i fod yn ofynnol mewn gorsafoedd i'w gwneud yn bosibl i'r cardiau hynny weithio. Mae'r cerdyn Oyster yn ei gwneud yn ofynnol i gael staff ym mhob un o'r gorsafoedd lle y caiff ei ddefnyddio, hyd y gwn i.

Yn olaf, ar gyllid, rwyf wedi gofyn yn flaenorol, ar sawl achlysur, pa un a yw'r £580 miliwn yr ydych wedi'i gynnig i Lywodraeth y DU fel eich cyfraniad tuag at y fargen ddinas, sydd i gyflwyno'r metro, yn cynnwys y £125 miliwn a roddodd Trysorlys y DU i chi i drydaneiddio rheilffyrdd y Cymoedd. Mae'n syniad diddorol i ofyn i Drysorlys y DU roi arian cyfatebol i'w harian eu hunain. Byddai gennyf ddiddordeb i wybod ai dyna'r hyn sy'n digwydd yma ai peidio.

Na, mae'n arian newydd, ac mae'n arian y byddem yn disgwyl iddo ddenu arian cyfatebol. Dyw hi ddim mor hawdd â dweud bod Llywodraeth y DU wedi rhoi arian i ni i drydaneiddio'r rheilffordd; gyda rheilffyrdd, nid yw hi byth mor syml â hynny. Mae'n ymwneud â'r ffordd y mae taliadau yn cael eu gosod, yn hytrach na sic yn cael ei chyflwyno.

In terms of the network itself, let's take smart ticketing. That will only come in to the fullest possible extent when we have a seamless network. That comes with bus regulation, ultimately. It doesn't need wholly staffed stations. If you look at the London Underground, for example, there are unstaffed stations there, particularly in the evening, where the Oyster card can be used. So, you don't need to have staff at every single station, but you do need to have a means of revenue protection. In other words, there needs to be a barrier there for people to use their ticket to go through. It's right to say that there are great examples, both in London and in Manchester, of what can be done with seamless ticketing. In Manchester, for example, the trains run on the heavy-rail network and also come into the city centre.

In terms of gauge sharing with freight, we have been speaking to freight operators. Clearly, the main line still has substantial freight on it, as does the Vale of Glamorgan line, as does the Cwmbargoed line as well, and there are other lines that still carry some coal traffic. They will need to be considered in terms of how that fits with our vision.

In terms of electrification, we're looking, of course, to electrify the majority of the network at least. That much is true. The rest of it is something we'll continue to look at. There are issues in terms of what choices you make with light and heavy rail. We want to have discussions, of course, with the unions that represent workers who are already on our existing system. It's right to say that light rail is far easier to extend than heavy rail, and if we're looking, for example, at light-rail links into parts of Wales, like Creigiau, as one example, going into Llantrisant, then light rail obviously is a way of doing it, rather than heavy rail. For other communities, particularly cross-valley, then bus rapid transport is probably, in most cases, the easiest solution.

But, from our point of view, we are excited about the project itself. Will it cause modal shift? Yes, I think it will create modal shift. If people have more comfortable trains that are more frequent, more people will use them. But, that will be true, I think, on the existing network to begin with. I'm not convinced it will mean that there are fewer cars through the Brynglas tunnels, because many of those people are coming from further afield, and I think that problem will remain. The immediate priority will be, of course, to try and create modal shift so there's less pressure on the A470 particularly—although it's not the only road up to the different Valleys—and that then, of course, will show that we are creating the modal shift that we need.

O ran y rhwydwaith ei hun, gadewch i ni ystyried tocynnau clyfar. Bydd hynny ond yn dod i mewn i'r graddau llawnaf posibl pan fydd gennym rwydwaith di-dor. Daw hynny gyda rheoleiddio bysiau, yn y pen draw. Nid oes angen gorsafoedd gyda staff llawn. Os edrychwch chi ar reilffordd danddaearol Llundain, er enghraifft, mae gorsafoedd heb staff yno, yn enwedig fin nos, lle y gellir defnyddio cerdyn Oyster. Felly, nid oes angen i chi gael staff ym mhob un gorsaf, ond mae angen i chi gael ffordd o ddiogelu refeniw. Mewn geiriau eraill, mae angen rhwystr yno i bobl ddefnyddio eu tocyn i fynd drwyddo. Mae'n gywir i ddweud bod enghreifftiau gwych, yn Llundain ac ym Manceinion, o'r hyn y gellir ei wneud gyda thocynnau di-dor. Ym Manceinion, er enghraifft, mae'r trenau yn rhedeg ar y rhwydwaith rheilffyrdd trwm a hefyd yn dod i ganol y ddinas.

O ran rhannu lled y rheilffordd gyda chludo nwyddau, rydym wedi bod yn siarad â gweithredwyr cludo nwyddau. Yn amlwg, mae cludo nwyddau sylweddol ar y brif reilffordd, fel sydd ar reilffordd Bro Morgannwg, fel sydd ar reilffordd Cwm Bargoed hefyd, ac mae rheilffyrdd eraill sy'n dal i gario rhywfaint o draffig glo. Bydd angen iddynt gael eu hystyried o ran sut mae hynny'n cyd-fynd â'n gweledigaeth.

O ran trydaneiddio, rydym yn edrych, wrth gwrs, i drydaneiddio'r rhan fwyaf o'r rhwydwaith o leiaf. Mae cymaint â hynny'n wir. Mae'r gweddill yn rhywbeth y byddwn yn parhau i edrych arno. Ceir problemau o ran pa ddewisiadau a wneuch gyda rheilffyrdd ysgafn a thrwm. Rydym yn awyddus i gael trafodaethau, wrth gwrs, gyda'r undebau sy'n cynrychioli gweithwyr sydd eisoes ar ein system bresennol. Mae'n iawn i ddweud bod rheilffyrdd ysgafn yn llawer haws i'w hymestyn na rheilffyrdd trwm, ac os ydym yn edrych, er enghraifft, ar gysylltiadau rheilffordd ysgafn i mewn i rannau o Gymru, fel Creigiau, fel un enghraifft, yn mynd i mewn i Lantrisant, yna mae rheilffyrdd ysgafn yn amlwg yn ffordd o wneud hynny, yn hytrach na rheilffyrdd trwm. Ar gyfer cymunedau eraill, yn enwedig rhwng cymoedd, yna bysiau cludiant cyflym yn ôl pob tebyg, yn y rhan fwyaf o achosion, yw'r ateb hawddaf.

Ond, o'n safbwynt ni, rydym yn llawn cyffro am y prosiect ei hun. A fydd yn achosi newid moddol? Bydd, rwy'n credu y bydd yn creu newid moddol. Os yw pobl yn cael trenau mwy cyfforddus sydd yn dod yn amlach, bydd mwy o bobl yn eu defnyddio. Ond, bydd hynny'n wir, rwy'n meddwl, ar y rhwydwaith presennol i ddechrau. Nid wyf yn argyhoeddedig y bydd yn golygu y bydd llai o geir yn mynd drwy dwneli Brynglas, gan fod llawer o'r bobl hynny yn dod o bell, ac rwy'n credu y bydd y broblem honno yn parhau. Y flaenoriaeth gyntaf, wrth gwrs, fydd ceisio creu newid moddol fel bod llai o bwysau ar yr A470 yn arbennig—er nad dyma'r unig ffordd i fyny at y gwahanol Gyymoedd—y bydd hynny wedyn, wrth gwrs, yn dangos ein bod yn creu'r newid moddol sydd ei angen arnom.

We have to bear in mind, of course, that, as with the network that we have, it exists in a part of Wales where the population is expanding. So, even as we see more people using the trains, of course, it may well be that we see more people as well on the roads. So, there will be challenges there to make sure that people see the trains as a natural first choice when it comes to not just travelling into Cardiff but travelling around the network as well, and, of course, that they use bus rapid transit services, rather than feeling that they have to rely on the car. I think it's probably true to say, since the Beeching cuts of 1964, that many, many communities have felt that the car is the primary source of transport for them. That's something that we plan to try to look to change as the metro first of all is modernised and then, of course, expanded.

Mae'n rhaid i ni gofio, wrth gwrs, ei fod, fel gyda'r rhwydwaith sydd gennym, yn bodoli mewn rhan o Gymru lle mae'r boblogaeth yn ehangu. Felly, hyd yn oed wrth i ni weld mwy o bobl yn defnyddio'r trenau, wrth gwrs, mae'n bosibl iawn y byddwn yn gweld mwy o bobl ar y ffyrdd hefyd. Felly, bydd heriau yn hynny o beth i wneud yn siŵr bod pobl yn gweld y trenau fel y dewis cyntaf naturiol pan ddaw hi nid yn unig at deithio i Gaerdydd ond teithio o gwmpas y rhwydwaith hefyd, ac, wrth gwrs, eu bod yn defnyddio gwasanaethau bysiau teithio cyflym, yn hytrach na theimlo bod yn rhaid iddynt ddibynnu ar y car. Rwy'n credu ei bod yn ôl pob tebyg yn wir i ddweud, ers toriadau Beeching yn 1964, bod llawer iawn o gymunedau wedi teimlo mai'r car yw'r brif ffynhonnell cludiant ar eu cyfer. Mae hynny'n rhywbeth yr ydym yn bwriadu ceisio ei newid wrth i'r metro yn gyntaf oll gael ei foderneiddio ac wedyn, wrth gwrs, ei ehangu.

15:00

### **Nick Ramsay** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

First Minister, I agree with you that positive economic, social and environmental effects can follow from the development of the metro network. Can I ask you for an update on efforts being made to connect the town of Monmouth to the proposed metro network? There have been a number of different maps published over the years. Early ones, from what I remember, had Monmouth—I'll let you turn to the Monmouth page in your briefing—on the map. It disappeared, worryingly, on more recent maps, probably down to cost. I believe it is now back on the map. It certainly is on the map on the Welsh Government website, which I've got in front of me—intriguingly, linked to the Celtic Manor and Malpas. Is the town definitely back on that map? If so, what mode and what frequency of transport is being considered? I presume it's going to be bus. What frequency of services are being considered? And, finally, in a wider context, is the renewal of the new Wales and borders franchise being dovetailed with the metro development? Because it's clearly important that the electrification process goes along with the purchase of new rolling stock.

Brif Weinidog, rwy'n cytuno â chi y gall effeithiau economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol cadarnhaol ddilyn o'r gwaith o ddatblygu'r rhwydwaith metro. A gaf i ofyn i chi am y wybodaeth ddiweddaraf am ymdrechion sy'n cael eu gwneud i gysylltu tref Trefynwy i'r rhwydwaith metro arfaethedig? Mae nifer o fapiau gwahanol wedi eu cyhoeddi dros y blynyddoedd. Roedd y rhai cynnar, o'r hyn rwy'n ei gofio, yn cynnwys Trefynwy—gadawaf i chi droi at y dudalen Trefynwy yn eich papurau briffio—ar y map. Diflannodd, sy'n peri pryder, oddi ar fapiau mwy diweddar, mater o gost yn ôl pob tebyg. Rwy'n credu ei fod bellach yn ôl ar y map. Yn sicr mae ar y map ar wefan Llywodraeth Cymru, sydd o fy mlaen—yn ddiddorol, yn gysylltiedig â'r Celtic Manor a Malpas. A yw'r dref yn bendant yn ôl ar y map? Os felly, pa fath a pha mor aml yw'r cludiant sy'n cael ei ystyried? Rwy'n tybio mai bysiau a ddefnyddir. Pa mor aml fydd y gwasanaethau sy'n cael eu hystyried? Ac, yn olaf, mewn cyd-destun ehangach, a yw adnewyddu masnachfaint newydd Cymru a'r gororau yn cael ei blethu â'r datblygiad metro? Oherwydd mae'n amlwg yn bwysig bod y broses drydaneiddio yn cyd-fynd â phrynu cerbydau newydd.

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

15:02

### **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Yes, as the Member will have heard me say in the statement, we are considering, for example, whether a combined procurement process for the two would be the most efficient way forward. But, yes, clearly, the two are connected. When I stood with my good friend and colleague, Mick Antoniw, on the platform—the longest platform in Britain, actually—in Pontypridd yesterday, I did look at the map and I did notice Monmouth there. And I noticed that because I knew that the Member would ask me about this. And, yes, he's right to say that Monmouth is there. What mode of transport? Well, not heavy rail. I think that's probably fair to say. It would either then be light rail or bus rapid transit. An assessment would have to be made of what is the most effective and efficient way for the people of Monmouth in terms of being connected with the network.

Ydy, fel y bydd yr Aelod wedi fy nghlywed yn dweud yn y datganiad, rydym yn ystyried, er enghraifft, pa un ai proses gaffael ar y cyd ar gyfer y ddau fyddai'r ffordd fwyaf effeithlon ymlaen. Ond, ie, yn amlwg, mae'r ddau yn gysylltiedig. Pan sefais gyda fy ffrind da a'm cydweithiwr, Mick Antoniw, ar y plattform—y plattform hiraf ym Mhrydain, mewn gwirionedd—ym Mhontypridd ddoe, fe edrychais ar y map ac fe sylwais ar Drefynwy yno. Ac fe sylwais hynny gan fy mod yn gwybod y byddai'r Aelod yn gofyn i mi am hyn. Ac, ydy, mae'n iawn i ddweud bod Trefynwy yno. Pa fodd o deithio? Wel, nid rheilffordd drom. Rwy'n credu ei bod yn deg i ddweud hynny. Byddai un ai wedyn yn rheilffordd ysgafn neu'n fws teithio cyflym. Byddai'n rhaid gwneud asesiad o beth yw'r ffordd fwyaf effeithiol ac effeithlon ar gyfer pobl Trefynwy o ran cael eu cysylltu â'r rhwydwaith.

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

15:02

**Alun Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

Like others this afternoon, First Minister, I'd like to welcome both your statement this afternoon and also the statement made in Pontypridd yesterday. I think, taken together, we're seeing a significant investment in the connectivity of communities across south Wales and, certainly, I share very much the objective that you've set out for yourself in creating a single, coherent economic unit. I think that's absolutely crucial, particularly for those communities that are, perhaps, on the periphery of the Cardiff city region. I'm concerned to ensure that with the investment that takes place—which you've referred to already this afternoon, and which is very much welcome in both Ebbw Vale itself, but also on dualling of the line to the south of Ebbw Vale to ensure that we have got more frequent services—that we maintain a focus on this as an inter-urban service as well as being a commuter service for communities closer to Cardiff. That places a very great emphasis then on journey times and also having sufficient services to serve the wider periphery areas. A station, for example, in Abertillery would be a key objective for ourselves in the north of the area. But, in terms of delivering this, I'd be grateful if you could outline to us in some detail—perhaps not this afternoon but at another time—how the electrification process will dovetail into this? I'm concerned to ensure that the Ebbw valley line is a part of that electrification project and that we are able then to have signalling on the main line to ensure that we do have the frequency of services that will be required in order to deliver the inter-urban service that we all wish to see.

Fel eraill y prynhawn yma, Brif Weinidog, hoffwn groesawu eich datganiad y prynhawn yma, a hefyd y datganiad a wnaed ym Mhontypridd ddoe. Rwy'n credu, o'u hystyried gyda'i gilydd, ein bod yn gweld buddsoddiad sylweddol yng nghysylltedd cymunedau ledled de Cymru ac, yn sicr, rwyf yn bendant yn rhannu yr amcan yr ydych wedi ei osod i chi eich hun o ran creu uned economaidd sengl, gydylnol. Rwy'n credu bod hynny'n gwbl hanfodol, yn enwedig ar gyfer y cymunedau hynny sydd, efallai, ar gyrion dinas-ranbarth Caerdydd. Rwy'n awyddus i sicrhau gyda'r buddsoddiad a fydd yn digwydd—yr ydych wedi cyfeirio ato eisoes y prynhawn yma, sydd i'w groesawu'n fawr yng Nglynebwy ei hun, ond hefyd ar ddeuoli'r rheilffordd i'r de o Lyn Ebwy i sicrhau bod gennym wasanaethau amlach—ein bod yn parhau i ganolbwyntio ar hyn fel gwasanaeth rhyngdrefol yn ogystal â bod yn wasanaeth cymudo ar gyfer cymunedau yn nes at Gaerdydd. Mae hynny'n rhoi pwyslais mawr iawn wedyn ar amseroedd teithio a hefyd ar gael gwasanaethau digonol i wasanaethu'r ardaloedd ymylol ehangach. Byddai gorsaf, er enghraifft, yn Abertyleri yn amcan allweddol i ni sydd yng ngogledd yr ardal. Ond, o ran darparu hyn, byddwn yn ddiolchgar pe gallech amlinellu i ni yn eithaf manwl—efallai nad y prynhawn yma, ond ryw dro arall—sut bydd y broses drydaneiddio yn plethu i mewn i hyn? Rwy'n awyddus i sicrhau bod rheilffordd cwm Ebwy yn rhan o'r prosiect trydaneiddio hwnnw a'n bod wedyn yn gallu cael signalau ar y brif lein i sicrhau ein bod yn cael yr amlder o ran gwasanaethau y bydd ei angen er mwyn cyflawni'r gwasanaeth rhyngdrefol yr ydym i gyd yn dymuno ei weld.

15:04

**Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

I thank the Member for his question. The principles that govern the metro are comfort, speed, affordability and frequency. These things are important to people and these are all objectives that the metro will seek to deliver. We always look to see what is the most effective way of speeding up journeys on the different lines and that's part of an ongoing process in terms of how we take that forward. But I return to the point that I made earlier on, and he will have seen it, of course, in Ebbw Vale—connectivity is not a one-way process; it can lead to investment being taken out of Cardiff as well. Where communities are seen as more easily connected with modern forms of transport, not with elderly trains, then it's easier to attract investment to those communities. So, I very much see this as a process of properly connecting the entire area, and not a process of shifting people from around the north-west and eastern parts of the metro network into the capital city.

Diolch i'r Aelod am ei gwestiwn. Yr egwyddorion sy'n llywodraethu'r metro yw cysur, cyflymder, fforddiadwyedd ac amlder. Mae'r pethau hyn yn bwysig i bobl ac mae'r rhain i gyd yn amcanion y bydd y metro yn ceisio'u cyflawni. Rydym bob amser yn edrych i weld beth yw'r ffordd fwyaf effeithiol o gyflymu siwrneiau ar y gwahanol reilffyrdd ac mae hynny'n rhan o broses barhaus o ran sut yr ydym yn bwrw ymlaen â hynny. Ond rwy'n dychwelyd at y pwynt a wneuthum yn gynharach, a bydd wedi ei weld, wrth gwrs, yng Nglyn Ebwy—nid yw cysylltedd yn broses unffordd; gall arwain at fuddsoddi yn cael ei dynnu allan o Gaerdydd hefyd. Pan fo cymunedau'n cael eu hystyried fel bod yn haws i'w cysylltu drwy fathau modern o gludiant, nid gyda threnau hen, yna mae'n haws denu buddsoddiad i'r cymunedau hynny. Felly, rwy'n gweld hon fel proses o gysylltu ardal gyfan, ac nid proses o symud pobl o rannau gogledd-orllewinol a dwyreiniol y rhwydwaith metro i mewn i'r brifddinas.

**Jenny Rathbone** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

As far as I'm concerned, the issue of modal shift is an absolute essential for my constituents, too many of whom are having their lives foreshortened by the pollution from commuters coming into Cardiff by car, and so we absolutely have to have that modal shift. Whilst I welcome the 40,000 commuters coming into Cardiff Central by rail, it is as nothing to the 100,000 who are coming into Cardiff and Newport by car. So, I very much welcome the creation of the Welsh Government Transport Company to pursue both rail and the metro with vim and vigour, particularly as Network Rail is not spending the capital investment in Wales that they are proportionately spending in England, and I hope therefore it can be seen as a forerunner to a new Wales Network Rail.

Cyn belled ag yr wyf i yn y cwestiwn, mae'r mater o newid moddol yn hollol hanfodol ar gyfer fy etholwyr, llawer gormod ohonynt yn cael eu bywydau wedi'u byrhau gan lygredd cymudwyr yn dod i Gaerdydd mewn car, ac felly mae'n rhaid i ni yn bendant gael y symudiad moddol hwnnw. Er fy mod i'n croesawu'r 40,000 o gymudwyr sy'n dod i mewn i Gaerdydd Canolog ar y trên, nid yw'n ddim o'i gymharu â'r 100,000 sy'n dod i mewn i Gaerdydd a Chasnewydd yn y car. Felly, rwy'n croesawu'n fawr creu Cwmni Trafnidiaeth Llywodraeth Cymru i fynd ar drywydd rheilffyrdd a'r metro gyda grym ac egni, yn enwedig gan nad yw Network Rail yn gwario buddsoddiad cyfalaf yng Nghymru y maent yn ei wario yn gymesur yn Lloegr, ac rwy'n gobeithio, felly, y gellir ystyried hyn fel rhagflaenydd i Network Rail newydd Cymru.

But I wanted to specifically ask about the procurement process. We obviously are limited in our influence over the progress that's going to be made on electrification, as it's under the control of others, but I want to know what progress is being made on setting up a body to represent the 10 local authorities of south-east Wales, so that they can start mapping and compulsory purchasing the land that's going to be required for delivering phase 2, so we don't have any ransom companies or landowners who are going to hold up the project when we do have the electrification to connect all these areas up.

Ond roeddwn am ofyn yn benodol am y broses gaffael. Rydym yn amlwg yn gyfyngedig o ran ein dylanwad dros y cynnydd sy'n mynd i gael ei wneud ar drydaneiddio, gan ei fod dan reolaeth pobl eraill, ond rwyf eisiau gwybod pa gynnydd sy'n cael ei wneud ar sefydlu corff i gynrychioli 10 awdurdod lleol de-ddwyrain Cymru, fel y gallant ddechrau mapio a gweithredu prynu gorfodol ar gyfer y tir sy'n mynd i fod yn ofynnol i gyflawni cam 2, fel nad oes gennym unrhyw gwmnïau pridwerth neu dirfeddianwyr sy'n mynd i oedi'r prosiect pan fydd y trydaneiddio gennym i gysylltu'r holl ardaloedd hyn â'i gilydd.

**Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

We're not looking for local authorities to do that, nor indeed to make that kind of financial contribution; this is something that will be delivered through funding from ourselves. We look for match funding, of course, from the UK Government, but it's not a burden that we would seek to impose on local authorities.

Nid ydym yn disgwyl i awdurdodau lleol wneud hynny, nac yn wir i wneud y math hwnnw o gyfraniad ariannol; mae hyn yn rhywbeth a fydd yn cael ei gyflwyno trwy gyllid gennym ni ein hunain. Rydym yn chwilio am arian cyfatebol, wrth gwrs, gan Lywodraeth y DU, ond nid yw'n faich y byddem yn ceisio ei gosod ar awdurdodau lleol.

It's absolutely crucial, of course, that the network is an integrated network run by one body, in the same way as Transport for London is in London, to make sure that delivery is seamless. So, in terms of procurement, we're looking to launch the procurement process in the very near future, and there'll be the opportunity for the public, of course, to examine what we propose. We also want to work closely, as I mentioned, with the rail unions because they will be concerned about the terms and conditions of their members, and we want to work with them to reassure them that this is a great opportunity for the future, and not something that they should be afraid of. We look forward to those meetings being organised in the very near future as well.

Mae'n gwbl hanfodol, wrth gwrs, bod y rhwydwaith yn rhwydwaith integredig yn cael ei redeg gan un corff, yn yr un modd ag y mae Transport for London yn Llundain, er mwyn sicrhau bod y ddarpariaeth yn ddi-dor. Felly, o ran caffael, rydym yn edrych i lansio'r broses gaffael yn y dyfodol agos iawn, ac fe fydd cyfle i'r cyhoedd, wrth gwrs, edrych ar yr hyn yr ydym yn ei gynnig. Rydym hefyd yn awyddus i gydweithio'n agos, fel y soniais, gyda'r undebau rheilffordd oherwydd byddant yn pryderu am delerau ac amodau eu haelodau, ac rydym yn awyddus i weithio gyda nhw i roi sicrwydd iddynt fod hwn yn gyfle gwych ar gyfer y dyfodol, ac nid yn rhywbeth y dylent fod yn ei ofni. Rydym yn edrych ymlaen at i'r cyfarfodydd hynny gael eu trefnu yn y dyfodol agos iawn hefyd.

There are opportunities also, of course, for communities in the east of Cardiff, and, despite the name of her constituency, I know it goes out towards the east as well, where, historically, there's been poor connectivity to the rail network—much of the network comes into the west and north of Cardiff particularly—and there are opportunities there for ensuring that there's modal shift within the eastern part of Cardiff, so that people don't feel they have to get in the car, go down Eastern Avenue and that is the only viable route for them to get to work. The latter phases of the metro will look at how we can properly connect the eastern part of the city with the rest of the network as well.

Mae cyfleoedd hefyd, wrth gwrs, ar gyfer cymunedau yn nwyrain Caerdydd, ac, er gwaethaf enw ei hetholaeth, rwy'n gwybod ei bod yn mynd allan tuag at y dwyrain hefyd, lle, yn hanesyddol, y bu cysylltedd gwael â'r rhwydwaith rheilffordd—daw llawer o'r rhwydwaith i mewn i orllewin a gogledd Caerdydd yn arbennig—ac mae cyfleoedd yno i sicrhau y bydd newid moddol o fewn rhan ddwyreiniol Caerdydd, fel nad yw pobl yn teimlo bod yn rhaid iddynt fynd yn y car, mynd i lawr Eastern Avenue ac mai dyna'r unig lwybr ymarferol iddynt gyrraedd y gwaith. Bydd cyfnodau olaf y metro yn edrych ar sut y gallwn gysylltu rhan ddwyreiniol y ddinas yn briodol â gweddill y rhwydwaith hefyd.

15:08 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad Biography](#)

Finally, Mick Antoniw.

Yn olaf, Mick Antoniw.

[Senedd.tv](#)  
[Fideo Video](#)

15:08 **Mick Antoniw** [Bywgraffiad Biography](#)

First Minister, can I first of all welcome your visit to Pontypridd yesterday, bringing with you the sunshine that you did on that wonderful day? I see it certainly recognises the position of Pontypridd as, really, a hub within the metro, but also the importance of the potential economic, social and cultural transformation that it actually offers. Can I also welcome the business Minister's previous commitments in respect of financing of training and apprenticeships in the railway area—directly related to the metro, because there are many opportunities and jobs that are available there? Can I just raise the issue that I've raised on many occasions, which is the importance of the actual metro to the Taff Ely area and development within that area, and can I say how absolutely pleased I was that BBC and ITV got the right plan, although Wales Online seemed to have the wrong plan, because the BBC plan had, obviously, Llantrisant and that development in that area on the plan? I was initially concerned when I started reading first of all the Wales Online report, which seemed to indicate it wasn't there. But it is absolutely vital, because, as we look to the development of housing and other opportunities in those areas, it is absolutely vital, I think, as Ministers have previously said, that we have some form of connectivity, some form of transport, and the only real opportunity that has offered that, and also in terms of the local economies, is actually the metro. I wonder, really, if you could perhaps just give an image as to how quickly you see the actual development of the actual plans and the models over the course of the next perhaps five to 10 years. How many phases do we expect to see and how soon will we actually start seeing a comprehensive, perhaps 10-year, programme as opposed to the current approach, which is in various phases?

Brif Weinidog, a gaf i yn gyntaf oll groesawu eich ymweliad â Phontypridd ddoe, gan ddod â'r heulwen gyda chi fel y gwnaethoch ar y diwrnod hyfryd hwnnw? Rwy'n gweld ei fod yn sicr yn cydnabod sefyllfa Pontypridd fel, yn wir, canolbwynt o fewn y metro, ond hefyd pwysigrwydd y gweddnewid economaidd, cymdeithasol a diwylliannol posibl y mae'n ei gynnig mewn gwirionedd. A gaf i hefyd groesawu ymrwymadau blaenorol y Gweinidog busnes o ran ariannu hyfforddiant a phrentisiaethau yn y maes rheilffyrdd—yn ymwneud yn uniongyrchol â'r metro, oherwydd mae llawer o gyfleoedd a swyddi ar gael yn y maes hwnnw? A gaf i godi'r mater yr wyf wedi'i godi droeon, sef pwysigrwydd y metro gwirioneddol i ardal Taf Elái a datblygiad yn yr ardal honno, ac a gaf i ddweud pa mor falch yr oeddwn bod y BBC ac ITV wedi cael y cynllun iawn er bod Cymru Ar-lein yn ymddangos i fod wedi cael y cynllun anghywir, oherwydd bod cynllun y BBC, yn amlwg, yn cynnwys Llantrisant a'r datblygiad yn yr ardal honno ar y cynllun? Roeddwn yn bryderus i ddechrau pan ddechreuais ddarllen yn gyntaf oll adroddiad Cymru Ar-lein, a oedd yn ymddangos i nodi nad oedd yno. Ond mae'n hollol hanfodol, oherwydd, wrth i ni edrych at ddatblygiad tai a chyfleoedd eraill yn yr ardaloedd hynny, mae'n gwbl hanfodol, rwy'n meddwl, fel y mae Gweinidogion wedi ei ddweud o'r blaen, fod gennym ryw fath o gysylltedd, rhyw fath o drafnidiaeth, a'r unig gyfle gwirioneddol sydd wedi cynnig hynny, a hefyd o ran yr economïau lleol, mewn gwirionedd yw'r metro. Tybed, mewn gwirionedd, pe gallech efallai ddim ond rhoi syniad o ran pa mor gyflym yr ydych yn gweld datblygiad gwirioneddol y cynlluniau gwirioneddol a'r modelau yn ystod y pump i 10 mlynedd nesaf efallai. Sawl cam yr ydych yn disgwyl eu gweld a pha mor fuan y byddwn mewn gwirionedd yn dechrau gweld rhaglen gynhwysfawr, efallai 10 mlynedd yn hytrach na'r dull presennol, sydd mewn gwahanol gyfnodau?

[Senedd.tv](#)  
[Fideo Video](#)

15:10

**Carwyn Jones** [Bywgraffiad Biography](#)

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Well, phase 1 is actually in delivery at the moment, because we're already delivering a £77 million investment in phase 1. Ebbw Vale town station is one example I've given there, but also, of course, the capacity enhancements on the Llynfi valley line, the new station at Pye Corner, there are rail and bus station improvements across the region—Pontypridd is one, of course; we saw that yesterday—bus priority schemes as well, focused on the A470, and active travel and park-and-ride schemes.

In terms of phase 2, we are undertaking further work to design, develop and evaluate a programme of delivery that provides the most appropriate model solutions. A supplier event was held on 29 June to engage with the market as a precursor to the procurement process, and we do envisage that that procurement process will be split into three phases: specification, procurement and mobilisation. So, that process has already begun and we know that the metro presents an opportunity for both developers and local authorities to adopt a transit-orientated development approach, directing development and regeneration to metro transport corridors. In other words, where there are proposals for new housing estates, then, obviously, consideration will need to be given to how those estates are connected into the metro system, rather than saying, 'As long as there's a road there, it's fine'.

Wel, mae cam 1 mewn gwirionedd yn cael ei ddarparu ar hyn o bryd, gan ein bod eisoes yn cyflwyno buddsoddiad o £77 miliwn yng nghanam 1. Mae gorsaf tref Glynabwy yn un enghraifft yr wyf i wedi'i rhoi yn y fan yna, ond hefyd, wrth gwrs, mae'r gwelliannau capasiti ar reilffordd cwm Llynfi, yr orsaf newydd yn Pye Corner, mae gwelliannau gorsafoedd rheilffordd a bysiau ar draws y rhanbarth—mae Pontypridd yn un, wrth gwrs; gwelsom hynny ddoe—cynlluniau blaenoriaeth bws, yn ogystal, yn canolbwyntio ar yr A470, a chynlluniau teithio llesol a pharcio a theithio.

O ran cam 2, rydym yn gwneud gwaith pellach i ddylunio, datblygu a gwerthuso rhaglen o gyflwyno sy'n darparu'r atebion model mwyaf priodol. Cynhaliwyd digwyddiad cyflenwr ar 29 Mehefin i ymgysylltu â'r farchnad fel rhagflaenydd i'r broses gaffael, ac rydym yn rhagweld y bydd y broses gaffael yn cael ei rhannu i dri chyfnod: manyleb, caffael a gweithredu. Felly, mae'r broses honno eisoes wedi dechrau ac rydym yn gwybod bod y metro yn cynnig cyfle i ddatblygwyr ac awdurdodau lleol fabwysiadu dull datblygu sy'n canolbwyntio ar dramwy, gan gyfeirio datblygiad ac adfywiad i goridorau cludiant metro. Mewn geiriau eraill, lle mae cynigion ar gyfer ystadau tai newydd, yna, yn amlwg, bydd angen rhoi ystyriaeth i sut mae'r ystadau hynny wedi'u cysylltu i mewn i'r system metro, yn hytrach na dweud, 'Cyn belled â bod ffordd yno, mae'n iawn'.

[Senedd.tv](#)  
[Fideo Video](#)

15:12

**Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad Biography](#)

Thank you, First Minister.

Diolch yn fawr, Brif Weinidog.

[Senedd.tv](#)  
[Fideo Video](#)

15:12

**4. Datganiad: Polisi Caffael—  
Ysgogi Gwelliant ac Ymgysylltu â  
Busnesau**

**Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad Biography](#)

We now move to a statement by the Minister for Finance and Government Business, Jane Hutt, procurement policy—driving improvement and engaging business. I call on the Minister, Jane Hutt.

**4. Statement: Procurement Policy  
—Driving Improvement and  
Engaging Business**

Symudwn nawr at ddatganiad gan Weinidog Cyllid a Busnes y Llywodraeth, Jane Hutt, polisi caffael—sbarduno gwelliant ac ymgysylltu â busnes. Galwaf ar y Gweinidog, Jane Hutt.

[Senedd.tv](#)  
[Fideo Video](#)

15:12

**Jane Hutt** [Bywgraffiad Biography](#)

*Y Gweinidog Cyllid a Busnes y Llywodraeth / The Minister for Finance and Government Business*

Diolch, Lywydd. In June, I published a refreshed Wales procurement policy statement, strengthened from evidence gathered since its launch in December 2012, and developed to complement the Well-being of Future Generations (Wales) Act 2015. Today, I am pleased to update you on the use of the new powers to develop regulations and give an outline of planned developments to improve business engagement in public procurement.

Diolch, Lywydd. Ym mis Mehefin, cyhoeddais ddatganiad polisi caffael Cymru ar ei newydd wedd, wedi'i gryfhau gan dystiolaeth a gasglwyd ers ei lansio ym mis Rhagfyr 2012, a'i ddatblygu i gyd-fynd â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Heddiw, rwy'n falch o roi'r wybodaeth ddiweddaraf i chi am y defnydd o'r pwerau newydd i ddatblygu rheoliadau a rhoi amlinelliad o'r datblygiadau a gynlluniwyd i wella ymgysylltiad â busnes ym maes caffael cyhoeddus.

[Senedd.tv](#)  
[Fideo Video](#)

I'm encouraged that the Wales procurement policy statement has been increasingly adopted by the public sector. Our policies are opening doors for suppliers in Wales to win a significant proportion of Welsh contracts. Visibility of public sector contracts continues to grow, providing our suppliers with great access to these opportunities. Consequently, Wales-based suppliers win almost 70 per cent of all contracts awarded through Sell2Wales.

Our community benefits policy continues to drive further value from procurement for the Welsh economy and our communities. The first 84 projects completed under this policy, worth £783 million, have provided almost 1,200 job opportunities and over 25,000 weeks of training, with 84 per cent of the expenditure being reinvested in Wales. Seventy four per cent of the expenditure re-invested in Wales through community benefits policy is won by local suppliers through the supply chain. Community benefits policy provides the toolkit for the Welsh public sector to enable UK steel suppliers to access supply chain contracts. We're actively engaged in sharing our policy knowledge to help shape the UK Government approach to improving access to public contracts for the steel sector.

Social partners have also supported procurement policy to help deliver better outcomes for the people of Wales. We have worked in partnership with Unite, UCATT and GMB to implement policy that prevents use of unscrupulous employment practices in delivery of public sector contracts.

In October, the Wales TUC launched their Better Jobs, Closer to Home campaign, which is totally aligned to our community benefits objectives. This new campaign requires a pan-Government approach to take a strategic view of the planned procurement contract pipeline, now transparently available through the establishment of the national procurement service. This gives potential for providing meaningful employment and training opportunities through public contracts.

We're working in collaboration with the council for economic renewal and social partners to strengthen and utilise community benefits policy in support of the Wales TUC campaign. A working group meets for the first time tomorrow to progress this initiative.

I meet regularly with business and have often heard that aggregation of public sector contracts can preclude the involvement of small, local suppliers. I've listened to this important feedback and implemented changes to address these concerns and to help drive up application of policy by the Welsh public sector. I've commissioned work to establish a supplier feedback service to provide businesses with access to a responsive service to address policy queries and feedback. I will launch this new service in March.

Rwyf wedi fy nghalonogi bod datganiad polisi caffael Cymru wedi ei fabwysiadu yn gynyddol gan y sector cyhoeddus. Mae ein polisiau yn agor drysau i gyflenwyr yng Nghymru i ennill cyfran sylweddol o gontractau Cymru. Mae gweledd contractau'r sector cyhoeddus yn parhau i dyfu, gan ddarparu mynediad gwych i'n cyflenwyr at y cyfleoedd hyn. O ganlyniad, mae cyflenwyr a leolir yng Nghymru yn ennill bron i 70 y cant o'r holl gontractau a ddyfynir drwy GwerthwchiGymru.

Mae ein polisi budd i'r gymuned yn parhau i sbarduno mwy o werth o gaffael ar gyfer economi Cymru a'n cymunedau. Mae'r 84 prosiect cyntaf a gwblhawyd o dan y polisi hwn, sy'n werth £783 miliwn, wedi darparu bron i 1,200 o gyfleoedd gwaith a dros 25,000 wythnos o hyfforddiant, gydag 84 y cant o'r gwariant yn cael ei ail-fuddsoddi yng Nghymru. Mae saith deg pedwar y cant o'r gwariant sy'n cael ei ail-fuddsoddi yng Nghymru trwy'r polisi budd i'r gymuned yn cael ei ennill gan gyflenwyr lleol trwy'r gadwyn gyflenwi. Mae'r polisi budd i'r gymuned yn darparu'r pecyn cymorth ar gyfer y sector cyhoeddus yng Nghymru i alluogi cyflenwyr dur yn y DU i gael mynediad at gontractau'r gadwyn gyflenwi. Rydym yn cymryd rhan weithredol wrth rannu ein gwybodaeth polisi i helpu i lunio dull Llywodraeth y DU i wella mynediad at gontractau cyhoeddus ar gyfer y sector dur.

Mae partneriaid cymdeithasol hefyd wedi cefnogi polisi caffael i helpu i sicrhau gwell canlyniadau i bobl Cymru. Rydym wedi gweithio mewn partneriaeth ag Unite, UCATT a GMB i weithredu polisi sy'n atal y defnydd o arferion cyflogaeth diegwyddor wrth gyflenwi contractau sector cyhoeddus.

Ym mis Hydref, lansiodd TUC Cymru ei hymgyrch Gwell Swyddi, yn Nes at y Cartref, sy'n cyd-fynd yn llwyr â'n hamcanion budd i'r gymuned. Mae'r ymgyrch newydd yn gofyn am ddull Llywodraeth gyfan i gymryd golwg strategol ar y biblinell contract caffael arfaethedig, sydd bellach ar gael yn dryloyw drwy sefydlu'r gwasanaeth caffael cenedlaethol. Mae hyn yn rhoi potensial i ddarparu cyflogaeth ystyrlon a chyfleoedd hyfforddiant drwy gontractau cyhoeddus.

Rydym yn gweithio ar y cyd â'r cyngor ar gyfer adnewyddu'r economi a phartneriaid cymdeithasol i atgyfnerthu a defnyddio'r polisi budd i'r gymuned i gefnogi ymgyrch TUC Cymru. Mae gweithgor yn cyfarfod am y tro cyntaf yfory i ddatblygu'r fenter hon.

Rwy'n cyfarfod yn rheolaidd â busnes ac yn aml wedi clywed y gall cydgasglu contractau sector cyhoeddus atal cyfranogiad cyflenwyr bychain, lleol. Rwyf wedi gwrandao ar yr adborth pwysig hwn ac wedi gweithredu newidiadau i fynd i'r afael â'r pryderon hyn ac i helpu i gynyddu'r defnydd o'r polisi gan y sector cyhoeddus yng Nghymru. Rwyf wedi comisiynu gwaith i sefydlu gwasanaeth adborth cyflenwyr i ddarparu mynediad i fusnesau at wasanaeth ymatebol i fynd i'r afael ag ymholiadau polisi ac adborth. Byddaf yn lansio'r gwasanaeth newydd hwn ym mis Mawrth.

Last month, I launched the lessons learned review of the joint bidding demonstration projects, which I announced in autumn 2013. The joint bidding guidance provides buyers and suppliers alike with practical support for advertising and tendering for consortia-friendly contracts. This innovative approach has been applied to twelve high-value demonstration projects. A number of new consortia comprising SMEs from Wales have secured significant contract awards. These awards include Allied Construction Consortium Ltd, which has won a £1 million contract through Caerphilly council's housing maintenance framework, and two Welsh suppliers have won a place on an all-Wales fuel framework awarded by the national procurement service. I congratulate the suppliers and buyers on these successes, and I am grateful to the Wales Co-operative Centre and the Wales Council for Voluntary Action for supporting the delivery of these demonstration projects. I continue to focus on driving widespread adoption of the joint bidding approach across Wales.

It is important that suppliers to the Welsh public sector comply with our high standards of ethical behaviour. Fair payment of subcontractors is essential given the high volume of small and micro businesses who engage in public procurement through the supply chain. In October, I visited Burlais school in Swansea to receive feedback on the use of project bank accounts for payment of subcontractors. This project is a £7 million contract, and the project bank account approach has ensured prompt and fair payment of 75 per cent of the total value to small subcontractors. This approach has helped Welsh businesses avoid expensive borrowing costs, promoting greater supply collaboration and trust. My officials are developing a voluntary code of practice for suppliers, which will put Wales at the forefront of eradicating modern slavery in the supply chain. This code of practice will be launched next year.

The Welsh Government has continued to lead the UK in procurement policy development and implementation, providing strong leadership with innovative policy supporting public service reform and helping secure efficiencies. The national procurement service, launched in September 2013 and hosted by the Welsh Government, is now well established and is delivering savings to a wide range of organisations across Wales. Recognised by the Chartered Institute of Procurement and Supply as the best start-up organisation in the UK in 2015, the national procurement service has reported cashable savings this financial year of £2.35 million, exceeding its target. The service has applied community benefits and joint bidding policies across its contracts, enabling many smaller, local suppliers to secure business. For example, recently the national procurement service awarded a framework for electrical, heating and plumbing services, and out of the 14 suppliers appointed to the framework, 13 have a presence in Wales. Six of these suppliers are small Welsh businesses and one of these is formed of a joint consortium bid of three south Wales SMEs.

Y mis diwethaf, lansiais adolygiad y gwersi a ddysgwyd o'r prosiectau arddangos ceisiadau ar y cyd, a gyhoeddais yn ystod hydref 2013. Mae'r canllawiau ceisiadau ar y cyd yn darparu cefnogaeth ymarferol i brynwyr a chyflenwyr fel ei gilydd ar gyfer hysbysebu a thendro am gontractau addas i gonsortia. Mae'r dull arloesol hwn wedi ei gymhwyso i ddeuddeg prosiect arddangos gwerth uchel. Mae nifer o gonsortia newydd yn cynnwys busnesau bach a chanolig o Gymru wedi sicrhau dyfarniadau contract sylweddol. Mae'r gwobrau hyn yn cynnwys Allied Construction Consortium Ltd, sydd wedi ennill contract gwerth £1 miliwn drwy gyflenwr o Gymru wedi ennill lle ar fframwaith tanwydd ar gyfer Cymru gyfan a ddyfarnwyd gan y gwasanaeth caffael cenedlaethol. Hoffwn longyfarch y cyflenwyr a'r prynwyr ar y llwyddiannau hyn, ac rwy'n ddiolchgar i Ganolfan Gydweithredol Cymru a Chyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru am gefnogi cyflenwi'r prosiectau arddangos hyn. Rwy'n parhau i ganolbyntio ar sbarduno mabwysiadu eang ar y dull ceisiadau ar y cyd ar draws Cymru.

Mae'n bwysig bod cyflenwyr i'r sector cyhoeddus yng Nghymru yn cydymffurfio â'n safonau uchel o ymddygiad moesol. Mae talu'n deg i isgontractwyr yn hanfodol o ystyried y nifer fawr o fusnesau bach a micro sy'n cymryd rhan mewn caffael cyhoeddus drwy'r gadwyn gyflenwi. Ym mis Hydref, ymwelais ag ysgol Burlais yn Abertawe i gael adborth ar y defnydd o gyfrifon banc prosiect ar gyfer talu isgontractwyr. Mae'r prosiect hwn yn gontract gwerth £7 miliwn, ac mae'r dull cyfrif banc prosiect wedi sicrhau taliadau prydlon a theg o 75 y cant o gyfanswm y gwerth i isgontractwyr bach. Mae'r dull hwn wedi helpu busnesau Cymru i osgoi costau benthyca drud, gan hyrwyddo mwy o gydweithio ac ymddiriedaeth wrth gyflenwi. Mae fy swyddogion yn datblygu cod ymarfer gwirfoddol ar gyfer cyflenwyr, a fydd yn rhoi Cymru ar flaen y gad o ran dileu caethwasiaeth modern yn y gadwyn gyflenwi. Bydd y cod ymarfer hwn yn cael ei lansio y flwyddyn nesaf.

Mae Llywodraeth Cymru wedi parhau i arwain y DU o ran datblygu polisi caffael a gweithredu, gan roi arweiniad cryf gyda pholisi blaengar sy'n cefnogi diwygio gwasanaethau cyhoeddus ac yn helpu i sicrhau arbedion effeithlonrwydd. Mae'r gwasanaeth caffael cenedlaethol, a lanswyd ym mis Medi 2013 ac a gynhelir gan Lywodraeth Cymru, bellach wedi'i hen sefydlu ac yn cyflawni arbedion i ystod eang o sefydliadau ar draws Cymru. Gan gael ei gydnabod gan y Sefydliad Siartredig Caffael a Chyflenwi fel y sefydliad cychwyn gorau yn y DU yn 2015, mae'r gwasanaeth caffael cenedlaethol wedi adrodd am arbedion ariannol y flwyddyn ariannol hon o £2.35 miliwn, gan ragori ar ei darged. Mae'r gwasanaeth wedi cymhwyso manteision cymunedol a pholisïau ceisiadau ar y cyd ar draws ei gontractau, gan alluogi llawer o gyflenwyr llai, lleol i sicrhau busnes. Er enghraifft, yn ddiweddar dyfarnodd y gwasanaeth caffael cenedlaethol fframwaith ar gyfer gwasanaethau trydanol, gwresogi a phlymio, ac allan o'r 14 o gyflenwyr a benodwyd i'r fframwaith, mae gan 13 bresenoldeb yng Nghymru. Mae chwech o'r cyflenwyr hyn yn fusnesau bach yng Nghymru ac mae un o'r rhain wedi cael ei ffurfio o gais consortiwm ar y cyd o dri busnes bach a chanolig yn ne Cymru.

I'll now turn to our powers in the area of procurement as a result of the general designation I secured in August. I've made it clear that we will take a measured approach to ensure that procurement regulation is developed that supports efficient public services and reduces barriers for suppliers. Work is progressing to establish how the designation will accelerate adoption of the Wales procurement policy statement covering community benefits, open accessibility of contracts, application of ethical supply chain policy and reserving of contracts. I'll be announcing our plans for consulting on this approach early in the new year.

The involvement of business in taking this forward is fundamental. The economic renewal council regularly has procurement matters on its agenda, and the chair of the procurement board has invited the chair of Commerce Cymru to propose how business can be more actively involved in the development and monitoring of procurement policy. I'm keen to ensure that the highest number of tier 1 contracts is won by Wales-based suppliers, both helping to develop their businesses further, building scale, turnover and profitability, and meaning more profits are kept within Wales. We'll continue to work closely with Business Wales to adopt an even greater strategic planning approach to help suppliers develop and to enable them to compete effectively for Wales-based contracts, both now and in the future.

15:19

## Nick Ramsay [Bywgraffiad Biography](#)

Can I thank the Minister for her statement today? We are getting used to procurement statements, and let's hope we are making progress in this area. Can I also join with you in welcoming the work of the national procurement service? It's clear that there is progress being made.

I'm pleased to see that the Welsh Government has reached agreement with the UK Government on securing additional powers to regulate public procurement in Wales. This should hopefully drive through change across the Welsh public sector—change that is so desperately needed. I'm also pleased to see, Minister that you're engaging with stakeholders on the issue. It is absolutely crucial that this engagement takes place. However, Minister, the Federation of Small Businesses tells us that local authorities seeking to access the local economic benefits of procuring with SMEs should focus on capacity-building engagement events with those SMEs. Can you tell us what guidance your Government is offering local authorities to ensure that this engagement takes place at a local level across Wales?

You will be aware that the cross-party group on construction's report into the impact of procurement policy in Wales reiterates that the income and expenditure from capital projects should, as far as possible, stay in the local community. Their report provides a strong case for more robust independent measurement and monitoring to take place, particularly in delivering community benefits. Is this something that the Welsh Government is considering in the future?

Trof yn awr at ein pwerau ym maes caffael o ganlyniad i'r dynodiad cyffredinol a sicrhawyd gennyf ym mis Awst. Rwyf wedi ei gwneud yn glir y byddwn yn mabwysiadu ymagwedd bwylllog i sicrhau bod rheoleiddio caffael yn cael ei ddatblygu sy'n cefnogi gwasanaethau cyhoeddus effeithlon ac yn lleihau rhwystrau i gyflenwyr. Mae gwaith yn mynd rhagddo i sefydlu sut y bydd y dynodiad yn cyflymu mabwysiadu datganiad polisi caffael Cymru sy'n cynnwys manteision cymunedol, hygrychedd agored contractau, cymhwyso polisi cadwyni cyflenwi moesol a neilltuo contractau. Byddaf yn cyhoeddi ein cynlluniau ar gyfer ymgynghori ar y dull hwn yn gynnar yn y flwyddyn newydd.

Mae cynnwys busnes wrth fwrw ymlaen â hyn yn sylfaenol. Mae materion caffael ar agenda'r cyngor adnewyddu economaidd yn rheolaidd, ac mae cadeirydd y bwrdd caffael wedi gwahodd cadeirydd Masnach Cymru i gynnig sut y gall busnesau fod yn rhan fwy gweithredol wrth ddatblygu a monitro polisiau caffael. Rwy'n awyddus i sicrhau bod y nifer uchaf o gontractau haen 1 yn cael eu hennill gan gyflenwyr a leolir yng Nghymru, sy'n helpu i ddatblygu eu busnesau ymhellach, adeiladu graddfa, trosiant ac elw, ac sy'n golygu bod mwy o elw yn cael ei gadw o fewn Cymru. Byddwn yn parhau i weithio'n agos gyda Busnes Cymru i fabwysiadu dull cynllunio strategol hyd yn oed yn well i helpu cyflenwyr i ddatblygu a'u galluogi i gystadlu'n effeithiol am gontractau wedi'u lleoli yng Nghymru, nawr ac yn y dyfodol.

A gaf i ddiolch i'r Gweinidog am ei datganiad heddiw? Rydym yn dod i arfer â datganiadau caffael, a gadewch i ni obeithio ein bod yn gwneud cynnydd yn y maes hwn. A gaf i hefyd ymuno â chi i groesawu gwaith y gwasanaeth caffael cenedlaethol? Mae'n amlwg bod cynnydd yn cael ei wneud.

Rwy'n falch o weld bod Llywodraeth Cymru wedi dod i gytundeb â Llywodraeth y DU ar sicrhau pwerau ychwanegol i reoleiddio caffael cyhoeddus yng Nghymru. Dylai hyn, gobeithio, sbarduno newid ar draws y sector cyhoeddus yng Nghymru—newid sydd ei angen mor daer. Rwyf hefyd yn falch o weld, Weinidog, eich bod yn ymgysylltu â rhanddeiliaid ar y mater hwn. Mae'n gwbl hanfodol bod yr ymgysylltu hwn yn digwydd. Fodd bynnag, Weinidog, mae'r Ffederasiwn Busnesau Bach yn dweud wrthym y dylai awdurdodau lleol sy'n ceisio cael mynediad at fanteision economaidd lleol o gaffael gyda Busnesau Bach a Chanolig ganolbwyntio ar ddigwyddiadau ymgysylltu i adeiladu gallu gyda'r busnesau bach a chanolig hynny. A allwch chi ddweud wrthym pa ganllawiau y mae eich Llywodraeth yn eu cynnig i awdurdodau lleol i sicrhau bod yr ymgysylltu hwn yn digwydd ar lefel leol ledled Cymru?

Byddwch yn ymwybodol bod adroddiad y grŵp trawsbleidiol ar adeiladu i effaith y polisi caffael yng Nghymru yn ailadrodd y dylai'r incwm a'r gwariant o brosiectau cyfalaf, cyn belled ag y bo modd, aros yn y gymuned leol. Mae ei adroddiad yn rhoi achos cryf dros weld mesur a monitro annibynnol mwy cadarn yn digwydd, yn enwedig o ran cyflawni manteision cymunedol. A yw hyn yn rhywbeth y mae Llywodraeth Cymru yn ei ystyried yn y dyfodol?

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

Turning to SQuID, the supplier qualification information database, we are broadly supportive of the SQuID framework and we further note that it can be inconsistent, both between and within local authorities—one of the main issues we have with it. Smaller companies have reported that SQuID can be a burdensome process and they've raised questions about whether it's appropriate for all companies to use. I've raised previous concerns with you about the difficulty that some smaller local companies have had procuring Welsh contracts, and I know from recent discussions with you that progress has been made in meeting the concerns of some of those companies. I know you've thankfully helped to arrange some meetings with officials. Some progress has been made. However, can you tell us what work the Welsh Government is doing to ensure that SQuID is helping businesses cut down on the burden of preparing pre-qualification documentation?

If I can just ask you about food procurement and, indeed, supporting the farming industry in Wales, I'd like to see the Welsh Government do all it can to support our farmers in public contracts. How are you ensuring that there are robust supplier selection procedures in place for food contracts across Wales? Secondly, how are you ensuring that Welsh farmers are being supported through the Welsh Government's procurement agenda?

In closing, Minister, I'm fortunate enough to represent a constituency that prides itself on its food and drink reputation, and rightly so. So much more can be done to ensure local produce is better promoted when it comes to public sector contracts. How are you ensuring that local produce really does factor highly in the Welsh Government's procurement procedures?

Finally, Presiding Officer, in Scotland, the Minister there has presented the Procurement Reform (Scotland) Act, which was given Royal Assent in June 2014. That Act established a national legislative framework for public procurement through placing a larger number of general and specific duties on public sector bodies involved in procurement. I'm not suggesting legislation for legislation's sake here, Minister, but have you looked at what's happening in Scotland and ways that we can better provide a more successful public procurement policy here in Wales?

Gan droi at SQuID, y gronfa ddata gwybodaeth am gymwysterau cyflenwyr, rydym yn gyffredinol gefnogol i'r fframwaith SQuID a nodwn ymhellach y gall fod yn anghyson, rhwng ac o fewn awdurdodau lleol—un o'r prif broblemau sydd gennym gydag ef. Mae cwmnïau llai wedi adrodd y gall SQuID fod yn broses feichus ac maent wedi codi cwestiynau ynghylch pa un a yw'n briodol i bob cwmni ei defnyddio. Rwyf wedi codi pryderon blaenorol gyda chi ynghylch yr anhawster y mae rhai cwmnïau lleol llai wedi'i gael mewn caffael contractau Cymru, a gwn o drafodaethau diweddar gyda chi bod cynnydd wedi'i wneud o ran bodloni pryderon rhai o'r cwmnïau hynny. Rwy'n gwybod eich bod wedi helpu, diolch byth, i drefnu rhai cyfarfodydd gyda swyddogion. Mae rhywfaint o gynydd wedi'i wneud. Fodd bynnag, a allwch chi ddweud wrthym pa waith y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i sicrhau bod SQuID yn helpu busnesau i dorri i lawr ar y baich o baratoi dogfennau cyn-cymhwyso?

Os caf i ofyn i chi am gaffael bwyd ac, yn wir, am gefnogi'r diwydiant ffermio yng Nghymru, hoffwn weld Llywodraeth Cymru yn gwneud popeth o fewn ei gallu i gefnogi ein ffermwyr mewn contractau cyhoeddus. Sut ydych chi'n sicrhau bod gweithdrefnau dewis cyflenwyr cadarn ar waith ar gyfer contractau bwyd ar draws Cymru? Yn ail, sut ydych chi'n sicrhau bod ffermwyr Cymru yn cael eu cefnogi drwy agenda gaffael Llywodraeth Cymru?

Wrth gloi, Weinidog, rwy'n ddigon ffodus i gynrychioli etholaeth sy'n ymfalchïo yn ei henw da o ran bwyd a diod, a hynny'n gwbl briodol. Mae cymaint mwy y gellir ei wneud i sicrhau bod cynnyrch lleol yn cael ei hyrwyddo yn well pan ddaw at gontractau sector cyhoeddus. Sut ydych chi'n sicrhau bod cynnyrch lleol wir yn ffactor pwysig yng ngweithdrefnau caffael Llywodraeth Cymru?

Yn olaf, Lywydd, yn yr Alban, mae'r Gweinidog yno wedi cyflwyno Deddf Diwygio Caffael (Yr Alban), a gafodd Gydsyniad Brenhinol ym mis Mehefin 2014. Sefydlodd y Ddeddf honno fframwaith deddfwriaethol cenedlaethol ar gyfer caffael cyhoeddus drwy osod nifer fwy o ddyletswyddau cyffredinol a phenodol ar gyrrff yn y sector cyhoeddus sy'n ymwneud â chaffael. Nid wyf yn awgrymu deddfwriaeth dim ond er mwyn deddfwriaeth yn y fan yma, Weinidog, ond a ydych chi wedi edrych ar yr hyn sy'n digwydd yn yr Alban a ffyrdd y gallwn ddarparu polisi caffael cyhoeddus yn fwy llwyddiannus yma yng Nghymru?

15:23

**Jane Hutt** [Bywgraffiad Biography](#)

Thank you very much, Nick Ramsay. I think your last and first points are very relevant to the new powers that I've secured with the general designation. We now have powers to regulate on public procurement matters through secondary legislation and that will enable us to give our policies the required impact.

Diolch yn fawr iawn, Nick Ramsay. Rwy'n meddwl bod eich pwyntiau olaf a chynaf yn berthnasol iawn i'r pwerau newydd yr wyf wedi eu sicrhau gyda'r dynodiad cyffredinol. Erbyn hyn mae gennym bwerau i reoleiddio ar faterion caffael cyhoeddus drwy ddeddfwriaeth eilaidd a fydd yn ein galluogi i roi'r effaith angenrheidiol i'n polisïau.

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

I think, in terms of developing Welsh procurement regulation, I'm committed to taking full advantage of the provisions in the public contracts regulations to promote areas that are important to us in Wales, strengthening the adoption of the Wales procurement policy statement. You do draw attention to the importance of enabling the capacity building of our SMEs and I think the joint bidding guide and the pilot studies indicate ways in which we have brought together and given opportunities, as well as capacity building, for the consortia that I've described. But I think, also, the supplier feedback service, again, is directly responding to the representations and the engagements we have with business to ensure that public sector procurement does engage constructively with our supply base—critical for procurement to deliver for us in Wales. It's giving a voice to our suppliers—a very important development. I will update this work on the feedback service in due course.

You talk about the importance of SQuID. It's now widespread in use across Wales, so it has to be monitored, clearly, to ensure that it's been used consistently. I think that's the point you make—it's the consistency that we require by all public sector organisations. But we also have that improved reporting capability of Sell2Wales that does mean that we've got greater visibility of the use of SQuID, and we do challenge those organisations that aren't using the approach. We are very closely monitoring the impact of SQuID, for example, in the construction sector. We see evidence that it's lowering barriers for suppliers. Welsh contractors then are winning 80 per cent of all major construction awards through Sell2Wales, and this is up from around 30 per cent prior to the introduction of the SQuID approach. The Federation of Master Builders have commended our approach in this area.

Clearly, I'm working very closely with the Deputy Minister for Farming and Food in relation to food procurement and the national procurement service, and, indeed, ensuring that we take this forward as a real opportunity for Welsh businesses like the ones in your constituency.

Rwy'n credu, o ran datblygu rheoleiddio caffael Cymru, fy mod yn ymroddedig i gymryd mantais lawn o'r darpariaethau yn y rheoliadau contractau cyhoeddus i hyrwyddo meysydd sy'n bwysig i ni yng Nghymru, gan gryfhau mabwysiadu datganiad polisi caffael Cymru. Rydych yn tynnu sylw at bwysigrwydd galluogi adeiladu gallu ein busnesau bach a chanolog ac rwy'n credu bod y canllaw ceisiadau ar y cyd a'r astudiaethau arbrofol yn dangos y ffyrdd yr ydym wedi dwyn ynghyd a rhoi cyfleoedd, yn ogystal â meithrin gallu, i'r consortia yr wyf wedi'u disgrifio. Ond rwy'n credu, hefyd, bod y gwasanaeth adborth cyflenwyr, unwaith eto, yn ymateb yn uniongyrchol i'r sylwadau a'r ymgysylltiadau sydd gennym gyda busnes i sicrhau bod caffael y sector cyhoeddus yn ymgysylltu'n adeiladol â'n sylfaen gyflenwi—hanfodol er mwyn i gaffael gyflawni i ni yng Nghymru. Mae'n rhoi llais i'n cyflenwyr—datblygiad pwysig iawn. Byddaf yn diweddarau'r gwaith hwn ar y gwasanaeth adborth maes o law.

Rydych yn sôn am bwysigrwydd SQuID. Mae bellach yn gyffredin o ran ei ddefnyddio ar draws Cymru, felly mae'n rhaid iddo gael ei fonitro, yn amlwg, er mwyn sicrhau ei fod yn cael ei ddefnyddio'n gyson. Rwy'n credu mai dyna'r pwynt a wnewch—y cysondeb yr ydym ei angen gan yr holl sefydliadau yn y sector cyhoeddus. Ond mae gennym ni hefyd gallu adrodd gwell GwerthwchiGymru sy'n golygu bod gennym fwy o weledd o'r defnydd o SQuID, ac rydym yn herio'r sefydliadau hynny nad ydynt yn defnyddio'r dull. Rydym yn monitro effaith SQuID yn ofalus iawn, er enghraifft, yn y sector adeiladu. Rydym yn gweld tystiolaeth ei fod yn gostwng rhwystrau i gyflenwyr. Mae contractwyr Cymru wedyn yn ennill 80 y cant o'r holl ddyfarniadau adeiladu mawr trwy GwerthwchiGymru, ac mae hyn i fyny o tua 30 y cant cyn cyflwyno'r dull SQuID. Mae Ffederasiwn y Meistr Adeiladwyr wedi canmol ein dull yn y maes hwn.

Yn amlwg, rwy'n gweithio'n agos iawn â'r Dirprwy Weinidog Ffermio a Bwyd ynglŷn â chaffael bwyd a'r gwasanaeth caffael cenedlaethol, ac, yn wir, o ran sicrhau ein bod yn bwrw ymlaen â hyn fel cyfle gwirioneddol i fusnesau Cymru fel y rhai yn eich etholaeth chi.

15:26

## Lynne Neagle [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Can I welcome your statement today, Minister, and your ongoing commitment to work in this area? In particular, I welcome the work that you've done with the trade union movement, which has led to excellent policies preventing the use of unscrupulous employment practices, and long may that work continue. Your statement makes reference to the excellent Wales TUC campaign, Better Jobs, Closer to Home, which was something I was very pleased to welcome when they launched it in October. I'm really pleased that the working group that you've established will be meeting for the first time tomorrow. I would just like to ask, Minister, if you could share with us today any initial assessments you've made of how you can use your new powers to ensure that the TUC campaign is successful and how we can ensure that that campaign works to deliver benefits to people in the Valleys by ensuring that we do have those better jobs closer to home.

A gaf i groesawu eich datganiad heddiw, Weinidog, a'ch ymrwymiad parhaus i weithio yn y maes hwn? Yn benodol, croesawaf y gwaith yr ydych wedi ei wneud gyda'r mudiad undebau llafur, sydd wedi arwain at bolisiau rhagorol sy'n atal y defnydd o arferion cyflogi diegwyddor, a hir y bo'r gwaith hwnnw'n parhau. Mae eich datganiad yn cyfeirio at ymgyrch ardderchog TUC Cymru, Gwell Swyddi, yn Nes at y Cartref, a oedd yn rhywbeth yr oeddwn yn falch iawn o'i groesawu pan lanswyd ef ganddo ym mis Hydref. Rwy'n hynod falch y bydd y gweithgor yr ydych wedi'i sefydlu yn cyfarfod am y tro cyntaf yfory. Hoffwn ofyn, Weinidog, pe gallech rannu gyda ni heddiw unrhyw asesiadau cychwynnol yr ydych wedi eu gwneud o sut y gallwch ddefnyddio eich pwerau newydd i sicrhau bod ymgyrch y TUC yn llwyddiannus a sut y gallwn sicrhau bod yr ymgyrch yn gweithio i ddarparu buddion i bobl yn y Cymoedd drwy sicrhau bod y swyddi gwell hynny gennym yn nes at adref.

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

**Jane Hutt** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Thank you very much to the Member for Torfaen for those questions. Ethical procurement is at the heart of the Welsh Government's procurement practices, but we are developing those policies through our partnership with particularly those trade unions that have engaged with us. We have shown how procurement can be used as a lever to influence businesses to behave responsibly, and that's really evidenced through our stance on blacklisting.

Diolch yn fawr iawn i'r Aelod dros Dorfaen am y cwestiynau yna. Mae caffael moesol wrth wraidd arferion caffael Llywodraeth Cymru, ond rydym yn datblygu'r polisïau hynny drwy ein partneriaeth yn enwedig â'r undebau llafur hynny sydd wedi ymgysylltu â ni. Rydym wedi dangos sut y gall caffael gael ei ddefnyddio fel dull o ddylanwadu ar fusnesau i ymddwyn yn gyfrifol, ac mae hynny'n cael ei ddangos drwy ein safiad ar gosbrestru.

In terms of the Wales TUC campaign and the forthcoming work, it's aimed at building community, civic and political support for those interventions that can actually deliver decent work opportunities closer to home in Valleys communities. We do have proposed pilots in Rhondda Cynon Taf, Merthyr Tydfil, Blaenau Gwent, Torfaen and Caerphilly. If this approach is successful, it certainly can be replicated across Wales. I think we need to say that procurement does play a role in this work, but it can go beyond procurement. We do need to have—and we're engaging with officials and Ministers across Government—a pan-Government response if we're to be successful.

O ran ymgyrch TUC Cymru a'r gwaith sydd ar y gweill, ei nod yw adeiladu cefnogaeth gymunedol, ddinesig a gwleidyddol i'r ymyriadau hynny sy'n gallu mewn gwirionedd cyflwyno cyfleoedd gwaith gweddus yn nes at adref mewn cymunedau yn y Cymoedd. Mae gennym gynlluniau arbrofol arfaethedig yn Rhondda Cynon Taf, Merthyr Tudful, Blaenau Gwent, Torfaen a Chaerffili. Os bydd y dull hwn yn llwyddiannus, gellir yn sicr ei ailadrodd ledled Cymru. Rwy'n credu bod angen i ni ddweud bod caffael yn chwarae rhan yn y gwaith hwn, ond gall fynd y tu hwnt i gaffael. Mae angen i ni gael—ac rydym yn ymgysylltu â swyddogion a Gweinidogion ar draws y Llywodraeth—ymateb Llywodraeth gyfan os ydym am fod yn llwyddiannus.

**Alun Ffred Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Diolch am y datganiad. Rwy'n croesawu'r sylwadau am daliadau i isgontractwyr. Roeddech chi wedi ymweld ag ysgol Burlais yn Abertawe. Mae hon yn gŵyn gyson ac yn rheswm pam mae contractwyr llai yn aml yn peidio â mynd am waith ar gytundebau mawr. Mi hoffwn i weld y ddealltwriaeth hon neu'r cytundeb hwn yn rhan o bob cytundeb, nid yn god gwirfoddol. Nid wyf yn credu bod hynny'n ddigon da. Felly, a allwch chi ddweud wrthym ni pam nad ydych chi'n gwneud hwn yn rhan o bob cytundeb cyhoeddus er mwyn gwarchod buddiannau cwmnïau llai? Dyna'r cwestiwn cyntaf.

Thank you for the statement. I welcome the comments on payments for subcontractors. You visited Burlais school in Swansea. This is a consistent complaint and a reason why smaller contractors often don't apply for work on major contracts. I would like to see this understanding or agreement as part of all contracts, rather than being a voluntary code. I don't think that's good enough. So, can you tell us why you are not making this part of every public contract, in order to safeguard the interests of smaller companies? That's the first question.

Os caf i symud ymlaen, mae rhai o'r sylwadau eraill yn codi cwestiynau pellach. Mae'r gwaith rydych chi'n cyfeirio ato gyda'r undebau i'w groesawu'n fawr. Rydych chi'n sôn am rwystro 'unscrupulous employment practices'. A allwch chi esbonio beth yn union rydych chi'n ei feddwl gyda'r math yna o ymddygiad, ac a ydych chi'n ystyried preifateiddio, er enghraifft, cartrefi gofal gan gynghorau lleol, fel ymarfer gwael? Byddai esboniad ar hynny yn werthfawr.

If I could move on, some of the other comments raise further questions. The work that you refer to with the trade unions is to be welcomed. You mention preventing unscrupulous employment practices. Can you explain exactly what you mean by that sort of behaviour, and do you consider privatising care homes, for example, by local authorities, as bad practice? An explanation of that would be very valuable indeed.

Wedyn, mae'r diffiniad o 'Wales-based companies' yn codi cwestiynau. Wrth sôn am y fframwaith gwasanaethau trydan, gwresogi a phlymio, rydych yn cyfeirio bod 13 o gwmnïau, allan o 14, sydd wedi ennill lle ar y fframwaith yna 'have a presence in Wales.' Rŵan, mae 'Wales-based companies' yn ddigon amwys, ond mae'n derm sydd wedi cael ei ddefnyddio, ond nid ydy 'that have a presence in Wales' yn dweud llawer iawn wrthym ni am natur y cwmnïau dan sylw. Ac ymhellach i hyn, mae diffiniad Value Wales o 'Wales-based company' yn dibynnu'n unig ar god post yr anfonebau, ac nid yw cod post yn dweud dim ynglŷn â phencadlys cwmni na faint o'r gwasanaeth maen nhw'n ei gynning sydd yng Nghymru. Rwy'n gyfarwydd iawn â hyn yn y diwydiant teledu, lle mae cwmnïau o Lundain yn sefydlu swyddfa fach yng Nghaerdydd er mwyn gallu mynd am grantiau ac am gontractau penodol. Felly, a gawn ni gytundeb a diffiniad o'r hyn a ystyrir yn 'Wales-based company' er mwyn sicrhau bod y diffiniad hwnnw yn dod â budd llawn i Gymru?

Tra rydym yn sôn am hynny, fel arfer wrth sôn am gytundebau sydd yn cael eu hennill i Gymru, rydym yn cyfeirio at ganran o gytundebau cyhoeddus sydd wedi dod i gwmnïau o Gymru, ac mae'r ffigur hwnnw, y tro diwethaf y cawsom ni ddatganiad gennyh chi, rywle o gwmpas 55 y cant—cynnydd o 3 y cant yn unig yn ystod cyfnod y Llywodraeth yma. Felly, a gawn ni ddiweddariad ar y ffigur hwnnw, os gwelwch yn dda, er mwyn i ni allu cymharu tebyg gyda'i debyg? Diolch.

15:31

### Jane Hutt [Bywgraffiad Biography](#)

Diolch yn fawr, Alun Ffred Jones. Thank you for your very helpful questions. I think if we start by looking at the project bank accounts, I did, as you know, issue an advice note and guidance on project bank accounts back in 2014, and that has demonstrated the delivery, in terms of evidence, and that it is actually helping sub-contractors who are involved in the delivery of construction projects such as that school in Swansea, to make sure they're paid on time. It's vital to help cash flow for many of our small contractors, and improve supply chain collaboration. So, ring-fenced bank accounts. Now, clearly—. And, actually, the PBA has trust status, so that means that the moneys in the account can only be paid to the beneficiaries, the lead contractor and supply chain members.

It's a vital development, but it was a pilot, of course, in terms of that scheme. We need to have that evidence base to inform our way forward, and we will produce a lessons learned report. But, of course, we now do have those powers to move from advice and guidance to designation in terms of regulation, so we will follow through the lessons learned in terms of that very encouraging pilot.

Then, the definition of 'Wales-based companies' raises questions. In talking of the electrical, heating and plumbing services framework, you mention that 13 companies, out of 14, that have won a place on that framework have a presence in Wales. Now, 'Wales-based companies' is ambiguous enough, but it is a term that has been used, but 'that have a presence in Wales' doesn't tell us very much at all about the nature of these companies. And further to that, the Value Wales definition of a Wales-based company depends only on the postcode of the invoices, and a postcode doesn't tell you anything about the company's headquarters or how much of their services are provided in Wales. I'm very familiar with this in the television industry, where companies from London establish a small office in Cardiff in order to apply for grants and for specific contracts. So, can we have an agreement and a definition of what constitutes a Wales-based company to ensure that that definition does bring full benefit to Wales.

While we're discussing that, usually in talking of contracts awarded in Wales, we refer to a percentage of public contracts that have been awarded to Welsh companies, and that figure, the last time we had a statement from you, was somewhere in the region of 55 per cent—an increase of just 3 per cent during this Government's term. So, can we have an update on that figure too, please, so that we can compare like with like. Thank you.

Diolch yn fawr, Alun Ffred Jones. Diolch i chi am eich cwestiynau defnyddiol iawn. Rwy'n meddwl os byddwn yn dechrau trwy edrych ar y cyfrifon banc prosiect, fe wnes i, fel y gwyddoch, gyhoeddi nodyn cyngor ac arweiniad ar gyfrifon banc prosiect yn ôl yn 2014, ac mae hynny wedi dangos y cyflwyno, o ran tystiolaeth, a'i fod mewn gwirionedd yn helpu isgontractwyr sy'n ymwneud â chyflwyno prosiectau adeiladu, fel yr ysgol honno yn Abertawe, i wneud yn siŵr eu bod yn cael eu talu ar amser. Mae'n hanfodol i helpu llif arian ar gyfer nifer o'n contractwyr bach, a gwella cydweithrediad y gadwyn gyflenwi. Felly, cyfrifon banc wedi'i neilltuo. Nawr, yn amlwg—. Ac, mewn gwirionedd, mae gan y Cyfrifon Banc Prosiect statws ymddiriedolaeth, felly mae hynny'n golygu y gall yr arian yn y cyfrif gael ei dalu i'r buddiolwyr, y contractwr arweiniol ac aelodau'r gadwyn gyflenwi.

Mae'n ddatblygiad hanfodol, ond cynllun arbrol oedd hyn, wrth gwrs, o ran y cynllun hwnnw. Mae angen i ni gael y sylfaen dystiolaeth honno i lywio ein ffordd ymlaen, a byddwn yn llunio adroddiad am y gwersi a ddysgwyd. Ond, wrth gwrs, mae'r pwerau hynny gennym erbyn hyn i symud o gyngor ac arweiniad i ddynodiad o ran rheoleiddio, felly byddwn yn bwrw ymlaen drwy'r gwersi a ddysgwyd o ran y arbrolfalonogol iawn hwnnw.

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

I also welcome your recognition that the ethical procurement approach that we're taking is making an impact. It's sending a very clear message to suppliers that we want to deal not only with professional businesses that comply with the law, but that treat their workforce with respect. And, you know, we can show that we're actually using this as a lever to influence businesses. Of course, it's also to help protect vulnerable suppliers and employees—the fact that I issued a procurement advice note to ensure fair employment practices operate on publicly funded projects. This also covers issues of false self-employment and the use of unfair umbrella payment schemes. But, again, working towards the new opportunities in regulation, particularly in relation to fair employment practices and community benefit, we can progress with this in terms of those opportunities.

You also draw attention to not only the opportunities for Welsh-based employers, for Welsh SMEs, but also those contractors that are based in Wales. I just want to clarify the example of the national procurement service print framework. Of the 60 suppliers that responded to the contract notice, 40 will be successful in being appointed to the framework. It's a four-year framework. Of the 40, 29 are based in Wales, 25 of which are Welsh SMEs. I think you made an important point in terms of an update on procurement expenditure. Analysis of the 2012-13 data illustrates that business in Wales now win 55 per cent of the procurement expenditure analysed, up 3 per cent from the previous analysis.

Rwyf hefyd yn croesawu eich cydnabyddiaeth bod yr agwedd caffael moesol yr ydym yn ei chymryd yn cael effaith. Mae'n anfon neges glir iawn i gyflenwyr ein bod am ymdrin nid yn unig â busnesau proffesiynol sy'n cydymffurfio â'r gyfraith, ond sydd hefyd yn trin eu gweithlu gyda pharch. A, wyddoch chi, gallwn ddangos ein bod mewn gwirionedd yn defnyddio hyn fel dull o ddylanwadu ar fusnesau. Wrth gwrs, mae hefyd ar gyfer helpu i ddiogelu cyflenwyr a chyflogeion sy'n agored i niwed —y ffaith fy mod wedi cyhoeddi nodyn cyngor caffael i sicrhau bod arferion cyflogaeth teg yn gweithredu mewn prosiectau a ariannwyd yn gyhoeddus. Mae hyn hefyd yn cynnwys materion hunangyflogaeth ffug a defnyddio cynlluniau talu ymbarél annheg. Ond, unwaith eto, gan weithio tuag at y cyfleoedd newydd mewn rheoleiddio, yn enwedig o ran arferion cyflogaeth teg a budd cymunedol, gallwn symud ymlaen gyda hyn o ran y cyfleoedd hynny.

Rydych hefyd yn tynnu sylw at nid yn unig y cyfleoedd i gyflogwyr o Gymru, i fusnesau bach a chanolig yng Nghymru, ond hefyd y contractwyr hynny sydd wedi eu lleoli yng Nghymru. Rwyf eisiau egluro'r enghraifft o fframwaith print y gwasanaeth caffael cenedlaethol. O blith y 60 o gyflenwyr a ymatebodd i'r hysbysiad contract, bydd 40 yn llwyddo i gael eu penodi i'r fframwaith. Mae'n fframwaith pedair blynedd. O'r 40, mae 29 wedi eu lleoli yng Nghymru, 25 ohonynt yn fusnesau bach a chanolig yng Nghymru. Rwy'n meddwl eich bod wedi gwneud pwynt pwysig o ran y wybodaeth ddiweddaraf am wariant caffael. Mae dadansoddiad o ddata 2012-13 yn dangos bod busnesau yng Nghymru bellach yn ennill 55 y cant o'r gwariant caffael a ddadansoddiwyd, i fyny 3 y cant o'r dadansoddiad blaenorol.

15:35

## **Eluned Parrott** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Thank you for the statement, Minister, and the level of detail within it. I wanted to ask about the adoption of your approach across the public sector. I'm very pleased to hear that there is an increasing adoption of this, and that the public sector are, in your words, largely on board. But I understand that there are those who are slower on the uptake, and, perhaps, one or two who are also not driving forward with the agenda as you would wish. And I'm wondering what the penalty for those public bodies that aren't adopting your policies will be. For example, are you perhaps minded to name and shame those who have not got the success rate that you would wish, in terms of finding the community benefits that are useful locally, or those who are less successful in encouraging local businesses to bid for contracts? Is there a significant difference between the best-performing public bodies and the worst-performing public bodies, and are there any obvious reasons, for example, of locational rurality, where that might be a reason?

Diolch am y datganiad, Weinidog, a lefel y manylder ynddo. Roeddwn eisiau gofyn am fabwysiadu eich ymagwedd ar draws y sector cyhoeddus. Rwy'n falch iawn o glywed bod mabwysiadu cynyddol ar hyn, a bod y sector cyhoeddus, yn eich geiriau chi, i raddau helaeth yn gefnogol. Ond rwy'n deall bod rhai sydd yn arafach o ran manteisio, ac, efallai, un neu ddau hefyd nad ydynt yn bwrw ymlaen â'r agenda fel y byddech yn dymuno. Ac rwy'n meddwl tybed beth fydd y gosb ar gyfer y cyrff cyhoeddus hynny nad ydynt yn mabwysiadu eich polisiau. Er enghraifft, a ydych o bosibl o blaid enwi a chywilyddio'r rhai nad ydynt wedi llwyddo i'r graddau y byddech yn ei dymuno, o ran dod o hyd i'r manteision cymunedol sy'n ddefnyddiol yn lleol, neu'r rhai sydd yn llai llwyddiannus wrth annog busnesau lleol i wneud cais am gontractau? A oes gwahaniaeth sylweddol rhwng y cyrff cyhoeddus sy'n perfformio orau a'r cyrff cyhoeddus sy'n perfformio waethaf, ac a oes unrhyw resymau amlwg, er enghraifft, natur wledig yr ardal o ran lleoliad, lle y gallai hynny fod yn rheswm?

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

I welcome the fact that the statement is not only about driving improvement, but also engaging business. However, I understand that all the members of your procurement advisory board are from public sector backgrounds. Now, clearly, engagement is a two-way process, so it would seem that that would be a useful place to engage with businesses, to give them an opportunity to feed into the advisory process. I'm wondering what consideration you've given to including representatives of the private sector to ensure that the views of potential suppliers are also taken into account. Particularly, it might be interesting to include those who are SMEs within that, because we very regularly as Members, I'm sure, get representations from smaller businesses that are worried about the tension between community benefits clauses, for example, and ensuring that SMEs are able to bid for contracts. And things like pre-qualification questionnaires, for example, are also an issue that they regularly raise.

I was very pleased to hear your statistics on the improvement in the number of Welsh bidders winning contracts. But I wondered, in terms of the level of detail beneath that, what statistics the Welsh Government collects on the size of companies bidding, and then being successful in bidding, and whether you have any analysis of what proportion of the workforce of said companies—of those local companies, particularly—are actually in Wales. As Alun Ffred mentioned, it is difficult to identify what is Welsh enough to be a Welsh supplier. But perhaps actually looking at whether or not this is an isolated branch office, or a truly embedded Welsh business, would be an interesting thing to do.

You said in your statement that the community benefits clause provides a toolkit for Welsh public sector organisations to enable UK steel suppliers to access supply chain contracts. I wonder whether you can give us more detail on how exactly when this became the case, and how many contracts have included appropriate clauses to benefit the Welsh steel industry in this last year. I am very glad that we're sharing practice from Wales with Westminster, and that, in the future, we hope that the Welsh steel industry can be in a better position than it is now, but there is—as you are very well aware, Minister—an urgent crisis in our Welsh steel industry, and many of the things that we're talking about will take time to implement.

I have asked previously what practical steps we can do right now to make a difference, today, to whether or not Welsh steel industries are successful. Have we identified the points of differentiation between Welsh and British steel, and the rest of the world? Have we made sure that those kinds of things are required in all new contracts? Have we done a survey of the current contracts available on Sell2Wales to make sure that they are as beneficial to Welsh businesses as possible? And have we got any mechanism for sending those contracts back if they do not meet our standards? The economy Minister has said that she discussed those things with you—I wonder if they have happened, and what progress is being made in that regard.

Croesawaf y ffaith nad yw'r datganiad yn ymwneud â sbarduno gwelliant yn unig, ond yn ymgysylltu busnes hefyd. Fodd bynnag, deallaf fod holl aelodau eich bwrdd ymgynghorol caffael yn dod o gefndiroedd yn y sector cyhoeddus. Nawr, yn amlwg, mae ymgysylltu yn broses ddwyffordd, felly byddai'n ymddangos y byddai hynny'n fan defnyddiol i ymgysylltu â busnesau, er mwyn rhoi cyfle iddynt i fwydo i mewn i'r broses ymgynghorol. Tybed pa ystyriaeth ydych chi wedi ei rhoi i gynnwys cynrychiolwyr o'r sector preifat i sicrhau bod barn darpar gyflenwyr hefyd yn cael ei hystyried. Yn arbennig, gallai fod yn ddiadorol cynnwys y rhai sydd yn fusnesau bach a chanolig o fewn hynny, oherwydd ein bod ni yn gyson iawn fel Aelodau, rwy'n siŵr, yn cael sylwadau gan fusnesau llai sy'n poeni am y tyndra rhwng cymalau budd i'r gymuned, er enghraifft, a sicrhau bod busnesau bach a chanolig yn gallu gwneud cais am gontractau. Ac mae pethau fel holiaduron cyn-cymhwyso, er enghraifft, yn fater y maent yn ei godi yn rheolaidd hefyd.

Roeddwn yn falch iawn i glywed eich ystadegau am y gwelliant yn nifer y cynigwyr o Gymru yn ennill contractau. Ond rwy'n meddwl tybed, o ran lefel y manylion o dan hynny, pa ystadegau y mae Llywodraeth Cymru yn eu casglu ar faint y cwmnïau sy'n gwneud cais, ac yna yn llwyddiannus wrth wneud cais, ac a oes gennych unrhyw ddadansoddiad o ba gyfran o'r gweithlu o'r cwmnïau dan sylw—o'r cwmnïau lleol hynny, yn enwedig—sydd mewn gwirionedd yng Nghymru. Fel y soniodd Alun Ffred, mae'n anodd nodi beth sy'n ddigon Cymreig i fod yn gyflenwr Cymreig. Ond efallai mewn gwirionedd y byddai edrych ar ba un a yw hon yn swyddfa gangen ynysig, neu yn fusnes gwirioneddol wedi'i ymgorffori yng Nghymru, yn rhywbeth diddorol i'w wneud.

Dywedasoch yn eich datganiad fod y cymal buddion i'r gymuned yn cynnig pecyn cymorth i sefydliadau sector cyhoeddus yng Nghymru i alluogi cyflenwyr dur yn y DU i gael mynediad at gontractau'r gadwyn gyflenwi. Tybed a allwch chi roi rhagor o fanylion i ni am sut yn union y daeth hyn i fodolaeth, a faint o gontractau sydd wedi cynnwys cymalau priodol er budd diwydiant dur Cymru yn y flwyddyn ddiwethaf. Rwy'n falch iawn ein bod ni'n rhannu arfer o Gymru gyda San Steffan, ac, yn y dyfodol, rydym yn gobeithio y gall diwydiant dur Cymru fod mewn sefyllfa well nag y mae yn awr, ond mae—fel yr ydych yn ymwybodol iawn, Weinidog—argyfwng brys yn ein diwydiant dur Cymru, a bydd llawer o'r pethau yr ydym yn sôn amdanynt yn cymryd amser i'w gweithredu.

Rwyf wedi gofyn o'r blaen pa gamau ymarferol y gallwn eu gwneud ar hyn o bryd i wneud gwahaniaeth, heddiw, pa un a yw diwydiannau dur Cymru yn llwyddiannus ai peidio. A ydym wedi nodi'r pwyntiau o ran y gwahaniaethau rhwng dur Cymru a Phrydain, a gweddill y byd? A ydym wedi gwneud yn siŵr ei bod yn ofynnol cael y mathau hynny o bethau ym mhob contract newydd? A ydym ni wedi gwneud arolwg o'r contractau cyfredol sydd ar gael ar GwerthwchiGymru i wneud yn siŵr eu bod mor fuddiol i fusnesau Cymru ag sy'n bosibl? Ac a oes gennym ni unrhyw fecanwaith ar gyfer anfon y contractau hynny yn ôl os nad ydynt yn bodloni ein safonau? Mae'r Gweinidog economi wedi dweud ei bod hi wedi trafod y pethau hynny gyda chi—tybed os ydynt wedi digwydd, a pha gynnydd a wneir yn y cyswllt hwnnw.

Thank you, also, Eluned Parrott, for your very helpful and constructive questions. I want to go straight to respond on that very important question about our engagement in terms of steel. The key principles of our Wales procurement policy statement are in place to help address those barriers that may prevent UK suppliers of steel from competing effectively for public sector contracts. We engaged in the meetings in London. We were fully at the table in terms of showing how we were delivering on this. We have policies and tools in our Wales procurement policy strategy that do ensure sustainability issues relating to supply chains and that environmental, social and economic factors are assessed, understood and managed in all key decisions before the procurement process begins; and of course, going back to the community benefits policy, that provide the approach to lever social, economic and environmental outcomes through public procurement. We are sharing our knowledge in this area to support the UK Government to develop their policy approach for steel procurement, and we are taking a leading role, and an important role, in terms of safeguarding and we are ensuring that those barriers are addressed that stand in the way in terms of UK suppliers of steel from competing for those contracts.

You make important points about adoption across the public sector. I've given examples in terms of the monitoring, and the use of SQuID. The role of the procurement board is very important. It is a cross-public sector board chaired by the chief executive of a local authority. Indeed, representations that are being made are from business and, in fact, Peter Black has raised this more than once. The procurement board now is engaging with business to see whether it would be appropriate for them to involve themselves in the operation of the board. We're doing this via the chair of Commerce Cymru, and it's going to enable us to move forward in terms of that representation. I think it is important—again going back to the delivery and the monitoring of our Wales procurement policy statement—that we did undertake fitness checks of all the local authorities, all the public sector. That was driven through the procurement board. All of those fitness checks were published with action plans, and we are, of course, monitoring the delivery and the implementation of those action plans. But we, of course, can move from guidance, as I've said, to regulation in terms of delivery.

I also want to say, just going back to procurement expenditure, that as 99 per cent of all businesses in Wales are SMEs, and some 95 per cent are micro-SMEs, we do have to focus on standardising and simplifying the procurement process to help those businesses compete and to take advantage of our public procurement policies and opportunities to enable them to grow.

Diolch, hefyd, Eluned Parrott, am eich cwestiynau buddiol ac adeiladol iawn. Rwyf eisiau mynd yn syth i ymateb ar y cwestiwn pwysig iawn hwnnw am ein hymgysylltiad yn nhermau dur. Mae egwyddorion allweddol ein datganiad polisi caffael Cymru ar waith i helpu i fynd i'r afael â'r rhwystrau hynny a allai atal cyflenwyr dur yn y DU rhag cystadlu yn effeithiol am gcontractau sector cyhoeddus. Rydym yn cymryd rhan yn y cyfarfodydd yn Llundain. Roeddem wrth y bwrdd yn llwyr o ran dangos sut yr ydym yn cyflawni hyn. Mae gennym bolisiau ac offer yn ein strategaeth polisi caffael Cymru sy'n sicrhau materion cynaliadwyedd yn ymwneud â chadwyni cyflenwi a bod ffactorau amgylcheddol, cymdeithasol ac economaidd yn cael eu hasesu, eu deall a'u rheoli ym mhob penderfyniad allweddol cyn bod y broses gaffael yn dechrau; ac wrth gwrs, mae mynd yn ôl i'r gymuned o fudd i bolisi, sy'n darparu'r dull o ddenu canlyniadau cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol trwy gaffael cyhoeddus. Rydym yn rhannu ein gwybodaeth yn y maes hwn i gefnogi Llywodraeth y DU i ddatblygu ei dull polisi ar gyfer caffael dur, ac rydym yn cymryd rhan flaenllaw, a swyddogaeth bwysig, o ran diogelu ac rydym yn sicrhau yr eir i'r afael â'r rhwystrau hynny sy'n sefyll yn y ffordd o ran bod cyflenwyr dur y DU yn gallu cystadlu am y contractau hynny.

Rydych yn gwneud pwynt pwysig am fabwysiadu ar draws y sector cyhoeddus. Rwyf wedi rhoi enghreifftiau o safbwynt monitro, a'r defnydd o SQuID. Mae swyddogaeth y bwrdd caffael yn bwysig iawn. Mae'n fwrdd traws-sector cyhoeddus a gadeirir gan brif weithredwr awdurdod lleol. Mewn gwirionedd, mae'r sylwadau sy'n cael eu gwneud yn dod gan fusnes ac, mewn gwirionedd, mae Peter Black wedi codi hyn fwy nag unwaith. Mae'r bwrdd caffael yn awr yn ymgysylltu â busnes i weld a fyddai'n briodol iddynt gymryd rhan yng ngweithrediad y bwrdd. Rydym yn gwneud hyn trwy gyfrwng cadeirydd Masnach Cymru, ac mae'n mynd i'n galluogi i symud ymlaen o ran y gynrychiolaeth. Rwy'n credu ei bod yn bwysig—unwaith eto yn mynd yn ôl at gyflwyno a monitro ein datganiad polisi caffael Cymru—ein bod yn cynnal gwiriadau addasrwydd ar yr holl awdurdodau lleol, yr holl sector cyhoeddus. Cafodd hynny ei sbarduno drwy'r bwrdd caffael. Cafodd pob un o'r gwiriadau addasrwydd hynny eu cyhoeddi gyda chynlluniau gweithredu, ac rydym, wrth gwrs, yn monitro cyflwyno a gweithredu'r cynlluniau hynny. Ond rydym, wrth gwrs, yn gallu symud o ganllawiau, fel yr wyf wedi dweud, i reoleiddio o ran darparu.

Rwyf hefyd eisiau dweud, gan fynd yn ôl at wariant caffael, gan fod 99 y cant o'r holl fusnesau yng Nghymru yn fusnesau bach a chanolig, ac mae rhyw 95 y cant yn ficrofusnesau bach a chanolig, bod yn rhaid i ni ganolbwyntio ar safoni a symleiddio'r broses gaffael i helpu'r busnesau hynny i gystadlu a manteisio ar ein polisiau a'n cyfleoedd caffael cyhoeddus i'w galluogi i dyfu.

Thank you, Minister, for the statement. I want to start by placing on record the comments from a business in my constituency that the Welsh Government, and I quote, 'clearly articulates a strong commitment to using public procurement to support the Welsh economy.'

Diolch, Weinidog, am y datganiad. Rwyf am ddechrau drwy osod ar gofnod y sylwadau gan fusnes yn fy etholaeth i bod Llywodraeth Cymru, a dyfynnaf, 'yn mynegi yn glir ymrwymiad cryf i ddefnyddio caffael cyhoeddus i gefnogi economi Cymru.'

I did have a number of questions, but I will curtail some of these now because of time. Firstly, the same employer, actually, has suggested a number of ways in which we could look at the procurement assessment matrix to take into account factors such as the wellbeing of supplier staff, a reduced environmental impact and staff development to better support domestic businesses. Does the Minister think this would be possible, and if so, is it something that the Welsh Government could explore?

Secondly, the cross-party group on women in the economy, which I chair, has discussed how procurement policy could improve gender equality in the workplace, for example by workforce audits, tackling gender pay gaps et cetera. How does the Minister think we can best utilise procurement to promote gender equality?

15:44

**Jane Hutt** [Bywgraffiad Biography](#)

I thank Christine Chapman very much for those questions. I very much welcome the response from your employer and I would like my officials to follow that up with a meeting because, clearly, there is more to offer. That's the engagement that we need with the private sector, as well as, of course, with those who are contracting. I think that there are new opportunities with the new EU procurement directives, particularly in relation to looking at fair employment practices, and also to looking at ways in which we can use those new directives to enable us to consider those issues around not just the wellbeing of staff, but gender and pay gap analysis. I would be very happy to follow this through. We have not only the new EU directives, but also the designation Order. But, of course, we have the policy basis with which we can take this forward with our new powers.

*Daeth y Dirprwy Lywydd (David Melding) i'r Gadair.*

15:45

**Jenny Rathbone** [Bywgraffiad Biography](#)

I'd also like to congratulate you, Minister, for the work you've been doing on using public procurement to increase the amount of money in circulation in Wales. I think it's absolutely excellent. I just wanted to ask you about the national procurement service and the progress they're making on food procurement. I was particularly struck by the setting up of the food assembly for Llangollen, which I'm sure the Member for Clwyd South will be aware of, where people can buy food from within a 26-mile radius of Llangollen, and 90p of every pound stays in the local economy. Using that example, I know that Gwynedd Council has been leading the way on ensuring that their school food is, where possible, procured from local businesses. I wondered how that excellent example of both increasing the wealth of the local economy and also improving the health of our children can be rolled out to other local authorities, and what role the national procurement service is going to play in terms of having those hubs where people can acquire the food that they need for something as complicated as school food.

Roedd gennyf nifer o gwestiynau, ond byddaf yn cwtdogi rhai o'r rhain bellach oherwydd yr amser. Yn gyntaf, mae'r un cyflogwr, mewn gwirionedd, wedi awgrymu nifer o ffyrdd y gallem edrych ar y matrices asesu caffael i ystyried ffactorau megis lles staff cyflenwr, effaith amgylcheddol lai a datblygu staff i gefnogi busnesau domestig yn well. A yw'r Gweinidog yn credu y byddai hyn yn bosibl, ac os felly, a yw'n rhywbeth y gallai Llywodraeth Cymru ei archwilio?

Yn ail, mae'r grŵp trawsbleidiol ar fenywod yn yr economi, yr wyf yn gadeirydd arno, wedi trafod sut y gallai polisi caffael wella cydraddoldeb rhwng y rhywiau yn y gweithle, er enghraifft drwy archwiliadau gweithlu, mynd i'r afael â bylchau cyflog rhwng y ddau ryw ac ati. Sut y mae'r Gweinidog yn credu y gallwn ni ddefnyddio caffael orau i hyrwyddo cydraddoldeb rhwng y rhywiau?

Diolch i Christine Chapman yn fawr iawn am y cwestiynau yna. Rwy'n croesawu ymateb gan eich cyflogwr yn fawr iawn a hoffwn i fy swyddogion fynd ar drywydd hynny gyda chyfarfod oherwydd, yn amlwg, mae mwy i'w gynnig. Dyna'r ymgysylltiad sydd ei angen arnom gyda'r sector preifat, yn ogystal, wrth gwrs, â'r rhai sy'n contractio. Rwy'n credu bod cyfleoedd newydd gyda chyfarwyddbau caffael newydd yr UE, yn enwedig o ran edrych ar arferion cyflogaeth teg, a hefyd i edrych ar ffyrdd y gallwn ddefnyddio'r cyfarwyddbau newydd hynny er mwyn ein galluogi i ystyried y materion hynny sy'n ymwneud nid yn unig â lles staff, ond â dadansoddi bwlch rhyw a chyflog. Byddwn yn fodlon iawn i fynd ar ôl hyn. Mae gennym nid yn unig gyfarwyddbau newydd yr UE, ond hefyd y Gorchymyn dynodiad. Ond, wrth gwrs, mae gennym y sail polisi ar gyfer bwrw ymlaen â hyn gyda'n pwerau newydd.

*The Deputy Presiding Officer (David Melding) took the Chair.*

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

15:46

**Jane Hutt** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

Well, I thank Jenny Rathbone for drawing attention to the opportunities that the national procurement service can provide in terms of food procurement. NPS is taking this forward through applying community benefits. NPS contracts and frameworks awarded to date have created 107 jobs in areas in terms of the pipeline of those contracts, which eventually will mean local supporters and businesses benefitting. I think that will apply to the food framework as we develop it. I think this does provide an opportunity again to say that customer engagement is crucial, and I will certainly want to feed back the importance of the local base in terms, particularly, of the food procurement opportunities for the NPS framework.

Wel, rwy'n ddiolchgar i Jenny Rathbone am dynnu sylw at y cyfleoedd y gall y gwasanaeth caffael cenedlaethol eu darparu o ran caffael bwyd. Mae'r Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol yn datblygu hyn drwy gymhwyso manteision cymunedol. Mae contractau a fframweithiau'r Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol a ddyfarnwyd hyd yn hyn wedi creu 107 o swyddi mewn ardaloedd o ran piblinell y contractau hynny, a fydd yn y pen draw yn golygu y bydd cefnogwyr a busnesau lleol yn elwa. Rwy'n meddwl y bydd hynny'n berthnasol i'r fframwaith bwyd wrth i ni ei ddatblygu. Rwy'n credu bod hyn yn rhoi cyfle unwaith eto i ddweud bod ymgysylltu â chwsmeriaid yn hollbwysig, a byddaf yn sicr yn awyddus i adrodd yn ôl ar bwysigrwydd y ganolfan leol o ran, yn arbennig, y cyfleoedd caffael bwyd ar gyfer fframwaith y Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol.

15:47

**Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

Thank you, Minister.

Diolch yn fawr, Weinidog.

15:47

**5. Datganiad: Fframwaith Cenedlaethol Tân ac Achub o 2016 Ymlaen**

**5. Statement: The Fire and Rescue National Framework 2016 Onwards**

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

**Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Item 5, datganiad gan y Gweinidog Gwasanaethau Cyhoeddus ar y fframwaith cenedlaethol tân ac achub o 2016 ymlaen. Galwaf Leighton Andrews.

Item 5 is a statement by the Minister for Public Services on the fire and rescue national framework from 2016 onwards. I call Leighton Andrews.

15:47

**Leighton Andrews** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

*Y Gweinidog Gwasanaethau Cyhoeddus / The Minister for Public Services*

Diolch, Ddirprwy Lywydd. The new fire and rescue national framework will come into force at the start of next month. It sets priorities for fire and rescue authorities for the next three to five years. It also indicates how the Welsh Government will support them to meet those priorities.

Diolch, Ddirprwy Lywydd. Bydd y fframwaith cenedlaethol tân ac achub newydd yn dod i rym ddechrau mis nesaf. Mae'n gosod blaenoriaethau awdurdodau tân ac achub ar gyfer y tair i bum mlynedd nesaf. Mae hefyd yn nodi sut y bydd Llywodraeth Cymru'n eu cynorthwyo i gyflawni'r blaenoriaethau hynny.

Our fire and rescue authorities have achieved much in recent years. Fires and fire-related casualties have both more than halved since responsibility was devolved in 2004. That has allowed firefighters further to develop their prevention role in addition to fighting fires. This change in emphasis to embrace prevention activities must be sustained and enhanced, as the framework makes clear. This has to happen despite the UK Government's austerity measures and the significant pressure on public service funding that they bring. Alongside that, the ageing population and greater focus on care in community settings means a potentially increased risk of fires in the home.

Mae ein hawdurdodau tân ac achub wedi cyflawni llawer dros y blynyddoedd diwethaf. Mae tanau ac anafiadau cysylltiedig â tân ill dau wedi mwy na haneru ers datganoli'r cyfrifoldeb yn 2004. Mae hynny wedi caniatáu i ddiffoddwyr tân ddatblygu ymhellach eu swyddogaeth ataliol yn ogystal ag ymladd tanau. Mae'n rhaid i'r newid pwyslais hwn i gofleidio gweithgareddau atal gael ei gynnal a'i wella, fel y mae'r fframwaith yn ei gwneud yn glir. Mae'n rhaid i hyn ddigwydd er gwaethaf mesurau cyni Llywodraeth y DU a'r pwysau sylweddol y maent yn ei roi ar gyllid gwasanaethau cyhoeddus. Ochr yn ochr â hynny, mae'r boblogaeth sy'n heneiddio a mwy o bwyslais ar ofal mewn lleoliadau cymunedol yn golygu y gallai'r risg o danau yn y cartref fod yn uwch.

Preventing fires will always be better than responding to them. Prevention maximises safety and wellbeing while minimising cost. Prevention, and stronger partnership arrangements to support it, will become even more crucial in the medium term. There is no doubt that fire and rescue authorities have an excellent record already. Firefighters are highly trained to deal with a wide range of incidents, and have a high level of public respect. The reduction in the incidence of fire may free up some of their capacity to convey wider safety messages and respond to other incidents.

The framework thus proposes that fire and rescue authorities, and firefighters, should diversify from their traditional roles. The framework puts citizens at its centre and sets out how fire and rescue authorities can protect and improve their safety, health and wellbeing. Alongside their domestic fire safety work, they could also help address the risk of accidental carbon monoxide poisoning, for example, which claims around 30 lives a year in Wales and England, or look at accident risks in the home. Of course, fire and rescue authorities will always need to respond effectively to fires and road traffic collisions. All FRAs also respond to flooding incidents on a voluntary basis, and the framework proposes formalising that role. It also proposes further support to the ambulance service in responding to non-fire medical emergencies such as cardiac arrest.

I welcome the work that fire and rescue authorities are already leading on in this field. There are examples in all three regions of collaborative work being undertaken or planned; for example, all three FRAs are undertaking some form of first-responder scheme, whether through well-established co-responding schemes in Mid and West Wales Fire and Rescue Authority or new pilots in north and south Wales, and all three FRAs are already planning to expand their prevention role. Indeed, The Welsh Government has provided invest-to-save funding of over £0.25 million for a trial scheme to look at a wider approach to prevention. The pilot will see Mid and West Wales FRA, Welsh Ambulance Services NHS Trust, Hywel Dda Local Health Board and Dyfed-Powys Police adopt a collaborative approach to reducing domestic hazards in the homes of our most at-risk citizens. North Wales FRA, likewise, has a trial programme in this area working with Denbighshire County Council. South Wales are working with Student Volunteering Cardiff and Torfaen Voluntary Alliance to provide extended home-safety advice to elderly vulnerable citizens in these areas.

Bydd atal tanau bob amser yn well nag ymateb iddynt. Atal yw'r peth gorau i ddiogelwch a lles, ac mae hefyd yn lleihau costau. Bydd atal, a threfniadau partneriaeth cryfach i'w gefnogi, yn dod hyd yn oed yn fwy hanfodol yn y tymor canolig. Nid oes amheuaeth bod gan yr awdurdodau tân ac achub hanes rhagorol eisoes. Mae diffoddwyr tân yn cael eu hyfforddi i safon uchel i ymdrin ag ystod eang o ddigwyddiadau, ac maent yn uchel eu parch ymysg y cyhoedd. Efallai y bydd y gostyngiad yn nifer yr achosion o dân yn rhoi mwy o gyfle iddynt gyfleu negeseuon diogelwch ehangach ac ymateb i ddigwyddiadau eraill.

Mae'r fframwaith felly'n cynnig y dylai awdurdodau tân ac achub, a diffoddwyr tân, arallgyfeirio oddi wrth eu swyddogaethau traddodiadol. Mae'r fframwaith yn rhoi dinasyddion yn y canol ac yn nodi sut y gall awdurdodau tân ac achub ddiogelu a gwella eu diogelwch, eu hiechyd a'u lles. Ochr yn ochr â'u gwaith diogelwch rhag tân yn y cartref, gallent hefyd helpu i roi sylw i'r perygl o wenwyn carbon monocsid damweiniol, er enghraifft, sy'n hawlio tua 30 o fywydau bob blwyddyn yng Nghymru a Lloegr, neu edrych ar risgiau o ddamweiniau mewn cartrefi. Wrth gwrs, bydd angen bob amser i awdurdodau tân ac achub ymateb yn effeithiol i danau a gwrthdrawiadau traffig ffyrdd. Mae pob Awdurdod Tân ac Achub hefyd yn ymateb i achosion llifogydd yn wirfoddol, ac mae'r fframwaith yn cynnig ffurfioli'r swyddogaeth honno. Mae hefyd yn cynnig cymorth pellach i'r gwasanaeth ambiwlans i ymateb i argyfyngau meddygol lle nad oes tân, fel ataliad y galon.

Rwy'n croesawu'r gwaith y mae awdurdodau tân ac achub eisoes yn arwain arno yn y maes hwn. Ceir enghreifftiau yn y tri rhanbarth o waith ar y cyd sy'n cael ei wneud neu ei gynllunio; er enghraifft, mae'r tri Awdurdod Tân ac Achub yn cynnal rhyw fath o gynllun ymatebwyr cyntaf, boed drwy gynlluniau cyd-ymateb sefydledig yn Awdurdod Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru neu gynlluniau arbrofol newydd yn y gogledd a'r de, ac mae'r tri Awdurdod Tân ac Achub eisoes yn cynllunio i ehangu eu swyddogaeth ataliol. Yn wir, mae Llywodraeth Cymru wedi darparu dros £0.25 miliwn o gyllid buddsoddi i arbed ar gyfer cynllun prawf i edrych ar ymagwedd ehangach at atal. Yn y cynllun arbrofol, bydd Awdurdod Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru, Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwllans Cymru, Bwrdd Iechyd Lleol Hywel Dda a Heddlu Dyfed-Powys yn mabwysiadu dull cydweithredol o leihau peryglon domestig yng nghartrefi ein dinasyddion sydd mewn mwyaf o berygl. Mae gan Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru, yn yr un modd, raglen brawf yn y maes hwn sy'n gweithio gyda Chyngor Sir Ddinbych. Mae De Cymru'n gweithio gyda Gwirfoddoli Myfyrwyr Caerdydd a Chynghair Gwirfoddoli Torfaen i ddarparu cyngor estynedig ynglŷn â diogelwch yn y cartref i ddinasyddion oedrannus sy'n agored i niwed yn yr ardaloedd hyn.

Whilst these are positive steps, I believe the direction of travel needs to be more clearly structured and articulated at an all-Wales level, and the framework fulfils that need. Delivering this reform agenda will require commitment at all levels within fire and rescue authorities; strong leadership is needed. Firefighters and other fire-service staff will need the capacity, skills and equipment to discharge these roles, but, more importantly, they will need to be clear about their role and purpose. Commitment within fire and rescue authorities alone is not enough. Partner organisations, including other public bodies and third-sector partners, need to share the same vision to ensure joined-up, accessible, effective services are provided. Whilst not a matter for the framework, the Welsh Government clearly has a role in ensuring this shared vision is achieved.

The purpose of the fire service remains to keep citizens and communities safe. As part of that, they need to account clearly for the decisions they make and the performance they display. Citizens, equally, should understand what the service can do for them and the steps they can take to keep themselves safe. That sort of accountability can help to sustain the level of improvement we have seen so far. However, as the Williams commission noted, there is a case for reviewing FRA governance; I may return to that in due course.

That, though, is for the future. For now, it is a matter of building on the success we have seen and making the most of the capacity we have. I look forward to working with our fire and rescue authorities to that end.

Er bod y rhain yn gamau cadarnhaol, yn fy marn i mae angen strwythuro a mynegi'r cyfeiriad teithio yn gliriach ar gyfer Cymru gyfan, ac mae'r fframwaith yn cyflawni'r angen hwnnw. I gyflawni'r agenda diwygio hon, bydd angen ymrwymiad ar bob lefel o fewn awdurdodau tân ac achub; mae angen arweinyddiaeth gref. Bydd ar ddiffoddwyr tân a staff eraill y gwasanaeth tân angen y gallu, y sgiliau a'r offer i gyflawni'r swyddogaethau hyn, ond, yn bwysicach, bydd angen iddynt fod yn glir ynghylch eu swyddogaeth a'u diben. Nid yw ymrwymiad o fewn awdurdodau tân ac achub yn unig yn ddigon. Mae angen i sefydliadau partner, gan gynnwys cyrff cyhoeddus eraill a phartneriaid trydydd sector, rannu'r un weledigaeth i sicrhau eu bod yn darparu gwasanaethau cydgysylltiedig, hygyrch ac effeithiol. Er nad yw'n fater i'r fframwaith, yn amlwg mae gan Lywodraeth Cymru ran i'w chwarae i sicrhau bod y weledigaeth hon a rennir yn cael ei gwireddu.

Pwrpas y gwasanaeth tân o hyd yw cadw dinasyddion a chymunedau'n ddiogel. Yn rhan o hynny, mae angen iddynt roi cyfrif clir am y penderfyniadau a wnânt ac am eu perfformiad. Dylai dinasyddion, yn yr un modd, ddeall yr hyn y gall y gwasanaeth ei wneud drostynt a'r camau y gallant eu cymryd i'w cadw eu hunain yn ddiogel. Gall y math hwnnw o atebolrwydd helpu i gynnal lefel y gwelliant yr ydym wedi'i weld hyd yn hyn. Fodd bynnag, fel y nododd comisiwn Williams, ceir achos dros adolygu llywodraethu Awdurdodau Tân ac Achub; efallai y dof yn ôl at hynny maes o law.

Mae hynny, fodd bynnag, ar gyfer y dyfodol. Am y tro, mae angen inni adeiladu ar y llwyddiant yr ydym wedi'i weld a gwneud y gorau o'r capasiti sydd gennym. Rwy'n edrych ymlaen at weithio gyda'n hawdurdodau tân ac achub i'r peryl hwnnw.

15:52

## Mark Isherwood [Bywgraffiad Biography](#)

Clearly, our fire and rescue services and authorities must be congratulated for more than halving casualties since devolution in 2004, enabling them to develop their prevention role in addition to fighting fires. This, of course, follows a trend since the peaking of fire casualties in 1985-86. Given that the last comparative UK figures—I think in 2013-14—showed that fire-related fatalities in Wales were 5.5 per 1 million people but only 5.1 in England, and that non-fatal casualties in England fell 7 per cent to 145 per 1 million but went up 16 per cent in Wales to 203 per 1 million, and that the 2014-15 figures, which are the first published on a single-nation basis, so are England only, showed a further 6 per cent reduction to the lowest number on record of fatalities and non-fatal casualties, what evidence base are you developing to establish why there appears to be this difference, and how that might advise the future direction of travel by our fire and rescue authorities and, therefore, the forces?

Yn amlwg, mae'n rhaid llongyfarch ein gwasanaethau ac awdurdodau tân ac achub am fwy na haneru anafusion ers datganoli yn 2004, gan eu galluogi i ddatblygu eu swyddogaeth ataliol yn ogystal ag ymladd tanau. Mae hyn, wrth gwrs, yn dilyn tuedd ers uchafbwynt anafiadau oherwydd tân yn 1985-86. O gofio bod ffigurau cymharol diwethaf y DU—rwy'n meddwl yn 2013-14—yn dangos bod marwolaethau cysylltiedig â than yng Nghymru yn 5.5 fesul miliwn o bobl ond dim ond 5.1 yn Lloegr, a bod anafiadau nad oeddent yn angheuol yn Lloegr wedi gostwng 7 y cant i 145 fesul miliwn ond wedi cynyddu 16 y cant yng Nghymru i 203 fesul miliwn, a bod ffigurau 2014-15, sydd y rhai cyntaf i'w cyhoeddi ar sail un genedl, felly maent ar gyfer Lloegr yn unig, yn dangos gostyngiad 6 y cant pellach i'r nifer isaf a gofnodwyd erioed o farwolaethau ac anafiadau nad oeddent yn angheuol, pa sail dystiolaeth yr ydych chi'n ei datblygu i ganfod pam mae'n ymddangos y ceir y gwahaniaeth hwn, a sut y gallai hynny lywio cyfeiriad teithio ein hawdurdodau tân ac achub ac, felly, y lluoedd, yn y dyfodol?

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

As you say, our firefighters have a high level of public respect; I fully endorse that, and we must have citizens at their centre. You refer to the risk of accidental carbon monoxide poisoning, and how the authorities and, presumably, forces could help address that. You used the word 'could'; how do you propose to take that forward to encourage and engage them in driving forward the accidental carbon monoxide poisoning reduction agenda—something I raised two weeks ago during Carbon Monoxide Awareness Week in this Chamber?

You refer to the welcome further development of support for the ambulance service in responding to non-medical fire emergencies, such as cardiac arrest, and the development of the first-responder and co-responder schemes. This is particularly sensitive in areas with retained firefighters—often our more rural areas. I wonder if you could comment on the approach being taken in the areas more dependent on retained firefighters in this context.

You referred to reducing domestic hazards in the homes of our most at-risk citizens. As I've argued many times, as has the charity Firebrake Wales, we should have a robust evaluation of interventions that work to prevent fire deaths and injuries undertaken for people who are most at risk due to circumstances, conditions, behaviours and lifestyle choices. I understand, early last year—and your predecessor shared this information with us—that the Welsh Government had announced some work with the fire and rescue services to establish where the interventions would be most effective in this context. Could you advise now what the outcome of that work was and whether it did involve something you mentioned, namely third sector bodies such as Firebrake, in establishing where those interventions might be most effective?

Finally, in your conclusion, you refer to a case for reviewing FRA governance. Coming from your lips, Minister, the case for reviewing things sometimes, I believe, causes interest and even concern in certain quarters. I wonder if you could expand on your view for how reviewing fire and rescue authority governance might develop, and whether you have in your mind any further development of clear, visible, local accountability, with devolution to the lowest level, or whether you have a different model in mind.

15:56

## **Leighton Andrews** [Bywgraffiad Biography](#)

Dirprwy Lywydd, could I just start by thanking the Conservative spokesperson for his recognition of the success of fire and rescue authorities in reducing outbreaks of fire since the responsibility was devolved? He made reference to comparators with England, and I think we compare fairly well with England. It wouldn't be the only area I would want to make comparison with. He will be aware that we have our own chief fire adviser, and both the most recent appointment and the previous appointment had been fire chiefs in England. They bring with them experience of operating systems there. I think they provide us with significant insight and capability to learn from other areas around the UK.

Fel y dywedwch, mae ein diffoddwyr tân yn uchel eu parch ymysg y cyhoedd; rwy'n llwyr gytuno â hynny, ac mae'n rhaid i ddinasyddion fod yn ganolog iddynt. Rydych yn cyfeirio at y risg o wenwyn carbon monocsid damweiniol, a sut y gallai'r awdurdodau ac, yn ôl pob tebyg, y lluoedd helpu i ymdrin â hynny. Gwnaethoch ddefnyddio'r gair 'gallai'; sut yr ydych yn bwriadu bwrw ymlaen â hynny i'w hannog a'u cynnwys wrth hybu'r agenda lleihau gwenwyn carbon monocsid damweiniol—rhywbeth a godais bythefnos yn ôl yn ystod Wythnos Ymwybyddiaeth Carbon Monocsid yn y Siambr hon?

Rydych yn cyfeirio at y datblygiad pellach a groesewir o ran cefnogaeth i'r gwasanaeth ambiwlans o ran ymateb i argyfyngau meddygol lle nad oes tân, fel ataliad y galon, a datblygiad y cynlluniau ymatebwyr cyntaf a chyd-ymateb. Mae hyn yn arbennig o sensitif mewn ardaloedd â diffoddwyr tân wrth gefn—yn aml ein hardaloedd mwy gwledig. Tybed a allech chi roi sylwadau am y dulliau a ddefnyddir yn yr ardaloedd sy'n dibynnu mwy ar ddiffoddwyr tân wrth gefn yn y cyd-destun hwn.

Gwnaethoch sôn am leihau peryglon domestig yng nghartrefi ein dinasyddion sydd fwyaf mewn perygl. Fel yr wyf wedi'i ddadlau sawl gwaith, ynghyd â'r elusen Atal Tân Cymru, dylem gynnal gwerthusiad cadarn o ymyriadau sy'n gweithio i atal marwolaethau ac anafiadau oherwydd tân ar gyfer y bobl sydd mewn mwyaf o berygl oherwydd amgylchiadau, amodau, ymddygiadau a dewisiadau ffordd o fyw. Rwyf ar ddeall, yn gynnar y llynedd—eich rhagflaenydd a rannodd y wybodaeth hon â ni—bod Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi gwaith gyda'r gwasanaethau tân ac achub i ganfod ble y byddai'r ymyriadau fwyaf effeithiol yn y cyd-destun hwn. A allech chi ddweud yn awr beth oedd canlyniad y gwaith hwnnw ac a oedd yn cynnwys rhywbeth y gwnaethoch sôn amdano, sef cyrff trydydd sector fel Atal Tân, wrth ganfod ble gallai'r ymyriadau hynny fod fwyaf effeithiol?

Yn olaf, yn eich casgliad, rydych yn sôn am achos o blaid adolygu llywodraethu awdurdodau tân ac achub. Pan y daw o'ch gwefusau chi, Weinidog, mae'r achos o blaid adolygu pethau weithiau, rwy'n credu, yn achosi diddordeb a hyd yn oed pryder mewn rhai manau. Tybed a allech chi ymhelaethu ar eich barn am sut y gellid datblygu adolygu llywodraethu awdurdodau tân ac achub, ac a oes gennych yn eich meddwl unrhyw ddatblygiad pellach o atebolrwydd clir, gweladwy a lleol, gyda'r lefel isaf o ddatganoli, ynteu a oes gennych fodel gwahanol mewn golwg.

Dirprwy Lywydd, a gaf i ddechrau drwy ddiolch i lefarydd y Ceidwadwyr am gydnabod llwyddiant awdurdodau tân ac achub i leihau achosion o dân ers datganoli'r cyfrifoldeb? Soniodd am gymaryddion â Lloegr, ac rwy'n meddwl ein bod yn cymharu'n weddol dda â Lloegr. Nid dyna'r unig ardal yr hoffwn ein cymharu â hi. Bydd yn gwybod bod gennym ein prif gynghorydd tân ein hunain, a bod y penodiad diweddaraf a'r penodiad blaenorol wedi bod yn brif swyddogion tân yn Lloegr. Mae ganddynt brofiad o weithredu systemau yno. Rwy'n meddwl eu bod yn rhoi mewnwelediad a gallu sylweddol inni i ddysgu gan ardaloedd eraill o amgylch y DU.

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

He made a number of references to the ways in which firefighters can diversify in support of carbon monoxide reduction, in support of other assessments around safety in the home, and so on, and I welcome what he says about the opportunities there. It's fair to say, of course, that these are things that, in some areas, have been piloted already. We certainly recognise, as he said, the role that the third sector is already undertaking in providing advice on safety in the home. We certainly wouldn't want firefighters to take the place of other highly skilled professionals, of course.

I think it's fair to say that we have explored, through pilots, the ways in which firefighters can work as community first responders and, indeed, let me say, he referred to retained firefighters in this area; of course, the Retained Firefighters Union has always strongly supported this kind of diversification. Now, in the development of the community first-responder pilot, for example, in south Wales, there were issues in the past, which have been resolved, in respect of sharing specialised skills and terms and conditions. Clearly, for a long time, the Fire Brigades Union itself had opposed firefighters being asked or required to respond to non-fire medical emergencies. However, I'm pleased to say that it reversed its position at its annual conference last May, and FBU members are now able to participate fully in this work. So, I expect to see that whole area of work around first responders moving forward.

Finally, he asked about the issue of reviewing the governance of the fire and rescue authorities. Can I start off with an assurance that we will not be giving responsibility for fire and rescue to the police and crime commissioners? Therefore, we will not be following the route that is being taken in England. But, we will be giving further consideration to the issue of the governance of fire and rescue authorities, although I suspect this will be an issue for the next Assembly.

16:00

## Rhodri Glyn Thomas [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

A gaf i ddechrau gyda'ch sylw olaf chi, Weinidog, a chroesawu'n fawr iawn nad ydych chi'n bwriadu trosglwyddo cyfrifoldebau'r gwasanaeth tân ac argyfwng i'r comisiynwyr heddlu a throsedd? Oherwydd mae yna duedd ganddynt i drosglwyddo rhai asedau lleol i drefniadau ar draws y Deyrnas Unedig, a hynny yn creu cwestiynau mawr ynglŷn ag atebolrwydd lleol a gallu'r gwasanaeth i ymateb i argyfyngau lleol. Rŷch chi'n sôn cryn lawer am y pwyslais ar atal tanau rhag digwydd yn hytrach nag ymateb i alwad oherwydd bod tân wedi digwydd. A ydy e'n eich poeni chi bod y pwysau ariannol sydd ar yr awdurdodau tân ac argyfwng yn mynd i arwain at sefyllfa lle mae llai o waith addysgu yn gallu digwydd? Ar hyn o bryd, mae'r gwasanaeth tân yn mynd allan i ysgolion, ac mae'n mynd at bobl hŷn, yn enwedig rheini sy'n byw mewn tai cysgodol ac yn y blaen, i sicrhau eu bod nhw'n cael pob cymorth i atal tanau rhag digwydd. Roedd yna drafodaethau yn ddiweddar ynglŷn â lleihau'r nifer o orsafoedd tân. A ydy hynny hefyd yn bosibl rwydd o hyd oherwydd y pwysau ariannol? A ydy hynny'n mynd i arwain at lai o bwyslais ar y gwaith ataliol a'r gwaith addysgiadol yma?

Soniodd lawer gwaith am y ffyrdd y gall diffoddwyr tân arallgyfeirio i gefnogi lleihau carbon monocsid, i gefnogi asesiadau eraill yn ymwneud â diogelwch yn y cartref, ac ati, ac rwy'n croesawu'r hyn y mae'n ei ddweud am y cyfleoedd yn hynny o beth. Mae'n deg dweud, wrth gwrs, bod y rhain yn bethau sydd, mewn rhai ardaloedd, wedi cael eu treialu'n barod. Rydym yn sicr yn cydnabod, fel y dywedodd, y gwaith y mae'r trydydd sector eisoes yn ei wneud i ddarparu cyngor ar ddiogelwch yn y cartref. Yn sicr, ni fyddem yn dymuno i ddiffoddwyr tân gymryd lle gweithwyr proffesiynol medrus iawn eraill, wrth gwrs.

Rwy'n meddwl ei bod yn deg dweud ein bod wedi archwilio, drwy gynlluniau arbrofol, y ffyrdd y gall diffoddwyr tân weithio fel ymatebwyr cyntaf cymunedol ac, yn wir, gadewch imi ddweud, soniodd am ddiffoddwyr tân wrth gefn yn y maes hwn; wrth gwrs, mae Undeb y Diffoddwyr Tân Wrth Gefn wedi cefnogi'r math hwn o arallgyfeirio'n gryf erioed. Nawr, yn y gwaith o ddatblygu'r cynllun ymatebwyr cyntaf cymunedol arbrofol, er enghraifft, yn y de, bu problemau yn y gorffennol, sydd wedi eu datrys, o ran rhannu sgiliau arbenigol a thelerau ac amodau. Yn amlwg, am amser hir, roedd Undeb y Brigadau Tân ei hun yn gwrthwynebu gofyn neu fynnu bod diffoddwyr tân yn ymateb i argyfyngau meddygol nad ydynt yn danau. Fodd bynnag, rwy'n falch o ddweud ei fod wedi gwrthdroi ei safbwynt yn ei gynhadledd flynyddol fis Mai diwethaf, a bod aelodau Undeb y Brigadau Tân nawr yn gallu cymryd rhan lawn yn y gwaith hwn. Felly, rwy'n disgwyl gweld cynnydd yn y maes gwaith cyfan hwnnw sy'n ymwneud ag ymatebwyr cyntaf.

Yn olaf, gofynnodd am fater adolygu llywodraethu'r awdurdodau tân ac achub. A gaf i ddechrau gyda sicrwydd na fyddwn yn rhoi cyfrifoldeb am dân ac achub i'r comisiynwyr heddlu a throsedd? Felly, ni fyddwn yn dilyn y llwybr sy'n cael ei ddilyn yn Lloegr. Ond, byddwn yn rhoi ystyriaeth bellach i fater llywodraethu awdurdodau tân ac achub, er fy mod yn amau mai mater i'r Cynulliad nesaf fydd hwnnw.

Could I start with your final comment, Minister, and welcome greatly that you don't intend to transfer responsibility for the fire and rescue service to the police and crime commissioners? Because they have a tendency to transfer some of the local assets into arrangements across the UK, and that raises big questions in terms of local accountability and the ability of the service to respond to local crises. You mention a great deal the emphasis on preventing fires from happening, rather than responding to calls because a fire has happened. Does it concern you that the financial pressure that is on the fire and rescue authorities is going to lead to a situation where less educational work can happen? At present, the fire service goes out to schools, and goes out to older people, particularly those who live in sheltered accommodation and so forth, to ensure that they have every support to prevent fires from happening. There were discussions recently about reducing the number of fire stations. Is that still a possibility because of the financial pressures? Is that going to lead to less of an emphasis on the preventative work, and the educational work?

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

Rŷch chi'n sôn hefyd yn eich datganiad ynglŷn ag ymestyn cyfrifoldebau'r gwasanaeth tân ac argyfyngau i ddelio â rhwystrau a phroblemau eraill—'other hazards' yw'r term rŷch chi'n ei ddefnyddio. Hwyrach, y gallech chi esbonio i ni beth yn union sydd gennych dan sylw yn y fan honno. A ŷch chi'n cyfeirio at broblemau a allent godi oherwydd newid yn yr hinsawdd, neu a oes gennych chi rywbeth arall mewn golwg? Ac a oes yna enghreifftiau ar hyn o bryd, Weinidog, o'r gwasanaeth yn ymestyn ei ffordd o ymateb i sefyllfaoedd? A oes yna unrhyw waith mentrus yn digwydd o fewn y gwasanaeth y gallwch chi ein cyfeirio ni ato ef? Neu ai'r hyn rŷm ni'n ei weld gyda'r gwasanaeth yma, fel rŷm ni'n ei weld gyda chymaint o wasanaethau cyhoeddus ar hyn o bryd, ydy bod y gwasanaeth yn crebachu o dan y pwysau ariannol sydd arno ef? Rŷch chi wedi cyfeirio yn eich ateb i Mark Isherwood at eich bwriad i edrych, hwyrach, ar atebolrwydd y gwasanaeth. Wrth gwrs, mae comisiwn Williams wedi sôn cryn lawer am hyn. Ai dyna'r math o gamau rŷch chi'n gweld yn digwydd o ran sgrwtini o'r gwasanaeth ac atebolrwydd y gwasanaeth i'r gymuned leol?

You mention also in your statement extending the responsibilities of the fire and rescue service to deal with other hazards—that's the term that you used. Maybe you could explain to us what exactly you mean there. Are you referring to problems that could arise because of climate change, or do you have anything other in mind there? And are there examples at present, Minister, of the service extending or diversifying its way of its responding to situations? Is there any innovative work happening within the service that you can refer us to? Or is it what we are seeing with this service, as we see with so many public services at present, that the service is contracting under the financial pressure that is on it? You have referred in your response to Mark Isherwood to the intention to look at the accountability of the service. Of course, the Williams commission has mentioned this a lot. Are those the kind of steps you foresee happening in terms of scrutiny of the service and the accountability of the service to the local community?

16:03

### **Leighton Andrews** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Can I start by welcoming the comments of the Plaid Cymru spokesperson in respect of my statement that we will not be following the actions of the Government in England in as far as giving responsibility for fire and rescue to the police and crime commissioners is concerned? I think he's right to draw attention to the impact of financial pressures on fire and rescue authorities and there's no question that they've had to look at the way in which they deliver services within the community. It is the case that we have had to reduce our community safety budgets, but, you know, we did that in a context where we've seen very great success, as he is aware, by the fire and rescue authorities in reducing the number of outbreaks and I think we need to commend them on that. I think that most—well, all—of our fire stations and fire rescue authorities are engaged in educational activities. I would expect to see those continue. Although there have been financial reductions, I don't think that we are going to see them withdrawing from that work, let me say.

In terms of taking responsibility for other hazards, I've set out some of those in my statement. For example, there are examples already—they're involved in, obviously, first-responder schemes, well-established co-responding schemes in Mid and west Wales fire authority, and new pilots in north and south Wales, and they are looking to expand their prevention role. I mentioned that we have given invest-to-save funding of over £0.25 million for the pilot—again, in mid and west Wales—with the Welsh Ambulance NHS Services Trust, Hywel Dda Local Health Board and Dyfed-Powys Police in respect of reduction of domestic hazards. So, I think those activities are going on.

There are other areas in which new, innovative approaches are being taken up. For example, I visited Mid and west Wales fire authority recently to see them demonstrating their unarmed aerial vehicle, which will be used both in terms of fire detection and fire prevention, and I'm very pleased to say it was piloted by the son of the Assembly Member for Neath, and it was very good to meet him on that occasion as he was demonstrating it in action.

A gaf i ddechrau drwy groesawu sylwadau llefarydd Plaid Cymru ynglŷn â fy natganiad na fyddwn yn dilyn camau'r Llywodraeth yn Lloegr cyn belled ag y mae rhoi cyfrifoldeb am dân ac achub i'r comisiynwyr heddlu a throseddau dan sylw? Rwy'n credu ei fod yn iawn i dynnu sylw at effaith pwysau ariannol ar awdurdodau tân ac achub a does dim cwestiwn eu bod wedi gorfod edrych ar y ffordd y maent yn darparu gwasanaethau o fewn y gymuned. Mae'n wir ein bod wedi gorfod lleihau ein cyllidebau diogelwch cymunedol, ond, wyddoch chi, gwnaethom hynny mewn cyd-destun lle'r ydym wedi gweld llwyddiant mawr iawn, fel y mae'n gwybod, gan yr awdurdodau tân ac achub o ran lleihau nifer yr achosion ac rwy'n credu bod angen inni eu canmol am hynny. Credaf fod y rhan fwyaf—wel, pob un—o'n gorsafodd tân a'n hawdurdodau tân ac achub yn gwneud gweithgareddau addysgol. Byddwn yn disgwyl gweld y rheini'n parhau. Er y bu gostyngiadau ariannol, nid wyf yn meddwl y byddwn yn eu gweld yn tynnu'n ôl o'r gwaith hwnnw, gadewch imi ddweud.

O ran cymryd cyfrifoldeb am beryglon eraill, rwyf wedi nodi rhai o'r rheini yn fy natganiad. Er enghraifft, ceir enghreifftiau eisoes—maent yn ymwneud, yn amlwg, â chynlluniau ymatebwyr cyntaf, cynlluniau cyd-ymateb sefydledig yn awdurdod tân Canolbarth a Gorllewin Cymru, a chynlluniau arbrofol newydd yn y gogledd a'r de, ac maent yn chwilio am ffyrdd o ehangu eu swyddogaeth ataliol. Soniais am y ffaith ein bod wedi rhoi dros £0.25 miliwn o arian buddsoddi i arbed ar gyfer y cynllun arbrofol—unwaith eto, yn y canolbarth a'r gorllewin—gydag Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwllans Cymru, Bwrdd Iechyd Lleol Hywel Dda a Heddlu Dyfed-Powys er mwyn lleihau peryglon yn y cartref. Felly, rwy'n meddwl bod y gweithgareddau hynny'n mynd rhagddynt.

Mae dulliau newydd, arloesol yn cael eu defnyddio mewn ardaloedd eraill. Er enghraifft, ymwelais ag awdurdod tân Canolbarth a Gorllewin Cymru yn ddiweddar i'w gweld yn arddangos eu cerbyd awyr anarfog, a gaiff ei ddefnyddio i ganfod tân ac i atal tân, ac rwy'n falch iawn o ddweud mai mab Aelod Cynulliad Castell-nedd oedd peilot y cerbyd, ac roedd yn braf iawn cael cyfarfod ag ef ar yr achlysur hwnnw wrth iddo ei arddangos ar waith.

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

Finally, the Plaid Cymru spokesperson referred to the Williams commission and the whole question of accountability and governance. I don't have any intention of bringing forward proposals in the immediate future; as I say, I think this is likely to be a matter for the next Assembly. But I do think that we need to start to look at the structure of accountability—not necessarily the structure of the fire and rescue services themselves, but the structure of accountability—in the context of a different approach to local government in the future.

Yn olaf, cyfeiriodd llefarydd Plaid Cymru at gomisiwn Williams a holl fater atebolrwydd a llywodraethu. Nid oes gennyf unrhyw fwiad i gyflwyno cynigion yn y dyfodol agos; fel y dywedais, rwy'n meddwl ei bod yn debygol mai mater i'r Cynulliad nesaf fydd hyn. Ond rwy'n meddwl bod angen inni ddechrau edrych ar strwythur atebolrwydd—nid o reidrwydd strwythur y gwasanaethau tân ac achub eu hunain, ond strwythur atebolrwydd—yng nghyd-destun ymagwedd wahanol at lywodraeth leol yn y dyfodol.

16:06

## Joyce Watson [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I welcome your statement too, Minister, that you won't be giving the running of the fire service over to the police and crime commissioners. But, anyway, moving on, with fire, as with health, prevention, as we've all heard today, is certainly better than cure. It costs less too, and the framework clearly sets out the severe pressures on public finances, and we've heard some more about that today. And last week's spending review doesn't offer, actually, any relief as far as I can see.

The framework also sets out the potential to expand the role of the fire authorities in regard to community safety, and one area where prevention and community safety do coalesce is domestic abuse. The framework highlights the progress the Welsh Government has made in taking forward the national training framework for violence against women, domestic abuse and sexual violence. Every fire and rescue authority now has a workplace policy, and that is indeed very welcome.

You are keenly aware, I know, Minister, of the good work that the South Wales Fire and Rescue Service is doing, and the service was last year awarded white-ribbon accreditation, and it was the first fire and rescue service in the UK to achieve that level of status. It has also recognised the increasingly apparent link between arson attacks and domestic abuse. We often, sadly, see the tragic cases in the news. But I have to admit to being shocked, when speaking with chief fire officer, Hugh Jakeway, at the white-ribbon event here last week, by the sheer scale of the problem. South Wales alone receives 60 calls every single month. That is, indeed, a rather scary figure.

I want to pay tribute here to the South Wales Fire and Rescue Service in terms of moving on from having that accreditation last year to looking at monitoring the calls that they receive, and what they can do as a consequence of that monitoring and a consequence of negating any catastrophe that could happen. And, to that end, the service's fire crime unit does work closely with partnership agencies to follow up every single case to make sure that potential victims don't become victims, and that people feel safe in their own homes. Minister, I want to ask you if that is something that you could discuss with all fire authorities in setting out your priorities for this year and the years to come.

Rwyf finnau'n croesawu eich datganiad hefyd, Weinidog, na fyddwch yn rhoi'r gwaith o gynnal y gwasanaeth tân i gomisiynwyr yr heddlu a throseddau. Ond, beth bynnag, i symud ymlaen, gyda tân, fel gydag iechyd, mae atal, fel yr ydym i gyd wedi'i glywed heddiw, yn sicr yn well na gwella. Mae'n costio llai hefyd, ac mae'r fframwaith yn nodi'n glir y pwysau difrifol ar gyllid cyhoeddus, ac rydym wedi clywed mwy am hynny heddiw. Ac nid yw adolygiad o wariant yr wythnos diwethaf yn cynnig, mewn gwirionedd, dim rhyddhad cyn belled ag y gallaf fi ei weld.

Mae'r fframwaith hefyd yn nodi'r potensial i ehangu swyddogaeth yr awdurdodau tân o ran diogelwch cymunedol, ac un maes lle mae atal a diogelwch cymunedol yn cyfuno yw cam-drin domestig. Mae'r fframwaith yn tynnu sylw at y cynnydd y mae Llywodraeth Cymru wedi'i wneud o ran datblygu'r fframwaith hyfforddiant cenedlaethol ar gyfer trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol. Erbyn hyn mae gan bob awdurdod tân ac achub bolisi yn y gweithle, ac mae croeso mawr iawn i hynny.

Rydych yn ymwybodol iawn, rwy'n gwybod, Weinidog, o'r gwaith da y mae Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru yn ei wneud. Y llynedd, cafodd y gwasanaeth achrediad rhuban gwyn; hwn oedd y gwasanaeth tân ac achub cyntaf yn y DU i gyrraedd y statws hwnnw. Maent hefyd wedi cydnabod a thrais yn y cartref. Rydym yn aml, yn anffodus, yn gweld yr achosion trasig yn y newyddion. Ond rhaid imi gyfaddef fy mod wedi cael sioc, wrth siarad â'r prif swyddog tân, Hugh Jakeway, yn y digwyddiad rhuban gwyn yma yr wythnos diwethaf, o ddeall maint y broblem. Mae'r de yn unig yn cael 60 o alwadau bob mis. Mae hwnnw, yn wir, yn ffigur eithaf brawychus.

Hoffwn dalu teyrnged yn y fan yma i Wasanaeth Tân ac Achub De Cymru am symud ymlaen o gael yr achrediad hwnnw y llynedd i edrych ar fonitro'r galwadau y maent yn eu cael, a'r hyn y gallant ei wneud o ganlyniad i'r monitro hwnnw ac o ganlyniad i negyddu unrhyw drychineb a allai ddigwydd. Ac, i'r perwyl hwnnw, mae uned troseddau tân y gwasanaeth yn cydweithio'n agos ag asiantaethau partneriaeth i ddilyn pob achos unigol i wneud yn siŵr nad yw dioddefwyr posibl yn dod yn ddioddefwyr, a bod pobl yn teimlo'n ddiogel yn eu cartrefi eu hunain. Weinidog, hoffwn ofyn ichi a yw hynny'n rhywbeth y gallech ei drafod gyda phob awdurdod tân wrth ichi nodi eich blaenoriaethau ar gyfer y flwyddyn hon a'r blynyddoedd i ddod.

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

**Leighton Andrews** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Can I thank my colleague the Member for Mid and West Wales for her comments in respect of the preventative work of the fire and rescue authorities? She specifically referred to the engagement of fire and rescue authorities in respect of domestic abuse, and, certainly, I was there last year when the South Wales Fire and Rescue Service got its white-ribbon accreditation, and she is right to pay tribute to them for being the first fire and rescue authority in the United Kingdom to achieve that status. She's also right to draw attention to the fact that arson attacks are very often one of the ways in which domestic abuse and violence against women is carried out. Can I commend her on the work she has done in promoting the white-ribbon campaign, not least last week in the series of events in which she was involved, including the event within the Senedd and the vigil on the Senedd steps?

She's right that the fire and rescue authority in south Wales has pioneered work in this area, that it does monitor calls, that it follows through through its fire crimes unit, and the work that it does is very much in keeping with the spirit and principles of our own Violence against Women Domestic Abuse and Sexual Violence (Wales) Act 2015. I will take on board what she has said and look to explore with the chief fire officers what is being done in other areas, and see whether there are lessons from south Wales that can be rolled out elsewhere.

A gaf i ddiolch i fy nghydweithiwr, Aelod Canolbarth a Gorllewin Cymru, am ei sylwadau ynglŷn â gwaith ataliol yr awdurdodau tân ac achub? Cyfeiriodd yn benodol at gyfraniad awdurdodau tân ac achub at waith cam-drin domestig, ac, yn sicr, roeddwn yno y llynedd pan gafodd Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru ei achrediad rhuban gwyn, ac mae hi'n iawn i dalu teyrnged iddo am fod yr awdurdod tân ac achub cyntaf yn y Deyrnas Unedig i gyflawni'r statws hwnnw. Mae hi hefyd yn iawn i dynnu sylw at y ffaith bod llosgi bwriadol yn aml iawn yn un ffordd o gyflawni cam-drin domestig a thrais yn erbyn menywod. A gaf i ei chanmol am y gwaith y mae wedi'i wneud i hyrwyddo'r ymgyrch rhuban gwyn, yn enwedig yr wythnos diwethaf yn y gyfres o ddigwyddiadau y bu hi'n ymwneud â hwy, gan gynnwys y digwyddiad yn y Senedd a'r wylnos ar risiau'r Senedd?

Mae hi'n iawn bod yr awdurdod tân ac achub yn y de wedi arloesi gwaith yn y maes hwn, ei fod yn monitro galwadau, ei fod yn dilyn achosion drwy ei uned troseddau tân, a bod y gwaith y mae'n ei wneud yn cyd-fynd yn bendant ag ysbryd ac egwyddorion ein Deddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015. Byddaf yn ystyried yr hyn y mae hi wedi'i ddweud ac yn ceisio archwilio gyda'r prif swyddogion tân yr hyn sy'n cael ei wneud mewn ardaloedd eraill, a gweld a oes gwersi o'r de y gellir eu cyflwyno mewn mannau eraill.

**Peter Black** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Thank you, Deputy Presiding Officer. Can I start by putting on record my appreciation, and that of the Welsh Liberal Democrats, for the firefighters and their support staff and the work they do in protecting our lives and saving lives both through fighting fires, rescuing people from accidents, and a whole range of other work, particularly the preventative work that they do? Can I also welcome, Minister, the commitment in the national framework to taking forward sprinklers and carbon monoxide detectors as part of that prevention work? You say in the national framework that you will legislate for the installation of smoke alarms in the private rented sector and social housing, and, indeed, I think the Bills that we've recently discussed make that possible. However, you don't refer to whether or not you'll be looking to make sure those alarms are hard-wired, and you don't refer, in that commitment for legislation, to carbon monoxide detectors, despite singling out carbon monoxide deaths as a particular issue. Can I ask you whether that is an oversight, or whether you will also—the Welsh Government; obviously, it's not your personal responsibility—whether the Welsh Government will also be legislating in terms of carbon monoxide detectors in the private rented sector and social housing as well?

Diolch, Ddirprwy Lywydd. A gaf i ddechrau drwy gofnodi fy ngwerthfawrogiad, a gwerthfawrogiad Democratiaid Rhyddfrydol Cymru, i'r diffoddwyr tân a'u staff cymorth a'r gwaith y maent yn ei wneud i ddiogelu ein bywydau ac achub bywydau drwy ymladd tanau, achub pobl o ddamweiniau, ac ystod gyfan o waith arall, yn enwedig y gwaith ataliol y maent yn ei wneud? A gaf i hefyd groesawu, Weinidog, yr ymrwymiad yn y fframwaith cenedlaethol i fwrw ymlaen â systemau chwistrellu a synwryddion carbon monocsid yn rhan o'r gwaith atal? Rydych yn dweud yn y fframwaith cenedlaethol y byddwch yn deddfu i osod larymau mwg yn y sector rhentu preifat ac mewn tai cymdeithasol, ac, yn wir, rwy'n meddwl bod y Biliau yr ydym wedi'u trafod yn ddiweddar yn gwneud hynny'n bosibl. Fodd bynnag, nid ydych yn cyfeirio at y posibilrwydd o wneud yn siŵr bod y larymau hynny'n rhai gwifredig, ac nid ydych yn cyfeirio, yn yr ymrwymiad hwnnw i ddeddfu, at synwryddion carbon monocsid, er eich bod wedi tynnu sylw'n benodol at farwolaethau carbon monocsid fel problem. A gaf i ofyn ichi ai amryfusedd yw hynny, ynteu a fyddwch hefyd—Llywodraeth Cymru; yn amlwg, nid eich cyfrifoldeb personol chi yw hyn—a fydd Llywodraeth Cymru hefyd yn deddfu o ran synwryddion carbon monocsid yn y sector rhentu preifat ac mewn tai cymdeithasol yn ogystal?

One of the valuable contributions that the fire and rescue services make is how closely they work with local communities, both in urban and rural areas. How would this framework seek to build on those links and enhance the relationships between local communities and the fire and rescue services that protect them? Also, a number of respondents to the draft revised framework consultation this summer questioned references to the proposed shift in emphasis from response to prevention, saying that the wording could imply less of a focus on responding to emergencies. I understand very much that the prevention work has been absolutely invaluable and very important in terms of helping prevent casualties. But these respondents highlighted specifically that a reduction in fires does not necessarily equate to a reduction in risk. To what extent have those concerns been taken into account in the published framework?

Also, you say in the framework that you will support development of a single mobile communications system for the emergency services. There are, of course, three fire authorities, four police authorities, one ambulance trust, and I think we also include the coastguard in emergency services as well. In what way would the Welsh Government be taking forward that single mobile communications system with all of those bodies? Will you be working with the UK Government on this, because, obviously, it's not all within the Welsh Government's competence? Will there be funding available to deliver this single communications system, and does this also imply that you'll be looking to set up joint contact centres for all the emergency services? There is, of course, one in Bridgend in the police station there with the fire authority. Will you be looking to replicate that and include the ambulance service and other emergency services in that? This does imply that that is what you'll be looking to do, so I'd be grateful for some more clarification on that, Minister.

Finally, you'll be disappointed if I don't raise this issue, I'm sure. The current pension—as you know; I've raised it before—penalises serving firefighters who have previously served in the armed forces. There's a better system in Scotland, as you know, where they have some protection, though, obviously, England is way behind us and Scotland in doing that. Could I ask you whether you'll be looking again at the regulations passed in the Assembly in March to consider further amendments and whether you can take account of the representations you've received from former service personnel who now serve in the fire service? Thank you.

Un o'r cyfraniadau gwerthfawr y mae'r gwasanaethau tân ac achub yn ei wneud yw pa mor agos y maent yn gweithio gyda chymunedau lleol, mewn ardaloedd trefol a gwledig. Sut y byddai'r fframwaith hwn yn ceisio adeiladu ar y cysylltiadau hynny a gwella'r berthynas rhwng cymunedau lleol a'r gwasanaethau tân ac achub sy'n eu hamddiffyn? Hefyd, roedd nifer o'r rhai a ymatebodd i ymgynghoriad y fframwaith diwygiedig drafft yn ystod yr haf yn cwestiynu cyfeiriadau at y newid pwyslais arfaethedig o ymateb i atal, gan ddweud y gallai'r geiriad awgrymu llai o bwyslais ar ymateb i argyfyngau. Rwy'n deall yn iawn bod y gwaith atal wedi bod yn gwbl amhrisiadwy ac yn bwysig iawn o ran helpu i atal anafiadau. Ond roedd yr ymatebwyr hyn yn tynnu sylw'n benodol at y ffaith nad yw lleihau nifer y tanau o reidrwydd yn golygu lleihau'r risg. I ba raddau y mae'r pryderon hynny wedi eu hystyried yn y fframwaith a gyhoeddwyd?

Hefyd, rydych yn dweud yn y fframwaith y byddwch yn cefnogi datblygu un system gyfathrebu symudol ar gyfer y gwasanaethau brys. Mae gennym, wrth gwrs, dri awdurdod tân, pedwar awdurdod heddlu, un ymddiriedolaeth ambiwlans, ac rwy'n credu ein bod hefyd yn cynnwys gwylwyr y glannau yn y gwasanaethau brys yn ogystal. Ym mha ffordd y byddai Llywodraeth Cymru yn datblygu'r system gyfathrebu symudol unigol honno gyda phob un o'r cyrff hynny? A fyddwch chi'n gweithio gyda Llywodraeth y DU ar hyn, oherwydd, yn amlwg, nid yw i gyd o fewn cymhwysedd Llywodraeth Cymru? A fydd cyllid ar gael i ddarparu'r system gyfathrebu unigol hon, ac a yw hyn yn awgrymu hefyd y byddwch yn ceisio sefydlu canolfannau cyswllt ar y cyd ar gyfer yr holl wasanaethau brys? Mae, wrth gwrs, un ym Mhen-y-bont ar Ogwr yng ngorsaf yr heddlu yno gyda'r awdurdod tân. A ydych chi'n bwriadu dyblygu hynny a chynnwys y gwasanaeth ambiwlans a gwasanaethau brys eraill yn hynny? Mae hyn yn awgrymu mai dyna y byddwch yn ceisio ei wneud, felly byddwn yn ddiolchgar o gael ychydig mwy o eglurhad ar hynny, Weinidog.

Yn olaf, byddwch yn siomedig os na chodaf y mater hwn, rwy'n siŵr. Mae'r pensiwn presennol—fel yr ydych yn ei wybod; rwyf wedi sôn amdano o'r blaen—yn cosbi diffoddwyr tân sy'n gwasanaethu ac sydd wedi gwasanaethu'n flaenorol yn y lluoedd arfog. Mae gan yr Alban system well, fel y gwyddoch, lle maent yn cael rhywfaint o amddiffyniad, er, yn amlwg, mae Lloegr ymhell y tu ôl i ni a'r Alban yn hynny o beth. A gaf i ofyn ichi a fyddwch yn edrych eto ar y rheoliadau a baswyd yn y Cynulliad ym mis Mawrth i ystyried gwelliannau pellach ac a allwch chi ystyried y sylwadau a gawsoch gan gyn-aelodau'r lluoedd arfog sydd bellach yn gwasanaethu yn y gwasanaeth tân? Diolch.

16:14

## Leighton Andrews [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Thank you. Can I, Dirprwy Lywydd, thank the Liberal Democrats' spokesperson again for his support for what we're doing in the national framework? He drew attention to a number of issues that lie within the portfolio of my colleague the Minister for Communities and Tackling Poverty, in respect of carbon monoxide detectors and so on, and I will commit today to having further conversations with her about some of the points that he has raised.

Diolch. A gaf fi, Ddirprwy Lywydd, ddiolch unwaith eto i lefarydd y Democratiaid Rhyddfrydol am ei gefnogaeth i'r hyn yr ydym yn ei wneud yn y fframwaith cenedlaethol? Tynnodd sylw at nifer o faterion sydd o fewn portfolio fy nghydweithiwr y Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi, o ran synwryddion carbon monocsid ac yn y blaen, ac rwyf yn ymrwymo heddiw i gael sgysiau pellach gyda hi am rai o'r pwyntiau y mae ef wedi'u codi.

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

He's right to draw attention to the support that fire and rescue authorities get from local communities, whether they're operating in urban or rural areas. I was with my colleague the Member for Cardiff North just a week or so back, just shortly after they had held a highly successful bonfire night activity for the local community. I think there are many ways in which local fire stations are engaged with local communities, with local schools and with others to take forward the agenda around community safety. He referred to concerns that the framework might signal a move from emergency response to prevention. I don't think that is intended at all, and the framework, of course, talks about the importance of an appropriate balance between—'an effective balance' is the phrase, in fact—response and prevention. I think we have to acknowledge the success, in terms of the long-term decline in the incidence of fire. I think what we have done within the framework is to look at emergency response and prevention side by side as responsibilities for the fire service. But we do talk again in the framework, of course, about the need continually and sustainably to reduce risk, and I think that takes on board the point that he mentioned.

In respect of where we are with the single mobile communication system, there has been a series of exchanges and developments over time on that. I will write to him with the latest position and make that clear to him. Clearly, we want to encourage more joint contact centres. He's right to refer to what's happened in Bridgend. There have been other discussions in north Wales and elsewhere. Clearly, we think that there are benefits in taking that agenda forward, and that is a matter to explore further with colleagues in the other emergency services. It's a subject on which I have had conversations with my colleague the Minister for Health and Social Services.

He'll be well aware, I think, that the framework does not in any way impact on the firefighters' pension scheme. He has raised a specific issue in respect of some firefighters who have accumulated service within the armed forces. I think there are issues further that we may wish to explore, but, at the present time, I remain with the policy that we adopted this year. He is right to draw attention to the fact that the pension scheme we adopted in Wales is significantly more generous than that in England, which I think has been recognised by the Fire Brigades Union.

Mae'n llygad ei le i dynnu sylw at y cymorth y mae awdurdodau tân ac achub yn ei gael gan gymunedau lleol, pa un a ydynt yn gweithredu mewn ardaloedd trefol ynteu gwledig. Roeddwn gyda fy nghydweithiwr, Aelod Gogledd Caerdydd, dim ond wythnos neu ddwy yn ôl, yn fuan ar ôl iddynt gynnal noson tân gwyllt hynod lwyddiannus i'r gymuned leol. Rwy'n meddwl bod gorsafodded tân lleol yn ymgysylltu â chymunedau lleol, ag ysgolion lleol ac ag eraill mewn llawer o ffyrdd i hybu agenda diogelwch cymunedol. Cyfeiriodd at bryderon y gallai'r fframwaith fod yn arwydd o symud o ymateb brys i atal. Nid wyf yn meddwl mai dyna'r bwriad o gwbl, ac mae'r fframwaith, wrth gwrs, yn sôn am bwysigrwydd cydbwysedd priodol—'cydbwysedd effeithiol' yw'r ymadrodd, a dweud y gwir—rhwyng ymateb ac atal. Rwy'n credu bod yn rhaid inni gydnabod llwyddiant, o ran y gostyngiad hirdymor yn nifer yr achosion o dân. Rwy'n meddwl mai'r hyn yr ydym wedi'i wneud yn y fframwaith yw edrych ar ymateb brys ac atal ochr yn ochr fel cyfrifoldebau'r gwasanaeth tân. Ond rydym yn sôn eto yn y fframwaith, wrth gwrs, am yr angen i leihau risg yn barhaus ac yn gynaliadwy, ac rwy'n meddwl bod hynny'n rhoi sylw i'r pwynt y mae ef wedi'i nodi.

O ran ein sefyllfa gyda'r system gyfathrebu symudol unigol, rydym wedi cael cyfres o sgysiaau a datblygiadau dros gyfnod o amser ar hynny. Mi fyddaf yn ysgrifennu ato gyda'r sefyllfa ddiweddaraf i egluro hynny iddo. Yn amlwg, hoffem annog mwy o ganolfannau cyswllt ar y cyd. Mae'n iawn i gyfeirio at yr hyn sydd wedi digwydd ym Mhen-y-bont ar Ogwr. Bu trafodaethau eraill yn y gogledd ac mewn mannau eraill. Yn amlwg, rydym yn credu bod manteision i fwrw ymlaen â'r agenda honno, ac mae hynny'n fater i'w ymchwilio ymhellach gyda chydweithwyr yn y gwasanaethau brys eraill. Mae'n bwnc yr wyf wedi cael sgysiaau amdano â'm cydweithiwr, y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol.

Bydd yn ymwybodol iawn, rwy'n credu, nad yw'r fframwaith yn effeithio ar gynllun pensiwn diffoddwyr tân mewn unrhyw ffordd. Mae wedi codi mater penodol ynglŷn â rhai diffoddwyr tân sydd wedi gwasanaethu o fewn y lluoedd arfog. Rwy'n meddwl bod materion eraill y gallem fod yn dymuno eu harchwilio, ond, ar hyn o bryd, rwy'n dal i ddilyn y polisi y gwnaethom ei fabwysiadu eleni. Mae e'n iawn i dynnu sylw at y ffaith bod y cynllun pensiwn a fabwysiadwyd gennym yng Nghymru yn llawer mwy hael na'r un yn Lloegr; rwy'n meddwl bod Undeb y Brigadau Tân wedi cydnabod hynny.

16:17 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Diolch yn fawr, Weinidog.

Thank you, Minister.

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

16:18 **6. Datganiad: Y Rhaglen i Ddileu TB**

**Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Eitem 6 yw'r datganiad gan y Dirprwy Weinidog Ffermio a Bywd ar y rhaglen i ddileu TB. Galwaf ar Rebecca Evans.

**6. Statement: The TB Eradication Programme**

Item 6 is a statement by the Deputy Minister for Farming and Food on the TB eradication programme. I call on Rebecca Evans.

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

*Y Dirprwy Weinidog Ffermio a Bwyd / The Deputy Minister for Farming and Food*

Thank you. 2015 is the sixth year of our annual TB testing programme, and this has provided us with six years' worth of testing data and associated learning. In response, we have been able to make decisions about how we effectively share the emerging data, as well as allowing us to plan specific local strategies and, importantly, to empower individual farmers and vets to become more involved in decision making at a local level.

In the interest of making information more relevant and understandable, we have developed a TB dashboard to present data, including open and new incidents; closed incidents; and reoccurrences. A headline dashboard indicator in the current release is a gauge that shows the percentage of herds that are TB-free currently stands at 94.4 per cent or 11,390 out of a total of 12,060 herds.

Our teams in the intensive action area have finished the fourth year of vaccination. They are now considering the impact of the project and reviewing the measures adopted in the area. I have been made aware that the supply of the BadgerBCG vaccine used to vaccinate badgers in Wales has been interrupted. Unfortunately, due to problems with the manufacture of the vaccine, it is unlikely that the suppliers, who are the only company in the world with the marketing authorisation to produce BadgerBCG, will be able to honour our order of BadgerBCG next year. It is not known when the situation will be resolved. If we were to continue to vaccinate badgers in Wales against bovine TB, in the absence of the custom-made BadgerBCG vaccine, we would have to use the human BCG vaccine, subject to some additional licensing requirements. The human BCG vaccine contains the same material as the BadgerBCG vaccine, but each vial of a single badger dose equates to about 10 adult human or 20 infant human doses. So, for obvious reasons, the global shortage of BCG means that human use must be the priority. I do not consider it appropriate to source human BCG vaccine for use as part of badger vaccination projects while the supply for use in humans is inadequate.

I recognise the importance of prioritising public health and endorse the view of Public Health Wales and the World Health Organization that the vaccination of humans must take priority. To put this in perspective, UNICEF reports indicate that there is a global shortage of around 70 million human doses worldwide in 2015, and predict constraints continuing next year. As such, I have decided to suspend the sourcing of BCG vaccine for use in badgers in Wales, until the supply situation for human vaccination is resolved.

The World Health Organization has called for vaccine manufacturers to rapidly increase the supply of BCG vaccine to the global market. Health officials have confirmed that there is currently no shortage of BCG vaccine in the UK for the NHS, and that health practitioners in Wales can order the supplies they need to protect at-risk individuals.

Diolch. 2015 yw chweched blwyddyn ein rhaglen profion TB blynyddol, ac mae hyn wedi rhoi gwerth chwe blynedd inni o brofi data a dysgu cysylltiedig. Mewn ymateb, rydym wedi gallu gwneud penderfyniadau am sut y gallwn rannu'r data newydd yn effeithiol, ac mae hyn hefyd wedi caniatáu inni gynllunio strategaethau lleol penodol ac, yn bwysig, rhoi grym i ffermwyr a milfeddygon unigol i gymryd mwy o ran mewn gwneud penderfyniadau ar lefel leol.

Er mwyn gwneud gwybodaeth yn fwy perthnasol a dealladwy, rydym wedi datblygu dangosfwrdd TB i gyflwyno data, gan gynnwys digwyddiadau agored a newydd; digwyddiadau caeedig; ac ailddigwyddiadau. Un o brif ddangosyddion dangosfwrdd y datganiad presennol yw mesurydd sy'n dangos bod canran y buchesi heb ddim TB ar hyn o bryd yn 94.4 y cant neu'n 11,390 allan o gyfanswm o 12,060 o fuchesi.

Mae ein timau yn yr ardal triniaeth ddwys wedi gorffen y bedwaredd flwyddyn o frechu. Maent erbyn hyn yn ystyried effaith y prosiect ac yn adolygu'r mesurau a fabwysiadwyd yn yr ardal. Rwyf wedi cael gwybod nad yw hi'n bosibl cael cyflenwad o'r brechlyn BadgerBCG a ddefnyddiwyd i frechu moch daear yng Nghymru ar hyn o bryd. Yn anffodus, oherwydd problemau â gweithgynhyrchu'r brechlyn, mae'n annhebygol y bydd y cyflenwyr, sef yr unig gwmni yn y byd â'r awdurdod marchnata i gynhyrchu BadgerBCG, yn gallu anrhydeddu ein harcheb BadgerBCG y flwyddyn nesaf. Nid ydym yn gwybod pryd y caiff y sefyllfa ei datrys. Er mwyn parhau i frechu moch daear yng Nghymru yn erbyn TB mewn gwartheg, yn absenoldeb y brechlyn BadgerBCG a wnaed yn arbennig, byddai'n rhaid inni ddefnyddio'r brechlyn BCG dynol, yn amodol ar rai gofynion trwyddedu ychwanegol. Mae'r brechlyn BCG dynol yn cynnwys yr un defnydd â'r brechlyn BadgerBCG, ond mae pob ffol o un dos i fochyn daear yn cyfateb i tua 10 dos i oedolion dynol neu 20 dos i fabanod dynol. Felly, am resymau amlwg, mae prinder BCG yn fyd-eang yn golygu bod rhaid rhoi blaenoriaeth i fodau dynol. Nid wyf yn ystyried ei bod yn briodol defnyddio brechlyn BCG dynol yn rhan o brosiectau brechu moch daear tra bo'r cyflenwad i'w ddefnyddio mewn bodau dynol yn annigonol.

Rwy'n cydnabod pwysigrwydd blaenoriaethu iechyd y cyhoedd ac yn cymeradwyo barn Iechyd Cyhoeddus Cymru a Sefydliad Iechyd y Byd bod yn rhaid rhoi blaenoriaeth i frechu bodau dynol. I roi hyn mewn persbectif, mae adroddiadau UNICEF yn dangos prinder byd-eang o tua 70 miliwn o ddosau dynol ledled y byd yn 2015, ac yn rhagfynegi y bydd cyfyngiadau'n parhau y flwyddyn nesaf. Felly, rwyf wedi penderfynu atal cyrchu'r brechlyn BCG i'w ddefnyddio mewn moch daear yng Nghymru, tan y bydd y sefyllfa gyflenwi ar gyfer brechu bodau dynol wedi'i datrys.

Mae Sefydliad Iechyd y Byd wedi galw ar gynhyrchwyr brechlynnau i gynyddu cyflenwad y brechlyn BCG i'r farchnad fyd-eang yn gyflym. Mae swyddogion iechyd wedi cadarnhau nad oes prinder y brechlyn BCG yn y DU ar gyfer y GIG ar hyn o bryd, ac y gall ymarferwyr iechyd yng Nghymru archebu'r cyflenwadau sydd eu hangen arnynt i amddiffyn unigolion sydd mewn perygl.

The decision to suspend sourcing BCG vaccine has implications for the fifth year of vaccinating badgers in the intensive action area, as well as the other vaccination projects under way in Wales. It's important that I share this information with Members first, here in the Chamber, but this afternoon, my officials will brief stakeholders, including at the winter fair.

I have commissioned modelling work to assess the potential impacts of suspending badger vaccination and will investigate various scenarios. Following consideration of the modelling work, I will explore options for the next steps. Existing work to evaluate the impact of interventions, including vaccination, undertaken in the IAA will continue and I will provide further updates in due course.

We have just been notified that the European Commission has technically approved our UK TB eradication programme for 2016. This is the seventh year running in which we have received endorsement of our programme and we welcome the Commission's support. One of the key requirements has been to address the potential risk of cattle grazing on common land. To address this we are removing the pre-movement testing exemption to and from common land from 31 December. A letter has been sent to all cattle keepers confirming the change.

We have been concentrating veterinary efforts on herds that have been under a TB breakdown for 18 months or longer. Over the last year, we have reduced the number of these cases from 90 to 45. Our national badger-found-dead survey is providing information on the level of infection in badgers and will assist in the formulation of policy at both local and national levels. Encouraging good animal husbandry is crucial. We have consulted on proposals to change the TB Order to reduce compensation for those who do not follow the rules, and to discourage risky practice. The consultation closed on 9 November and responses are currently being considered.

As I said in Plenary last week, eradicating TB will be much more difficult to achieve, unless we can provide the livestock industry and rural community with the information they can use to take precautions against disease spread. To aid this, under the authority of the revised TB Order, I will publish information on cattle herds affected, and the website is scheduled to be available by the end of March.

To help prevent the spread of disease, we have established a grant for livestock markets to upgrade their facilities to allow them to display TB information about the cattle on sale, enabling a more informed purchasing decision. That grant is available until 31 December. In April this year, we invested in the first ever gamma testing facility in Carmarthen. It has the capacity to test in excess of 1,000 samples per week; improving our understanding of individual breakdowns and removing infected animals faster.

Mae'r penderfyniad i atal cyrchu'r brechlyn BCG yn creu goblygiadau i bumed flwyddyn brechu moch daear yn yr ardal triniaeth ddwys, yn ogystal â'r prosiectau brechu eraill sydd ar y gweill yng Nghymru. Mae'n bwysig fy mod yn rhannu'r wybodaeth hon gyda'r Aelodau yn gyntaf, yma yn y Siambr, ond y prynhawn yma, bydd fy swyddogion yn briffio rhanddeiliaid, gan gynnwys yn y ffair aeaf.

Rwyf wedi comisiynu gwaith modelu i asesu effeithiau posibl atal brechu moch daear a byddaf yn ymchwilio i amrywiol sefyllfaoedd. Ar ôl ystyried y gwaith modelu, byddaf yn edrych ar ddewisiadau ar gyfer y camau nesaf. Bydd y gwaith presennol i werthuso effaith ymyriadau, gan gynnwys brechu, a gynhelir yn yr Ardal Triniaeth Ddwys yn parhau, a byddaf yn rhoi diweddariadau pellach maes o law.

Rydym newydd gael gwybod bod y Comisiwn Ewropeaidd wedi rhoi cymeradwyaeth dechnegol i'n rhaglen i ddileu TB yn y DU ar gyfer 2016. Dyma'r seithfed flwyddyn yn olynol i'n rhaglen gael cymeradwyaeth ac rydym yn croesawu cefnogaeth y Comisiwn. Un o'r gofynion allweddol oedd ymdrin â'r risg posibl o wartheg yn pori ar dir comin. I'r perwyl hwn, rydym yn dileu'r eithriad profi cyn symud i ac o dir comin o 31 Rhagfyr ymlaen. Rydym wedi anfon llythyr at bawb sy'n cadw gwartheg i gadarnhau'r newid.

Rydym wedi bod yn canolbwyntio ein hymdrechion milfeddygol ar fuchesi lle mae achos o TB wedi bodoli ers 18 mis neu fwy. Dros y flwyddyn ddiwethaf, rydym wedi lleihau nifer yr achosion hyn o 90 i 45. Mae ein harolwg cenedlaethol dod o hyd i foch daear wedi marw yn rhoi gwybodaeth am lefel yr haint mewn moch daear a bydd yn cynorthwyo i lunio polisi ar lefel leol a chenedlaethol. Mae annog hwsmonaeth anifeiliaid da yn hanfodol. Rydym wedi ymgynghori ar gynigion i newid y Gorchymyn TB i leihau iawndal i bobl nad ydynt yn dilyn y rheolau, ac i atal arferion peryglus. Daeth yr ymgynghoriad i ben ar 9 Tachwedd ac mae'r ymatebion yn cael eu hystyried ar hyn o bryd.

Fel y dywedais yn y Cyfarfod Llawn yr wythnos diwethaf, bydd yn llawer anoddach dileu TB, os na allwn roi'r wybodaeth i'r diwydiant da byw a'r gymuned wledig y gallant ei defnyddio i gymryd rhagofalon yn erbyn lledaenu clefydau. I gynorthwyo hyn, o dan awdurdod y Gorchymyn TB diwygiedig, byddaf yn cyhoeddi gwybodaeth am fuchesi gwartheg yr effeithiwyd arnynt, a dylai'r wefan fod ar gael erbyn diwedd mis Mawrth.

Er mwyn helpu i atal y clefyd rhag lledaenu, rydym wedi sefydlu grant ar gyfer marchnadoedd da byw i uwchraddio eu cyfleusterau i ganiatáu iddynt arddangos gwybodaeth TB am y gwartheg sydd ar werth, gan alluogi penderfyniad prynu mwy gwybodus. Mae'r grant hwnnw ar gael tan 31 Rhagfyr. Ym mis Ebrill eleni, gwnaethom fuddsoddi yn y cyfleuster profi gama cyntaf erioed yng Nghaerfyrddin. Mae ganddo'r gallu i brofi mwy na 1,000 o samplau yr wythnos; bydd hyn yn gwella ein dealltwriaeth o ddadansoddiadau unigol ac yn cael gwared yn gyflymach ar anifeiliaid wedi'u heintio.

Following a procurement exercise to formally contract private veterinarians, all TB testing and some other veterinary work is being undertaken by two local veterinary delivery partners. This supports the close working relationship between the farmer and their vet, which is reflected in the Cymorth TB programme that was launched on 3 November. Through it, we are seeking to enable private vets to increase their involvement in the eradication programme through specialist training and a programme of subsidised farm visits. The Cymorth TB programme was developed to enhance the management of new and existing TB breakdowns, and to support farmers and herd keepers during the period they are under restrictions, and when restrictions are lifted.

Figures show that we are making a real difference to the disease situation in Wales. The overall trend in new incidents and animals slaughtered due to TB control is broadly downwards. Between 2008 and 2014, there was a 29 per cent decrease in new incidents and a 44 per cent decrease in animals slaughtered. TB is a most serious animal health issue, but we continue to build and develop a programme that is robust and flexible, which involves working in partnership towards our goal of a TB-free Wales.

Ar ôl ymarfer caffael i gontractio milfeddygon preifat yn ffurfiol, mae'r holl brofion TB a rhywfaint o waith milfeddygol arall yn cael ei wneud gan ddau bartner cyflenwi milfeddygol lleol. Mae hyn yn cefnogi'r berthynas waith agos rhwng y ffermwr a'r milfeddyg, sy'n cael ei hadlewyrchu yn y rhaglen Cymorth TB a lansiwyd ar 3 Tachwedd. Drwyddi draw, rydym yn ceisio galluogi milfeddygon preifat i gynyddu eu cyfranogiad yn y rhaglen ddileu drwy gynnig hyfforddiant arbenigol a rhaglen o gymhorthdal i ymweld â ffermydd. Datblygwyd y rhaglen Cymorth TB i wella rheolaeth achosion newydd a phresennol o TB, ac i gefnogi ffermwyr a cheidwaid buchasi yn ystod y cyfnod y maent o dan gyfyngiadau, a phan gaiff y cyfyngiadau eu codi.

Mae'r ffigurau'n dangos ein bod yn gwneud gwahaniaeth gwirioneddol i sefyllfa'r clefyd yng Nghymru. Mae'r duedd gyffredinol mewn achosion newydd ac anifeiliaid a laddwyd o ganlyniad i reoli TB yn fras tuag at i lawr. Rhwng 2008 a 2014, bu gostyngiad 29 y cant yn nifer yr achosion newydd a gostyngiad 44 y cant yn nifer yr anifeiliaid a laddwyd. Mae TB yn fater difrifol iawn i iechyd anifeiliaid, ond rydym yn parhau i adeiladu a datblygu rhaglen sy'n gadarn ac yn hyblyg, sy'n golygu gweithio mewn partneriaeth tuag at ein nod o greu Cymru ddi-TB.

16:25

## **Russell George** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I'd, first of all, thank the Minister for her detailed statement this afternoon. TB, of course, continues to have a huge impact on our rural communities and, in particular, Welsh farming. I regularly meet with farming families who have been affected by this cruel disease, and I can't emphasise enough the emotional upset that is attached to this disease across Wales.

I've listened carefully to your comments in regard to the supply of the BadgerBCG vaccine. Vaccination is, of course, a key plank of the Government's eradication policy. So, I would ask for clarity on where this now leaves us. I also note from your statement, Deputy Minister, you point out that this vaccination is only available from one supplier and you've gone on to say that

'it is not known when the situation will be resolved'.

So, I would ask: from the discussions that you've had on this, what is your understanding of why this has occurred in the first place? Do you feel that the supply will be permanently interrupted? Do you feel that this vaccination will be available again? Do you have any sense on that? Also, do you feel that the company has potentially stopped producing this vaccine because it's not commercially viable? Any information and discussions that you've had on that—I'd appreciate some more detail in your reply.

Yn gyntaf oll, hoffwn ddiolch i'r Gweinidog am ei datganiad manwl y prynhawn yma. Mae TB, wrth gwrs, yn parhau i gael effaith enfawr ar ein cymunedau gwledig ac, yn enwedig, ar ffermio yng Nghymru. Rwy'n cyfarfod yn rheolaidd â theuluoedd sy'n ffermio sydd wedi teimlo effaith y clefyd creulon hwn, ac ni allaf bwysleisio digon y gofid emosynol sydd ynghlwm wrth y clefyd hwn ledled Cymru.

Rwyf wedi gwranddo'n astud ar eich sylwadau am gyflenwad y brechlyn BadgerBCG. Mae brechu, wrth gwrs, yn rhan allweddol o bolisi dileu'r Llywodraeth. Felly, byddwn yn gofyn am eglurder ynghylch ein sefyllfa nawr o ganlyniad i hyn. Nodaf hefyd oddi wrth eich datganiad, Ddirprwy Weiniidog, eich bod yn nodi mai dim ond gan un cyflenwr y mae'r brechlyn hwn ar gael ac yna aethoch ymlaen i ddweud

'nid ydym yn gwybod pryd y caiff y sefyllfa ei datrys'.

Felly, byddwn yn gofyn: o'r trafodaethau yr ydych wedi'u cael am hyn, beth yw eich dealltwriaeth o ran pam mae hyn wedi digwydd yn y lle cyntaf? A ydych chi'n teimlo y byddwn heb gyflenwad yn barhaol? A ydych chi'n teimlo y bydd y brechiad hwn ar gael eto? A oes gennych chi unrhyw syniad am hynny? Hefyd, a ydych chi'n teimlo bod y cwmni efallai wedi rhoi'r gorau i gynhyrchu'r brechlyn hwn gan nad yw'n fasnachol ddichonadwy? Unrhyw wybodaeth a thrafodaethau yr ydych wedi'u cael am hynny—byddwn yn gwerthfawrogi ychydig mwy o fanylder yn eich ateb.

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

I also, of course, recognise that the control of wildlife species is a sensitive issue and that no single measure is enough to tackle the disease on its own. But, can I say, as you have set out in your statement today—? Can I ask, in light of this information, what discussions you've had with the chief veterinary officer with regard to reconsidering the Government's position on a controlled badger cull? I appreciate fully that there was a Labour Party manifesto commitment in 2011 not supporting such a controlled badger cull, but in light of this information and the changing circumstances, can I ask what consideration you've given to revising the Government's position? The statement did also suggest, perhaps, at one point, that the Government wants to manage the disease, rather than eradicate it, so I'd appreciate your clarity on that.

I have a number of other questions. You've also said that the latest statistics show that there are over 12,000 cattle herds registered in Wales and 670 of those herds are designated not officially TB-free. This, to me, wouldn't seem to be a ringing endorsement of the TB eradication programme, so what are you doing to improve this situation in that regard? Also, I understand around 950 herds are currently under movement restrictions due to TB incidence or overdue TB tests. Will the Deputy Minister be able to make a commitment to expediate the testing of herds to enable farmers to move their herds without restrictions?

I also am continually contacted by farmers who have expressed their concern about the reinterpretation of TB tests that have originally been deemed inconclusive reactors, but reinterpreted as positive reactors. It's clearly distressing to lose any stock from TB; but it's even more distressing to lose animals that are only made positive due to interpretations that are incorrect. Healthy, productive animals are being slaughtered, I would suggest, based on interpretations that are incorrect, and I'd be grateful for your view on how the interpretation of TB testing can be improved.

Last week, Minister, you mentioned in the Chamber that you would consider whether information on other species could also be published alongside the cattle data in the future. I wondered if you have received any representations on that since last week with regard to the TB eradication programme.

Finally, I would say that I welcome the launch of the Cymorth TB veterinary programme. Collaborating with a private vet who will often have a greater knowledge of a farm and its issues is clearly a hugely positive move and will improve confidence and rebuild trust. But I would ask what talks you have had with auctioneers regarding herd health statements being used at the point of sale, and also what sort of finance has been made available for the development of the advice service that you've mentioned in your statement today?

Rwyf innau hefyd, wrth gwrs, yn cydnabod bod rheoli rhywogaethau bywyd gwyllt yn fater sensitif ac nad yw unrhyw un mesur yn ddigon i ymdrin â'r clefyd ar ei ben ei hun. Ond, a gaf i ddweud, fel yr ydych wedi'i nodi yn eich datganiad heddiw—? A gaf i ofyn, yng ngoleuni'r wybodaeth hon, pa drafodaethau yr ydych wedi'u cael gyda'r prif swyddog milfeddygol ynglŷn ag ailystyried safbwynt y Llywodraeth ar ddifa moch daear dan reolaeth? Rwy'n gwerthfawrogi'n llwyr y bu ymrwymiad ym manifesto'r Blaid Lafur yn 2011 i beidio â chefnogi difa moch daear dan reolaeth yn y modd hwnnw, ond yng ngoleuni'r wybodaeth hon a'r amgylchiadau sydd wedi newid, a gaf i ofyn pa ystyriaeth yr ydych wedi'i rhoi i newid safbwynt y Llywodraeth? Roedd y datganiad hefyd yn awgrymu bod y Llywodraeth, efallai, ar un adeg, yn awyddus i reoli'r clefyd, yn hytrach na'i ddileu, felly byddwn yn gwerthfawrogi eich eglurhad ar hynny.

Mae gennyf nifer o gwestiynau eraill. Rydych wedi dweud hefyd bod yr ystadegau diweddaraf yn dangos bod dros 12,000 o fuchesi gwartheg wedi'u cofrestru yng Nghymru a bod 670 o'r buchesi hynny wedi'u dynodi fel rhai nad ydynt yn rhydd o TB yn swyddogol. Nid yw hyn, i mi, yn swnio fel cymeradwyaeth gref i'r rhaglen dileu TB, felly beth ydych chi'n ei wneud i wella'r sefyllfa hon yn hynny o beth? Hefyd, rwyf ar ddeall bod tua 950 o fuchesi ar hyn o bryd o dan gyfyngiadau symud o ganlyniad i achosion o TB neu brofion TB hwyr. A fydd y Dirprwy Weinidog yn gallu gwneud ymrwymiad i brofi buchesi yn gynharach er mwyn galluogi ffermwyr i symud eu buchesi heb gyfyngiadau?

Mae ffermwyr hefyd yn cysylltu'n barhaus â mi i fynegi eu pryder am aildehongli profion TB a gafodd eu pennu'n adweithyddion amhendant yn wreiddiol, ond a gafodd eu haildehongli fel adweithyddion positif. Mae'n amlwg yn peri gofid i golli unrhyw stoc i TB; ond mae hyd yn oed yn fwy pryderus i golli anifeiliaid sydd ond yn cael eu gwneud yn bositif oherwydd dehongliadau sy'n anghywir. Mae anifeiliaid iach, cynhyrchiol yn cael eu lladd, byddwn yn awgrymu, yn seiliedig ar ddehongliadau sy'n anghywir, a byddwn yn ddiolchgar am eich barn am sut y gallwn wella dehongliad profion TB.

Yr wythnos diwethaf, Weinidog, gwnaethoch sôn yn y Siambr y byddech yn ystyried a ellid cyhoeddi gwybodaeth am rywogaethau eraill hefyd ochr yn ochr â data gwartheg yn y dyfodol. Rwy'n meddwl tybed a ydych wedi cael unrhyw sylwadau am hynny ers yr wythnos diwethaf ynglŷn â'r rhaglen dileu TB.

Yn olaf, byddwn yn dweud fy mod yn croesawu lansiad y rhaglen filfeddygol Cymorth TB. Mae cydweithio â milfeddyg preifat, a fydd yn aml yn gwybod mwy am fferm a'i materion, yn amlwg yn gam hynod gadarnhaol a fydd yn gwella hyder ac yn ailadeiladu ymddiriedaeth. Ond byddwn yn gofyn pa sgysiau yr ydych wedi'u cael gydag arwerthwyr ynghylch defnyddio datganiadau iechyd y fuchesi yn y man gwerthu, a hefyd pa fath o gyllid sydd wedi'i ddarparu i ddatblygu'r gwasanaeth cynghori yr ydych wedi sôn amdano yn eich datganiad heddiw?

I thank you for those questions. I'll do my best to answer as many of them as I can in the time allowed. With regard to the modelling work, I commissioned that work to better understand the potential, really, in terms of taking the vaccination project forward. We've managed to complete now four years of what was originally a five-year programme. So, the modelling work will seek to understand what would happen, for example, if we missed year 5 and then vaccinated in year 6 or year 7, and years 5, 6, 7 or 6, 7, 8, and so on. So, we're looking at various scenarios in trying to understand what that would mean in terms of badger vaccination. I'm expecting the initial report later on this month and, obviously, I'll be keeping Members as up to date as I possibly can on that.

With regard to the global shortage of the vaccine, you are correct: it is the only company in the world that was making the BadgerBCG vaccine. In fact, there are currently only four suppliers of the prequalified BCG vaccine for humans in the world as well. So, obviously, when one company finds itself in difficulties, or a batch is unable to be sold, that does have a dramatic impact, then, on what the global supply might be. I am aware, though, that the company that we had had our order in with for the BadgerBCG—it's a Danish firm—is now under new ownership. I understand that there will be some investment in new technology and new kit within that factory. So, I'm hoping that, in future, we will be able to source the BCG vaccine for badgers.

You questioned some of the statistics, which are showing a fall in the number of new herd incidents and so on. Actually, there's been a 51 per cent fall in the number of herds that were under restriction between 2008 and 2014, from 2,082 to 1,014. So, again, we are making some serious inroads in terms of tackling the disease. I completely accept that, for those 1,000 farms that are under restriction, it clearly is an emotionally difficult time as well as financially and so on. I'm not under any illusion about that at all.

The vaccination project was just one part of what is a comprehensive TB programme. I hope that I've tried to set out some of the other aspects of it today. Obviously, the vaccine issue will be the issue that people are most interested in today, because this is news. However, there is so much else that I updated you on in terms of Cymorth TB and so on. I think the thing that's making the biggest difference in our ability to tackle the disease is our annual testing and our six-monthly testing within the intensive action area, because that allows us to find disease quickly and remove it from the herds. So, those are the things that I think are making the most difference, as well as our pre-movement testing and so on, and our movement restrictions. Those are the things that are really making the difference in terms of the disease picture in Wales.

Diolchaf i chi am y cwestiynau yna. Gwnaf fy ngorau i ateb cynifer ohonynt ag y gallaf yn yr amser a ganiateir. O ran y gwaith modelu, fe wnes i gomisiynu'r gwaith hwnnw i gael gwell dealltwriaeth o botensial, mewn gwirionedd, o ran bwrw ymlaen â'r prosiect brechu. Rydym nawr wedi llwyddo i gwblhau pedair blynedd o'r hyn a oedd yn wreiddiol yn rhaglen bum mlynedd. Felly, bydd y gwaith modelu yn ceisio deall beth fyddai'n digwydd, er enghraifft, pe byddem yn methu blwyddyn 5 ac yna'n brechu ym mlwyddyn 6 neu blwyddyn 7, a blynyddoedd 5, 6, 7 neu 6, 7, 8, ac ati. Felly, rydym yn edrych ar wahanol sefyllfaoedd i geisio deall beth fyddai hynny'n ei olygu o ran brechu moch daear. Rwy'n disgwyl yr adroddiad cychwynnol yn ddiweddarach y mis hwn ac, yn amlwg, byddaf yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf bosibl i'r Aelodau am hynny.

O ran prinder byd-eang y brechlyn, rydych yn gywir: hwn yw'r unig gwmni yn y byd a oedd yn gwneud y brechlyn BadgerBCG. A dweud y gwir, dim ond pedwar cyflenwr y brechlyn BCG rhag-gymwys i fodau dynol sydd yn y byd hefyd ar hyn o bryd. Felly, yn amlwg, pan fydd un cwmni mewn trafferthion, neu'n methu â gwerthu swp, mae hynny'n cael effaith ddramatig, wedyn, ar y cyflenwad byd-eang sydd ar gael. Rwy'n gwybod, fodd bynnag, bod y cwmni yr oeddem wedi archebu'r BadgerBCG ganddo—cwmni yn Nenmarc ydyw—nawr o dan berchnogaeth newydd. Rwyf ar ddeall y bydd rhywfaint o fuddsoddi mewn technoleg newydd ac offer newydd yn y ffatri honno. Felly, rwy'n gobeithio, yn y dyfodol, y byddwn yn gallu cael gafael ar y brechlyn BCG ar gyfer moch daear.

Roeddech yn cwestiynu rhai o'r ystadegau, sy'n dangos gostyngiad yn nifer yr achosion newydd mewn buchesi ac ati. Mewn gwirionedd, mae gostyngiad o 51 y cant wedi bod yn nifer y buchesi a oedd dan gyfyngiadau rhwng 2008 a 2014, o 2,082 i 1,014. Felly, unwaith eto, rydym yn gwneud cynnydd gwirioneddol o ran ymdrin â'r clefyd. Rwy'n derbyn yn llwyr, i'r tua 1,000 o ffermydd sydd o dan gyfyngiad, ei bod yn amlwg yn amser emosiynol anodd yn ogystal ag yn ariannol ac ati. Nid wyf dan unrhyw gamargraff am hynny o gwbl.

Dim ond rhan o raglen TB gynhwysfawr oedd y prosiect brechu. Rwy'n gobeithio fy mod wedi ceisio nodi rhai o'r agweddau eraill arni heddiw. Yn amlwg, mater y brechlyn fydd y mater y mae gan bobl fwyaf o ddiddordeb ynddo heddiw, oherwydd mae hyn yn newyddion. Fodd bynnag, rwyf wedi rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf ichi am gynifer o bethau eraill, fel Cymorth TB ac yn y blaen. Rwy'n meddwl mai'r peth sy'n gwneud y gwahaniaeth mwyaf yw ein gallu i ymdrin â'r clefyd yn ein profion blynyddol a'n profion bob chwe mis o fewn yr ardal triniaeth ddwys, oherwydd mae hynny'n ein galluogi i ddod o hyd i'r clefyd yn gyflym a chael gwared arno o'r buchesi. Felly, dyna'r pethau yr wyf yn credu sy'n gwneud y gwahaniaeth mwyaf, yn ogystal â'n profion cyn symud ac yn y blaen, a'n cyfyngiadau ar symud. Dyna'r pethau sy'n wir yn gwneud y gwahaniaeth o ran darlun y clefyd yng Nghymru.

Well, I have to say, Deputy Minister, this is quite shocking news with regard to the interruption in the supply of the BadgerBCG vaccine. It makes a complete mockery of the vaccination trial, and I'd like to know, really, how this could have been allowed to happen. Did you not have any contractual guarantees in place for the five-year trial? You know, there are big questions that need to be asked that haven't been addressed. It seems to me that the five-year trial has now come to an abrupt end part way through, and that will certainly devalue a lot of the learning that could have been taken from the trial. You suggested the possibility of skipping a year; well, you know, that will leave a gaping hole in terms of the data that are available. We'll lose consistency, we'll lose continuity, and surely this is a further blow to the Welsh Government's credibility amongst the farming sector.

Now, many of us, of course, as you well recall, argued for a different approach four years ago, but the Government was insistent on vaccination. Now, the risk is that we will have possibly wasted the last four years, because when I asked you about the effectiveness of the five-year trial, I was consistently told that we'd have to wait before we can make an informed judgment until the full five years were up. It seems now we'll never get, possibly, to that point. So, I'll ask you again, therefore, Minister, to confirm, as you consider your options and as you try to salvage what learning you can from this shambles, whether you will use this opportunity to revisit all the options and to consider all of the strategies available to remove TB in wildlife.

You refer to the Cymorth TB approach, which I very much support, and you are quite right to describe the role of private vets as being central to the delivery of an effective eradication programme. But can I ask you, Minister: if local vets came to you and told you, 'We have done everything by the book. We have consistently met all requirements in terms of biosecurity. We have stuck to the movement restrictions that are imposed on us. We've done as much as we can to avoid more farms going down with TB, but still there are farms in our area that are going down with TB'—if they ask you, under those circumstances, for measures to remove infected wildlife, would you be willing to consider granting them a licence to do that? I'd be grateful if you would address that particular point in your answer.

Finally, Minister, you refer also to the dashboard. It has been raised with me that, while the Wales TB dashboard is useful in looking at tracking TB incidence in individual regions or counties in Wales, it's very difficult to compare counties with each other, particularly the sparkline. It can actually be rather misleading. So, would you, for example, look at a system of presenting the data in a way that better reflects the low-risk status of north Wales on the dashboard? Indeed, I would urge you, and others I am sure would as well, to better reflect the low-risk status of north Wales in the Government's general approach to TB.

Wel, mae'n rhaid imi ddweud, Ddirprwy Weinidog, bod hyn yn newyddion eithaf brawychus o ran y toriad yng nghyflenwad y brechlyn BadgerBCG. Mae'n gwneud testun sbort llwyr o'r treial brechu, a hoffwn wybod, yn wir, sut y gellid bod wedi caniatáu i hyn ddigwydd. Onid oedd gennych chi unrhyw warantau cytundebol ar waith ar gyfer y treial pum mlynedd? Wyddoch chi, mae angen gofyn cwestiynau pwysig nad ydynt wedi cael sylw. Mae'n ymddangos i mi bod y treial pum mlynedd nawr wedi dod i ben yn sydyn heb ei orffen, a bydd hynny'n sicr yn dibrisio llawer o'r hyn y gallem fod wedi'i ddysgu o'r treial. Gwnaethoch awgrymu'r posibilrwydd o hepgor blwyddyn; wel, wyddoch chi, bydd hynny'n gadael twll mawr yn y data sydd ar gael. Byddwn yn colli cysondeb, byddwn yn colli parhad, ac yn sicr mae hon yn ergyd bellach i hygreddedd Llywodraeth Cymru ymysg y sector ffermio.

Nawr, roedd llawer ohonom, wrth gwrs, fel y cofiwch yn iawn, yn dadlau dros ddulliau gwahanol bedair blynedd yn ôl, ond roedd y Llywodraeth yn mynnu brechu. Nawr, y perygl yw y byddwn o bosibl wedi gwastraffu'r pedair blynedd diwethaf, oherwydd pan ofynnais ichi am effeithiolrwydd y treial pum mlynedd, cefais glywed yn gyson y byddai'n rhaid inni aros cyn y gallwn wneud penderfyniad gwybodus nes bod y pum mlynedd lawn wedi dod i ben. Mae'n ymddangos yn awr na wnawn fyth, o bosibl, gyrraedd y pwynt hwnnw. Felly, gofynnaf ichi eto, felly, Weinidog, i gadarnhau, wrth ichi ystyried eich dewisiadau ac wrth ichi geisio achub unrhyw beth y gallwch ei ddysgu o'r llanastr hwn, a wnewch chi ddefnyddio'r cyfle hwn i edrych eto ar yr holl ddewisiadau ac ystyried yr holl strategaethau sydd ar gael i gael gwared ar TB mewn bywyd gwyllt.

Rydych yn cyfeirio at raglen Cymorth TB, yr wyf yn ei chefnogi'n gryf, ac rydych yn llygad eich lle i ddweud bod swyddogaeth milfeddygon preifat yn ganolog i gyflwyno rhaglen ddileu effeithiol. Ond a gaf i ofyn ichi, Weinidog: pe byddai milfeddygon lleol yn dod atoch ac yn dweud wrthy, 'Rydym wedi gwneud popeth fel y dylem. Rydym wedi bodloni'n gyson yr holl ofynion o ran bioddiogelwch. Rydym wedi cadw at y cyfyngiadau symud sy'n cael eu gorfodi arnom. Rydym wedi gwneud cymaint ag y gallwn i osgoi achosion o TB mewn mwy o ffermydd, ond mae achosion o TB yn dal i ddigwydd mewn ffermydd yn ein hardal—pe byddent yn gofyn ichi, o dan yr amgylchiadau hynny, am fesurau i gael gwared ar fywyd gwyllt sydd wedi'i heintio, a fydddech chi'n fodlon ystyried rhoi trwydded iddynt i wneud hynny? Byddwn yn ddiolchgar pe bydddech yn rhoi sylw i'r pwynt penodol hwnnw yn eich ateb.

Yn olaf, Weinidog, rydych yn cyfeirio hefyd at y dangosfwrdd. Mae wedi cael ei godi gyda mi, er bod y dangosfwrdd TB Cymru yn ddefnyddiol wrth edrych ar olrhain achosion o TB mewn rhanbarthau neu siroedd unigol yng Nghymru, ei bod yn anodd iawn cymharu siroedd â'i gilydd, yn enwedig y wreichlin. A dweud y gwir, mae'n gallu bod braidd yn gamarweiniol. Felly, a fydddech chi, er enghraifft, yn edrych ar system o gyflwyno'r data mewn ffordd sy'n rhoi gwell adlewyrchiad ar y dangosfwrdd o statws risg isel y gogledd? Yn wir, byddwn i'n eich annog, fel y byddai eraill, rwy'n siŵr, i roi gwell adlewyrchiad o statws risg isel y gogledd yn ymagwedd gyffredinol y Llywodraeth tuag at TB.

**Rebecca Evans** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Thank you for those questions. I will address your last point first, which related to the low-risk status of north Wales. You are absolutely right to recognise that, and I've recognised that. I've asked my officials to undertake some work to look at identifying a formal low-risk area in north Wales. That would be with a view to identifying some different controls and prevention approaches in that particular area, and I would hope that would be in the near future. The aims of that proposal, then, would be to eliminate the disease from the area, and also protect the area's favourable status, which would be good news in terms of trade. It would also provide us with some criteria as to how we could expand that low-risk area as well. So, once we've identified that suitable area we'll be reviewing all of the available controls and ensuring there's a greater focus on prevention. We'll also consider, then, whether the controls that exist in the area are proportionate to the risk that is in north Wales. So, I can confirm that that particular piece of work is going on at the moment.

You asked regarding the issue of licences. Of course, that facility is already there under the Protection of Badger Act 1992. Badgers and their setts are protected under the Act. However, there are circumstances under which a person could apply to either Natural Resources Wales or the land, nature and forestry division of the Welsh Government for a licence. So, those options are already there.

I'm grateful for your feedback with regard to the dashboard. Obviously we'll take on board any feedback that people have. It's fairly new. It's up and running at the moment, so any feedback from you or members of the farming community more widely would have to give me, I'd be more than happy to consider how we can improve the service that we have. But I think the dashboard is a particularly useful tool for farmers and others with an interest in the trade.

Diolch am y cwestiynau yna. Rhof sylw i'ch pwynt olaf yn gyntaf, sef statws risg isel y gogledd. Rydych yn llygad eich lle i gydnabod hynny, ac rwyf innau wedi cydnabod hynny. Rwyf wedi gofyn i fy swyddogion wneud rhywfaint o waith i edrych ar nodi ardal risg isel ffurfiol yn y gogledd. Bwriad hynny fyddai nodi rhai rheolyddion a dulliau atal gwahanol yn yr ardal benodol honno, a byddwn yn gobeithio y byddai hynny'n digwydd yn y dyfodol agos. Amcanion y cynnig hwnnw, wedyn, fyddai cael gwared ar y clefyd o'r ardal, a hefyd diogelu statws ffafriol yr ardal, a fyddai'n newyddion da o ran masnach. Byddai hefyd yn rhoi meini prawf inni o ran sut y gallem ehangu'r ardal risg isel honno hefyd. Felly, cyn gynted ag y byddwn wedi nodi'r ardal addas honno byddwn yn adolygu'r holl reolyddion sydd ar gael ac yn sicrhau bod mwy o bwyslais ar atal. Byddwn hefyd yn ystyried, wedyn, a yw'r rheolyddion sy'n bodoli yn yr ardal yn gymesur â'r risg sydd yn y gogledd. Felly, gallaf gadarnhau bod y darn penodol hwnnw o waith yn mynd rhagddo ar hyn o bryd.

Gwnaethoch ofyn am gyhoeddi trwyddedau. Wrth gwrs, mae'r cyfleuster hwnnw yno eisoes o dan Ddeddf Amddiffyn Moch Daear 1992. Mae moch daear a'u deyerydd wedi'u diogelu o dan y Ddeddf. Fodd bynnag, ceir amgylchiadau lle gallai unigolyn wneud cais naill ai i Gyfoeth Naturiol Cymru neu i is-adran tir, natur a choedwigaeth Llywodraeth Cymru am drwydded. Felly, mae'r dewisiadau hynny yno eisoes.

Rwy'n ddiolchgar am eich adborth ynglŷn â'r dangosfwrdd. Yn amlwg byddwn yn ystyried unrhyw adborth sydd gan bobl. Mae'n eithaf newydd. Mae ar waith ar hyn o bryd, felly unrhyw adborth a fyddai gennych chi neu aelodau o'r gymuned amaethyddol ehangach i'w roi imi, byddwn yn fwy na pharod i ystyried sut y gallwn wella'r gwasanaeth sydd gennym. Ond rwy'n meddwl bod y dangosfwrdd yn arf arbennig o ddefnyddiol i ffermwyr ac i eraill sydd â diddordeb yn y maes.

**Mike Hedges** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

First, I would like to congratulate the Deputy Minister on her statement. I am disappointed the supply of BadgerBCG used for vaccinations has been interrupted, but I obviously agree that human use must take priority. I'm not quite sure the last questioner agreed with that.

I welcome the removal of the pre-movement testing exemption to and from common land, starting on 31 December. I congratulate the Minister on the progress being made. I agree that good animal husbandry is important, perhaps more important than anything else, and I urge the Minister to do everything possible to discourage risky farming practice. Will the Minister continue to oppose the indiscriminate shooting of badgers?

Yn gyntaf, hoffwn longyfarch y Dirprwy Weinidog ar ei datganiad. Rwy'n siomedig o ran y diffyg cyflenwad o BadgerBCG a ddefnyddiwyd ar gyfer brechiadau, ond rwy'n amlwg yn cytuno bod yn rhaid rhoi blaenoriaeth i'w ddefnyddio gyda bodau dynol. Nid wyf yn hollol siŵr a oedd yr holwr diwethaf yn cytuno â hynny.

Rwy'n croesawu cael gwared ar yr eithriad profi cyn symud i dir comin ac oddi arno, gan ddechrau ar 31 Rhagfyr. Rwy'n llongyfarch y Gweinidog ar y cynnydd sy'n cael ei wneud. Rwy'n cytuno bod hwsmonaeth dda ar gyfer anifeiliaid yn bwysig, efallai'n bwysicach na dim byd arall, ac rwy'n annog y Gweinidog i wneud popeth sy'n bosibl i atal arferion ffermio peryglus. A wnaiff y Gweinidog barhau i wrthwynebu saethu moch daear yn ddiwahân?

**Rebecca Evans** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I thank you for those questions. Obviously, any suggestion that there is illegal activity taking place with regard to the Protection of Badgers should be reported to the police. You recognise the importance of prioritising public health. Just so Members are aware, our order for next year was 5,295 doses. So, what that would mean, in terms of human doses, were we to go ahead and seek the human BCG for it, would be 52,950 adult doses or 105,900 infant doses. So, by not procuring those now, those doses are now available to meet the global demand as well.

I'm pleased that you welcome the work we're doing to prevent risky practice. One of the previous speakers referred to late TB tests, which is obviously risky practice in itself. Since we've brought that into the cross-compliance regime, we've seen the number of late tests just fall away completely, so it does show that when you incentivise good practice and penalise risky practice, we can make some inroads there as well.

Diolch i chi am y cwestiynau yna. Yn amlwg, os oes unrhyw awgrym bod gweithgarwch anghyfreithlon yn digwydd ynglŷn â Gwarchod Moch Daebar, dylid hysbysu'r heddlu. Rydych yn cydnabod pwysigrwydd blaenoriaethu iechyd y cyhoedd. Dim ond er mwyn i'r Aelodau gael gwybod, roedd ein harcheb ar gyfer y flwyddyn nesaf yn 5,295 dos. Felly, beth fyddai hynny'n ei olygu, o ran dosau dynol, pe byddem yn bwrw ymlaen ac yn ceisio BCG dynol ar ei gyfer, byddai hynny'n 52,950 dos i oedolion neu'n 105,900 dos i fabanod. Felly, drwy beidio â chaffael y rheini nawr, mae'r dosiau hynny nawr ar gael i ateb y galw byd-eang hefyd.

Rwy'n falch eich bod yn croesawu'r gwaith yr ydym yn ei wneud i atal arferion peryglus. Soniodd un o'r siaradwyr blaenorol am brofion TB hwyr, sy'n amlwg yn arfer peryglus ynddo'i hun. Ers inni gynnwys hynny yn y gyfundrefn drawsgydymffurfio, rydym wedi gweld nifer y profion hwyr yn diflannu'n gyfan gwbl, felly mae'n dangos bod cymell arferion da a chosbi arferion peryglus yn ffordd dda o ennill tir.

**Kirsty Williams** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I draw Members' attention to my register of interests; my husband is a partner in a farming business that, in the past, has suffered shutdowns from TB, but, touch wood, is, thankfully, currently clear. Can I thank the Minister for her statement, although I must say, Deputy Presiding Officer, I find her attitude towards the number of cases very, very complacent? The reality is there has been little change in the number of open incidents between quarter 1 and quarter 2 in 2015 compared to quarter 2 in 2014; in fact, new incidents and numbers of open incidents have increased by 5.5 and 12.4 per cent respectively. So, the Minister is very selective in giving figures going back as far as 2008; there has, indeed, been an improvement since 2008, but the rate of that improvement has slowed down dramatically.

The stats for the one-year rolling average are showing a general rise in the number of open incidents and TB across Wales, so we cannot afford to become complacent. That's why the news that the Government is unable to continue with its vaccination programme will be an utter blow to the industry and those looking to her to help eradicate this disease. It does beg the question, Minister: when did your officials first become aware that the company that you had contracted to supply this vaccine would not be in a position to supply the vaccine? When did you know, as Minister, that that would be the case? Could you outline what steps your officials have tried to take with the company to avoid this situation?

Unlike what the Member for Swansea East tried to suggest, this is not a question of wanting to prioritise the health of badgers and cattle over humans, but it is the responsibility of this Government to deliver what it promised the industry it would deliver, which was a five-year TB vaccination programme, and you have failed to do that—failed miserably to do that.

Tynnaf sylw'r Aelodau at fy nghofrestr o fuddiannau; mae fy ngŵr yn bartner mewn busnes ffermio sydd, yn y gorffennol, wedi cael ei gau oherwydd TB, ond, hei lwc, diolch byth, mae'n glir ar hyn o bryd. A gaf i ddiolch i'r Gweinidog am ei datganiad, er bod yn rhaid imi ddweud, Ddirprwy Lywydd, fy mod yn gweld ei hagwedd tuag at y nifer o achosion yn hunanfodlon iawn, iawn? Y realiti yw mai ychydig iawn o newid a fu yn nifer yr achosion agored rhwng chwarter 1 a chwarter 2 yn 2015 o'i gymharu â chwarter 2 yn 2014; a dweud y gwir, mae achosion newydd a nifer yr achosion agored wedi cynyddu gan 5.5 a 12.4 y cant yn y drefn honno. Felly, mae'r Gweinidog yn ddethol iawn wrth roi ffigurau sy'n mynd yn ôl cyn belled â 2008; yn wir, bu gwelliant ers 2008, ond mae cyfradd y gwelliant hwnnw wedi arafu'n sylweddol.

Mae'r ystadegau ar gyfer y cyfartaledd treigl un flwyddyn yn dangos cynnydd cyffredinol yn nifer yr achosion agored a TB ledled Cymru, felly ni allwn fforddio bod yn hunanfodlon. Dyna pam y bydd y newyddion nad yw'r Llywodraeth yn gallu parhau â'i rhaglen frechu yn ergyd drom i'r diwydiant ac i'r bobl sy'n gobeithio y byddant yn dileu'r clefyd hwn. Mae'n arwain at y cwestiwn, Weidog: pryd cafodd eich swyddogion wybod am y tro cyntaf na fyddai'r cwmni yr oeddech wedi'i gontractio i gyflenwi'r brechlyn hwn mewn sefyllfa i gyflenwi'r brechlyn? Pryd oeddech chi'n gwybod, fel Gweinidog, y byddai hyn yn digwydd? A allech chi amlinellu pa gamau y mae eich swyddogion wedi ceisio eu cymryd gyda'r cwmni i osgoi'r sefyllfa hon?

Yn wahanol i'r hyn y ceisiodd yr Aelod dros Ddwyrain Abertawe ei awgrymu, nid yw hyn yn fater o fod eisiau rhoi blaenoriaeth i iechyd moch daear a gwartheg dros fodau dynol, ond cyfrifoldeb y Llywodraeth hon yw cyflawni'r hyn y gwnaethant ei addo i'r diwydiant y byddent yn ei gyflawni, sef rhaglen frechu TB pum mlynedd, ac rydych wedi methu â gwneud hynny—wedi methu'n druenus â gwneud hynny.

Can I ask, then—you said that you would be updating the Chamber on alternatives; what alternatives are you asking your officials to look at? It seems to me you have set your face against any alternatives with regard to trying to control this disease, especially with regard to wildlife.

Can I then move on to the issue of common land? What impact will these new restrictions on pre-movement testing of cattle on and off common land have on pre-existing agreements, perhaps, for grazing on common land from Glastir commons agreements that people already had? They will have signed those agreements without understanding the impact and the additional work that pre-movement testing of common land would entail. How many cases of TB do you expect to avoid by bringing in this additional bureaucracy for pre-movement testing for common land?

Can I also then ask—? On the issue of compensation and the further discussions and consultation that you've had with regard to trying to penalise unsafe practices, sometimes, I really do think the Government is intent on believing that farmers actively look to have this disease break out in their herds. I can tell you there is no financial advantage to any farm coming down with TB. That's not a case of just simply having compensation for the stock that is lost. The trading opportunities that are lost, and the additional costs of housing stock and of feeding stock, often, over the winter because you cannot sell and because you cannot out stock that which you expected not to have on your farm, outweighs anything that you'd ever get in compensation from a beast that is destroyed. Would you confirm today that no farmer will be penalised who has complied with your rules and regulations, and despite that, and through no fault of their own, has come down with this terrible disease, and that compensation will continue to reflect the true value of the beast that is lost?

A gaf i ofyn, felly—dywedasocho y byddech yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Siambr am ddewisiadau eraill; pa ddewisiadau eraill yr ydych yn gofyn i'ch swyddogion edrych arnynt? Mae'n ymddangos i mi eich bod wedi gosod eich wyneb yn erbyn unrhyw ddewisiadau eraill o ran ceisio rheoli'r clefyd hwn, yn enwedig o ran bywyd gwyllt.

A gaf i wedyn symud ymlaen at fater tir comin? Pa effaith a gaiff y cyfyngiadau newydd hyn ar brofi gwartheg cyn symud ar dir comin ac oddi arno ar gytundebau sydd eisoes yn bodoli, efallai, ar gyfer pori ar dir comin o gytundebau tir comin Glastir a oedd gan bobl eisoes? Byddant wedi llofnodi'r cytundebau hynny heb ddeall yr effaith a'r gwaith ychwanegol y byddai profion cyn symud ar dir comin yn ei olygu. Faint o achosion o TB ydych chi'n disgwyl eu hosgoi drwy gyflwyno'r fiwrocraiaeth ychwanegol hon ar gyfer profion cyn symud ar gyfer tir comin?

A gaf i hefyd ofyn wedyn—? Ynglŷn ag iawndal a'r trafodaethau a'r ymgynghoriad pellach yr ydych wedi'u cael ynglŷn â cheisio cosbi arferion annïogel, weithiau, rwyf wir yn meddwl bod y Llywodraeth yn benderfynol o greu bod ffermwyr yn mynd ati i geisio cael achosion o'r clefyd hwn yn eu buchesi. Gallaf ddweud wrthynt nad oes mantais ariannol i unrhyw fferm gael achos o TB. Nid dim ond mater o gael iawndal am y stoc sy'n cael ei golli yw hwn. Mae'r cyfleoedd masnachu sy'n cael eu colli, a chostau ychwanegol cadw stoc a bwydo stoc, yn aml, dros y gaeaf oherwydd nad ydych yn gallu gwerthu ac oherwydd y stoc hwn nad oeddech yn disgwyl iddo fod ar eich fferm, yn gorbwyso unrhyw beth y byddech fyth yn ei gael fel iawndal am ddifa anifail. A wnewch chi gadarnhau heddiw na chaiff unrhyw ffermwr ei gosbi sydd wedi cydymffurfio â'ch rheolau a'ch rheoliadau, ac er gwaethaf hynny, a heb fod dim bai arno ef, wedi dioddef achos o'r clefyd ofnadwy hwn, ac y bydd iawndal yn parhau i adlewyrchu gwir werth yr anifail sydd wedi'i golli?

16:45

## Rebecca Evans [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Well, I'll start by taking strong objection to your suggestion that this Government in any way thinks that farmers want TB. That clearly is wrong, and you might want to reflect on that suggestion afterwards. That, actually, is why I took the decision last year to introduce a TB compensation system that is fair to farmers and reflects the quality of the stock, and it's why I didn't go ahead with the suggestion of introducing a table valuation system. So, clearly, this Government is keen to reflect the value of the stock that has been slaughtered due to TB. Equally, I think that, when you're considering statistics, most people appreciate you have to look at trends over time. So, I would suggest it's not me who is being selective with the use of the figures in the Chamber this afternoon.

Wel, dechreuaf drwy wrthwynebu'n gryf eich awgrym bod y Llywodraeth hon mewn unrhyw ffordd yn meddwl bod ffermwyr eisïau TB. Mae hynny'n amlwg yn anghywir, ac efallai yr hoffech fyfyrïo ar yr awgrym hwnnw wedyn. Dyna, mewn gwirionedd, yw pam y gwnes y penderfyniad y llynedd i gyflwyno system iawndal TB sy'n deg i ffermwyr ac yn adlewyrchu ansawdd y stoc, a dyna pam na wnes fwrw ymlaen â'r awgrym o gyflwyno system brisïo tabl. Felly, yn amlwg, mae'r Llywodraeth hon yn awyddus i adlewyrchu gwerth y stoc sydd wedi cael ei ddifa oherwydd TB. Yn yr un modd, rwy'n meddwl, wrth ystyried ystadegau, bod y rhan fwyaf o bobl yn gwerthfawrogi bod yn rhaid ichi edrych ar dueddiadau dros amser. Felly, byddwn yn awgrymu nad fi sy'n bod yn ddetholus wrth ddefnyddio ffigurau yn y Siambr y prynhawn yma.

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

With regard to common land, the pre-movement testing helps us identify disease at an earlier stage and reduce the risk of it spreading. The TB eradication plan, which we've agreed with Europe, is very much focused on trying to do that, and the European Commission has previously asked us to look at the movements to and from and on common land, and so on. DEFRA has already removed the exemption last year, so we're actually behind in this sense. So, we really need to catch up in terms of the common land pre-movement testing exemption.

I don't believe that we're adding bureaucracy, we're just trying to make a system whereby we get rid of this disease as quickly as we possibly can. We're trying to do it, as much as we can, in partnership with the industry, with individual farmers, with hauliers, auctioneers, and so on, which is another reason why I've extended the deadline for the information board grants, which we're offering livestock markets as well, until the end of December. So, I'd welcome any further applications for that as well. The Government is completely committed to the eradication of the disease, and I object to any suggestion that we're not. And, we're committed to working in partnership with anybody who would work in partnership with us—so, that's the industry, individual farmers, and all those others I have mentioned before, and I would hope the Liberal Democrats as well.

O ran tir comin, mae'r profion cyn symud yn ein helpu i ganfod clefyd yn gynharach ac yn lleihau'r perygl iddo ymledu. Mae'r cynllun dileu TB, yr ydym wedi cytuno arno ag Ewrop, yn canolbwyntio i raddau helaeth ar geisio gwneud hynny, ac mae'r Comisiwn Ewropeaidd wedi gofyn o'r blaen inni edrych ar y symudiadau i dir comin ac oddi arno, ac yn y blaen. Mae DEFRA eisoes wedi dileu'r eithriad y llynedd, felly rydym mewn gwirionedd ar ei hôl hi yn yr ystyr hwn. Felly, mae gwir angen inni ddal i fyny o ran yr eithriad profi cyn symud ar gyfer tir comin.

Nid wyf yn credu ein bod yn ychwanegu biwrocratiaeth, dim ond ceisio gwneud system lle'r ydym yn cael gwared ar y clefyd hwn cyn gynted ag y gallwn. Rydym yn ceisio gwneud hynny, gymaint ag y gallwn, mewn partneriaeth â'r diwydiant, â ffermwyr unigol, â chlundwyr, arwerthwyr, ac yn y blaen, sy'n rheswm arall pam yr wyf wedi ymestyn y dyddiad cau ar gyfer y grantiau bwrdd gwybodaeth, yr ydym yn eu cynnig i farchnadoedd da byw hefyd, hyd at ddiwedd mis Rhagfyr. Felly, byddwn yn croesawu unrhyw geisiadau pellach ar gyfer hynny hefyd. Mae'r Llywodraeth yn gwbl ymrwymedig i ddileu'r clefyd, ac rwy'n gwrthwynebu unrhyw awgrym nad ydym. Ac, rydym yn ymrwymedig i weithio mewn partneriaeth gydag unrhyw un a wnaiff weithio mewn partneriaeth gyda ni—felly, y diwydiant, ffermwyr unigol, a phawb arall yr wyf wedi sôn amdanynt, a byddwn yn gobeithio y Democratiaid Rhyddfrydol hefyd.

16:47

## **Elin Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Deputy Minister, there was never any science behind the badger vaccine project, and now it seems that we'll never learn anything from it, either, for the future. I cannot begin to imagine how demoralising your statement is for those farmers in the intensive action area of north Pembrokeshire today. Everything we have learned from the cattle measures has come from cattle measures. Everything you've outlined in your statement today has come from cattle measures, and I'd remind you that those cattle measures—and I'm sure I don't need to remind you—were taken by the previous Government.

I absolutely agree with the Member for Swansea East when he says that human health should be the priority in this case. My question, though, is this: any basic internet search shows up the shortage of the BCG vaccine as a human vaccine and as a treatment for bladder cancer, and that has been campaigned for now for quite a while by cancer charities in the UK as well as elsewhere; how long, therefore, as a Government, have you known that the use of the BCG vaccine for badgers was in direct competition with the BCG vaccine for humans—both as a vaccine and as a treatment for bladder cancer—and that has been at a time of considerable shortage?

Ddirprwy Weinidog, ni fu erioed unrhyw wyddoniaeth y tu ôl i'r prosiect brechlyn moch daear, ac nawr mae'n ymddangos na wnawn byth ddysgu unrhyw beth ohono, ychwaith, ar gyfer y dyfodol. Ni allaf ddechrau dychmygu pa mor dorcalonius yw datganiad i'r ffermwyr hynny yn yr ardal triniaeth ddwys yng ngogledd Sir Benfro heddiw. Mae popeth yr ydym wedi'i ddysgu o'r mesurau gwartheg wedi dod o fesurau gwartheg. Mae popeth yr ydych wedi'i amlinellu yn eich datganiad heddiw wedi dod o fesurau gwartheg, a byddwn yn eich atgoffa bod y mesurau gwartheg hynny—ac rwy'n siŵr nad oes angen imi eich atgoffa—wedi'u cymryd gan y Llywodraeth flaenorol.

Cytunaf yn llwyr ag Aelod Dwyrain Abertawe pan ei fod yn dweud y dylai iechyd dynol fod yn flaenoriaeth yn yr achos hwn. Fy nghwestiwn i, fodd bynnag, yw hyn: mae unrhyw chwiliad rhyngwyd sylfaenol yn dangos prinder y brechlyn BCG fel brechlyn dynol ac fel triniaeth i ganser y bledren, ac mae hynny wedi bod yn destun ymgyrchoedd ers cryn amser bellach gan elusennau canser yn y DU ac mewn manau eraill; ers pryd, felly, fel Llywodraeth, yr ydych yn gwybod bod defnyddio'r brechlyn BCG ar gyfer moch daear mewn cystadleuaeth uniongyrchol â'r brechlyn BCG i fodau dynol—fel brechlyn ac fel triniaeth i ganser y bledren—a bod hynny wedi bod mewn cyfnod o gryn brinder?

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

16:48 **Rebecca Evans** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Well, earlier this year, Statens Serum Institut, which is the Danish firm—and the only one in the world, as I said—producing this BadgerBCG vaccine, indicated they had production problems. So, what officials have done this year is to seek an extension of the use-by date for our badger vaccine, which we've done. However, when you've got one company producing a vaccine in the world—and producing a vaccine is, by no means, an easy or simple thing to do—it's inevitable that there will be some risk with that, when there is only one company in the world producing it. It's extremely unfortunate that this has happened; however, we have to prioritise public health.

Wel, yn gynharach eleni, dywedodd Statens Serum Institut, sef y cwmni o Ddenmarc—a'r unig un yn y byd, fel y dywedais—sy'n cynhyrchu'r brechlyn BadgerBCG hwn, fod ganddynt broblemau cynhyrchu. Felly, yr hyn mae swyddogion wedi'i wneud eleni yw ceisio estyniad o'r dyddiad 'defnyddio erbyn' ar gyfer ein brechlyn moch daear, ac rydym wedi gwneud hynny. Fodd bynnag, mewn sefyllfa pan mai un cwmni yn y byd sy'n cynhyrchu brechlyn—ac nid yw cynhyrchu brechlyn yn beth hawdd na syml i'w wneud o gwbl—mae'n anochel y bydd rhywfaint o risg yn gysylltiedig â hynny, pan mai un cwmni yn unig sy'n ei gynhyrchu yn y byd. Mae'n hynod o anffodus bod hyn wedi digwydd; fodd bynnag, mae'n rhaid inni flaenoriaethu iechyd y cyhoedd.

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

16:49 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Diolch yn fawr, Ddirprwy Weinidog.

Thank you very much, Deputy Minister.

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

16:49 **7. Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol ar y Darpariaethau sy'n ymwneud â'r Swyddfa Brisio sy'n deillio o'r Bil Menter**

Item 7 is the supplementary legislative consent motion on the Valuation Office Agency provisions arising from the Enterprise Bill. I call on the Minister for Public Services to move the motion—Leighton Andrews.

Cynnig NDM5892 Leighton Andrews

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 29.6, yn cytuno y dylai Senedd y DU ystyried y darpariaethau yn y Bil Menter, sy'n ymwneud â rhannu gwybodaeth am ardrethi annomestig gan Asiantaeth y Swyddfa Brisio, i'r graddau y maent yn dod o fewn cymhwysedd deddfwriaethol Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

*Cynigiwyd y cynnig.*

**7. Supplementary Legislative Consent Motion on the Valuation Office Provisions arising from the Enterprise Bill**

**Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Eitem 7 yw'r cynnig cydsyniad deddfwriaethol atodol ar ddarpariaethau Asiantaeth y Swyddfa Brisio sy'n deillio o'r Mesur Menter. Galwaf ar y Gweinidog Gwasanaethau Cyhoeddus i gynnig y cynnig—Leighton Andrews.

Motion NDM5892 Leighton Andrews

To propose that the National Assembly for Wales, in accordance with Standing Order 29.6 agrees that provisions in the Enterprise Bill, relating to the sharing of non-domestic rating information by the Valuation Office Agency, in so far as they fall within the legislative competence of the National Assembly for Wales, should be considered by the UK Parliament.

*Motion moved.*

**Y** Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

16:49 **Leighton Andrews** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

*Y Gweinidog Gwasanaethau Cyhoeddus / The Minister for Public Services*

Dirprwy Lywydd, I welcome this opportunity to explain the background to this legislative consent motion. I'm also grateful to the Enterprise and Business Committee for considering the LCM and for the report it has produced. The committee considers there is no impediment to the Assembly agreeing the LCM.

Ddirprwy Lywydd, rwy'n croesawu'r cyfle hwn i esbonio cefndir y cynnig cydsyniad deddfwriaethol. Rwy'n ddiolchgar hefyd i'r Pwyllgor Menter a Busnes am ystyried y cynnig cydsyniad deddfwriaethol ac am yr adroddiad y mae wedi'i gynhyrchu. Mae'r pwyllgor yn ystyried nad oes unrhyw rwystr i'r Cynulliad gytuno ar y cynnig cydsyniad deddfwriaethol.

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

The UK Government introduced the Enterprise Bill into Parliament on 16 September. Amongst its measures are provisions to enable the Valuation Office Agency to share information with local authorities to improve the non-domestic rates system for both local government and rate payers. As an executive agency of HMRC, the VOA staff are governed by data confidentiality provisions within the Commissioners for Revenue and Customs Act 2005. These provisions restrict the non-domestic rates information that the VOA is permitted to share with local government. As a result, rate payers currently have to give information on their property and their business to the VOA for the compilation and maintenance of rating lists and then provide the same information to local government for the calculation, collection and enforcement of rates bills. To improve the administration of the ratings system, the UK Government has included enabling powers in the Enterprise Bill. These will establish a legal gateway to allow the VOA to share rating information with local government and, in certain circumstances, with the Secretary of State. As the VOA is a cross-border agency and local authorities in Wales have experienced the same difficulties with sharing rating information as those in England, I sought the extension of these provisions to Wales.

These provisions will reduce the administrative burden on rate payers of having to provide the same information more than once, avoid the duplication of work by the VOA and local authorities, and improve the effectiveness of the local authorities' fraud investigation, collection and enforcement activities. I believe these provisions fall within the legislative competence of the National Assembly for Wales. However, I am content that these provisions should be made in the Bill for both England and Wales for reasons of timing and coherence. The inter-connected nature of the relevant systems for administering the rates in Wales and England, and the cross-border operation of the VOA, mean that it is effective and appropriate for provision for both the Wales and England administrations to be taken forward at the same time, in the same legislative instrument. I, therefore, move the motion and request the Assembly agrees this legislative consent motion.

Cyflwynodd Llywodraeth y DU y Bil Menter gerbron y Senedd ar 16 Medi. Mae ei fesurau'n cynnwys darpariaethau i alluogi Asiantaeth y Swyddfa Brisio i rannu gwybodaeth ag awdurdodau lleol i wella'r system trethi annomestig ar gyfer llywodraeth leol a threthdalwyr. Fel un o asiantaethau gweithredol Cyllid a Thollau EM, mae staff Asiantaeth y Swyddfa Brisio yn cael eu llywodraethu gan ddarpariaethau cyfrinachedd data o fewn Deddf Comisiynwyr Cyllid a Thollau 2005. Mae'r darpariaethau hyn yn cyfyngu ar y wybodaeth ardrethi annomestig y caniateir i Asiantaeth y Swyddfa Brisio ei rhannu â llywodraeth leol. O ganlyniad, ar hyn o bryd mae'n rhaid i drethdalwyr roi gwybodaeth am eu heiddo a'u busnes i Asiantaeth y Swyddfa Brisio er mwyn iddi lunio a chynnal rhestri ardrethu ac yna rhoi'r un wybodaeth i llywodraeth leol ar gyfer cyfrifo, casglu a gorfodi biliau ardrethi. I wella gweinyddiaeth y system ardrethu, mae Llywodraeth y DU wedi cynnwys pwerau galluogi yn y Bil Menter. Bydd y rhain yn sefydlu porth cyfreithiol i ganiatáu i Asiantaeth y Swyddfa Brisio rannu gwybodaeth ardrethu â llywodraeth leol ac, mewn rhai amgylchiadau, â'r Ysgrifennydd Gwladol. Gan fod Asiantaeth y Swyddfa Brisio yn asiantaeth drawsffiniol a bod awdurdodau lleol yng Nghymru wedi profi'r un anawsterau wrth rannu gwybodaeth ardrethu â rhai yn Lloegr, gofynnais am ymestyn y darpariaethau hyn i Gymru.

Bydd y darpariaethau hyn yn lleihau'r baich gweinyddol ar drethdalwyr o orfod rhoi'r un wybodaeth fwy nag unwaith, yn osgoi dyblygu gwaith gan Asiantaeth y Swyddfa Brisio ac awdurdodau lleol, ac yn gwella effeithiolrwydd gweithgareddau ymchwilio twyll, casglu a gorfodi awdurdodau lleol. Rwy'n credu bod y darpariaethau hyn o fewn cymhwysedd deddfwriaethol Cynulliad Cenedlaethol Cymru. Fodd bynnag, rwy'n fodlon y dylai'r darpariaethau hyn gael eu gwneud yn y Bil ar gyfer Cymru a Lloegr am resymau amseru a chydlynid. Mae natur ryng-gysylltiedig y systemau perthnasol ar gyfer gweinyddu'r trethi yng Nghymru a Lloegr, a gweithredu trawsffiniol Asiantaeth y Swyddfa Brisio, yn golygu ei bod yn effeithiol ac yn briodol i ddatblygu darpariaeth ar gyfer gweinyddiaethau Cymru a Lloegr ar yr un pryd, yn yr un offeryn deddfwriaethol. Rwyf, felly, yn cynnig y cynnig ac yn gofyn i'r Cynulliad gytuno â'r cynnig cydsyniad deddfwriaethol hwn.

16:51 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I have no speakers. The proposal is to agree the motion. Does any Member object? The motion is therefore agreed in accordance with Standing Order 12.36.

Nid oes gennyf unrhyw siaradwyr. Y cynnig yw derbyn y cynnig. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Felly, mae'r cynnig wedi ei dderbyn yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.

*Derbyniwyd y cynnig yn unol â Rheol Sefydlog 12.36*

*Motion agreed in accordance with Standing Order 12.36*

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

16:52 **8. Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol ar y Darpariaethau sy'n ymwneud â'r Comisiynydd Busnesau Bach sy'n deillio o'r Bil Menter**

Item 8 is the supplementary legislative consent motion on the small business commissioner provisions arising from the Enterprise Bill. I call on the Minister for Economy, Science and Transport to move the motion—Edwina Hart.

**8. Supplementary Legislative Consent Motion on the Small Business Commissioner Provisions arising from the Enterprise Bill**  
**Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Eitem 8 yw'r cynnig cydsyniad deddfwriaethol atodol ar y darpariaethau comisiynydd busnesau bach sy'n deillio o'r Bil Menter. Galwaf ar Weinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth i gynnig y cynnig—Edwina Hart.

**Y** Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 29.6, yn cytuno y dylai Senedd y DU ystyried y darpariaethau yn y Bil Menter sy'n ymwneud â'r Comisiynydd Busnesau Bach, i'r graddau y maent yn dod o fewn cymhwysedd deddfwriaethol Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

To propose that the National Assembly for Wales, in accordance with Standing Order 29.6 agrees that provisions in the Enterprise Bill, relating to the Small Business Commissioner in so far as they fall within the legislative competence of the National Assembly for Wales, should be considered by the UK Parliament.

*Cynigiwyd y cynnig.*

*Motion moved.*

16:52

**Edwina Hart** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

*Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth / The Minister for Economy, Science and Transport*

Thank you, Deputy Presiding Officer. The legislative consent motion concerns Part 1 of the UK Government's Enterprise Bill and its provisions relating to the small business commissioner. The provisions of Part 1 fall within the legislative competence of the Assembly on the basis that they relate to the promotion of business and competitiveness and, therefore, give rise to this LCM. The Enterprise Bill will provide the commissioner with two key objectives: firstly, to provide general advice and information to small businesses about their goods and services and relationships with larger business; and, secondly, to consider certain complaints made by a small business about their payment issues with a larger business, which is relevant to Members particularly in this Chamber with concerns that have been raised with me. Part 1 of the Enterprise Bill also gives the Secretary of State the power to make regulations prescribing the types of complaints the commissioner may consider and to provide funding to the commissioner, and it places the Secretary of State under a duty to undertake a review of the commissioner's performance. These are provisions of the Bill relating to the abolition of the commissioner where the office is no longer necessary or has not been effective. The UK Government propose that there'd be a duty to consult with those affected prior to any abolition of this office.

Diolch, Ddirprwy Lywydd. Mae'r cynnig cydsyniad deddfwriaethol yn ymwneud â Rhan 1 Bil Menter Llywodraeth y DU a'i ddarpariaethau sy'n ymwneud â'r comisiynydd busnesau bach. Mae darpariaethau Rhan 1 o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad ar y sail eu bod yn ymwneud â hybu busnes a chystadleurwydd ac, felly, yn arwain at y Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol hwn. Bydd y Bil Menter yn rhoi dau amcan allweddol i'r comisiynydd: yn gyntaf, rhoi cyngor a gwybodaeth gyffredinol i fusnesau bach am eu nwyddau a'u gwasanaethau a'u perthynas â busnesau mwy o faint; ac, yn ail, ystyried cwynion penodol a wnaethpwyd gan fusnes bach am eu problemau talu gyda busnes mwy o faint, sy'n berthnasol i'r Aelodau yn enwedig yn y Siambr hon sydd â phryderon a godwyd gyda mi. Mae Rhan 1 y Bil Menter hefyd yn rhoi'r pŵer i'r Ysgrifennydd Gwladol wneud rheoliadau sy'n rhagnodi'r mathau o gwynion y gall y comisiynydd eu hystyried ac i ddarparu cyllid i'r comisiynydd, ac mae'n rhoi dyletswydd ar yr Ysgrifennydd Gwladol i gynnal adolygiad o berfformiad y comisiynydd. Y rhain yw darpariaethau'r Bil sy'n ymwneud â diddymu'r comisiynydd os nad oes angen y swydd mwyach neu os nad yw wedi bod yn effeithiol. Mae Llywodraeth y DU yn cynnig y byddai dyletswydd i ymgynghori â'r rhai yr effeithir arnynt cyn diddymu'r swydd hon.

The activities of the small business commissioner could have a positive impact on our continued work to improve supply chains and the business environment for small businesses in Wales, and I thank the Enterprise and Business Committee who recognised this and I hope that the committee's cross-party support for the legislative consent motion is reflected today in Plenary.

Gallai gweithgareddau'r comisiynydd busnesau bach gael effaith gadarnhaol ar ein gwaith parhaus i wella cadwyni cyflenwi a'r amgylchedd busnes i fusnesau bach yng Nghymru, ac rwy'n diolch i'r Pwyllgor Menter a Busnes am gydnabod hyn ac rwy'n gobeithio y caiff cefnogaeth drawsbleidiol y pwyllgor cefnogaeth i'r cynnig cydsyniad deddfwriaethol ei adlewyrchu yn y Cyfarfod Llawn heddiw.

16:53

**Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I have no speakers. Therefore, the proposal is to agree the motion. Does any Member object? The motion is therefore agreed in accordance with Standing Order 12.36.

Nid oes gennyf unrhyw siaradwyr. Felly, y cynnig yw derbyn y cynnig. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Felly, mae'r cynnig wedi ei dderbyn yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.

*Derbyniwyd y cynnig yn unol â Rheol Sefydlog 12.36*

*Motion agreed in accordance with Standing Order 12.36*

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

## 9. Rheoliadau Plant (Llety Diogel) (Cymru) 2015

### Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Item 9 is the Children (Secure Accommodation) (Wales) Regulations 2015 and I call on the Minister for Health and Social Services to move the motion—Mark Drakeford.

Cynnig NDM5895 Jane Hutt

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 27.5:

Yn cymeradwyo bod y fersiwn ddrafft o'r Rheoliadau Plant (Llety Diogel) (Cymru) 2015 yn cael ei llunio yn unol â'r fersiwn ddrafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 23 Hydref 2015.

*Cynigiwyd y cynnig.*

## 9. The Children (Secure Accommodation) (Wales) Regulations 2015

Eitem 9 yw Rheoliadau Plant (Llety Diogel) (Cymru) 2015 ac rwy'n galw ar y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol i gynnig y cynnig—Mark Drakeford.

Motion NDM5895 Jane Hutt

To propose that the National Assembly for Wales, in accordance with Standing Order 27.5:

Approves that the draft The Children (Secure Accommodation) (Wales) Regulations 2015 is made in accordance with the draft laid in the Table Office on 23 October 2015.

*Motion moved.*

### Mark Drakeford [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

*Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol / The Minister for Health and Social Services*

Diolch yn fawr, Ddirprwy Lywydd. Rwy'n cynnig y cynnig. Mae'r rheoliadau o'ch blaen yn cefnogi proses o weithredu Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 o fis Ebrill 2016 ymlaen. Maent yn ymwneud â lleoliadau a wneir o dan Ran 6 o'r ddeddf honno. Cafodd ymgynghoriad ei gynnal ar y rhain yn ogystal â rheoliadau eraill a chod ymarfer ategol. Daeth yr ymgynghoriad 12 wythnos i ben ar 31 Gorffennaf. Cafodd fersiwn ddrafft o'r cod ei chyhoeddi ar 2 Tachwedd. Bydd y rheoliadau hyn yn berthnasol i nifer gymharol fach o blant sy'n derbyn gofal sydd wedi eu lleoli yng Nghymru. Ond, oherwydd bod y plant hyn ymhlith y plant mwyaf bregus mewn cymdeithas, mae'n hynod bwysig fod gennym fframwaith cryf i ddiogelwch a hybu eu llesiant.

Dirprwy Lywydd, the Children (Secure Accommodation) (Wales) Regulations 2015 are made principally under sections 87 and 119 of the 2014 Act, and under section 22 of the Care Standards Act 2000. Section 119 deals with those occasions when a child who is being looked after by a local authority in Wales or in England needs to be placed in secure accommodation in Wales. The decision to place a child in a secure children's home should only be made where it is absolutely necessary, and other options have been fully considered and ruled out.

The Act is very clear about the limited grounds for these placements, and the regulations put in place further safeguards to ensure that no child is held in such accommodation for longer than is absolutely necessary to meet their needs, thus ensuring our approach is consistent with article 37(b) of the United Nation Convention on the Rights of the Child.

Thank you very much, Deputy Presiding Officer. I move the motion. The regulations before you support a process of implementing the Social Services and Well-being (Wales) Act 2014 from April 2016 onwards. They relate to placements made under Part 6 of that Act. A consultation was held on these as well as other regulations and an additional code of practice. The 12-week consultation came to an end on 31 July. A draft version of the code was published on 2 November. These regulations will apply to a relatively small number of children who are in care and have been placed in Wales, but, because these children are among the most vulnerable in our society, it's extremely important that we have a robust framework to safeguard and promote their wellbeing.

Ddirprwy Lywydd, mae Rheoliadau Plant (Llety Diogel) (Cymru) 2015 yn cael eu gwneud yn bennaf o dan adrannau 87 a 119 Deddf 2014, ac o dan adran 22 Deddf Safonau Gofal 2000. Mae adran 119 yn ymdrin â'r achlysuron hynny pan fydd angen i blentyn sy'n derbyn gofal gan awdurdod lleol yng Nghymru neu yn Lloegr gael ei osod mewn llety diogel yng Nghymru. Ni ddylid gwneud y penderfyniad i leoli plentyn mewn cartref plant diogel oni bai ei fod yn gwbl angenrheidiol, a bod dewisiadau eraill wedi eu hystyried yn llawn a'u diystyru.

Mae'r Ddeddf yn glir iawn am y sail gyfyngedig ar gyfer y lleoliadau hyn, ac mae'r rheoliadau'n sefydlu camau diogelu pellach i sicrhau nad oes unrhyw blentyn yn cael ei gadw mewn llety o'r fath am fwy o amser nag sy'n hollol angenrheidiol i ddiwallu ei anghenion, sy'n sicrhau bod ein dulliau yn gyson ag erthygl 37(b) Confensiwn y Cenedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn.

For example, the regulations specify the maximum period a child may be kept in secure accommodation without the authority of a court. They require specific approval from Welsh Ministers when a local authority proposes to place a child under the age of 13 in secure accommodation. And they require all placements to be reviewed after 15 days, and then every three months by an independent panel. Furthermore, they impose restrictions on who may apply to a court for authorisation to hold a child in secure accommodation, and they require local authorities to notify certain people when making such an application.

In this way, Dirprwy Lywydd, the regulations maintain the current framework for secure placements, but place that framework within the context of the new Act, supported by a statutory code of practice. The consultation on the regulations was supportive of them, and the Constitutional and Legislative Affairs Committee has also considered them and raised no points for reporting. I recommend them to Members this afternoon.

Er enghraifft, mae'r rheoliadau'n pennu'r cyfnod hiraf y ceir cadw plentyn mewn llety diogel heb awdurdod llys. Maent yn mynnu cymeradwyaeth benodol gan Weinidogion Cymru pan fo awdurdod lleol yn bwriadu lleoli plentyn o dan 13 oed mewn llety diogel. Ac maent yn ei gwneud yn ofynnol i bob lleoliad gael ei adolygu ar ôl 15 diwrnod, ac yna bob tri mis gan banel annibynnol. Yn ogystal, maent yn gosod cyfyngiadau ar bwy gaiff wneud cais i'r llys am ganiatâd i gadw plentyn mewn llety diogel, ac maent yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol roi gwybod i bobl benodol wrth wneud cais o'r fath.

Yn y modd hwn, Ddirprwy Lywydd, mae'r rheoliadau'n cynnal y fframwaith presennol ar gyfer lleoliadau diogel, ond yn gosod y fframwaith hwnnw yng nghyd-destun y Ddeddf newydd, wedi'i ategu gan god ymarfer statudol. Roedd yr ymgynghoriad ar y rheoliadau'n gefnogol ohonynt, ac mae'r Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol hefyd wedi eu hystyried heb godi unrhyw bwyntiau ar gyfer adrodd. Rwy'n eu hargymhell i'r Aelodau y prynhawn yma.

16:57 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

I have no speakers. The proposal, then, is to agree the motion. Does any Member object? The motion is therefore agreed in accordance with Standing Order 12.36.

Nid oes gennyf unrhyw siaradwyr. Y cynnig, felly, yw derbyn y cynnig. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Felly, mae'r cynnig wedi ei dderbyn yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.

*Derbyniwyd y cynnig yn unol â Rheol Sefydlog 12.36*

*Motion agreed in accordance with Standing Order 12.36*

16:57 **10. Rheoliadau Trefniadau Partneriaeth (Cymru) 2015**

**Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Item 10 is the Partnership Arrangements (Wales) Regulations 2015. Once again, I call on the Minister for Health and Social Services to move the motion—Mark Drakeford.

Cynnig NDM5894 Jane Hutt

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 27.5:

Yn cymeradwyo bod y fersiwn ddrafft o'r Rheoliadau Trefniadau Partneriaeth (Cymru) 2015 yn cael ei llunio yn unol â'r fersiwn ddrafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 23 Hydref 2015.

*Cynigiwyd y cynnig.*

**10. The Partnership Arrangements Y (Wales) Regulations 2015**

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

Eitem 10 yw Trefniadau Partneriaeth (Cymru) 2015. Unwaith eto, rwy'n galw ar y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol i gynnig y cynnig—Mark Drakeford.

Motion NDM5894 Jane Hutt

To propose that the National Assembly for Wales, in accordance with Standing Order 27.5:

Approves that The Partnership Arrangements (Wales) Regulations 2015 is made in accordance with the draft laid in the Table Office on 23 October 2015.

*Motion moved.*

*Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol / The Minister for Health and Social Services*

Diolch yn fawr, Ddirprwy Lywydd. Cynigiau y cynnig. Mae'r rheoliadau ger eich bron yn helpu i roi Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 ar waith o fis Ebrill 2016 ymlaen. Maen nhw'n ymwneud â swyddogaethau yn Rhan 9 o'r Ddeddf a fu, ynghyd â'r canllawiau, yn destun ymgynghoriad 12 wythnos a ddaeth i ben ar 31 Gorffennaf. Mae drafft o'r canllawiau wedi ei gyhoeddi i gyfrannu at y broses graffu. Cyhoeddir Rheoliadau Trefniadau Partneriaeth (Cymru) 2015 o dan adrannau 166 i 168 y Ddeddf.

Dirprwy Lywydd, these regulations put in place partnership arrangements that will take forward the effective delivery of integrated health and social services in Wales. Their purpose is to improve the outcomes and wellbeing of people, and improve the efficiency and effectiveness of service delivery.

The regulations require the establishment of seven regional partnership boards on the health board footprint. They also set out the objectives of these boards, their membership and the reporting requirements. Members previously considered regulations under section 14 of the Act to underpin the requirement for local authorities and health boards to undertake a joint assessment of care and support needs. These regional partnership boards will be expected to respond in a preventative way to that population needs assessment.

The regulations consolidate the requirement for integrated family support services, and extend their remit to cover cases involving domestic violence and cases where a parent has a mental disorder. That service aims to support vulnerable children and families by overcoming barriers to delivery across sectors, and to strengthen links between services for adults and children. The regulations deploy the new powers that the 2014 Act provides to Welsh Ministers to mandate pooled budgets. Thus, the regulations before the National Assembly today require the establishment of pooled funds in relation to the exercise of their family support functions, and to support the establishment of integrated family support teams. Partners are also required by the regulations to establish pooled funds in relation to functions they decide to exercise jointly in response to the population needs assessment. And, from April 2018, it will mandate the use of pooled funds specifically in relation to those functions that fall to the provision of residential care home and nursing home accommodation for adults.

Sixty-one responses to the consultation were received in relation to these Part 9 regulations. They were broadly supportive and produced some constructive proposals, which are included in the revised version before Members this afternoon. Thus the number of partnership boards has been extended to seven to allow a separate partnership board for Powys. The membership of the boards has also been modified to reflect the need for carers and individuals in need of care and support to be represented on them. Representation of the third sector has also been extended in response to consultation requests. I commend the regulations to Members.

Thank you very much, Deputy Presiding Officer. I move the motion. These regulations before you assist in implementing the Social Services and Well-being (Wales) Act 2014 from April 2016 onwards. They relate to functions in Part 9 of the Act that, along with the guidance, were subject to a 12-week consultation that concluded on 31 July. A draft of the guidance has been published to contribute to the scrutiny process. The Partnership Arrangements (Wales) Regulations 2015 are published under sections 166 to 169 of the social services and well-being Act.

Ddirprwy Lywydd, mae'r rheoliadau hyn yn sefydlu trefniadau partneriaeth a fydd yn bwrw ymlaen â chyflwyniad effeithiol iechyd a gwasanaethau cymdeithasol integredig yng Nghymru. Eu diben yw gwella deilliannau a lles pobl, a gwella effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd wrth ddarparu gwasanaethau.

Mae'r rheoliadau'n mynnu bod saith bwrdd partneriaeth rhanbarthol yn cael eu sefydlu ar ôl troed y bwrdd iechyd. Maent hefyd yn nodi amcanion y byrddau hyn, eu haelodaeth a'u gofynion adrodd. Mae'r Aelodau eisoes wedi ystyried rheoliadau o dan adran 14 y Ddeddf i fod yn sail i'r gofyniad i awdurdodau lleol a byrddau iechyd ymgymryd ag asesiad ar y cyd o anghenion gofal a chymorth. Bydd disgwyl i'r byrddau partneriaeth rhanbarthol hyn ymateb mewn ffordd ataliol i'r asesiad hwnnw o anghenion y boblogaeth.

Mae'r rheoliadau'n atgyfnerthu'r gofyniad am wasanaethau cymorth integredig i deuluoedd, ac yn ymestyn eu cylch gwaith i gynnwys achosion sy'n ymwneud â thrais yn y cartref ac achosion lle mae gan riant anhwylder meddwl. Nod y gwasanaeth yw cefnogi plant a theuluoedd sy'n agored i niwed drwy oresgyn rhwystrau i gyflawni ar draws sectorau, a chryfhau'r cysylltiadau rhwng gwasanaethau i oedolion a phlant. Mae'r rheoliadau'n defnyddio'r pwerau newydd y mae Deddf 2014 yn eu darparu i Weinidogion Cymru i fandadu cyllidebau cyfun. Felly, mae'r rheoliadau sydd gerbron y Cynulliad Cenedlaethol heddiw yn ei gwneud yn ofynnol i sefydlu cronfeydd cyfun i arfer eu swyddogaethau cymorth i deuluoedd, a chefnogi sefydlu timau cymorth integredig i deuluoedd. Mae'r rheoliadau hefyd yn mynnu bod partneriaid yn sefydlu cronfeydd cyfun ar gyfer swyddogaethau y maent yn penderfynu eu harfer ar y cyd mewn ymateb i'r asesiad o anghenion y boblogaeth. Ac, o fis Ebrill 2018 ymlaen, bydd yn mandadu defnyddio arian cyfun yn benodol ar gyfer y swyddogaethau hynny sy'n rhan o ddarpariaeth llety cartrefi gofal a chartrefi nyrsio preswyl i oedolion.

Cafwyd chwe deg un o ymatebion i'r ymgynghoriad ynglŷn â'r rheoliadau Rhan 9 hyn. At ei gilydd, roeddent yn gefnogol ac fe gyflwynwyd rhai cynigion adeiladol, sydd wedi'u cynnwys yn y fersiwn ddiwygiedig sydd gerbron yr Aelodau y prynhawn yma. Felly mae nifer y byrddau partneriaeth wedi'i ymestyn i saith er mwyn caniatáu bwrdd partneriaeth ar wahân ar gyfer Powys. Mae aelodaeth y byrddau hefyd wedi ei haddasu i adlewyrchu'r angen i ofalwyr ac unigolion ag angen gofal a chymorth gael eu cynrychioli arnynt. Mae cynrychiolaeth y trydydd sector hefyd wedi ei hymestyn mewn ymateb i geisiadau ymgynghori. Rwy'n cymeradwyo'r rheoliadau i'r Aelodau.

17:01

**Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

I have no speakers. The proposal, then, is to agree the motion. Does any Member object? The motion is therefore agreed in accordance with Standing Order 12.36.

Nid oes gennyf unrhyw siaradwyr. Y cynnig, felly, yw derbyn y cynnig. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Felly, mae'r cynnig wedi ei dderbyn yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.

*Derbyniwyd y cynnig yn unol â Rheol Sefydlog 12.36*

*Motion agreed in accordance with Standing Order 12.36*

17:01

**Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

And that concludes today's business.

A dyna ddiwedd busnes heddiw.

*Daeth y cyfarfod i ben am 17:01.*

*The meeting ended at 17:01.*